

‘Newydd gân a luniodd i’w
genedl’:

Agweddau ar Geltigrwydd

T. Gwynn Jones a

W. B. Yeats, 1890-1925

Llŷr Gwyn Lewis

Traethawd a gyflwynir
i fodloni’n rhannol ofynion gradd

Philosophiae Doctor

Prifysgol Caerdydd

Gorffennaf 2013



Crynodeb

Amcan y thesis hwn yw cynnig ailystyriaeth o'r bardd, yr ysgolhaig a'r cyfieithydd T. Gwynn Jones (1871-1949), o fewn fframwaith cymharol pan-Geltigrwydd dechrau'r ugeinfed ganrif, ac yn benodol ceisir llunio cymariaethau rhwng Jones a'i gyfoeswr, y bardd Gwyddelig, W. B. Yeats (1865-1939). Trwy ystyried yr awduron hyn yng ngoleuni astudiaethau diweddar ym maes ôl-drefedigaethedd, bydd yr ymchwil yn rhoi sylw hirddisgwyliedig i Jones, yn ogystal â chynnig golwg newydd ar Yeats.

Mae'r thesis yn dadlau fod Jones a Yeats wedi adfeddiannu Celtigrwydd Arnoldaidd, gan ei ddefnyddio i bwrpas gwrth-drefedigaethol. Cais y cyflwyniad osod Celtigrwydd yn ei gyd-destun deallusol, yn ogystal ag awgrymu'r modd y gellir defnyddio fframwaith Celtaidd i gynnig ailystyriaeth o ôl-drefedigaethedd.

Yn yr ail bennod, dangosir sut y ffurfiwyd Celtigrwydd y ddau awdur o fewn cyd-destun cosmopolitanaidd, Prydeinig, ond eu bod hefyd wedi llwyddo i gadw cysylltiad a ffurfio perthynas â'u cyfryw wledydd. Yn y drydedd bennod, archwilir y modd yr oedd Celtigrwydd yn fodd o ddod at iaith gyda golwg newydd, a cheisir dangos sut y gallai hunaniaeth Geltaidd, yn fwy felly na hunaniaeth Gymreig, neu Eingl-Wyddelig, drosgynnu ffiniau ieithyddol.

Cynigir yn y bedwaredd bennod fod Jones yn trafod ei Geltigrwydd mewn termau ysgolheigaidd, a Yeats yn dod at Geltigrwydd o safbwynt arlunydd, gan eu galluogi i sefyll ar unwaith oddi mewn ac oddi allan i'w cyfryw ddiwylliannau, a rhwng cysyniadau 'gweledigaethol' a 'naratifol' o genedligrwydd. Mae'r bumed bennod yn archwilio'r berthynas rhwng Celtigrwydd a ffurf farddonol, ac yn benodol y defnydd o'r 'dryll' ym marddoniaeth Jones a Yeats. Trwy wneud hyn codir cwestiynau ynghylch dilysrwydd labeli megis Rhamantiaeth a Moderniaeth wrth ymdrin â llenyddiaeth mewn diwylliannau lleiafrifol.

Daw'r thesis i glo trwy ddadlau y ffurfiwyd Celtigrwydd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats fel math ar hunaniaeth amgen i Brydeindod, a oedd yn trosgynnu ffiniau daearyddol ac a oedd yn galluogi cysylltu a chydweithio rhyngwladol. Ni ddylid synio am hunaniaeth Geltaidd y naill awdur na'r llall, awgrymir, yn syml fel un wrth-drefedigaethol, wrth-ymerodraethol, ond yn hytrach fel gofod sy'n caniatáu iddynt osod eu hunain mewn amrywiaeth o safleoedd ar draws rhychwant eang, o'r ymerodraethol i'r trefedigaethedig, a rhwng hynny hefyd. Dylid gochel, hefyd, rhag ystyried Celtigrwydd neu hunaniaeth Geltaidd fel ffenomenâu unffurf, unochrog, ond yn hytrach fel ffenomenâu sydd yn hyblyg ac yn addasu wrth groesi ffiniau diwylliannol, ieithyddol, a gwleidyddol.

Diolchiadau

Y mae fy niolch a'm dyled yn aruthrol i nifer fawr o unigolion a roes gymaint o gymorth a chefnogaeth i mi yn ystod fy ymchwil ar gyfer y thesis hwn.

Yn gyntaf oll, dymunaf ddiolch i'm cyfarwyddwyr, Dr Simon Brooks a'r Athro Katie Gramich. Bu'n ffrainc cael dysgu cymaint ganddynt, a bu'r ddau'n barod â'u cyngor, eu cefnogaeth a'u hamynedd bob cam o'r daith. Yr wyf yn neilltuol o falch o allu eu cyfrif, bellach, ymhlith fy nghyfeillion.

Diolch i'r Athro Sioned Davies am ei chefnogaeth a'i chroeso, ac i holl staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, am eu cymorth a'u cyfeillgarwch dros y blynyddoedd. Diolch hefyd i holl staff Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth Prifysgol Caerdydd. Carwn enwi nifer o unigolion o'r ddwy ysgol hon am eu cymorth neilltuol, ond doethach yma yw ymatal gan obeithio eu bod yn ymwybodol o'm diolchgarwch. Yn Rhydychen, bûm yn ddigon ffodus i dreulio blwyddyn dan ofal a chefnogaeth yr Athro Thomas Charles-Edwards cyn cychwyn ar fy ymchwil doethurol.

Y mae fy niolchgarwch yn ddyledus hefyd i eraill a fu'n barod eu cyngor a'u hamynedd yn ystod fy ymchwil, gan gynnwys yr Athro Daniel G. Williams, yr Athro Claire Connolly, yr Athro Huw Pryce, Dr Angharad Price, Dr Mererid Hopwood, Emyr Lewis a Dr Marion Löffler.

Yn ystafell 1.56 bu cyfeillgarwch Dr John Caulfield, Lisa Sheppard, Gwennan Higham, Jenny Marshall, Geraint Whittaker, Ceri Elen ac eraill yn chwa o awyr iach mewn cyfyngder lawer tro; felly hefyd gyfeillgarwch fy nghyd-fyfyrwyr yn yr Ysgol Saesneg.

Diolch i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth a Llyfrgell Genedlaethol Iwerddon, Dulyn am eu cymorth parod. Rhaid diolch hefyd i staff Acadamh na hOllscolaíochta Gaelige, NUI Gaillimh, am fy nghyfnod yng Nghonemara, ac i Ysgol y Gymraeg ac Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth Caerdydd am y cymorth ariannol a'm galluogodd i astudio yno.

Diolch i'r AHRC am ddyfarnu i mi ysgoloriaeth er mwyn gallu ymgymryd â'r gwaith. Heb y nawdd hwn ni fyddai'r astudiaeth hon wedi bod yn bosibl.

Y mae fy niolch i amryw ar lefel bersonol yn helaeth, ond hoffwn nodi yma fy niolchgarwch i Dr Hefin Jones, ac i'r Parch. Owain Llŷr Evans a Lona, am eu geiriau doeth, eu dealltwriaeth a'u cyfeillgarwch diflino. Dyled, Parch, Hoffter.

Diolch i Steffan, Siôn ac Iwan am ddioddef yr oriau anghymdeithasol, ac i Huw a Sioned am wrando'r holl gwyno. Yn olaf, ond yn bendant nid yn lleiaf, am eu cariad a'u cefnogaeth bob amser, diolch o galon i Mam, Dad, Rhydian, Heledd, Nain a Taid a'r teulu oll, ac i Lowri.

Cynnwys

Crynodeb	ii
Diolchiadau	iii
Byrfoddau	v
Pennod 1. Celtigrwydd ac ôl-drefedigaethedd	
Olrhain datblygiad y Celt	1
Tua'r gorllewin: ail-leoli'r ôl-drefedigaethol	23
'Gormes arno yw'r presennol'? Adeiladu cenedl ar seiliau'r gorffennol	41
Strwythur y thesis	52
Pennod 2. 'Amgen bro na'i fro ei hun': Alltudiaeth, Celtigrwydd a'r <i>Unheimlich</i>	
Yr 'argyfwng alltud': alltudiaeth bersonol a diwylliannol	56
Celtiaid Llundain a Lerpwl	65
Safle allanol-fewnol y bardd Celtaidd	75
Celtigrwydd a'r <i>unheimlich</i>	80
Casgliad	106
Pennod 3. 'Rhin yr heniath': iaith a hunaniaeth genedlaethol a Cheltaidd	
'Rhagfur a atalia lawer drwg': iaith a hunaniaeth yn yr ugeinfed ganrif	108
'Their mournful talk': Yeats, y Wyddeleg, a'r Saesneg	125
'Gwranddo peroriaeth gerwinder': amlieithedd T. Gwynn Jones	145
Casgliad	166
Pennod 4. Yr artist a'r ysgolhaig: Celtigrwydd naratifol a gweledigaethol	
'En fait comme un étranger': gweld i mewn ac edrych allan	170
W. B. Yeats yr arlunydd	178
T. Gwynn Jones yr ysgolhaig	185
Osian ar grwydr	192
'I saw it all in the mind's eye': Gweledigaethau diweddarach	207
Casgliad	214
Pennod 5. Celtigrwydd, Ffurf, a'r Dryll	
'A coat covered with embroideries out of old mythologies': diosg a dryllio'r Celt	216
'Gwlad y Bryniau': awdl ddrylliedig	223
Yeats a'r 'wandering foot'	235
<i>Responsibilities</i> : Rhwng cwsg ac effro	243
'Cynghanedd ar adanedd': T. Gwynn Jones yn creu o'r dryll	250
Casgliad	256
Casgliad	259
Llyfryddiaeth	275

Byrfoddau

- AM R. F. Foster, *W. B. Yeats: a Life. 1, The Apprentice Mage: 1865-1914* (Oxford: Oxford University Press, 1997)
- Au W. B. Yeats, *Autobiographies* (London: Macmillan, 1955)
- C T. Gwynn Jones, *Caniadau* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1934)
- CL1 J. Kelly a E. Domville, goln., *The Collected Letters of W. B. Yeats, Volume One 1865-1895* (Oxford: Clarendon Press, 1986)
- CL2 W. Gould, J. Kelly a D. Toomey, goln., *The Collected Letters of W. B. Yeats, Volume Two: 1896-1900* (Oxford: Clarendon Press, 1997)
- CL3 J. Kelly a R. Schuchard, goln., *The Collected Letters of W. B. Yeats, Volume Three: 1901-1904* (Oxford: Clarendon Press, 1994)
- CP N. A. Jeffares, gol., *Yeats's Poems, 3ydd arg.* (Hampshire: Palgrave Macmillan, 1996)
- CVP7 *The Collected Works in Verse and Prose of William Butler Yeats, Volume 7* (Stratford-on-Avon: Shakespeare Head Press, 1908)
- DG T. Gwynn Jones, *Detholiad o ganiadau* ([Y Drenewydd]: Gwasg Gregynog, 1926)
- DRO T. Gwynn Jones a W. M. Jones, *Dyddiau y Parch. Richard Owen gyda chynhyrchion buddugol eraill gan Gwynvre ap Iwan a Gwilym Meredydd* (Yr Wyddgrug: J. Rees, 1891)
- GG T. Gwynn Jones, *Gwlad y Gan a Chaniadau Eraill* (Caernarfon: Yr Herald, 1902)
- LWBY T. Brown, *The Life of W. B. Yeats: A Critical Biography* (Dublin: Gill & Macmillan, 2001)
- LIGC Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- NLI Llyfrgell Genedlaethol Iwerddon
- TGJ D. Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych: Gwasg Gee, 1973)
- UP1 J. P. Frayne, gol., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 1: First Reviews and Articles 1886-1896* (London: Macmillan, 1970)

- UP2 J. P. Frayne a C. Johnson, goln., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 2: Reviews, Articles and Miscellaneous Prose 1897-1939* (London: Macmillan, 1975)
- VP P. Allt a R. K. Alspach, goln., *The Variorum Edition of the Poems of W. B. Yeats* (New York: Macmillan, 1957)
- YA T. Gwynn Jones, *Ymadawiad Arthur a Chaniadau Ereill* (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig, 1910)

Nodyn ar y testunau a ddefnyddir

Yn achos cerddi Yeats, defnyddir VP, *The Variorum Edition of the Poems of W. B. Yeats*, gol. P. Allt a R. K. Alspach (New York: Macmillan, 1957) fel y testun awdurdodol ar gyfer dyfynnu ohono. Dynodir hyn mewn cromfachau yn dilyn y dyfyniad, gyda VP i ddynodi'r gyfrol, wedi'i ddilyn gan rif y gerdd (**nid** rhif y tudalen) ac yna rhif y llinell(au). Cyfeirir at CP, *Yeats's Poems*, gol N. A. Jeffares, 3ydd arg. (Hampshire: Palgrave Macmillan, 1996) ar adegau pan fo amrywiad yng ngeiriad neu atalnodi'r gerdd, neu pan geir nodiadau esboniadol yn CP nas ceir yn VP. Pan fo dyddiad cyhoeddi cyntaf y gerdd yn hysbys, rhoddir hwnnw mewn bachau petryal gyda'r wybodaeth.

Yn achos cerddi T. Gwynn Jones, nid oes casgliad golygedig awdurdodol o'i gerddi. Pan fo'r gerdd dan sylw wedi ei chynnwys yn *Caniadau* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1934), sef y casgliad diweddaraf o'i waith a ail-argraffwyd yn 1978 a 1992, dyfynnir y gerdd fel y'i ceir yn y gyfrol honno, fel a ganlyn: C i ddynodi'r gyfrol, wedi ei ddilyn gan rif y tudalen (**nid** rhif y gerdd), ac yna rhif y llinellau fel y cânt eu cyfrif o ben y tudalen. Yr un system a ddilynir gyda GG, *Gwlad y Gan a Chaniadau Eraill* (Caernarfon: Yr Herald, 1902), ac YA, *Ymadawiad Arthur a Chaniadau Ereill* (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig, 1910). Pan fo dyddiad cyfansoddi neu gyhoeddi cyntaf y gerdd yn hysbys, rhoddir hwnnw mewn bachau petryal.

Wrth ddyfynnu o'r cyfrolau a restrir uchod, dilynir y byrfodd gan rifau'r tudalennau perthnasol.

Pennod 1

Celtigrwydd ac ôl-drefedigaethedd

Olrhain datblygiad y Celt

Ar y degfed ar hugain o Awst, 1904, ymgasglodd dros bedwar cant o ddirprwyon a gwesteion o'r cenhedloedd Celtaidd, yn Wyddelod ac Albanwyr, Llydawiaid a Chymry, a hyd yn oed rai o Fanaw a Chernyw, hwyr-ddyfodiaid y mudiad pan-Geltaidd,¹ ynghyd mewn gwledd fawreddog a gynhelid gan Arglwydd Faer Caernarfon yn y Pafiliwn.² Dyma noson fawreddog ar ddechrau rhai dyddiau o ymgynnull a gorymdeithio drwy Gaernarfon, o wisgo gwisgoedd cenedlaethol a dathlu eu Celtigrwydd ar lafar ac ar gân, gyda Gorsedd Beirdd Ynys Prydain yn ganolbwynt i'r cyfan. Hon oedd Cyngres Geltaidd 1904, cynulliad y bwriedid ei gynnal bob tair blynedd er mwyn dathlu diwylliannau'r gwledydd Celtaidd. Cyn Caernarfon, cafwyd cynulliad yn Nulyn yn 1901, a byddai'r Gyngres yn cwrdd eto yn 1907 yng Nghaeredin.³

Ymhlith rhestr faith gwahoddedigion y Maer i'r wledd honno, ceir dau gofnod sydd yn ddigon distadl ymhlith yr enwau a ddarllen fel rhestr o *crème de la crème* cylchoedd Celtaidd troad yr ugeinfed ganrif. Y cofnod cyntaf arwyddocaol yw 'Mr. a Mrs. T. Gwynn Jones, 25, Dinorwic-street, Carnarvon'.⁴ Yn wir, yr oedd T. Gwynn Jones (1871-1949) yn ffigur allweddol a chanolog yn y Gyngres honno yn 1904. Yr oedd yn

¹ Noda Marion Löffler, er enghraifft, na chafodd y Cernywiaid eu derbyn i'r Undeb Pan-Geltaidd yn wreiddiol 'am nad oedd y Gernyweg bellach yn iaith fyw'. Marion Löffler, *A book of mad Celts: John Wickens and the Celtic Congress of Caernarfon 1904* (Llandysul: Gomer, 2000), t. 65.

² *Celtia: a Pan-Celtic Monthly Magazine*, IV: 6 (1904), 94.

³ Gellir cael darlun byw a syniad da o'r math o weithgareddau a gynhelid yn y Gyngres hon a'r gwisgoedd cenedlaethol a wisgid ynddi wrth bori drwy gyfrol hynod ddiddorol Marion Löffler, *A book of mad Celts*, a thudalennau cyfnodolyn y gymdeithas ban-Geltaidd, *Celtia: a Pan-Celtic Monthly Magazine* (Dublin: Celtic Association, 1901-8).

⁴ *Celtia*, IV: 6, 95.

ysgrifennydd y Gyngres, ynghyd ag R. Gwyneddon Davies, ac ef a ddarllenodd broclamsiwn y Gyngres yn Gymraeg yn ystod y seremoni agoriadol.⁵

Y mae'r ail gofnod yn fwy aneglur o dipyn; yn dilyn 'Mr. Edward Martyn, Tillyra Castle, Co. Dublin', ceir 'Mr. B. Yeats, Dun Emer, Dundrum, Co. Dublin'.⁶ Fe allai'n wir mai'r Gwyddel, W. B. Yeats (1865-1939), yw'r enw y cyfeirir ato yma, ond fe allai'r un mor hawdd gyfeirio at J. B. Yeats (1871-1957), ei frawd. Mae'r cofnod mewn rhestr arall o wahoddedigion yn y *North Wales Observer and Express* ar 2 Medi ychydig yn nes ati: 'Mr V. B. Yeats' a geir yno.⁷ Ond er i Marion Löffler awgrymu'r posibilrwydd fod Yeats yn bresennol yn y Gyngres, ac er y gellid disgwyl iddo fod yno, o ystyried bod nifer o'i gyfoedion agos megis Augusta Gregory, Maud Gonne, George Moore ac Edward Martyn yn bresennol, prin yw'r dystiolaeth i allu honni gydag argyhoeddiad i T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, prif wrthrychau'r astudiaeth hon, fod o dan yr un to ar yr achlysur hwn.⁸ Yn wir, mewn rhestr arall, y tro hwn o'r sawl a dderbyniodd y gwahoddiad, yn y *Carnarvon and Denbigh Herald* ar 2 Medi, nid yw enw Yeats yno o gwbl.⁹

Diddorol, serch hynny, fyddai ceisio dychmygu'r sgwrs a allasai fod rhyngddynt, pe buasai Yeats yno, oherwydd fel y bwriada'r thesis hwn ei ddangos, yr oedd ganddynt lawer yn gyffredin o ran eu meddylfryd a'u gwaith, yn ogystal â llawer i ddadlau ac anghytuno drosto. Fel arall, fodd bynnag, nid oes ond ambell gyfeiriad yma ac acw yn ysgrifau Jones sydd yn crybwyll Yeats, ac ni cheir yr un cyfeiriad yn ysgrifau meithion Yeats ei fod yn ymwybodol o gwbl o fodolaeth Jones fel awdur.¹⁰ Beth, felly, yw'r

⁵ 'Pan-Celtic Congress', *North Wales Observer and Express*, Medi 2, 1904, 6.

⁶ *Celtia*, IV: 6, 96.

⁷ *North Wales Observer and Express*, Medi 2, 1904, 6.

⁸ Löffler, *A book of mad Celts*, t. 45.

⁹ *Carnarvon and Denbigh Herald*, Medi 2, 1904, 6.

¹⁰ Y cyfeiriad helaethaf a wna Jones at Yeats yw ychydig linellau'n tynnu sylw ato yn 'Beirdd y Mynydd a'r Mor', yn *Traethodau* (Caernarfon: Swyddfa'r Herald, 1910), tt. 77-86. Wrth ddisgrifio dawn farddonol beirdd sy'n hanu o ardaloedd mynyddig neu arfordirol, defnyddir Yeats fel enghraifft arobryn o'r

cymhelliant, heblaw'r ffaith iddynt gyfoesi yn weddol agos, dros lunio astudiaeth gymharol o waith y ddau ohonynt? Syniodd amryw o feirniaid am y tebygrwydd rhwng Jones a Yeats. Alun Llywelyn-Williams oedd un o'r rhai cyntaf i roi sylw pellach na brawddeg neu ddwy i gymharu T. Gwynn Jones â W. B. Yeats:

Y mae'r tebygrwydd rhwng safle Yeats a Gwynn Jones yn drawiadol. Hyd y gwyddom, ni bu unrhyw gyfathrach rhwng y ddau fardd, a diau mai ymateb yr oedd y naill a'r llall mewn ffordd debyg i'r un math o sefyllfa yng Nghymru ac Iwerddon fel ei gilydd. Datblygodd Gwynn Jones thema'r baradwys bell am yr un rhesymau personol a chenedlaethol ag a barodd i Yeats ddyheu am edfryd traddodiad a phurdeb y cynfyd Gwyddelig. Ni pharhaodd y tebygrwydd yn hir, mae'n wir. Daliwyd dychymyg Yeats yn y man gan ddigwyddiadau cyffrous iawn yn Iwerddon a'i galluogodd fel Gwyddel i gysylltu ei farddoniaeth â phrofiad uniongyrchol o gynnwrf mawr gweithredol cyfoes yn y gymdeithas y perthynai iddi. Ganwyd yn y profiad hwnnw, meddai Yeats ei hun, brydferthwch anaele, "a terrible beauty." Ni bu Gwynn Jones a'r rhamantwyr Cymreig mor ffodus.¹¹

Yng nghwrs yr astudiaeth, bwriedir herio nifer o dybiaethau y datganiad hwn, gan gynnwys y dehongliad gorsympl o ddihangfa i 'baradwys bell'. Lleihaol hefyd yw'r honiad y bu Yeats rywfodd yn 'ffodus' o gael byw trwy gyfnod hynod waedlyd a threisgar. Ond y mae'r gymhariaeth sylfaenol rhwng Jones a Yeats yn un sydd yn haeddu archwiliad pellach. Un arall a gymharodd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats oedd John Gwilym Jones. Y tebygrwydd sydd 'yn fwy arwyddocaol na dim', yn ôl Jones, 'yw cydnabyddiaeth y ddau o gronfa cyn-hanes ysbrydoliaeth a delweddu'.¹² Yn wir, awgryma mai'r 'cwbl sy'n rhaid ei wneud bellach yw dweud T. Gwynn Jones yn hytrach na W. B. Yeats'.¹³ Eto, rhan o waith hanfodol yr astudiaeth hon, er cydnabod y tebygrwydd rhwng Jones a Yeats, fydd

gynneddf hon: 'Ond, o'r holl feirdd diweddar, hwyrach mai y Gwyddel, Yeats, sydd fedrusaf ar ganu yn y cywair hwn, a nyddu math o dawelwch a bodlonrwydd elfennaidd i fewn i'w gerdd. Cymerer un o'r engreiffïau [sic] goreu, "The Lake Isle of Inis Free"' (t. 85). Yn ddigon eironig, nid yw'r gerdd neilltuol hon o eiddo Yeats yn sôn yn benodol am na mynydd na môr.

¹¹ Alun Llywelyn-Williams, *Y Nos, y Niwl a'r Ynys: agweddu ar y profiad rhamantaidd yng Nghymru, 1890-1914* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1960), t. 133.

¹² John Gwilym Jones, 'T. Gwynn Jones, R. W. Parry a W. B. Yeats', yn *Ysgrifau Beirniadol VIII*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1974), t. 226-239 (t. 231).

¹³ Jones, 'T. Gwynn Jones, R. W. Parry a W. B. Yeats', t. 230.

pwysleisio y gwahaniaethau rhyngddynt hefyd. Yn bennaf, yr hyn fydd yn cysylltu y ddau awdur toreithiog hyn yw eu hymwybyddiaeth o'u Celtigrwydd, a'r ymgais i ddefnyddio a choleddu y Celtigrwydd hwnnw, ar ei amrywiol weddau, fel arf ac offeryn llenyddol, diwylliannol, a gwleidyddol. Bwriad y thesis yw archwilio'r modd y meddiannwyd, yr addaswyd, ac yn wir yr ail-ddyfeisiwyd cysyniadau o Geltigrwydd mewn amrywiol ffyrdd gan T. Gwynn Jones a W. B. Yeats.

Er mwyn cyflawni hynny, fodd bynnag, yn gyntaf y mae'n rhaid mynd i'r afael â'r term hwnnw, Celtigrwydd, a synio yn fras am y modd y lluniwyd y cysyniad dros amser, yn ogystal â gosod T. Gwynn Jones a W. B. Yeats o fewn y llinach ddeallusol a fu'n ymrafael â'r hunaniaeth hon am rai canrifoedd. Y mae ynddo'i hun yn derm problematig a chymhleth, ac iddo nifer o wahanol haenau ac ystyron sydd yn newid o fewn gwahanol gyd-destunau ac yn ddibynnol ar y sawl sydd yn ei ddefnyddio. Yn wir, dadleuir maes o law mai dyma'r union nodwedd, sef hylifedd ac amwysedd hunaniaeth Geltaidd, a apeliodd gymaint at Jones a Yeats ac a arweiniodd at ddefnyddio'r cysyniad ganddynt o fewn nifer o wahanol sfferau. Am y tro, cynigir amlinelliad bras o'r modd y datblygodd cysyniad y Celt, ac yn benodol o'r rhesymau dros y ffaith fod cryn anghytuno hyd heddiw a ydyw yn gysyniad defnyddiol a dilys o gwbl ai peidio.

Yr oedd lladmeryddion pan-Geltigrwydd yr ugeinfed ganrif gynnar yn ymwybodol o'r angen hwn i ddiffinio ac i osod terfynau ar eu math penodol hwy o hunaniaeth Geltaidd, fel y gellir ei ddirnad yn nhudalennau rhifynnau cynharaf cyfnodolyn y Gymdeithas Ban-Geltaidd, *Celtia*. Yn y rhifynnau hyn ceir amryw erthyglau, ysgrifau a llythyrau yn mynnu y dylai'r mudiad fod yn un anwleidyddol ac anenwadol, er enghraifft,

a cheir dadl dros y ffordd orau o ddiffinio hunaniaeth Geltaidd.¹⁴ O'r cychwyn cyntaf y mae'r pwyslais yn tueddu i fod ar yr elfen ieithyddol fel ffon fesur Celtigrwydd. Yn wreiddiol, er enghraifft, gwrthodwyd i drigolion Cernyw fod yn rhan o'r mudiad oherwydd fod eu hiaith i bob diben wedi marw.¹⁵ Hyd yn oed o'r rhifynnau cyntaf hyn, fodd bynnag, cymysgir y galw diamwys hwn am ddiffiniadau ieithyddol â rhethreg ac ieithwedd sydd yn tueddu yn fwy tuag at ddiffiniadau ar sail hil, gyda sôn cyson am waed a llinach. Fel y sylwodd Daniel G. Williams, 'Whilst language is the basis for a common Celticism here, linguistic and racial definitions often become confused in the writings of the period'.¹⁶ Yn sgil hyn, awgryma Williams, 'Pan-Celticism was perceived by many to entail a dangerously racial definition of identity, as opposed to linguistic definition which was seen to transcend divisions of race and religion'.¹⁷ Ar y naill law, felly, ceid Celtigrwydd ieithyddol y gellid ei goleddu heb orfod ymdrybaeddu mewn gwleidyddiaeth a chrefydd, gan weithredu ar lefel ddiwylliannol yn unig, ond ar y llaw arall, gyda nifer o ban-Celtiaid yn anhyddysg yn eu hieithoedd eu hunain heb sôn am allu deall eu hieithoedd ei gilydd, yr oedd rheidrwydd cynyddol i ddibynnu ar ddiffiniadau eraill.

Dychwelir i archwilio'r sefyllfa hon yn fanylach yn ddiweddarach, ond rhoddwyd cyfrif byr o'r gymysgedd hon yma er mwyn awgrymu fod yr amwysedd hwn yn nodweddu

¹⁴ *Celtia*, I: 5 (1901), 75: 'The Association shall be non-political and non-sectarian'. Yn *Celtia* I: 1 (1901), ceir y datganiad: 'We define a Celtic nation as one the great majority of whose people speak one of the Celtic group of languages, or spoke it to within recent times', gan eithrio o'r diffiniad hwn 'the Scottish Lowlands, Strathclyde, Cornwall, the rest of France [heblaw Llydaw], and the Danubian and Italian territories which were formerly Celtic' (15). Y mae'r eithriadau hyn ynddynt eu hunain felly yn bradychu'r gred y ceid unwaith yn yr ardaloedd hynny 'bobl' Geltaidd. Yn ategol at hynny, un o dair prif cred y Gymdeithas yw '[u]hat the cultivation of the Celtic languages means the regeneration of the Celtic race' (15), ac yn wir egyr cyfarchion cyntaf y cyfnodolyn drwy nodi: 'The opening of the twentieth century finds the Celtic race in the beginning of a new phase of existence' (1). Mater arall, wedyn, yw'r sôn a geir am 'the five Celtic nations' (3) a chymhlethdodau diffiniadau o'r math hwn hefyd.

¹⁵ Löffler, *A book of mad Celts*, t. 65.

¹⁶ Daniel G. Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Post-Colonialism: W. B. Yeats, Ernest Rhys and William Sharp in the 1890s', yn *Nations and Relations: Writing Across the British Isles*, goln. T. Brown a R. Stephens (Cardiff: New Welsh Review, 2000), tt. 1-29 (t. 14).

¹⁷ Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Post-Colonialism', t. 15.

llawer o'r disgwrs dros ddilysrwydd Celtigrwydd, nid yn unig ar anterth pan-Geltigrwydd troad y ganrif ond ynghynt ac yn ddiweddarach hefyd. Fel y dywed Joep Leerssen, '[u]hat nomenclature is both ethnic and linguistic',¹⁸ ac yn wir, fel y noda Malcolm Chapman yn ei gyfrol, *The Celts: the Construction of a Myth* (1992), 'The Celts [...] have a long history of being tied up in a discourse of race, language and culture',¹⁹ gan awgrymu fod tuedd i gysylltu a chymysgu yr elfennau hyn â'i gilydd, yn achos y Celtiaid yn fwy felly nag yn achos grwpiau ethnig neu ieithyddol eraill.

Y mae nifer o'r ysgolheigion a ysgrifennodd ar Geltigrwydd yn ddiweddar yn barod i gydnabod fod diffinio'r Celt yn dasg anodd. Wrth geisio diffinio pan-Geltigrwydd fel cydnabyddiaeth o'r berthynas arbennig sydd yn bodoli rhwng Gwyddelod, Albanwyr, trigolion Ynys Manaw, Cymry, Llydawyr, a thrigolion Cernyw oblegid eu 'common Celtic origins', y mae Peter Berresford Ellis hefyd yn cydnabod '[u]his definition raises more questions than it answers'.²⁰ Fel y pan-Geltiaid o'i flaen, fodd bynnag, daw yntau i'r canlyniad, drwy gymharu'r Celtiaid â'r Slaflaidd, mai'r unig 'meaningful definition' posibl yw un a wneir ar sail ieithyddol.²¹ Awgryma Malcolm Chapman mai'r sail ieithyddol hwn a roes gychwyn i'r cysyniad o deulu o 'bobl' neu genhedloedd Celtaidd, gyda gwaith Edward Lhuyd (1660-1709), Paul-Yves Pezron (1639?-1706) ac eraill yn crisialu'r ymdeimlad hwnnw o droad y ddeunawfed ganrif ymlaen.²² Ymestynnwyd y diffiniad hwn yn ddiweddarach, neu yn hytrach fe'i cyfunwyd,

¹⁸ Joep Leerssen, 'Celticism', yn *Celticism*, gol. T. Brown (Amsterdam: Rodopi, 1996), tt. 1-20 (t. 1).

¹⁹ Malcolm Chapman, *The Celts: the construction of a myth* (London: Macmillan, 1992), t. 20.

²⁰ Peter Berresford Ellis, *The Celtic dawn: a history of pan Celticism* ([d.ll.]: Constable, 1993), t. 19.

²¹ Ellis, *The Celtic dawn*, t. 19.

²² Chapman, *The Celts*, t. 205. Mewn dwy gyfrol yn benodol y dadleuodd yr awduron hyn fod yr ieithoedd Celtaidd yn perthyn i'w gilydd. Cyhoeddodd Paul-Yves Pezron ei *Antiquité de la nation et de la langue des Celtes autrement appelez Gaulois* yn 1703, a dilynwyd ei gyfrol yntau gan *Archaeologia Britannica* Edward Lhuyd yn 1707. Fel y sylwa Chapman, 'Pezron (1703) had explicitly made the "Celts" and the "Gauls" the same people, but he had done so within a text where the offspring of Noah were still prominent. Lhuyd would have none of this fancy, and it is with his work that we get the first secure sense that Welsh, Breton,

â thystiolaeth archaeolegol, fel yr amlinella Chapman drachefn, yn ogystal â Simon James, o ganol Ewrop.²³ Trwy ledaeniad arddull gelfyddydol ‘Hallstatt’ a ‘La Tène’ drwy Ewrop, ynghyd ag enwau lleoedd Celtaidd, bwriwyd i’r Celtiaid unwaith ledaenu i lywodraethu dros y rhan helaeth o orllewin Ewrop, ond iddynt gael eu gwthio gan wahanol goncwerwyr a gelynyion dros amser nes cael eu cyfyngu i’r gwledydd a adwaenir hyd heddiw fel rhai ‘Celtaidd’, sef y rhai a enwir uchod, neu’r Celtiaid ‘ynysol’ (*insular*). Y mae i’r diffiniad ychwanegol hwn, wrth gwrs, nifer o fanteision, nid yn lleiaf y ffaith nad oes rheidrwydd, bellach, i ddibynnu ar allu ieithyddol i hunan-ddiffinio fel Celt, ac o amgylch y ddau fan cychwyn hwn tyfodd nifer helaeth o gysyniadau ynghylch elfennau eraill o ddiwylliant Celtaidd.

Er i nifer o’r syniadau a ddaeth i fodolaeth yn sgil y datblygiadau hyn lywodraethu am ran helaeth o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg a’r ugeinfed, fodd bynnag, aeth nifer o ysgolheigion ati yn ddiweddar i gwestiynu a herio nifer o’r rhagdybiaethau hyn. Aeth rhai ysgolheigion ymhellach na’i gilydd wrth fynd i’r afael â nifer o greigiau safadwy Astudiaethau Celtaidd. Y rhai a aeth i’r afael â Cheltigrwydd ar y lefel mwyaf sylfaenol yw Chapman a Simon James. Ceir astudiaeth fanwl o ba mor broblematig yw’r term ‘Celt’ gan Chapman, oherwydd y posibilrwydd cryf mai enw cyffredinol a dadogwyd ar ‘farbariaid’ neu elynion y Groegiaid a’r Rhufeiniaid ydoedd, yn hytrach na label penodol, hunan-ddiffiniol gan grŵp ethnig neilltuol: ‘It is probably no exaggeration’, medd Chapman, ‘to say that we had by far better translate *keltoi* with some generalised term of modern vernacular racist abuse, than by a prim and sanitised term from the lexicon of

Scottish Gaelic and Irish Gaelic have something in common, and the first usage of “Celtic” to describe this commonality’.

²³ Chapman, *The Celts*, tt. 6-7, a Simon James, *Atlantic Celts: Ancient People or Modern Invention?* (Madison: University of Wisconsin Press, 1999), tt. 26-33. Yn ôl James, y mae’r syniadau a amlinellir ganddo o fewn y tudalennau hyn yn cynrychioli ‘the kind of thumbnail sketch most of us have as our model of the history of a particular region or people’, sef y Celtiaid (t. 26).

European linguistics. The Celts, for ancient Greece, were, so to speak, “the wogs in the north”.²⁴ Yn yr un modd, â Simon James ati, yn ei gyfrol *Atlantic Celts: Ancient People or Modern Invention?* (1999), i ddadlau nad yw tystiolaeth o ledaenaid ieithyddol drwy Ewrop, neu'r ffaith fod y cofnod archaeolegol yn dangos lledaeniad math penodol o gelfyddyd, yn golygu fod hynny o reidrwydd hefyd yn dystiolaeth o ledaeniad a symudiad un grŵp o bobl a'u galwai eu hunain yn Geltiaid ac y gellid synio amdanynt fel hil benodol, yn enwedig yng nghyswllt lleoliad daearyddol 'Celtiaid' yr ugeinfed ganrif.²⁵

Fel y noda John Koch, fodd bynnag, yr hyn nad yw'n cael ei wadu, er cwestiynu dilysrwydd cysyniadau o wareiddiad neu o 'bobl' Geltaidd, yw fod grŵp o ieithoedd a siaredir heddiw yng Nghymru, Iwerddon, yr Alban, Cernyw, Llydaw ac Ynys Manaw, yn perthyn yn agos i'w gilydd o fewn y teulu Indo-Ewropeaidd. Dyma'r hyn a eilw Koch yn 'scientific fact of a Celtic family of languages'.²⁶ Ond fel y dywed Joep Leerssen, er na ellir gwadu'r berthynas hon, cymharol fympwyol hyd yn oed wedyn yw honni rhyw fath o gysylltiad neu hunaniaeth gyffredin rhwng ieithoedd nad ydynt yn perthyn yn ddigon agos i allu gwarantu y bydd siaradwr un o'r ieithoedd hyn o reidrwydd yn deall y lleill i gyd:

The similarities between Breton, Irish-Gaelic, and extinct Gaulish (such as we know it from very scant inscriptions) is by no means obvious – much less so, in any case, than the readily-apparent resemblances between 'Romance' languages like Latin, Italian, Spanish and Portuguese, or 'Slavic' ones like Polish, Russian and Bulgarian. Likewise, the idea that there is a common 'Celtic' identity shared by Hebrideans, Welshmen, the Tungri and Nervii mentioned by Caesar, and the prehistoric men buried at Halstatt, is quite un-obvious, something we accept on the say-so of specialists, scholars and academics.²⁷

²⁴ Chapman, *The Celts*, t. 33.

²⁵ James, *Atlantic Celts*, tt. 34-42. '[T]he startling reality is that no one in Britain or Ireland called themselves "Celtic" or "a Celt" (and no one applied such names to them either) until after 1700. No early Irish or Welsh source, nor any Greek nor Roman author before them, ever calls the peoples of the isles "Celts". So can the outline of "Celtic" history set out above possibly be valid?' (t. 33).

²⁶ John Koch et al., *An atlas for Celtic studies* (Oxford: Oxbow Books, 2007), t. 3.

²⁷ Leerssen, 'Celticism', tt. 1-2.

Aethpwyd i'r afael â'r amheuaeth gynyddol hon o ddilysrwydd deallusol cysyniad Celtigrwydd o safbwynt Cymreig hefyd. Yn y degawdau diwethaf bu awduron megis Robin Llywelyn yn lleisio'u barn yn gryf o blaid arddel hunaniaeth Geltaidd,²⁸ tra bu ysgolheigion megis Simon Brooks yn awyddus i ddadlau mai '*fraud* deallusol' ydyw'r duedd academaidd mewn prifysgolion i gorlannu amrywiol ieithoedd a llenyddiaethau at ei gilydd dan ymbarél trosiadol, a thra eang ei gysgod, Astudiaethau Celtaidd.²⁹

Crynowyd amryw o'r dadleuon o Gymru a thu hwnt gan yr Athro Patrick Sims-Williams mewn dwy erthygl nodedig, gan gynnig arolwg cryno a threiddgar o'r gwahanol safbwyntiau ym maes astudiaethau Celtaidd, a dangos yr amrywiaeth helaeth mewn deongliadau y gellir ei chanfod. Dosberthir y deongliadau hyn yn fras i ddwy garfan gan yr Athro Sims-Williams, sef Celtomania a Cheltosgeptigrwydd (*Celtoscepticism*), a'i ddadl yw fod y termau 'Celt' a 'Celtaidd' wedi troi'n 'battleground'.³⁰ Ar yr un pryd ag yr oedd ysgolheigion megis Simon James a Malcolm Chapman yn gwrthod Celtigrwydd ym meysydd archaeoleg ac anthropoleg, awgryma Sims-Williams, tyfodd marchnad o 'coffee-table books' i fod yn boblogaidd ymhlith darllenwyr lleyg.³¹

Yr unig ganlyniad, yn sgil hyn oll, y gall Sims-Williams ei gyrraedd, yw '[n]o doubt the argument will run and run for ever'.³² Ond un pwynt difyr a gyfyd o arolwg Sims-Williams yw'r modd yr adweithiodd rhai beirniaid, megis R. T. Jenkins a Thomas Parry, yn chwyrn i'r cysyniad o Geltigrwydd oherwydd na theimlent fod ganddo ddim oll i'w

²⁸ Robin Llywelyn, 'Celtigrwydd?', *Llais Llyfrau: Rhifyn Arbennig ar Hunaniaeth Geltaidd* (Gwanwyn 1998), 5-6 (t. 5): 'bydd llawer o'n gwlad ninnau'n mynnu nad Celtiaid mohonynt o gwbl ond Cymry glân dilychwin heb berthyn i genedl arall yn y byd. Ni welaf ddim o'i le ar hynny heblaw ei fod yn anghywir'.

²⁹ Simon Brooks, 'Celtigrwydd', yn *Yr Hawl i Oroesi* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2009), tt. 105-7 (t. 106).

³⁰ Patrick Sims-Williams, 'Celtomania and Celtoscepticism', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 36 (Gaeaf 1998), 1-35 (t. 1). Erthygl arall Sims-Williams ar y pwnc yw 'The Visionary Celt: The Construction of an Ethnic Preconception', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 11 (Haf, 1986), 71-96.

³¹ Sims-Williams, 'Celtomania and Celtoscepticism', 1.

³² Sims-Williams, 'Celtomania and Celtoscepticism', 33.

wneud â'u profiad hwy o'r Gymru fodern.³³ Dyma farn y gobeithir ei herio yn yr astudiaeth hon. Canolbwyntia'r thesis ar y modd y defnyddiwyd y Celt yn y cyfnod modern fel modd o hunanddiffinio, nad yw mewn gwirionedd mor ddibynnol â hynny ar ddilysrwydd y cysyniad hanesyddol. Fel hyn y crynhoir y sefyllfa gan Simon James:

Since the Ancient Celts appear to have spurious historical roots, does it not follow that the modern Celts, too, must be bogus? Paradoxically, the answer is "No". Discrediting the Ancient Celts does not make the modern Celts fraudulent. For the more sophisticated understandings of the nature of ethnic identities now available to us, which reveal the Ancient Celts to be a modern construct, equally suggest that the modern Celts constitute a perfectly real and legitimate "ethnic group". The resolution of this paradox lies in chronology: the modern Celts are not the present representatives of a people who have existed continuously for millennia, but constitute a true case of "ethnogenesis" – the birth of an ethnic identity – in early modern Europe.³⁴

Yn union oherwydd fod amrywiol drigolion, meddylwyr ac awduron o'r gwledydd 'Celtaidd' wedi dewis eu gweld a'u diffinio eu hunain fel Celtiaid, dadleuir, y mae i'r cysyniad ddiddordeb a dilysrwydd hyd heddiw, a pherthnasedd i'r astudiaeth hon. Aeth Murray G. H. Pittock ymhellach na hynny, gan feirniadu rhai megis Chapman a James, a hawlio y gall y Celt fodoli yn llwyr oddi allan i ddiffiniadau ethnig: 'Their arguments, moreover, remain strongly linked to ethnic characterizations of the Celtic, rather than politico-cultural ones: both Chapman and James neglect the idea of the Celts as an "imagined community" in Benedict Anderson's terms'.³⁵

Er y dengys y dyfyniad uchod o eiddo James nad yw'r cyhuddiad hwn yn un cwbl deg, y mae ar y llaw arall yn ddefnyddiol i addef y gall y Celt fodoli ar lefel 'wleidyddol-ddiwylliannol' yn ogystal ag yn ôl diffiniadau ethnig, a hefyd i synio am Geltigrwydd fel

³³ Gweler datganiad R. T. Jenkins, er enghraifft, 'na allaf oddef Celtigrwydd', neu anogaeth Thomas Parry y dylid cofio'r 'gwahaniaethau sylfaenol ym magwraeth y ddau deulu [y Gwyddelod a'r Llydawyr]'. Dyfynnir yn Sims-Williams, 'Celtomania and Celtoscepticism', 5-6.

³⁴ James, *Atlantic Celts*, t. 137.

³⁵ Murray G. H. Pittock, *Celtic identity and the British image* (Manchester: Manchester University Press, 1999), t. 6.

enghraifft o ‘gymunedau dychmygedig’ Benedict Anderson.³⁶ Yn wir, fel yr awgryma Simon James, gall fod apêl gref mewn hunan-ddiffinio fel Celt am nifer o resymau: ‘The idea of being Celts, with a deep indigenous ancestry, fulfilled a pressing need’.³⁷ Yn hynny o beth y mae cyswllt rhwng apêl yr hunan-ddiffiniad modern fel Celt a tharddiad y term fel y’i diffinnir gan Chapman. Os yw ei ddamcaniaeth ef yn gywir, sef mai term cyffredinol am unrhyw fath ar farbariad neu dramorwr, neu’n syml mai term y Groegwyr ac yn ddiweddarach y Rhufeiniaid am yr Arall ydoedd y *keltoi* a’r *galatai*,³⁸ yna gellir awgrymu mai’r un apêl a ganfu awduron diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau’r ugeinfed yn y term wrth eu gweld eu hunain fel ‘Arall’. Ynghlwm yn y weithred hon o hunan-ddiffinio fel Arall, y mae gweithred nodweddiadol fodernaidd, fel y sylwa Laura O’Connor: ‘To declare that “I am a Celt” is to allude to a personal ethnicity encompassed by the pan-ethnic tag, to differentiate oneself as “not-Anglo,” and to embrace otherness in a characteristically “je est un autre” modernist gesture’.³⁹ Awgrymir yn yr astudiaeth hon mai un o brif fanteision bod yn Gelt, i awduron y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau’r ugeinfed, oedd gallu eu diffinio eu hunain yn erbyn Prydeindod heb orfod arddel cenedlaetholdeb un wlad yn gyfan gwbl. Yn hynny o beth y mae’r ‘Celt’ yn ddiffiniad tebyg i ‘Welsh’, yn yr ystyr ei fod yn golygu ‘estron’.⁴⁰

³⁶ Benedict Anderson, *Imagined Communities*, 2il arg. (London: Verso, 1991). Yn y gyfrol hon yr eglurodd Anderson ei ddadl mai cysyniad cymharol ddiweddar yw ‘cenedl’, a bod syniad y ‘genedl’, ynghyd â nodweddion a thraddodiadau’r genedl honno, i raddau helaeth wedi ei greu a’i ddychmygu gan ei chyfryw aelodau, neu gan rai o’r aelodau hynny. Yr aelodau hyn sydd, felly, yn diffinio’r amodau ar gyfer perthyn i’r gymuned neu’r genedl benodol. Yn wahanol i gred Murray Pittock, fodd bynnag, dadleuir yma, fel y gwelir yn ddiweddarach, fod Chapman ac yn enwedig James yn fodlon, ac yn wir yn annog, i ni synio am y Celtiaid modern fel cymuned ddychmygedig o’r fath. Yn wir, er na cheir ymgais yn y thesis hwn i ddelio’n uniongyrchol â gwaith Anderson, un o amcanion y gwaith yw dangos fod y gwaith o ddychmygu’r Celt wedi bod yn rhan hanfodol o ddychmygu Cymru ac Iwerddon fel cymunedau a chenhedloedd unigol ac ar wahân i Brydain o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen.

³⁷ James, *Atlantic Celts*, t. 47.

³⁸ Chapman, *The Celts*, tt. 30-40.

³⁹ Laura O’Connor, *Haunted English: The Celtic Fringe, the British Empire, and De-Anglicization* (Baltimore: Johns Hopkins University Press, 2006), t. xiii.

⁴⁰ Chapman, *The Celts*, t. 57.

Dau beth sydd yn gwneud y ‘Celt’ yn ddiddorol i’w astudio, felly: yn gyntaf, y mae’n label a ddewiswyd gan nifer o aelodau’r gwledydd ‘Celtaidd’ i’w diffinio eu hunain; yn ail, diffinnir yr hunan fel Arall, ond fod yr hunaniaeth y diffinnir yr Arall hwnnw yn ei erbyn wedi newid. Hynny yw, estron i’r Eingl-Sacsoniaid ydoedd y ‘Welsh’, ond nid oedd y Groegwyr a’r Rhufeinwyr, yn ôl Chapman, yn gwahaniaethu, gan weld ‘Germaniaid’ a ‘Cheltiaid’ oll yn debyg i’w gilydd.⁴¹ Bydd hyn yn ddiddorol i’w ystyried yng ngolau y modd y gwelai Matthew Arnold sut y gallai’r Celtiaid a’r Germaniaid uno, ac y mae’r awgrym hwn o hunaniaeth ehangach, ban-Ewropeaidd a gynhwysir o fewn y diffiniad hwn o’r Celt hefyd yn berthnasol i’r astudiaeth hon.

Yr hyn sydd yn allweddol yma yw awgrym arall Leerssen fod astudio Celtigrwydd, bellach, yn golygu astudio ‘the history of what people wanted that term to mean’.⁴² Yn wir, meddai:

Vague and disparate as the ‘Celtic’ tradition in European culture may be, known almost exclusively from outside reports, its name, by virtue of its very imprecision, can attract all sorts of speculations and prejudice; the Celts can be disparaged as barbarians or praised as Noble Savages; they can fall under the shadow of ethnocentrism or be glorified in the spotlight of primitivism; they can be exoticized or identified with; with different authors at different periods, they can be made to fit any role[.]⁴³

Dyma un o brif wendidau neu ffaeliadau’r diffiniad Celtaidd o safbwynt ysgolheigaidd; ond dyma hefyd, ond odid, un o’i brif atyniadau o safbwynt creadigol. Yn wir, fel y sylwodd Patrick Sims-Williams, y mae i nifer o amryfal ddiffiniadau Celtigrwydd amryw o nodweddion defnyddiol:

We have seen that different disciplines have developed related but sometimes conflicting concepts of ‘Celticity’. We have Celtic language and Celtic ethnicity, which, I have argued, often go together, and also Celtic archaeology and Celtic art, which must be placed further off. All these uses of ‘Celtic’ have some historical

⁴¹ Chapman, *The Celts*, t. 39.

⁴² Leerssen, ‘Celticism’, t. 3.

⁴³ Leerssen, ‘Celticism’, t. 3.

validity and are far too useful to abandon. The problems arise when we try and synthesize them in a coffee-table book or television documentary.⁴⁴

Fel y casglodd Katie Gramich yn 1998, ‘*Celtic* is one of those contentious adjectives – like *British* – which we can choose to interpret as we want’.⁴⁵ Y mae’r gymhariaeth hon ynnddi ei hun yn arwyddocaol oherwydd y daw ag un o awgrymiadau canolog yr astudiaeth hon i’r amlwg: i awduron nad oeddent yn dymuno arddel Prydeindod, ond a oedd am elwa o ehangder a hyblygrwydd hunaniaeth o’r fath, yr oedd Celtigrwydd yn ddewis amgen defnyddiol.

Nodweddiadol o’r ffydd adnewyddadwy hon, efallai, ym mhosibiliadau newydd ymdeimlad o Geltigrwydd, ydyw’r ffaith i argraffiad newydd o gyfrol Peter Berresford Ellis, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1993 dan y teitl *The Celtic Dawn: A history of Pan Celticism*, gael ei gyhoeddi yn 2002 fel *Celtic Dawn: the dream of Celtic unity*, gyda phennod ychwanegol, ‘Dawn becomes reality’.⁴⁶ Gwelodd Daniel Williams y modd y gall synio am hunaniaeth Geltaidd yng nghyfnod ôl-ddatganoli, ac yn benodol o fewn disgwrs llywodraethol amlddiwylliannedd yng ngwleidyddiaeth Prydain ar ddechrau’r unfed ganrif ar hugain, weithio i gwestiynu a herio’r disgwrs hwnnw. Yn benodol, awgryma Williams, y mae i’r dadleuon ynghylch lluosogrwydd ieithyddol o fewn mudiad y pan-Geltiaid berthnasedd dadlennol i amlddiwylliannedd uniaith Prydain heddiw: ‘I conclude by suggesting that linguistic difference – the issue which lies at the heart of the “lost cause” of pan-Celticism – exposes the intolerance of anglophone multiculturalism’.⁴⁷ Dadl debyg sydd wrth wraidd y thesis hwn wrth ddadlau fod gan y

⁴⁴ Sims-Williams, ‘Celtomania and Celtoscepticism’, 33.

⁴⁵ Katie Gramich, ‘Editorial’, *Book news from Wales* (Spring 1998), 3.

⁴⁶ Peter Berresford Ellis, *Celtic dawn: the dream of Celtic unity* (Talybont: Y Lolfa, 2002).

⁴⁷ Daniel G. Williams, ‘Another Lost Cause? Pan-celticism, race and language’, *Irish Studies Review*, 17:1 (2009), 89-101 (t. 98).

fframwaith cymharol a gynigir gan Geltigrwydd, neu gan Astudiaethau Celtaidd, bosibiliadau diddorol, ond fod y pwyslais yn fwy penodol ar y llenyddol yn yr astudiaeth hon, ac ar y modd y mae llawer o waith eto i'w gyflawni wrth edrych ar y modd y defnyddiwyd ac y lluniwyd cysyniadau o hunaniaeth Geltaidd gan awduron yr ugeinfed ganrif ar draws a thrwy ffiniau daearyddol, ieithyddol a disgyblaethol.

Yn hyn o beth, felly, y mae i Astudiaethau Celtaidd, dadleuir, berthnasedd sydd yr un mor arwyddocaol, os nad yn fwy arwyddocaol, heddiw, oblegid eu bod, bellach, yn golygu astudio datblygiad syniadol a deallusol y cysyniad o Geltigrwydd ac o hunaniaeth Geltaidd ei hun. Arddangosodd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats eu hunain ystod eang o agweddau tuag at Geltigrwydd, ac fe fydd yr amrywiaeth agwedd hon o fewn eu gweithiau hwy eu hunain yn ddiddorol, ac yn dangos cysyniad mor hyblyg ydyw, a'r modd yr oedd yn apelio at yr awduron hyn ac ar yr un pryd, bron, yn wrthun iddynt. Nid cysyniad na hunaniaeth ddisyfl, sefydlog oedd y Celtigrwydd a etifeddwyd gan y ddau ohonynt, ond set gyfnewidiol, hylifol a llithrig o gysyniadau a thybiaethau a ddefnyddid eisoes, ac a fyddai'n cael ei defnyddio ganddynt hwythau hefyd, i lywio, i lunio ac i ddylanwadu ar ystod eang o wahanol ddaliadau a safbwyntiau.

Ond yr oedd eu deongliadau hwythau o Geltigrwydd i raddau helaeth wedi deillio o, neu'n adweithio i, rai syniadau am y Celt a ddatblygwyd ac a goledwyd gan yr athronydd a'r awdur Llydaweg, Ernest Renan (1823-1892) a'r ysgolhaig Fictoraidd nodweddiadol, Matthew Arnold (1822-1888) yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y mae llawer eisoes wedi ei ysgrifennu ynghylch eu deongliadau penodol hwythau o'r Celt, a bydd y syniadau hyn ynghyd â'r modd y'u derbyniwyd, y'u haddaswyd neu y'u gwrthodwyd gan Jones a Yeats yn cael ei amlygu yn gyson yng nghwrs yr astudiaeth hon hefyd. Ond er hwylustod, neilltuir ychydig baragraffau yma i nodi, yn fras, rai o'r prif

ystyriaethau a gyfyd yn sgil myfyrdodau Renan ac, yn fwy penodol efallai, Arnold, ar y Celt. Cyhoeddodd Renan ei ‘La Poésie des races celtiques’ yn 1854, a chyhoeddwyd darlithoedd Matthew Arnold, *On the Study of Celtic Literature*, ar ffurf cyfrol yn 1867.⁴⁸ Y mae perthynas agos rhwng ysgrifau’r ddau awdur hyn ar y Celt oherwydd, fel y sylwa Ned Thomas, ‘Arnold is modelling himself very closely on Ernest Renan’s essay on a similar theme’.⁴⁹ Yr hyn a wnaeth Arnold oedd politiceiddio syniadau Renan i raddau helaeth, a cheisio’u cymhwyso i sefyllfa wleidyddol Prydain ac Iwerddon ei gyfnod ef, yn ogystal â’u diweddarau yn wyneb ethos ‘gwyddonol’ ei gyfnod.

Fel hil ar wahân y syniai Renan am y Celtiaid, wedi eu gwahanu oddi wrth ‘hiliau’ eraill drwy gyfrwng nifer o nodweddion a briodolodd yntau iddynt. Yn y paragraff canlynol, er enghraifft, cyfleir cysylltiad annatod rhwng safle daearyddol, a rhyw wahaniaeth neu arwahanrwydd, purdeb hyd yn oed, o ran gwaedoliaeth a thras:

Le même contraste frappe, dit-on, quand on passe de l’Angleterre au pays de Galles, de la basse Écosse, anglaise de langage et de mœurs, au pays des Gaëls du nord, et aussi, mais avec une nuance sensiblement différente, quand on s’enfonce dans les parties de l’Irlande où la race est restée pure de tout mélange avec l’étranger.⁵⁰

Ceir y symudiad trefedigaethol nodweddiadol o’r canol i’r ymylon yn y darn hwn, yn ogystal ag awgrym o natur bellennig a distadl y lleoliadau Celtaidd yn y ferf ‘enfoncer’, cyn dod at fater purdeb gwaed y bobl a drig yno. Â Renan yn ei flaen i briodoli nifer o nodweddion i’r bobl hyn. Yn gyntaf oll, y mae yn hil ‘fenywaidd’:

⁴⁸ Ernest Renan, ‘La poésie des races celtiques’, yn *Essais de Morale et de Critique* (Paris: Michel Lévy Frères, 1859 [1854]), u. 375-456; a Matthew Arnold, *On the Study of Celtic Literature* ([1867] London: Smith, Elder & Co., 1905).

⁴⁹ Ned Thomas, *On Arnold and Celtic Literature* (Lampeter: Trivium Publications, University of Wales, 2007), t. 9.

⁵⁰ Renan, ‘La poésie des races celtiques’, t. 376: ‘Ceir yr un gwahaniaeth trawiadol, fe ddywedir, pan deithir o Loegr i Gymru, o Iseldir yr Alban, Seisnig ei iaith a’i arferion, i’r tiroedd Gaeleg yn y gogledd, a hefyd, ond gyda gwahaniaeth nodedig, pan fyddir yn treiddio i rannau o Iwerddon lle’r erys yr hil yn bur rhag pob cymysgedd â dieithriaid.’

S'il était permis d'assigner un sexe aux nations comme aux individus, il faudrait dire sans hésiter que la race celtique, surtout envisagée dans sa branche kymrique ou bretonne, est une race essentiellement féminine.⁵¹

O'r herwydd, fel 'elle' y cyfeiria Renan at y Celt, ac y mae iddi natur bruddglwyfus a hiraethus: 'Si parfois elle semble s'égayer, une larme ne tarde pas à briller derrière son sourire'.⁵² Y mae gan y Celt hefyd, yn ôl Renan, ryw fath o natur gynhenid i wrthsefyll dylanwad estron ('de plus en plus distraite, il est vrai, par les bruits du dehors, mais fidèle encore à sa langue, à ses souvenirs, à ses mœurs, et à son esprit'),⁵³ a newid neu gynnydd o unrhyw fath ('il ne semble pas aussi que les peuples qui la composent soient par eux mêmes susceptibles de progrès. La vie leur apparaît comme une condition fixe qu'il n'est pas au pouvoir de l'homme de changer').⁵⁴ Dyma olwg ar y Celtiaid a arweinia at ddelwedd ohonynt fel pobl ddisyfl, ddigyfnewid yn sefyll, rywsut, oddi allan i hanes ac amser. Nid ydynt, ychwaith, yn cael eu denu at wleidyddiaeth: 'Il ne semble pas qu'à aucune époque elle ait eu d'aptitude pour la vie politique'.⁵⁵ Cyfunir hyn oll, yn ogystal â chariad at natur, yn awch tybiedig y Celt am gael dianc i fyd arall, gan olygu nad oes ganddi lawer o ddiddordeb yn y byd 'real': 'elle s'est fatiguée à prendre ses songes pour des réalités et à courir après ses splendides visions'.⁵⁶ Seilir y tybiaethau hyn oll, fel yr awgrymwyd eisoes, ar nodweddion hil, a dichon mai yng ngwaith Renan y gellir canfod y

⁵¹ Renan, 'La poésie des races celtiques', t. 385: 'Os caniateir i ni bennu rhyw i genhedloedd fel y gwnawn i unigolion, rhaid yw dweud heb betruso fod yr hil Geltaidd, yn enwedig fel y'i gwelir yn ei changen Gymreig neu Lydewig, yn hil hanfodol fenywaidd.'

⁵² Renan, 'La poésie des races celtiques', t. 383: 'Os ymddengys ar brydiau fel pe bai'n ymlawenhau, nid yw'n hir cyn y bydd deigrin yn disgleirio tu ôl i'w gwên.'

⁵³ Renan, 'La poésie des races celtiques', t. 376: 'a'i sylw wedi'i dynnu'n fwyfwy, y mae'n wir, gan synau allanol, ond yn ffyddlon eto i'w hiaith, i'w hatgoffion, i'w harferion, ac i'w hysbryd'.

⁵⁴ Renan, 'La poésie des races celtiques', t. 383: 'Nid ymddengys ychwaith fod pobl yr hil ynddynt eu hunain yn dueddol i gael eu dylanwadau gan gynnydd. Ymddengys bywyd iddynt yn gyflwr sefydlog, na all yr un dyn ei newid'.

⁵⁵ Renan, 'La poésie des races celtiques', t. 383: 'Nid ymddengys y bu unrhyw oes pan fu ganddi'r ddawn ar gyfer y bywyd gwleidyddol'.

⁵⁶ Renan, 'La poésie des races celtiques', t. 386: 'fe'i blinodd ei hun drwy gymryd fod ei breuddwydion yn wirioneddau, a thrwy redeg ar ôl ei gweledigaethau ysblennydd'.

sail i un o elfennau mwyaf problematig Celtigrwydd, sef ei fod yn agored i gyhuddiadau o benderfyniaeth a hanfodaeth ar sail hil.

Efallai mai'r pwynt olaf hwn, o bob un o nodweddion honedig y Celt, yr oedd Jones a Yeats yn fwyaf parod ac awyddus i'w herio neu o leiaf i'w addasu, fel y gwelir maes o law. Yr union nodwedd hon a ddefnyddiwyd gan Arnold er mwyn politiceiddio ei bortread yntau o'r Celt. Fel yr awgryma Daniel Williams, yr oedd agwedd Arnold tuag at y Celtiaid yn un llawer mwy goddefgar na nifer o'i gymheiriaid, ac felly mewn gwirionedd nid oedd angen i'r 'Celtiaid' eu hunain herio y rhan fwyaf o'i honiadau:

John Kelleher's observation that Yeats transformed 'every weakness that Arnold deplored in the Celt' into 'characteristic strengths' – an observation that fits the kind of argument now popular in post-colonial studies – is simply not true. Arnold did not 'deplore' the Celt's 'natural magic', 'femininity' and 'imagination' as weaknesses, but considered them important and complementary contributions to the Anglo-Saxon and Norman tendencies within the English type.⁵⁷

Ond y gynneddf y mynnai Arnold ei phwysleisio yn fwy na dim ydoedd y dyhead am fyd arall a'r ymwrthodiad o'r byd hwn, y 'vehement reaction against the despotism of fact',⁵⁸ a'r canlyniad na all y Celt lywodraethu drosto (drosti?) ei hun. Rhaid darllen y darlithoedd hyn felly, wrth gwrs, gan gadw mewn cof yr ymddeffro gwleidyddol a oedd ar droed yn y gwledydd 'Celtaidd', gan gynnwys yr Alban a Chymru, ac yn bennaf yn Iwerddon, er mwyn sylweddoli, er siars amserol Daniel Williams mai rhethreg er atal achos 'Home Rule' rhag ennill tir (yn llythrennol yn ogystal ag yn drosiadol) oedd llawer o ddeunydd y darlithoedd hyn.⁵⁹

Amlinellodd ac ailbwysleisiodd Arnold nifer o nodweddion y Celt – 'its turn for style, its melancholy, and its turn for natural magic' – yn syml er mwyn annog 'hil' y Celt

⁵⁷ Daniel G. Williams, *Ethnicity and Cultural Authority: from Arnold to Du Bois* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2006), t. 131.

⁵⁸ Arnold, *On the Study of Celtic Literature*, t. 127.

⁵⁹ Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Postcolonialism', tt. 8-9.

a ‘hil’ y Sacson i uno â’i gilydd er budd i’r ddwy garfan.⁶⁰ Byddai ymgorffori natur y Celt i fywyd diwylliannol y Sacson (rhywbeth a oedd, yn ôl Arnold, wedi bod yn digwydd yn naturiol ers blynnydoedd) yn fodd o leddfu ffilistiaeth y Sais, fel y gwelai Arnold hi, a hefyd yn achub y Celt rhag difancoll: ‘These qualities, which are perceived as racial (rather than cultural, and historically created) will be fed into the great stream of English literature to everyone’s advantage’.⁶¹

Ond yr hyn sydd yn nodweddu’r deisyfiad hwn i gymathu’r Celt, a elwid gan Ned Thomas yn ‘contributionism’ ac a gyfieithir yma fel ‘cyfraniaeth’,⁶² ac yn wir yn amod o’i lwyddiant, yw na all y Celt ddal gafael ar ei ddiwylliant yn y presennol, yn ôl Arnold. Egyr ei ddarlithoedd gyda disgrifiad o’r Eisteddfod Genedlaethol yn Llandudno, ac fel hyn y gwelai yntau Gymru yno:

Wales, where the past still lives, where every place has its tradition, every name its poetry, and where the people, the genuine people, still knows this past, this tradition, this poetry, and lives with it, and clings to it.⁶³

Yn ogystal â’r edmygedd o hen arferion a phobl Cymru sydd yn ymhlyg yn y disgrifiad, ceir awgrym hefyd y bydd rhaid i’r arferion hyn, ac i’r gorffennol hwn, ddod i ben, yn y ferf ‘cling’. Archwiliwyd hyn mewn modd defnyddiol gan Tomos Owen, a awgryma mai fel ‘residual culture’, gan ddefnyddio term a fathwyd gan Raymond Williams, y gwelir diwylliant y Celt, sydd yn bwydo i mewn i ‘dominant culture’ y Sacson.⁶⁴

Dylid nodi nad dyma’n union oedd dymuniad Arnold. Yn sicr, yr oedd yn dymuno gweld y diwylliant Celtaidd yn cyfrannu i’r diwylliant Eingl-Seisnig, ac yn dod i

⁶⁰ Arnold, *On the Study of Celtic Literature*, t. 113.

⁶¹ Thomas, *On Arnold and Celtic Literature*, tt. 307-8.

⁶² Ned Thomas, ‘Images of Ourselves’, yn *The National Question Again: Welsh Political Identity in the 1980s*, gol. John Osmond (Llandysul: Gomer, 1985) tt. 306-19.

⁶³ Arnold, *On the Study of Celtic Literature*, t. 2.

⁶⁴ Tomos Owen, *London-Welsh Writing 1890-1915: Ernest Rhys, Arthur Machen, W. H. Davies, and Caradoc Evans*, (Traethawd PhD Prifysgol Caerdydd, 2011). Diffinnir y termau hyn yn wreiddiol, a’u trafod yn helaeth, yng nghyflrol Raymond Williams, *Marxism and Literature* (Oxford: Oxford University Press, 1977).

uniad ag ef, ond er mwyn cyflawni hyn, rhaid oedd uno'r diwylliannau o fewn priod iaith y diwylliant 'dominant', sef y Saesneg:

The fusion of all the inhabitants of these islands into one homogeneous, English-speaking whole, the breaking down of barriers between us, the swallowing up of separate provincial nationalities, is a consummation to which the natural course of things irresistibly tends; it is a necessity of what is called modern civilisation, and modern civilisation is a real, legitimate force; the change must come, and its accomplishment is a mere affair of time. The sooner the Welsh language disappears as an instrument of the practical, political, social life of Wales, the better; the better for England, the better for Wales itself.⁶⁵

Digon eironig yw'r ffaith mai o berthynas yr ieithoedd Celtaidd â'i gilydd y tarddodd y cysyniad o Geltigrwydd gyntaf, ond mai dyma'r union nodwedd, bellach, sydd yn rhwystr yn ôl Arnold i'r uniad rhwng y Celt a'r Sacson a ddeisyfir ganddo. Fel rhywbeth i'w werthfawrogi a'i astudio mewn modd gwyddonol a hanesyddol yr oedd Arnold yn fodlon derbyn Celtigrwydd, ond nid fel diwylliant byw, ffyniannus yn bodoli ar wahân ac yn annibynnol ar y Sacson:

What it has been, what it has done, let it ask us to attend to that, as a matter of science and history; not to what it will be or will do, as a matter of modern politics. It cannot count appreciably now as a material power; but, perhaps, if it can get itself thoroughly known as an object of science, it may count for a good deal, far more than we Saxons, most of us, imagine, as a spiritual power.⁶⁶

Yn ôl yr honiadau hyn, felly, y mae gwahaniaeth rhwng dymuniad Arnold a chysyniad

Owen o Geltigrwydd fel elfen 'residual' o ddiwylliant. Gwahaniaethodd Raymond

Williams rhwng y 'residual' a'r 'archaic':

By 'residual' I mean something different from the 'archaic', though in practice these are often very difficult to distinguish. Any culture includes available elements of its past, but their place in the contemporary cultural process is profoundly variable. I would call the 'archaic' that which is wholly recognized as an element of the past, to be observed, to be examined, or even on occasion to be consciously 'revived', in a deliberately specializing way. What I mean by the 'residual' is very different. The residual, by definition, has been effectively formed

⁶⁵ Arnold, *On the Study of Celtic Literature*, t. 10.

⁶⁶ Arnold, *On the Study of Celtic Literature*, t. 13.

in the past, but it is still active in the cultural process, not only and often not at all as an element of the past, but as an effective element of the present.⁶⁷

Er na fydd y thesis hwn yn gwneud defnydd cyson o'r termau hyn drwyddo draw, un o'r dadleuon sydd fel pe bai yn tanlinellu'r astudiaeth gyfan yw cytuno ag Owen trwy ddadlau mai fel elfen 'archaic' y dymunai Arnold gael y dylanwad Celtaidd yn rhan o ddiwylliant modern, ond mai un o'r gwahaniaethau sylfaenol rhyngddo ac awduron megis Jones a Yeats yw mai fel elfen 'residual', a oedd ar yr un pryd fel pe bai'n 'emergent' ac a fyddai maes o law yn dod yn 'dominant', y gwelent hwythau eu Celtigrwydd. Iddynt hwy, yr oedd yn gwbl allweddol fod y Celt yn 'still active in the cultural process', ac yn 'effective element of the present'.

Fel y sylwa Laura O'Connor, perthyn amwysedd a chymhlethdod dyrys o broblematig i'r darlithoedd hyn o eiddo Arnold: y maent, awgryma, yn 'at once a denial of the multilingual diversity of contemporary British culture and an anxious compensation for the English-only monolith imagined in its stead'.⁶⁸ Ond fel y gwelir yn ddiweddarach yn y thesis hwn, y mae gan y modd y dymuna Arnold i'r diwylliant Celtaidd gael ei archwilio yn hanesyddol ac yn wyddonol dylanwad ar Geltigrwydd Jones a Yeats hefyd.

Y mae'r pwynt olaf hwn yn un hanfodol hefyd, oherwydd fe ddengys ffordd arall, ar wahân i'r elfen wleidyddol fwy amlwg, yr oedd Arnold yn gwyro rywfaint oddi wrth Renan. Y mae'r pwyslais hwn ar astudio'r Celtiaid mewn modd gwyddonol yn un nad yw'n bresennol yng ngwaith Renan, fel y sylwa Sinéad Garrigan Mattar: 'However much Arnold's echoed Renan's arguments (and even his sources), he acknowledged the progress that science had made in the decade that separated their publications and for

⁶⁷ Williams, *Marxism and Literature*, t. 122.

⁶⁸ O'Connor, *Haunted English*, t. xv.

this reason, as well as for the difference in their political attitudes, he protested his own scientism against Renan's avowed Celticism'.⁶⁹ Eto fyth, awgryma Garrigan Mattar, 'Arnold's own approach to the study of Celtic literature was far from scientific',⁷⁰ ac felly rhaid i unrhyw astudiaeth o Geltigrwydd o'r 1890au ymlaen gydnabod hefyd fod cryn wrthdaro ac amrywio o ran diffinio'r Celt erbyn y cyfnod hwnnw a oedd, mewn rhai achosion, yn gwyo'n bur bell oddi wrth y diffiniad Arnoldaidd:

Although still current in popular spheres, Renan's and Arnold's theories had in fact been outpaced by 1890, by which time the great Celtic scholars of Germany and France had constructed a clearer picture of the savage culture that existed both in the ancient Celtic world and the Indo-European concourse. At the same time that this dark world was unearthed, however, primitivist Irish nationalism and primitivist popular Celticism were attempting to inscribe an altogether more romantic and more exclusivist vision of the early period.⁷¹

Olrheinia Garrigan Mattar y Celtigrwydd llawer mwy gwyddonol, ffilolegol, a dyfodd o'r cyfnod hwn ymlaen, a dadleua hefyd mai yn natblygiad y math hwn ar Geltigrwydd, yn ogystal ag yn ei wrthdrawiad â mathau mwy Arnoldaidd neu draddodiadol, y gellir canfod y gwahaniaeth rhwng Celtigrwydd rhamantaidd a Cheltigrwydd modernaidd.⁷² Yn y bedwaredd a'r bumed bennod yn neilltuol, felly, edrychir yn nes ar yr union fodd y deuai Jones a Yeats at Geltigrwydd, gan gydnabod bod nifer o wahanol fathau ar Geltigrwydd yn ymrafael i hawlio'u lle yn y cyfnod, ac nad mater syml o ad-hawlio neu adfeddiannu syniadau Renan ac Arnold oedd y broses hon.

Serch hynny, nodir enghraifft ddiddorol gan Ned Thomas o'r modd y gallai un Cymro blaenllaw adfeddiannu rhethreg Arnold er dadlau dros briod le Cymru o fewn yr

⁶⁹ Sinéad Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival* (Oxford: Clarendon Press, 2004), t. 24.

⁷⁰ Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival*, t. 26.

⁷¹ Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival*, t. 9.

⁷² Gw. Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival*, tt. 3-7.

Ymerodraeth Brydeinig.⁷³ Yr hyn y bydd yr astudiaeth bresennol yn ymgeisio i'w gyflawni fydd archwilio, yn yr un modd, sut y meddiannwyd ac yr addaswyd elfennau o'r disgrifiadau uchod gan T. Gwynn Jones a W. B. Yeats hwythau, a'u haddasu i ddibenion ac amcanion gwahanol a gwrthwynebus i rai gwreiddiol Arnold. Archwilir y modd yr adfeddiannwyd y Celt, fel y cafodd ei ddychmygu ganddynt, er mwyn gwrthod honiad canolog Arnold mai perthyn i'r gorffennol yn unig a wnâi, a hawlio Celtigrwydd fel model gwrth-drefedigaethol at y dyfodol. Yn wir, fel y dadleuodd Tomos Owen yn ei draethawd PhD diweddar ar Gymry Llundain, gan adeiladu ar waith Raymond Williams, Luke Gibbons a Katie Gramich, 'the residual elements of a culture under certain circumstances can combine with the emergent forces to redouble the challenge to the dominant mode. Far from being a waning, diminishing presence, the residual can, in fact, be reanimated and made newly emergent'.⁷⁴ Tra bo Owen yn darllen y broses hon o adfeddiannu'r Celt nid yn unig yn ôl damcaniaeth Raymond Williams o ddiwylliannau 'residual', 'dominant' ac 'emergent', ond hefyd yn erbyn amrywiol fodolau o hunaniaeth genedlaethol fel y'u hamlinellir gan Benedict Anderson, Ernest Gellner, ac Anthony D. Smith, canolbwyntir yma ar ddarllen Celtigrwydd Jones a Yeats mewn golau ôl-drefedigaethol. Yn benodol, bydd yr astudiaeth yn mynd ati i ystyried sut y daeth y Celt, a'i wahanol ymgorfforiadau o fewn gwaith Yeats a Jones, i gael ei ddychmygu a'i ddefnyddio fel offeryn gwrth-drefedigaethol a diwylliannol gwerthfawr mewn cyfnod allweddol o adeiladu cenedlaethol. Ond holir yma hefyd sut y galluogwyd Jones a Yeats, trwy ffigur y Celt, i negodi safle iddynt eu hunain a lwyddai i ymgorffori elfennau o'r trefedigaethwr a'r trefedigaethedig ar yr un pryd.

⁷³ Thomas, 'Images of Ourselves', t. 308: un enghraifft a rydd Thomas yw Tom Ellis 'lecturing in Manchester in 1889 on "The Influence of the Celt in the Making of Britain"'.
⁷⁴ Owen, *London-Welsh Writing 1890-1915*, t. 42.

Tua'r gorllewin: ail-leoli'r ôl-drefedigaethol

Yr hyn a ddaw i'r amlwg yn sgil myfyrdodau Arnold am Geltigrwydd yw'r modd yr hydreiddiwyd y maes ag elfen wleidyddol. Yn sgil hyn, amcan canolog i'r astudiaeth hon yw ceisio dadlau bod perthynas agos rhwng Celtigrwydd fel y'i dychmygwyd gan T. Gwynn Jones a W. B. Yeats ac amrywiol brosiectau cenedlaetholgar a diwylliannol o adeiladu cenedl yng Nghymru ac Iwerddon yn ystod eu gyrfaeod, a thrwy hynny ag amrywiol ddamcaniaethau ôl-drefedigaethol. Deuir at y testunau, felly, o safbwynt ôl-drefedigaethol; ond ar yr un pryd, cwbl fwriadol yw'r lluosog 'damcaniaethau', oherwydd fel gyda Cheltigrwydd, awgrymir bod parodrwydd yn rhy aml i synio am ôl-drefedigaethedd fel endid neu gysyniad sefydlog, unffurf y gellir ei gymhwyso at nifer o wahanol ddiwylliannau a llenyddiaethau yn bur ddiraffferth. Trwy astudio Celtigrwydd o'r safbwynt hwn, fodd bynnag, awgrymir nad yw hyn yn bosibl, fod angen ystyried pob sefyllfa a diwylliant 'trefedigaethol' neu hyd yn oed led-drefedigaethol ar sail unigol ac mewn cymhariaeth â sefyllfaoedd eraill. Dilynr awgrym Daniel Williams fod ail-ystyried Celtigrwydd hefyd yn rhwym o'n harwain i holi a yw deuoliaethau a phegynnau anochel theori ôl-drefedigaethol yn rhy gyfyngedig i archwilio'r berthynas/perthnasau cymhleth rhwng yr amrywiol wledydd Celtaidd ynghyd â'u lle (newidiol) o fewn gwladwriaeth Prydain, a'u perthynas â'r grym trefedigaethol, grym sydd hefyd yn annelwig wrth i'r Ymerodraeth / Ynysoedd Prydain / Lloegr newid a thrawsnewid yn gynyddol.⁷⁵

Yn wir, awgrymodd rhai y gellir beirniadu cysyniad o 'Geltigrwydd' homogenaidd fel enghraifft arall o'r 'Orientalism' y mae astudiaethau ôl-drefedigaethol, gan ddilyn Edward Said, yn benderfynol o'i dryllio. Yn yr un modd ag y cyhuddir y 'Gorllewin' o homogeneiddio'r 'Dwyrain', gall ymwybyddiaeth o gymhlethdodau'r berthynas rhwng y

⁷⁵ Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Postcolonialism', tt. 3-4, 24.

gwahanol wledydd Celtaidd ddadlennu'r modd y mae perygl o homogeneiddio yn nes at adref hefyd. Yn wir, rhaid wrth ddealltwriaeth o'r cymhlethdodau hyn er mwyn deall Celtigrwydd. Y mae sylw Joep Leerssen yn mynegi hyn yn gryno:

to study Celticism in its own right, under the aspect of its perceived Celtic nature, means that we must do more than simply cumulate these individual bipolar, national confrontations. For the story of Celticism is more than the sum of Gaelic, Welsh and Breton stereotypes and nationalism, more than the sum of the peripheries' relations with their respective centres: it is also the story of these regions' sense of ethnic interrelatedness as 'Celts', and of the contacts between these peripheries mutually.⁷⁶

Nid Leerssen yw'r unig un i sylwi hyn; awgrymodd Lyn Innes hefyd y gall Celtigrwydd Arnoldaidd ymddangos fel ffurf arall ar *Orientalism*.⁷⁷ Felly y mae peryglon o ymdrin â'r cysyniad o Geltigrwydd, ond y mae iddo fanteision posibl hefyd, fel yr awgryma Daniel Williams: 'whilst post-colonial critics have demonstrated an awareness of the dangers of homogenizing "the East" in their writings, they are far less inclined to register the equally disabling tendency to homogenize "the West"'.⁷⁸ Gall ystyriaeth, felly, o'r gwahaniaethau yn ogystal â'r tebygrwydd rhwng gweithiau dau awdur, a ysgrifennai ar yr un adeg, ond o fewn gwahanol *milieux* a chan gyflawni amcanion tra gwahanol drwy eu Celtigrwydd, gyfrannu at well dealltwriaeth o gymhlethdodau'r term trosgynnol hwn. Ar yr un pryd, cynigir modd o ail-ddarllen, neu o ddadlennu rhai anawsterau a chyfyngiadau maes astudiaethau ôl-drefedigaethol.

Y mae'r astudiaeth hon ar un wedd mewn sefyllfa ddelfrydol i fynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn, oherwydd fod cynifer o'r trafodaethau ynghylch dilysrwydd cymhwyso theori ôl-drefedigaethol i rai o ddiwylliannau lleiafrifol a chenhedloedd di-wladwriaeth y

⁷⁶ Leerssen, 'Celticism', tt. 17-8

⁷⁷ Lyn Innes, 'Orientalism and Celticism', yn *Irish and Postcolonial Writing: History, Theory, Practice*, goln. Glenn Hooper a Colin Graham (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2002), tt. 142-56.

⁷⁸ Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Post-Colonialism', t. 1.

gorllewin wedi ymdroi o amgylch gwaith W. B. Yeats ei hun. Edward Said oedd y cyntaf i ddadlau yn argyhoeddedig dros ddilysrwydd ystyried Yeats yn fardd dad-drefedigaethol, a hynny yn bennaf oherwydd ei ymdrechion ‘to announce the contours of an “imagined” or ideal community, crystallized by its sense not only of itself but also of its enemy’.⁷⁹ Os yw’r diffiniad hwn, yn dilyn ein hamlinelliad o’r Celt fel rhywbeth a lunnir, i raddau, gan ei Arallrwydd, yn canu cloch, yna cyfarwydd hefyd yw awgrym Said fod Yeats hefyd yn fardd dad-drefedigaethol oherwydd ei ‘search for authenticity, for a more congenial national origin than that provided by colonial history, for a new pantheon of heroes, myths, and religions’.⁸⁰ Trwy wneud hyn, amddiffynnir y cysyniad sylfaenol o Iwerddon fel gwlad sydd mewn perthynas drefedigaethol â gwlad arall, gan addef ar yr un pryd fod rhai gwahaniaethau cynnil rhwng sefyllfa Yeats a sefyllfa awduron gwrthdrefedigaethol eraill:

Now it is true that the connections are closer between England and Ireland, than between England and India, or France and Senegal. But the imperial relationship is there in all cases. The colonized may have a *sense* of England and France, speak and write in the dominant language even as he or she tries simultaneously to recover a native original.⁸¹

Yn wir, fe ellid dadlau fod gwahaniaethau llai cynnil hefyd, a bod ymgais Said i gyfosod Iwerddon â gwledydd ‘trydydd byd’ yn llawer rhy syml. Ond â Said ati i ddangos fod nifer o nodweddion beirdd a ystyrir fel rhai ôl-drefedigaethol hefyd i’w canfod yng ngwaith Yeats. Yn benodol, pwysleisia yr elfennau o hybridiaeth, neu o gymysgrywedd,⁸² sydd i’w canfod yng ngwaith Yeats ac sydd yn debyg i awduron eraill:

⁷⁹ Edward Said, ‘Yeats and Decolonization’, yn *Nationalism, colonialism, and literature*, gol. Seamus Deane (Minneapolis: University of Minnesota Press, 1990 [1988]), tt. 69-95 (t. 86). Diddorol yw nodi mai’r term ‘dad-drefedigaethu’ (*decolonization*) a ddefnyddir gan Said yn y cyd-destun hwn, yn hytrach na’r term ‘gwrth-drefedigaethedd’ (*anti-colonialism*), mwy pendant efallai, sydd yn fwy cyfarwydd heddiw.

⁸⁰ Said, ‘Yeats and Decolonization’, t. 79.

⁸¹ Said, ‘Yeats and Decolonization’, t. 81.

⁸² Dyma’r term a ddefnyddir gan Simon Brooks i gyfieithu ‘hybridity’ yn ei gyfrol *O Dan Lygaid y Gestapo: yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 2004), t. 126.

He shares with Caribbean and some African writers the predicament of a common language with the colonial overlord, and of course he belongs in many important ways to the Protestant Ascendancy whose Irish loyalties, to put it mildly, were confused.⁸³

Manteisiol, felly, yn hyn o beth, yw ystyried Yeats mewn golau ôl-drefedigaethol, oherwydd fod hynny'n dwyn i ystyriaeth y gwahanol gylchoedd yr oedd yntau'n troi ynddynt, a'i deyrngarwch amrywiol i amryfal garfanau, ac yn cymhlethu'r darlun ohono yn syml fel bardd cenedlaetholgar ar y naill law, neu fel bardd yr Oruchafiaeth Brotestannaidd, 'Eingl-Wyddelig' ar y llaw arall, yn unig. Yn wir, er ei berthynas â'r garfan honno o gymdeithas, awyddus yw Said i bwysleisio:

in so many other ways Yeats is very much the same as other poets resisting imperialism, in his insistence on a new narrative for his people, his anger at the schemes for partition (and enthusiasm for its felt opposite, the requirement of wholeness), the celebration and commemoration of violence in bringing about a new order, and the sinuous interweaving of loyalty and betrayal in the nationalist setting.⁸⁴

Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, nad pawb sydd yn cydweld â Said ar y mater hwn. Gwrthod yn llwyr ag ystyried Yeats fel bardd ôl-drefedigaethol a wnaeth beirniaid megis Denis Donoghue, er enghraifft: 'not only is postcolonial theory ill-suited to the Irish situation, but the interpretations of literature that it produces are shallow and one-dimensional'.⁸⁵ Yn ei gyfrol yntau, *Celtic Revivals: Essays in Modern Literature* (1985), teimla Seamus Deane fod Yeats yn llawer rhy gydymdeimladol â'r grym trefedigaethol i gael ei ystyried fel bardd ôl-drefedigaethol. Cwestiwn cymysgrywedd Yeats, felly, sydd yma

Dyma'r term a ddefnyddir hefyd gan Dylan Foster Evans yn ei erthygl, "'Bardd arallwlad": Dafydd ap Gwilym a Theori Ôl-Drefedigaethol', yn *Llenyddiaeth mewn Theori*, gol. Owen Thomas (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 39-72 (t. 42). Ychwanega yntau at y cyfieithiadau hyn drwy nodi 'dynwared' (*mimicry*) a 'deuoliaeth agwedd' (*ambivalence*). Ceir y termau hyn yn wreiddiol ynghyd â thrafodaeth helaeth arnynt yng nghyfrol Homi K. Bhabha, *The Location of Culture* (London: Routledge, 1994).

⁸³ Said, 'Yeats and Decolonization', tt. 79-80.

⁸⁴ Said, 'Yeats and Decolonization', t. 85.

⁸⁵ Denis Donoghue, 'Fears for Irish Studies in an Age of Identity Politics', *Chronicle of Higher Education*, Tachwedd 21 1997. <http://chronicle.com/article/Fears-for-Irish-Studies-in-an/98851/> [Gwelwyd Mehefin 19, 2012].

hefyd, ac er bod Deane yn awyddus i ymdrin â Yeats o fewn cyd-destun ôl-drefedigaethol, awgryma hefyd fod ganddo duedd tuag at fabwysiadu safle trefedigaethol ar adegau. Serch hynny, pwysleisia, ‘To describe Yeats’s politics, and to a large extent his achievement, as colonial is not at all to diminish it’.⁸⁶ Yn wir, bydd yr astudiaeth hon yn cydnabod hynny, ac yn dadlau fod Celtigrwydd yn rhoi i Yeats fforwm delfrydol ar gyfer ceisio cysoni nifer o’r agweddau distadl hyn a geir o fewn ei waith. Dadleuodd Rebecca Weaver, er enghraifft, fod portread Yeats o’r Dwyrain Pell, ac o India yn benodol, yn ddrych i’w safle amwys yntau fel trefedigaethwr/edig.⁸⁷ Awgrymir yma y daeth nifer o’r elfennau hyn, eu cymhlethdodau a’u deuoliaethau agwedd, i chwarae eu rhan maes o law yng Ngheltigrwydd Yeats, a oedd hefyd yn gadael iddo ddwyn ei genedligrwydd ef ei hun yn nes at ‘adref’ ei gerddi.

Ailymwelwyd â’r cwestiwn ynghylch dilysrwydd Yeats fel bardd ôl-drefedigaethol gan Jahan Ramazani yn 1998. Y mae yntau yn awyddus i bwysleisio’r cymysgrywedd sydd i’w ganfod o fewn hunaniaeth lenyddol Yeats, ac yn wir i honni mai dyma un o’i brif nodweddion ôl-drefedigaethol.⁸⁸ ‘Too anglicized to be Irish and too gaelicized to be English’, awgryma Ramazani, ‘the Anglo-Irish Yeats typifies the interstitial [sic] writer of the postcolonial world’,⁸⁹ a thrwy hynny y mae ei ddisgwrs yn nodweddiadol o’r ‘terms that anticipate the postcolonial debate over language’.⁹⁰ ‘Indeed,’ medd Ramazani, ‘perhaps his weightiest credential in earning admittance to the postcolonial literary

⁸⁶ Seamus Deane, *Celtic Revivals: Essays in Modern Literature* (London: Faber, 1985), t. 49.

⁸⁷ Rebecca Weaver, ‘W. B. Yeats’s Imagined East and Ireland in the Postcolonial Context’, yn *Yeats and Postcolonialism*, gol. Deborah Fleming (West Cornwall, CT: Locust Hill Press, 2001), tt. 301-29 (t. 304): ‘In that imagined East, Yeats plays out the psychological conflict of ambiguous coloniality through the subject position of his speaker and his colonial perspective, rendering the East as would a colonizer (he describes it as a regressive, exotic and natural space) and a fellow colonized person (he identifies with it and assumes an unambiguous colonized identity)’.

⁸⁸ Jahan Ramazani, ‘Is Yeats a postcolonial poet?’, *Raritan*, 17: 3 (Winter 1998), 64-89.

⁸⁹ Ramazani, ‘Is Yeats a postcolonial poet?’, 79.

⁹⁰ Ramazani, ‘Is Yeats a postcolonial poet?’, 79.

society is the *cosmopolitan nativism* he shares with many of its most esteemed members'.⁹¹ Bydd y gymysgedd hynod hon o gosmopolitaniaeth a chynhwynoliaeth (*nativism*) yng ngwaith Celtaidd Yeats, a'r tensiynau rhyngddynt, yn ffurfio rhan ganolog o'r astudiaeth hon yn ogystal. Ond y mae Ramazani hefyd yn codi nifer o gwestiynau dilys ynghylch pa derminoleg yn union i'w defnyddio wrth drafod Yeats, ac yn cydnabod cyfyngiadau y ddeuoliaeth ôl-drefedigaethol o wrthwynebu'r trefedigaethwr a'r trefedigaethedig: 'to "postcolonialize" Yeats along these lines would be to tell only part of the story, for Yeats was also anti-anti-English [...] Indeed, Yeats's anti-anti-Englishness highlights the failure of anticolonialism itself to account for the complex ambivalences of much post-colonial literature'.⁹² Efallai mai'r hyn sydd yn fwyaf gwerthfawr yn astudiaeth Ramazani yw ei drafodaeth ynghylch y term mwyaf perthnasol i ddisgrifio Yeats. Ar un pwynt, awgryma, 'Yeats is thus a nationalist and perhaps post-colonial writer in the strong sense of nation-maker'.⁹³

Ond mae Ramazani hefyd yn gwneud defnydd o'r term 'anticolonialism',⁹⁴ y gwrthdrefedigaethol, oherwydd fod unrhyw ystyriaeth o waith Yeats yn y goleuni hwn yn rhwym o ganolbwyntio ar ei waith cyn annibyniaeth wleidyddol Iwerddon yn ogystal â'i waith yn dilyn hynny. Gwelir yng nghwrs yr astudiaeth hon y gall y label hwn hefyd fod yn hynod o berthnasol yn achos Yeats a T. Gwynn Jones fel ei gilydd. Y mae i'r amrywiol dermau hyn eu manteision, yn ôl Ramazani: 'This concept of postcoloniality as resistance to the discourses of colonization has the advantage of recognizing the continuity of oppositional writing before and after independence and of granting political efficacy to

⁹¹ Ramazani, 'Is Yeats a postcolonial poet?', 89.

⁹² Ramazani, 'Is Yeats a postcolonial poet?', 69-70.

⁹³ Ramazani, 'Is Yeats a postcolonial poet?', 72.

⁹⁴ Ramazani, 'Is Yeats a postcolonial poet?', 75.

postcolonial literatures'.⁹⁵ Yn yr un modd cwestiynodd Ania Loomba y gordddefnydd o'r term penodol 'ôl-drefedigaethol' oherwydd fod gwledydd sydd yn parhau i fod o dan rym imperialaidd yn dal i fod yn ddiwylliannau trefedigaethol: 'nothing is "post" about their colonisation'.⁹⁶

Efallai mai dyna gyfraniad mwyaf dyfodiad Yeats i'r canon ôl-drefedigaethol, sef y ddadl a gyfyd yn sgil hynny ynghylch amrywiol ffyrdd o feddwl am ôl-drefedigaethedd, gwrth-drefedigaethedd, a chenedlaetholdeb. Wrth drafod barddoniaeth Yeats yn dilyn rhyfel cartref Iwerddon, ei weld fel bardd cenedlaetholgar a wna David Lloyd, er enghraifft.⁹⁷ Yn yr un modd, diddordeb Marjorie Howes yn ei chyfrol hithau, *Yeats's Nations: Gender, Class and Irishness*, yw olrhain y gwahanol fathau o genedlaetholdeb a goleddwyd gan Yeats yn ystod ei yrfa.⁹⁸ Yr hyn sydd yn allweddol yw dwyn y categorïau hyn i ystyriaeth, a'u herio. Nid yw'n niweidiol, er enghraifft, i goffio honiad Denis Donoghue mai arwynebol yw darlleniad ôl-drefedigaethedd o sefyllfa Iwerddon. Gan goffio anogaeth Daniel Williams, rhaid i unrhyw astudiaeth o Geltigrwydd gadw mewn cof y gwahanol berthnasau a'r gwahaniaethau rhwng y gwledydd Celtaidd a'i gilydd: 'an adequate account of 1890s Celticism calls for an approach that looks not at the "intense political and cultural friction between two nations", but at the complex inter-relationships between cultures and identities within the four nations of the, variously-perceived, British Isles'.⁹⁹ Ynghlwm wrth hyn y mae'r rheidrwydd i ystyried natur unigryw y sefyllfa ôl-drefedigaethol o fewn ac ar draws Ynysoedd Prydain: 'if the Irish

⁹⁵ Ramazani, 'Is Yeats a postcolonial poet?', 67.

⁹⁶ Ania Loomba, 'Situating Colonial and Postcolonial Studies', yn *Literary Theory: an Anthology*, golln. J. Rivkin a M. Ryan, 2il arg., (Oxford: Blackwell, 2004), tt. 1100-11 (t. 1104).

⁹⁷ David Lloyd, 'The Poetics of Politics: Yeats and the Founding of the State', yn *Anomalous States: Irish Writing and the Post-Colonial Moment* (Dublin: Lilliput Press, 1993), tt. 59-87.

⁹⁸ Marjorie Howes, *Yeats's Nations: Gender, Class and Irishness* (Cambridge: Cambridge University Press, 1996).

⁹⁹ Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Postcolonialism', t. 24.

could not become English, then they could, at least potentially, become British. They were certainly perceived as being so in those countries which they were actively colonizing, with their Welsh, Scottish and English counterparts'.¹⁰⁰ Nid gelyniaeth at Loegr o reidrwydd oedd asgwrn y gynnen i'r un o'r ddau awdur, oblegid y mae llawer o fewn eu gweithiau eu hunain i awgrymu eu bod yn parchu, yn edmygu, ac yn wir yn efelychu, llawer o lenyddiaeth Saesneg.

Fel yr awgryma Daniel Williams, hanfod y mater yw Prydeindod, hunaniaeth sydd yn honedig hollgynhwysol, ac yn gymysgedd o nifer o ddiwylliannau gwahanol.¹⁰¹ Nid oedd Prydeindod i Jones a Yeats, fodd bynnag, yn cynnig y rhyddid angenrheidiol iddynt, ac felly coleddu Celtigrwydd fel hunaniaeth amgen i Brydeindod a wnaethant. Byddai, yn ddelfrydol, yn hollgynhwysol ac yn ehangach na'r cenedlaethol, ond hefyd yn caniatáu llawer rhagor o le i negodi hunaniaeth annibynnol, frodorol, yn ogystal, heb orfod cyd-fynd â chyfraniaeth imperialaidd. Os yw hyn oll yn wir, yna y mae'n hanfodol fod astudio un o wledydd Ynysoedd Prydain mewn cyd-destun ôl-drefedigaethol yn golygu coleddu ymwybyddiaeth o gyd-destun y gwledydd eraill hefyd. Yn wir, y mae Ramazani, er ei waith yn cymhlethu a phroblemateiddio dehongliad gwreiddiol Said, hefyd yn euog, fel David Lloyd a Declan Kiberd,¹⁰² fel yr awgryma Daniel Williams drachefn, o fod yn 'curiously reluctant to look for comparisons closer to home'.¹⁰³ Er mor werthfawr fydd llawer o waith Kiberd i'r astudiaeth hon, y mae ei erthygl yn cymharu Celtigrwydd Iwerddon a *Négritude* yn Affrica yn symptomatig o hyn. Ni cheir sôn am unrhyw Gelt ond y Gwyddel yn yr erthygl honno, ac wrth gymharu'r Gyngres Ban-Affricanaidd gyntaf â gweithgareddau'r Celtiaid, dywed fel hyn: 'By no great coincidence,

¹⁰⁰ Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Postcolonialism', t. 3.

¹⁰¹ Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Postcolonialism', t. 3.

¹⁰² Declan Kiberd, *Inventing Ireland: the literature of the modern nation* (London: Jonathan Cape, 1995).

¹⁰³ Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Postcolonialism', t. 2.

in the same period a Pan-Celtic movement (based on a unitary theory of the “Celtic personality”) held similar meetings in London and other cities’.¹⁰⁴ Yng ngwaith beirniad ôl-drefedigaethol fel Kiberd, y mae’r ymadrodd ‘London and other cities’ yn y cyd-destun hwn yn dra eironig. Ond o ystyried ôl-drefedigaethedd a Cheltigrwydd yng nghyd-destun Ynysoedd Prydain, gwelir yn syth fod nifer o nodweddion cyfochrog sydd yn gofyn am ystyriaeth bellach.

Fel y mae beirniaid ar Yeats wedi trafod perthnasedd gwahanol fathau o ôl-drefedigaethedd yn achos Iwerddon, deialog gyffelyb a gafwyd yng Nghymru yn ddiweddar hefyd. ‘In Wales’, cynigia Kirsti Bohata yn ei chyfrol *Postcolonialism Revisited* (2004), ‘we may find that the proportions in which we have been and are colonial, imperialist and post-colonial, to paraphrase Goodwin, are subtly and sometimes significantly different from those of other countries of the UK and the rest of Empire’.¹⁰⁵ Dengys yr ystod eang o ddadleuon a geir mewn cyfrolau megis *Postcolonial Wales* (2005) fod y ddeialog ynghylch dilysrwydd ôl-drefedigaethedd mewn cyd-destun Cymreig hefyd yn parhau, ac yn parhau i gael ei diffinio.¹⁰⁶ Efallai eto, fel yn achos Yeats, mai cysyniad o *wrth* drefedigaethedd, yn hytrach nag ôl-drefedigaethedd, sydd yn fwyaf perthnasol, oherwydd yr anghytuno dybryd ynghylch y cwestiwn a yw, ac a fu Cymru erioed, yn wlad drefedigaethedig. Fel y cynigia Bohata, gan amlygu drachefn y cyswllt rhwng cenedlaetholdeb a gwrth-drefedigaethedd, ‘Significantly, Welsh nationalism has focused on resisting the cultural imperialism of England, with political autonomy regarded as a means to securing and protecting Welsh cultural difference’.¹⁰⁷ Yr hyn a wna awgrym o’r

¹⁰⁴ Declan Kiberd, ‘White skins, black masks: Celticism and *Négritude*’, yn *The Irish Writer and the World* (Cambridge: Cambridge University Press, 2005), tt. 133-45 (t. 135).

¹⁰⁵ Kirsti Bohata, *Postcolonialism Revisited* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), t. 5.

¹⁰⁶ Jane Aaron a Chris Williams (goln.), *Postcolonial Wales*, (Cardiff: University of Wales Press, 2005).

¹⁰⁷ Bohata, *Postcolonialism Revisited*, t. 9.

fath yw symud y mater yng Nghymru oddi wrth ddiffiniadau gwleidyddol, hanesyddol ac economaidd, er eu bod oll yn ystyriaethau sylfaenol allweddol, a thuag at drefedigaethedd fel disgwrs diwylliannol. Yn sgil hyn, rhaid sylweddoli hefyd y llithrigrwydd rhwng amrywiol ‘gyflyrau’ trefedigaethol:

it is, of course, crucial that differences in the forms and experiences of oppression, resistance and complicity in different colonial, imperial, post-colonial and neo-colonial situations be observed. At their best, these rhetorical alliances may forge mutually supportive links between various resistance movements, but in an academic context it is essential that spurious parallels and reductive universalizing are eschewed.¹⁰⁸

Yn yr achos hwn felly, ‘[d]irect colonial rule is not necessary for imperialism in this sense,’ awgryma Loomba, ‘because the economic (and social) relations of dependency and control ensure both captive labour as well as markets for European industry as well as goods’.¹⁰⁹ Y mae synio am theori ôl-drefedigaethol yn y modd hwn yn neilltuo o berthnasol o fewn cyd-destun o drawsnewid sylweddol fel a geid yng Nghymru ac Iwerddon yng nghyfnod T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar yr amodau ar gyfer creu meddylfryd a disgwrs (gwrth/ôl-) drefedigaethol a’r amrywiol ddulliau o wrthsefyll hynny. Drachefn, dychwelir yma at astudiaeth gychwynnol Said o Yeats: ‘It was this study that significantly shifted the analysis of colonialism from empirical historical analysis to language’.¹¹⁰ Â Chris Williams ati hefyd, yn *Postcolonial Wales*, i wahaniaethu rhwng y ‘post-colonial’, sy’n dynodi ‘a particular historical period or epoch (literally, after colonialism, or after empire)’, a’r ‘postcolonial’ (heb gysylltnod), sy’n cyfeirio at ‘disparate forms of “representations, reading practices and values” that may circulate “across the barrier between colonial rule and national

¹⁰⁸ Bohata, *Postcolonialism Revisited*, t. 17.

¹⁰⁹ Loomba, ‘Situating Colonial and Postcolonial Studies’, t. 1103.

¹¹⁰ Williams, ‘Pan-Celticism and the Limits of Postcolonialism’, t. 1.

independence”¹¹¹ Yn yr un modd, yn ôl Dylan Foster Evans, ‘mae’r term “ôl-drefedigaethol” yn cyfeirio at ddull o feddwl ac o ddadansoddi sy’n mynd i’r afael â’r holl brosesau a fframweithiau meddyliol sy’n rhan o drefedigaethu’.¹¹²

Ar sail yr ystyriaethau hyn y mae’r astudiaeth bresennol yn cyfiawnhau archwilio gwaith T. Gwynn Jones a W. B. Yeats o fewn fframwaith ôl-drefedigaethol. Syndod, felly, o ystyried tebygrwydd y cyd-destunau y gweithiai’r ddau awdur o’u mewn, ynghyd â’r tebygrwydd, yn aml, yn eu gweithiau, yw canfod na chafwyd trafodaeth, hyd yma, o T. Gwynn Jones mewn cyd-destun ôl-drefedigaethol. Lleihau a wna’r syndod hwn, fodd bynnag, o nodi mai prin yw unrhyw astudiaethau diweddar o Jones, ac o nodi honiad Dylan Foster Evans, hefyd, mai yn ‘gymharol hwyr y mae syniadau ôl-drefedigaethol wedi cyrraedd Cymru, yn enwedig yn y Gymraeg’.¹¹³ Yn sicr ni ellir rhoi cyfrif am yr absenoldeb ymddangosiadol hwn yn y Gymraeg, tan yn bur ddiweddar, drwy awgrymu nad yw theori lenyddol ar y cyfan wedi ennill ei thir yn yr iaith bellach. Os oedd hynny’n wir yn y saithdegau,¹¹⁴ dengys bywiogrwydd cyfnodolion megis *Tu Chwith, Taliesin*, a chyfrolau arloesol megis *Sglefrio ar Eiriau*, y derbyniwyd theori lenyddol gan rai o fewn diwylliant beirniadol y Gymraeg erbyn nawdegau’r ugeinfed ganrif.¹¹⁵ Rheidrwydd, felly, yw ceisio cynnig esboniad arall dros absenoldeb cymharol ôl-drefedigaethedd o’r bywiogrwydd hwn, yn enwedig gan y gellid dadlau mai dyma un o’r meysydd theoretig mwyaf ffrwythlon i’w harchwilio yn achos Cymru.

¹¹¹ Chris Williams, ‘Problematizing Wales: An Exploration in Historiography and Postcoloniality’, yn *Postcolonial Wales*, goln. Jane Aaron a Chris Williams (Cardiff: University of Wales Press, 2005) tt. 3-22 (tt. 3-4).

¹¹² Foster Evans, ‘Bardd arallwlad’, t. 45.

¹¹³ Foster Evans, ‘Bardd Arallwlad’, t. 45.

¹¹⁴ Simon Brooks, ‘Yr Hil: Ydy’r canu caeth diweddar yn hiliol?’, yn *Llenyddiaeth mewn Theori*, gol. Owen Thomas (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 1-38 (t. 30): ‘Roedd deallusion cenedlaetholgar y saithdegau yn llawn ymwybodol y gallai safbwyntiau theoretig, megis gwrthdrefedigaethedd, fod yn gefn i’w gwleidyddiaeth. Hyd yn oed mewn mudiad honedig geidwadol fel Mudiad Adfer, fe ganmolid y deallusyn gwrthdrefedigaethol Frantz Fanon’.

¹¹⁵ John Rowlands, gol., *Sglefrio ar eiriau: erthyglau ar lenyddiaeth a beirniadaeth* (Llandysul: Gomer, 1992).

Gwell yw nodi awgrym Simon Brooks y gellid synio, cyn belled yn ôl â'r 1960au, 'fod y fath beth ag ysgol o fyfyrion gwrth-drefedigaethol i'w chael yn y Gymraeg', ond mai dan enw cenedlaetholdeb yr oedd hynny yn bennaf.¹¹⁶ Yr esboniad a gynigir yma yw y cymerir cenedlaetholdeb fel safbwynt yn ganiataol ym mwyafrif helaeth ysgrifennu Cymraeg yr ugeinfed ganrif, yn achos y testunau a astudiwyd a'r beirniaid a'u dadansoddai, dan y ddealltwriaeth, fel yr archwilir yn ddiweddarach, fod pob math o ysgrifennu mewn iaith leiafrifol yn cymryd arni swyddogaeth neu arwyddocâd gwleidyddol. Os yw'r awgrym hwn yn un dilys, yna nid yw'r angen i theoreiddio cyflwr trefedigaethedig y Cymry wedi bod yn fater mor dyngedfennol yn y Gymraeg, oherwydd y'i derbynnid yn ddigwestiwn fel cyflwr, neu fel safbwynt, bron yn angenrheidiol, o lenyddiaeth yn yr ugeinfed ganrif.¹¹⁷ Disgrifia Jahan Ramazani genedlaetholdeb fel 'typically the positive obverse of anticolonialism',¹¹⁸ ac er fod hynny yn gorsymleiddio pethau i raddau, gall fod yn ddefnyddiol, felly, i nodi ac i gofio'r cyswllt rhyngddynt.

Fel y dewisodd David Lloyd a Marjorie Howes, felly, olrhain gwahanol fathau a deongliadau o genedlaetholdeb yn eu hastudiaethau hwythau o Yeats, felly hefyd yr aeth nifer fawr o feirniaid Cymraeg ati i ystyried i ba raddau y gellir dehongli cerddi T. Gwynn Jones fel rhai cenedlaetholgar. Ail yn unig i chwerwedd cymdeithasol T. Gwynn Jones, i'r rhan helaeth o feirniaid, yw ei genedlaetholdeb o ran pwyslais ac amlygrwydd yn ei waith. Barn R. M. Jones, er enghraifft, yw y 'defnyddiai T. Gwynn Jones fytholeg Geltaidd er mwyn cydblethu ei Ramantiaeth â chenedlaetholdeb'.¹¹⁹ I Hywel Teifi

¹¹⁶ Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, tt. 113-39 (t. 118).

¹¹⁷ Am grynodedeb o'r modd y trafodwyd y berthynas rhwng Cymru a Lloegr neu Brydain mewn termau trefedigaethol am flynnyddoedd lawer, gweler Foster Evans, 'Bardd arallwlad', t. 45.

¹¹⁸ Ramazani, 'Is Yeats a postcolonial poet?', 70.

¹¹⁹ R. M. Jones, 'Mawrion T. Gwynn Jones', yn *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 347-55 (t. 348). Dro arall, medd Jones: 'Ym marddoniaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif [...] cafwyd dwy thema neu ddau faes neu bwnc deunyddiol a fu'n gyson amlycach nag y dylent fod[:] [...] Cristnogaeth a chenedlaetholdeb'. Â Jones yn ei flaen i enwi T. Gwynn

Edwards, wedyn, '[y] bardd a ddiawliai uwchben dolur Cymru' ydoedd T. Gwynn Jones.¹²⁰ Dichon y gellid pori drwy gyfrol olygedig Gwynn ap Gwilym, *Cyfres y Meistri: T. Gwynn Jones*, un o'r casgliadau pwysicaf a helaethaf o ysgrifau ar Jones, a chanfod nifer o ddisgrifiadau cyffelyb. Y mae yr olwg hon ar Jones, wrth gwrs, yn hollol ddilys. Fel y sylwodd Said, 'A great deal, but by no means all, of the resistance to imperialism was conducted in the name of nationalism'.¹²¹ Ond dyma hefyd lle y gall ystyriaeth o Jones a Yeats yng nghyd-destun Celtigrwydd fod yn ddadlennol ac yn ddefnyddiol, oherwydd ei fod yn ein galluogi i fynd heibio deuoliaethau'r trefedigaethwr a'r trefedigaethedig, ac yn bwysicach efallai yn caniatáu i ni olrhain ystod eang o agweddau, ar wahân i genedlaetholdeb, yn eu gwaith.

Yn wir, er y gwêl Alun Llywelyn-Williams, er enghraifft, wrth drafod 'Ymadawiad Arthur' (1902) mai 'yr awdl hon a ddaeth yn wir hedyn y canoloesoldeb Cymreig a dyfodd wedyn',¹²² y mae ar yr un gwynt yn barod i gydnabod dylanwad Tennyson: '[y] mae safle Gwynn Jones yng Nghymru yn agos iawn i'r canoloesolwyr Seisnig yn hyn o beth', awgryma Llywelyn-Williams, 'ac y mae'n annichon credu, wrth gwrs, na bu dylanwad Tennyson yn drwm arno'.¹²³ Sylwodd Saunders Lewis, hefyd, ar y dylanwad hwn,¹²⁴ ac yn fwy diweddar tynnodd Rob Gossedge sylw drachefn ato, gan awgrymu fod gan *Idylls of the King* (1856-1885) Tennyson, ragor o ddylanwad ar Jones na 'native

Jones ynghyd ag eraill, megis R. Williams Parry a Gwenallt, a fu'n 'ymhel cryn dipyn â chenedlaetholdeb yn rhai o'u gweithiau mwyaf trawiadol'. R. M. Jones, *Ysbryd y cwlwm: delwedd y genedl yn ein llenyddiaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998), tt. 418-19.

¹²⁰ Hywel Teifi Edwards, 'Cerddi T. Gwynn Jones yn *The Oxford Book of Welsh Verse*', yn *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 364-7 (t. 366).

¹²¹ Said, *Yeats and Decolonization*, t. 74.

¹²² Llywelyn-Williams, *YNos, y Niwl a'r Ynys*, t. 129.

¹²³ Llywelyn-Williams, *YNos, y Niwl a'r Ynys*, t. 129.

¹²⁴ Saunders Lewis, 'Morte D'Arthur a'r Passing of Arthur', *Y Traethodydd: Canmlwyddiant geni T. Gwynn Jones, 1871-1971*, CXXVI: 538 (1971), 42-47.

sources'.¹²⁵ Yn yr un modd, awgrym T. Robin Chapman yw y dylanwadwyd ar estheteg ganoloesol T. Gwynn Jones 'as much by the social idealism of Ruskin as by a Celtic twilight of mists and melancholy'.¹²⁶ Yn wir, y mae'r dylanwadau hyn erbyn heddiw yn gydnabyddedig, a chafwyd erthygl fanwl gan M. Wynn Thomas yn ei olrhain yn drylwyr, yn achos 'Ymadawiad Arthur' yn benodol, gan ddwyn i'r amlwg natur gymysgryw barddoniaeth Jones.¹²⁷ Ac wrth gwrs, fel yr awgryma Dylan Foster Evans drachefn, efallai fod yr amharodrwydd i ymgymryd ag ôl-drefedigaethedd yng Nghymru hefyd yn bodoli o 'ganlyniad i'r ffaith fod y Cymry (gyda rhai eithriadau) wedi bod yn ddigon bodlon i chwarae rôl amlwg yn y broses o greu'r Ymerodraeth Brydeinig'.¹²⁸ Yn syml, os derbynnir hyn, ni all damcaniaethau ôl-drefedigaethol fel y'u ceir yng ngweithiau'r damcaniaethwyr rhyngwladol roi cyfrif digonol am y ffaith i nifer o Gymry chwarae rôl hefyd fel trefedigaethwyr, mewn modd a âi heibio i 'ddynwarediad' neu 'ddeuoliaeth agwedd', ar yr un pryd yn aml â gresynu am eu cyflwr trefedigaethedig.

Dyma pam, felly, y ceir ymgais yn yr astudiaeth hon i ystyried T. Gwynn Jones a'i Geltigrwydd, hefyd, mewn goleuni ôl-drefedigaethol. Yn nwylo rhywun fel Arnold, fe all Celtigrwydd ymddangos fel ffurf ar 'Orientalism' oherwydd y duedd i gyffredinoli, lleihau, a hanfodoli. Ond i awduron trefedigaethedig gall gynnig bydolwg rhyddhaol sydd yn galluogi'r awdur i fabwysiadu nifer o safbwyntiau, yn amrywio o'r lled-drefedigaethol i'r gwrthdrefedigaethol, a hefyd i edrych i gyfeiriadau gwahanol, fel y sylwa Lyn Innes:

¹²⁵ Rob Gossedge, *The Old Order Changeth: Arthurian Literary Production from Tennyson to White* (Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2007), t. 183.

¹²⁶ T. Robin Chapman, 'Poetry Between the Wars', yn *A Guide to Welsh Literature, c. 1900-1996*, gol. Dafydd Johnston (Cardiff: University of Wales Press, 1998), tt. 50-88 (tt. 68-9).

¹²⁷ M. Wynn Thomas, 'Seisnigrwydd "Ymadawiad Arthur"', *Y Traethodydd*, CLXVII: 702 (Gorffennaf 2012), 142-67.

¹²⁸ Foster Evans, 'Bardd arallwlad', t. 46.

Although Orientalism and Celticism have been both, as Said argues, fields of study for justifying colonization, both also operated as a means of empowerment for women, for Irish nationalists, and for Indian nationalists, sometimes in coalition. There are dangers in this acceptance of categories, and these dangers include the reinforcement of definitions which have in the past been used to justify inequalities and hierarchies. But in so far as they also enabled group resistance or self-definition, they were not always merely disempowering or silencing.¹²⁹

Yn wir, i'r gwrthwyneb, yr hyn a gynigir gan hunaniaeth Geltaidd yw ystod eang o wahanol leisiau. Dyma Geltigrwydd sy'n rhoi rhyddid i Jones, mewn modd na allai cenedlaetholdeb uniongred, efallai, i arddangos dylanwad llenyddiaeth Saesneg, a nifer o lenyddiaethau eraill Ewropeaidd, yn ei waith ei hun, a hyd yn oed i gyfansoddi llenyddiaeth yn Saesneg. Amcan y thesis fydd cynnig her neu ail-ddehongliad o rai o nodweddion ôl-drefedigaethedd, gan ddadlau fod Celtigrwydd yn gweithredu ar draws ffiniau daearyddol diwylliannol, ac ieithyddol.

Er mwyn taflu goleuni pellach ar yr ystyriaethau hyn o fewn cyd-destun Celtaidd, bydd y gymhariaeth rhwng Cymru ac Iwerddon, a'r trafodaethau diwylliannol ac ieithyddol a oedd ar droed o fewn a rhwng y gwledydd hyn, yn amhrisiadwy. Dangosir y modd yr oedd nifer o wahanol fathau o Geltigrwydd yn cael eu trin a'u trafod yn y cyfnod, ac nad oedd pob elfen o bob math o Geltigrwydd yn apelio at wahanol garfanau. Yn wir, ceir enghreifftiau hanesyddol, yn enwedig ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, o amwysedd agwedd a gelyniaeth rhwng y gwahanol genhedloedd Celtaidd sydd yn awgrymu nad oedd trwch y boblogaeth yn ymdeimlo â brawdoliaeth Geltaidd o fath yn y byd. Fel y cyfeddyf un o awduron *Celtia*, 'Politics and religion have made wide gaps between the Celtic sister nations', ond gellir gosod y bai ar hynny, yn ôl yr awdur ar 'The Anglicisation of the insular Celts', oherwydd '[it] has degraded also the Welshman in the

¹²⁹ Innes, 'Orientalism and Celticism', t. 155.

eyes of the Irishman, and “Paddy” in the eyes of “Taffy”’.¹³⁰ Diau fod gwahaniaethau crefyddol yn chwarae rhan yn y drwgdeimlad hwn. Fel y sylwodd y *North Wales Observer and Express* yn 1904, ‘Between Wales and Ireland there was not only a feeling of coldness, but of actual hostility [...] Possibly Welsh Protestantism was partly responsible for that feeling’.¹³¹

Yn ychwanegol at hynny, yn yr un modd ag yr oedd nifer o aelodau y *Conradh na Gaeilge* yn ddrwgdybus o rai o weithgareddau hynafiaethol y pan-Celtiaid, noda Marion Löffler y modd yr oedd rhai newyddiaduron Cymreig yn annog: ‘Geltiaid anwyl, *march-iwch* oddi wrth degan plant yr hen Geltiaid gynt!’¹³² Eto i gyd, nid oedd y safiad hwn yn erbyn elfennau hynafiaethol Cyngres Ban-Geltaidd Caernarfon yn golygu ymwrthod â’r syniad o’r Celt, o reidrwydd, fel y dengys y dyfyniad uchod. Yn wir, derbyniad ffafriol a gafwyd i’r Gyngres ar y cyfan, yn ôl Löffler. Barn nodweddiadol a ddyfynnir ganddi yw un y *North Wales Observer and Express*, a sylwodd y cafodd gorymdaith y Celtiaid drwy strydoedd Caernarfon gryn effaith ar y trigolion lleol, ‘tending to impress upon the thousands who lined the pavements the reality of the Pan-Celtic ideas’.¹³³ Yr hyn a bwysleisir yma yw ‘reality’ cydweithrediad Celtaidd fel posibilrwydd diriaethol yn yr

¹³⁰ *Celtia*, I: 1 (1901), 3. Gweler hefyd, er enghraifft, Paul O’Leary, *Immigration and integration: the Irish in Wales, 1798-1922* (Cardiff: University of Wales Press, 2000). Yno disgrifir ymateb gwyliadwrus nifer o Gymry i’r ‘Fenian threat’ yn 1867 (t. 248-55), er y gellid dadlau fod nifer o Ryddfrydwyr wedi sylweddoli, yn nes at ddiwedd y ganrif, ‘that settling the Irish question was a precondition for tackling their own pressing national grievances’ (t. 268), ac felly wedi dangos rhywfaint o gydymdeimlad â’r Gwyddelod.

¹³¹ *North Wales Observer and Express*, Medi 2 1904. Dyfynnwyd yn Löffler, *A Book of Mad Celts*, t. 29. Yn yr un modd, dangosodd Trystan Owain Hughes hefyd fod tuedd i gymysgu agweddau gwrth-Gatholig â rhagfarnau yn erbyn y Gwyddelod yn gyffredinol (‘Catholic doctrines continued to be regarded as “the foreign dogmas of an ‘Italian or Irish Church’”’) ymhell i mewn i’r ugeinfed ganrif. Trystan Owain Hughes, *Winds of Change: The Roman Catholic Church and Society in Wales, 1916-1962* (Cardiff: University of Wales Press, 1999), t. 89-130 (t. 91), Serch hynny, credai rhai newyddiaduron adeg y Gyngres yng Nghaernarfon fod posibilrwydd, ‘as Wales grows out of its religious prejudices and becomes more liberal’, i ragor o gydymdeimlad a chydweithio ddod i’r amlwg. *Western Mail*, Awst 31 1904; dyfynnwyd yn Löffler, *A Book of Mad Celts*, t. 29.

¹³² *Y Celt Newydd*, Medi 9 1904. Dyfynnwyd yn Löffler, *A Book of Mad Celts*, t. 37.

¹³³ *North Wales Observer and Express*, Medi 2 1904. Dyfynnwyd yn Löffler, *A Book of Mad Celts*, t. 33.

ugeinfed ganrif, yn hytrach na gweithgareddau seremonïol, a'r ffaith fod i'r holl brosesiwn, yn ôl gohebydd y papur, 'no semblance of tinsel or make-belief'.¹³⁴

Rheidrwydd, mewn cyd-destun sydd yn cymharu datblygiadau cyfoes yng Nghymru ac Iwerddon, yw mynd y tu hwnt i'r ddeuoliaeth begynnol a gynigir gan theori ôl-drefedigaethol. Awgrymodd Kirsti Bohata fod deongliadau beirniaid megis Jeffrey Jerome o'r oesoedd canol yn golygu fod Cymru gyfan yn cael ei gweld fel tiriogaeth 'liminal', 'between colonizers and colonized'.¹³⁵ Gyda hyn sylweddolir nad perthynas gwlad drefedigaethol â'r grym imperialaidd yn unig sydd yn bwysig: 'there is great diversity among different historical examples of colonial others: describing the Welsh as "others" of the English, for example, is neither intentionally nor inevitably to imply that such otherness is coterminous with the otherness of Irish'.¹³⁶ Yn wir, gellir ystyried Celtigrwydd fel ffordd o aildehongli'r berthynas rhwng y Cymry a'r Gwyddelod, yn dilyn degawdau o ddrwgdybiaeth rhwng y naill a'r llall oherwydd amrywiol faterion megis rhan y Cymry yng ngoresgyniad Iwerddon, gelyniaeth rhwng Pabyddion a Phrotestaniaid, a'r mewnlifiad Gwyddelig i Gymru.

Ni fydd yr astudiaeth hon yn gallu cymryd i ystyriaeth bob un o'r ieithoedd a'r gwledydd Celtaidd. Ond trwy graffu ar ddau awdur a oedd yn ysgrifennu yng Nghymru ac Iwerddon pan oedd y ddwy wlad hynny yn wynebu newidiadau diwylliannol a gwleidyddol dybryd, gobethir cyfrannu at y drafodaeth ynghylch yr ymwneud rhwng y gwledydd Celtaidd â'i gilydd ar drothwy'r ugeinfed ganrif, a chynnig enghraifft o'r modd y gellid ymchwilio ymhellach i gysylltiadau cyffelyb. Dylid cadw mewn cof wrth ddarllen yr astudiaeth nad oedd agwedd a bydolwg Geltaidd T. Gwynn Jones neu W. B. Yeats ar

¹³⁴ *North Wales Observer and Express*, Medi 2 1904. Dyfynnwyd yn Löffler, *A Book of Mad Celts*, t. 33.

¹³⁵ Bohata, *Postcolonialism Revisited*, t. 7.

¹³⁶ Bohata, *Postcolonialism Revisited*, t. 19.

unrhyw gyfrif yn nodweddiadol o feddylfryd nifer o'u cydwladwyr, ac yn wir fel y dengys yr ail bennod fe ellid dadlau fod cyswllt agos rhwng Celtigrwydd y ddau awdur a'r cysyniad ohonynt fel ffigurau allanol, alltud.

‘Gormes arno yw’r presennol’? Adeiladu cenedl ar seiliau’r gorffennol

Efallai mai’r damcaniaethwr gwrth-drefedigaethol pwysicaf a mwyaf perthnasol yn achos T. Gwynn Jones a W. B. Yeats yw Frantz Fanon. Pwysig yn enwedig yw ei awgrym, yn *Les damnés de la terre* (1961), fod angen i ddiwylliant trefedigaethol ail-hawlio ei orffennol cyn gallu edrych tua’r dyfodol: ‘la revendication d’une culture nationale, l’affirmation de l’existence de cette culture représente un champ de bataille privilégié. Alors que les hommes politiques inscrivent leur action dans le réel, les hommes de culture se situent dans le cadre de l’histoire’.¹³⁷ Rhaid ymgymryd â’r frwydr hon, meddai, oherwydd fod diffiniadau ynghylch hunaniaeth yn dal i gael eu trafod a’u dadlau mewn gwledydd trefedigaethedig:

On a pu s’étonner de la passion investie par les intellectuels colonisés pour défendre l’existence d’une culture nationale. Mais ceux qui condamnent cette passion exacerbée oublient singulièrement que leur psychisme, leur moi s’abritent commodément derrière une culture française ou allemande qui a fait ses preuves et que personne ne conteste.¹³⁸

Yn wir, dim ond o dan bwysau aruthrol bygythiad i’w hunaniaeth oddi wrth rym allanol, awgryma Fanon, y gellir dod i’r cyswllt hwn â gwareiddiad a diwylliant eu ‘pobl’ cyn iddynt gael eu trefedigaethu:

Parce qu’ils se rendent compte qu’ils sont en train de se perdre, donc d’être perdus pour leur peuple, ces hommes, la rage au coeur et le cerveau fou,

¹³⁷ Frantz Fanon, *Les damnés de la terre* (Paris: François Maspero, 1961), t. 157: ‘Mae’r ymdrech i hawlio diwylliant cenedlaethol, ac i gadarnhau bodolaeth y diwylliant hwnnw, yn cynrychioli maes brwydr breintiedig. Tra bo’r gwleidyddion yn gweithredu yn y byd real, presennol, y mae gwŷr diwylliant yn eu lleoli eu hunain o fewn hanes.’

¹³⁸ Fanon, *Les damnés de la terre*, t. 157: ‘Fe allem ryfeddu wrth yr angerdd a ddangoswyd gan y deallusion trefedigaethedig wrth amddiffyn bodolaeth diwylliant cenedlaethol. Ond y mae’r rhai sy’n condemnio’r angerdd gormodol hwn yn rhyfedd yn anghofio eu bod eu hunain, a’u meddylfryd eu hunain, yn cael lloches cyfleus tu ôl i ddiwylliant Ffrengig neu Almaenig a roes brawf ohono’i hunan, ac nad oes neb yn ei wrthod’.

s'acharnent à reprendre contact avec la sève la plus ancienne, la plus anté-coloniale de leur peuple.¹³⁹

Eto, wrth gwrs, amlygir yma beryglon cymhwysio theori ôl-drefedigaethol i wahanol ddiwylliannau, oherwydd na wynebodd Jones na Yeats fygythiad gwirioneddol i'w bywydau oherwydd eu cyflwr trefedigaethedig, ac na all y dyfyniad uchod yn ei grynswth, felly, fod yn berthnasol iddynt. Ond dadleuir, ar y llaw arall, fod y bygythiad o golli bywyd ieithyddol neu ddiwylliannol eu gwledydd hefyd yn ddigon o gymhelliad i estyn yn ôl ac ailddarganfod y 'tarddiad cyn-drefedigaethol' hwn.

Yng Nghymru ac Iwerddon, yr oedd troad yr ugeinfed ganrif yn gyfnod ffrwythlon o adeiladu cenedl. Yng Nghymru gwelwyd sefydlu Prifysgol Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol, a ddilynwyd maes o law gan ddatgysylltu'r Eglwys, gan roi synnwyr llawer cryfach o arwahanrwydd i'r Cymry nag a gaed yn flaenorol. Ar y llaw arall, fodd bynnag, yr oedd adleisiau o 'Frad y Llyfrau Gleision' 1847 yn rhai o adroddiadau Arnold, a pharhâi addysg yn dra Seisnig. Ond er i obeithion gwleidyddol mudiadau megis Cymru Fydd am annibyniaeth fethu a phylu'n bur gyflym,¹⁴⁰ ffynnai'r Eisteddfod Genedlaethol, ac roedd hithau a'r Orsedd hefyd yn cynnig i'r Cymry symbolau ychwanegol o'u harwahanrwydd a'u hynafiaeth. Er y byddai blynyddoedd lawer eto cyn i'r Ymerodraeth Brydeinig ddechrau dadfeilio o ddifrif, roedd rhai awduron, fel Jones a Yeats, a mudiadau fel Cymru Fydd a'r ymgyrch 'Home Rule' yn Iwerddon, eisoes yn edrych y tu hwnt iddi ac yn dechrau dychmygu dyfodol tra gwahanol, yn ddiwylliannol ac yn wleidyddol. Fel y sylwodd Saunders Lewis, '[n]i allai awdl T. Gwynn Jones ar destun Ymadawiad Arthur fod yn ddim llai na symbol o holl

¹³⁹ Fanon, *Les damnés de la terre*, t. 157: 'Oherwydd y sylweddolant eu bod ar gael eu colli, ac felly mewn perygl o gael eu colli gan eu pobl, ymdrecha'r gwŷr hyn, â dichter yn eu calonnau a'u meddyliau'n wyllt, i ailsefydlu'r cyswllt â tharddiad hynaf, mwyaf cyn-drefedigaethol, eu pobl.'

¹⁴⁰ Ceir dau gofnod gwerthfawr a gwahanol o lwyddiannau a methiannau'r mudiad yn William George, *Cymru Fydd: hanes y mudiad cenedlaethol cyntaf* (Lerpwl: Gwasg y Brython, 1945), a Dewi Rowland Hughes, *Cymru Fydd 1886-1896* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006).

obaith a holl gynnwrf cenedlaetholdeb Cymru o'r pryd yr aeth Tom Ellis i senedd Westminster yn 1886'.¹⁴¹

Yn achos Iwerddon, rhydd Wayne E. Hall arolwg o'r modd yr arweiniodd triniaeth annheg o'r dosbarth gweithiol, amaethyddol ynghyd â ffactorau allanol megis y Newyn at ddirywiad enbyd ym mhoblogaeth Iwerddon ond hefyd at anghytundeb a thyndra ynghylch perchnogaeth tir.¹⁴² Byddai'r helyntion hyn yn llywio hinsawdd y wlad am ddegawdau, a chyda dyfodiad Charles Stewart Parnell a'r 'Land League' cafodd y materlais a chryfder gwleidyddol nas cawsai'n flaenorol. Dim ond rhannol lwyddiannus, fodd bynnag, oedd mentrau'r 'Land League', ac ni lwyddodd mesurau megis 'Land Reform Bill' 1881 i dawelu'r dyfroedd yn llwyr. Yr oedd eraill, megis Michael Davitt, yn ffafrio dulliau mwy radical o ddwyn y maen i'r wal, ond hyd ei garchariad yn 1881 daliodd Parnell at ddulliau mwy cymhedrol o roi pwysau ar lywodraeth Prydain. Yn ddiweddarach, trodd y pwyslais oddi wrth ddiwygio amaethyddol tuag at 'Home Rule', a hynny'n rhannol o leiaf, yn ôl Hall, am resymau ariannol. Fodd bynnag, gwelodd Parnell gynnydd yn ei boblogrwydd ei hun wrth i'r alwad am 'Home Rule' ennill tir yn 1880au dan arweiniad y 'National League'. Ni pharhaodd yn boblogaidd, fodd bynnag, wrth i'w berthynas â gwraig briod ddod i'r amlwg yn sgil ei hysgariad â'i gŵr. Yn hytrach na gadael ei swydd, mynnodd Parnell ddal gafael yn yr awenau, er bod agweddau amryw tuag ato yn bygwth rhwygo'r Blaid Wyddelig yn ddwy. Fodd bynnag, bu Parnell farw'n ddisymwth yn 1891, ac roedd hynny'n ddyrnod tra annisgwyl i achos 'Home Rule'.

Ym marn Hall, 'two distinct strands, of land reform and of Home Rule, had run through Irish politics, each rendered increasingly less effective the greater its separation from the other', a thuedd Hall yw gweld sgandal Parnell, a'i farwolaeth ddisymwth, fel

¹⁴¹ Lewis, 'Morte D'Arthur a'r Passing of Arthur', 44.

¹⁴² Wayne E. Hall, *Shadowy Heroes: Irish Literature of the 1890s* (New York: Syracuse University Press, 1980).

ergyd farwol i genedlaetholdeb seneddol, wleidyddol yn Iwerddon y bedwaredd ganrif ar bymtheg.¹⁴³ Yn sgil hyn, y mae'n naturiol i Hall nodi bod math o wacter yn bodoli yn Iwerddon yr 1890au, a bod y gwacter hwnnw wedi'i lenwi drwy droi at syniadaeth Samuel Ferguson a Thomas Davis, ac yn benodol at genedlaetholdeb ddiwylliannol. Yn y 1890au, felly, hybu diwylliant Gwyddelig oedd y modd mwyaf effeithiol o arddangos a chryfhau ymdeimlad o genedlaetholdeb. Fel y sylwodd Daniel Williams, dyma oedd y modd y gwelai Yeats ei hun y cyfnod wrth edrych yn ôl arno'n ddiweddarach. Ond awgrymir gan Williams hefyd na allwn weld y newid hwn o genedlaetholdeb gwleidyddol i genedlaetholdeb diwylliannol fel rhywbeth taclus a ddigwyddodd dros nos: 'R. F. Foster rejects Yeats's reading of the period, and notes the range of activities pursued by the Irish Parliamentary Party and the United Irish League throughout the the 1890s, the attempts at passing a second Home Rule Bill in 1893, and the more significant reform of local government in 1898'.¹⁴⁴ Yn ôl Williams, rhaid i ni edrych hyd yn oed ar weithgareddau diwylliannol 'pur' y 1890au mewn golau gwleidyddol oherwydd 'the motivation for that development was itself political – the attempt to define through literature an independent Irish identity'.¹⁴⁵ Er ymrwymiad honedig awduron y 1890au i faterion esthetig, felly, ac er mor werthfawr yw hanesion megis cyfrol Holbrook Jackson sy'n rhoi'r argraff hon i ni o'r cyfnod,¹⁴⁶ rheidrydd hefyd yw cadw gweithgareddau gwleidyddol parhaus y cyfnod mewn cof.

Ar y lefel fwyaf sylfaenol, gellid dadlau y cyrhaeddwyd nod y gweithgaredd hwnnw yn achos un awdur, Yeats, oherwydd i Iwerddon yn ystod ei oes yntau ennill rhyw lun ar

¹⁴³ Hall, *Shadowy Heroes*, t. 34.

¹⁴⁴ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, t. 122.

¹⁴⁵ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, t. 122.

¹⁴⁶ Holbrook Jackson, *The eighteen nineties: a review of art and ideas at the close of the nineteenth century* (London: Grant Richards, 1913).

annibyniaeth oddi wrth Brydain. Ar y llaw arall, nis cyrhaeddwyd yn achos Jones oherwydd na chafwyd annibyniaeth wleidyddol i Gymru yn ei amser, ac y gwelwyd gwanhau mudiad Cymru Fydd a rhoi taw, am y tro, ar ryddfrydiaeth Gymreig fel grym dichonadwy a allai uno Cymru'n wleidyddol. Byddai golwg o'r fath, fodd bynnag, yn agored i gyhuddiadau o orsymleiddio a chyffredinoli, nid yn lleiaf oherwydd natur dreisgar y frwydr am annibyniaeth yn Iwerddon a'r cymhlethdodau a ddaeth yn sgil yr ymdrech honno, cymhlethdodau y chwaraeodd Yeats ei hun ran flaenllaw yn eu trafod. Mater arall hefyd yw ystyriaeth ynghylch parhad ieithyddol a'r modd y datblygodd neu y newidiodd hynny yn ystod gyrfaoedd Jones a Yeats, a pha gyfraniad a oedd ganddynt hwythau yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn y cyswllt hwn. Gorsyml yn ogystal fyddai dadlau fod Celtigrwydd, fel math ar genedlaetholdeb diwylliannol, wedi colli ei berthnasedd i Yeats yn sgil adfywiad cenedlaetholdeb wleidyddol ac annibyniaeth yn Iwerddon. Yn hytrach, dylid olrhain y modd y newidiodd ac y datblygodd Celtigrwydd y ddau awdur mewn ymateb i amrywiol drobwyntiau gwleidyddol dechrau'r ugeinfed ganrif.

Er mwyn gallu cyflawni hyn, y mae cwmpas cronolegol yr astudiaeth yn gymharol eang. Ar y naill law y mae olrhain datblygiad cynharaf a gwreiddiau Celtigrwydd yn estheteg farddonol Jones a Yeats yn angenrheidiol, ac er mwyn gwneud hynny y mae'n rhaid dychwelyd i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a bwrlwm cenedlaetholdeb ddiwylliannol Cymru ac Iwerddon yn y cyfnod. Ar gyfnodau cynharach gyrfaoedd yr awduron y bydd y pwyslais helaethaf o fewn yr astudiaeth. Ar y llaw arall, bydd olrhain y modd yr ymatebodd y ddau awdur, yn eu Celtigrwydd, i rai o brif ddiwyddiadau hanesyddol chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif, hefyd yn hanfodol. Yn wir rhaid gofyn yn

achos nifer o'r digwyddiadau hyn ai ymateb i weithredoedd ynteu, yn hytrach, eu symbylu, a wnaeth nifer o gerddi Celtaidd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats.

O osod gwaith y ddau awdur yn erbyn y cefndir hanesyddol hwn, fodd bynnag, a cheisio olrhain math ar ddatblygiad cronolegol, rhesymegol a threfnus yn eu barddoniaeth, yr ydys mewn perygl o syrthio drachefn i'r fagl ôl-drefedigaethol, sef tuedd i ddehongli cyfnod hanesyddol fel naratif ac iddo ben teleolegol yn yr achos hwn, ennill annibyniaeth. Nid dim ond oherwydd na ddaeth annibyniaeth i Gymru o fewn oes T. Gwynn Jones y rhybuddir yn erbyn dehongliad o'r fath, ond er mwyn symud unwaith eto oddi wrth y cysyniad o ddatblygiad o gyfnod o 'ryddid/annibyniaeth', yna at sefyllfa 'drefedigaethol', cymal 'gwrth-drefedigaethol' ac yna, yn olaf, yr 'ôl-drefedigaethol'. Yn wir, byddai rhoi blaenoriaeth i, a thadogi rhagoriaeth ar, ddatblygiad llinellol, naratifol a theleolegol o'r fath yn nodweddiadol o feddylfryd Arnoldaidd. Yn hytrach, dylid synio am Geltigrwydd fel fforwm lle gellid dwyn y trefedigaethol, y gwrth-drefedigaethol a'r ôl-drefedigaethol ynghyd i'w trin a'u trafod. Fel y sylwodd Said wrth drafod cysyniad Benedict Anderson o'r 'imagined community', y mae'n fodlon cydnabod dilysrwydd hyn cyn belled nad oes rhaid derbyn 'his mistakenly linear periodizations of unofficial and official nationalism. In the cultural discourses of decolonization, a great many languages, histories, forms, circulate'.¹⁴⁷

Gwahaniaetha Daniel Williams rhwng dwy ffordd o synio am ddatblygiad cenedl drwy addasu termau o waith Said a'u cymhwyso at ysgrifau Matthew Arnold.¹⁴⁸ Eglura fod dwy ffordd bosibl, yn llygaid Arnold, o synio am genedligrwydd:

The English and the Italians possess the latter kind of nationality ['narrativized']; it is a product of history, diachronic and subject to further change. The nationhood of the Poles, the Welsh, and the Irish is conceived of in visualized

¹⁴⁷ Said, *Yeats and Decolonization*, t. 86.

¹⁴⁸ Cyfeiria Williams yn benodol at ysgrif Arnold, 'England and the Italian Question' (1859).

terms, demonstrating certain eternal racial characteristics, synchronic, atemporal and static.¹⁴⁹

O fewn model o'r math, gellir defnyddio nodweddion cenedligrwydd naratifol (*narrativized*) i ddadlau fod ganddi ragoriaeth gynhenid dros genedligrwydd gweledigaethol (*visualized*). Fe ellid dadlau hefyd mai meddylfryd o'r fath, ac ystyriaeth o Geltigrwydd fel cenedligrwydd na ellir ond synio amdano mewn modd gweledigaethol, sydd wedi esgor ar nifer helaeth o astudiaethau a geisia osod Jones a Yeats mewn un garfan lenyddol neu'i gilydd, a'u diffinio un ai fel rhamantwyr neu fodernwyr. Fel hyn y crisielir profiad y bardd rhamantaidd gan Llywelyn-Williams:

Gormes arno yw'r presennol. Ni all ganfod ynddo na phrydfertwch na hawddgarwch, ac ymdeimla'r rhamantydd felly ag awydd i ddianc rhagddo ac i greu yn y dychymyg ryw fyd neu gyflwr perffaith fel iawn am hagrwech a llwydni bywyd heddiw.¹⁵⁰

Boed y dehongliad hwn o fardd rhamantaidd yn un cywir ai peidio, un o amcanion sylfaenol y thesis fydd mynd i'r afael â'r datganiad hwn mewn cyswllt â Cheltigrwydd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, gan ddadlau fod i'w gwaith lawer rhagor o gymhlethdod a dyfnder nag y mae'r awgrym uchod yn ei ganiatáu. Ar yr un pryd â dadlau fod ôl-drefedigaethedd yn rhy chwannog i osod safonau a disgwyliadau y cysyniad 'naratifol' o genedligrwydd ar awduron Cymru ac Iwerddon, cynigir hefyd fod deongliadau megis un Llywelyn-Williams yn gaeth i ystyried cenedligrwydd yr awduron fel rhai 'gweledigaethol' yn unig. Un amcan i'r astudiaeth hon, felly, fydd archwilio sut yr aeth Jones a Yeats ati i arysgrifio'r naratifol ar y gweledigaethol, a *vice versa*.

Mwy buddiol, yn sgil hyn, yw holi a yw labeli megis rhamantiaeth a moderniaeth yn berthnasol o gwbl yng nghyd-destun Celtigrwydd a llenyddiaeth diwylliannau

¹⁴⁹ Daniel Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Postcolonialism', t. 7.

¹⁵⁰ Llywelyn-Williams, *Y Nos, y Niwl, a'r Ynys*, t. 108.

lleiafrifol. Fel y sylwa Seamus Deane am Yeats, '[a]t the age of 43 he already appeared to be "one of that generation of massive late Victorians who were to dominate our literature". At the age of 50 he had become one of the great modernists'.¹⁵¹ Cofier, yn yr un modd, awgrym Peredur Lynch fod modd synio am yrfa lenyddol T. Gwynn Jones fel '[p]ont eithriadol o bwysig rhwng y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif'.¹⁵² O ystyried hynny, gellir dychwelyd at gysyniad o Geltigrwydd, nid fel mudiad naratifol ac iddo ben draw rhesymegol, teleolegol, ond yn hytrach fel gofod i archwilio ac ail-negodi hunaniaeth, ac er mwyn ailddehongli'r gorffennol. Y mae Celtigrwydd o'r fath hefyd yn cydnabod nad traddodiad parhaol, parhaus a di-dor a etifeddir gan y Celt, ond yn hytrach gyfres o hanesion a chwedlau drylliedig. Y mae Fanon, drachefn, yn neilltuol o berthnasol yn y cyswllt hwn:

La revendication d'une culture nationale passée ne réhabilite pas seulement, ne fait pas que justifier une culture nationale future. Sur le plan de l'équilibre psycho-affectif elle provoque chez le colonisé une mutation d'une importance fondamentale [...] Le colonialisme ne se contente pas d'enserrer le peuple dans ses mailles, de vider le cerveau colonisé de toute forme et de tout contenu. Par une sorte de perversion de logique, il s'oriente vers le passé du peuple opprimé, le distord, le défigure, l'anéantit.¹⁵³

Yn y sefyllfa drefedigaethol, felly, ni ellir ond etifeddu hanes a diwylliant drylliedig, ac felly nid ei ail-hawlio yw'r nod yn unig, ond ail-greu, a gwneud synnwyr, o'r amrywiol ddrylliau hyn.

Yn wir, yn ôl Seamus Deane: 'the demands made by a dramatically broken history on writers who are caught between identities, Irish and British, Irish and Anglo-Irish,

¹⁵¹ Deane, *Celtic Revivals*, t. 36.

¹⁵² Peredur Lynch, 'Refferendwm 1979, Cerddi Ianws a Thopos "Y Cymry Taeog"', yn *Ysgrifau Beirniadol XXX*, gol. Gerwyn Williams (Bethesda: Gwasg Gee, 2011), tt. 78-109 (t. 95).

¹⁵³ Fanon, *Les damnés de la terre*, t. 158: 'Nid yn unig y mae hawlio diwylliant cenedlaethol yn y gorffennol yn ailsefydlu cenedl ac yn cyfiawnhau diwylliant cenedlaethol yn y dyfodol. Yng nghyswllt cydbwysedd seico-emosynol mae'n gyfrifol am newid sylfaenol bwysig yn y brodor [...] Nid yw trefedigaethedd yn fodlon â dal pobl yn ei chrafangau, ac â gwagio'r meddwl trefedigaethedig o bob ffurf a phob cynnwys. Trwy rhyw fath o wyrdroad rhesymegol, try i wynebu gorffennol y bobl orthrymedig, gan ei lurgunio, ei anffurfio, a'i ddiinstrio'.

Catholic and Protestant, are irresistible'.¹⁵⁴ Yn yr un modd, gwêl Laura O'Connor y ffîn neu'r man cyfarfod rhwng diwylliannau fel y man pwysicaf a mwyaf cynhyrchiol ar gyfer llenyddiaeth fodernaidd, wrth-drefedigaethol.¹⁵⁵ Daw'r ddwy garfan hyn i gyfarfod, yn ddaeryddol, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol, yn yr hyn a elwir gan O'Connor yn 'Celtic Fringe', neu 'Beyond the Pale'. Yn ôl O'Connor gellir dehongli'r 'Fringe' mewn modd confensiynol 'Geltaidd': 'The Pale is a limit; the Fringe is consistently associated with liminality: twilit zones, misty horizons, chimerical visions, and vanishing lore'.¹⁵⁶ Cawn ein hatgoffa yma o'r niwl y canolbwyntiodd Alun Llywelyn-Williams yntau arno. Ond yn y delweddau a welwyd gan Llywelyn-Williams fel nodweddion mwyaf rhamantaidd T. Gwynn Jones, y mae ymgorfforiad amlycaf y frwydr fodernaidd rhwng traddodiad a modernedd, hefyd, yn ôl O'Connor, mewn safle o ymrafael hunaniaethaol radical a chyfnewidiol: 'The Pale/Fringe refers to the linguistic contact zone in which the contours of cultural identity (British, Celtic, Anglo-Saxon, English, Gaelic, Irish, Welsh, Highlander, Lowlander, Scotch-Irish) and popular images of those ethnic groups and their vernaculars are established, contested, renegotiated, and changed'.¹⁵⁷ Gellir gwthio darlleniad O'Connor ymhellach, gan ddadlau y dylid ychwanegu 'Cymry', 'Gaeilge' ac ati i'r rhestr uchod, ac awgrymu nad yw'r negodi hwn yn digwydd mewn safle daeryddol penodol, yn y man canol rhwng y *fringe* a'r metropolis, yn unig. Ond y mae ei hail-ddehongliad hithau o'r 'Celtic Fringe' yn hanfodol i ddealltwriaeth o'r Celt fel y caiff ei ddisgrifio yma.

Mwy perthnasol, felly, o gymryd yr olwg hon, yw awgrym Jerry Hunter fod defnydd o ddrylliau a chanoloesoldeb yn ganolog i foderniaeth T. Gwynn Jones, neu hyd

¹⁵⁴ Deane, *Celtic Revivals*, t. 15.

¹⁵⁵ O'Connor, *Haunted English*, t. xiv.

¹⁵⁶ O'Connor, *Haunted English*, t. xiv.

¹⁵⁷ O'Connor, *Haunted English*, t. xv.

yn oed gynnig Derec Llwyd Morgan: ‘Yr oedd, os goddefwch yr wrtheb, yn draddodiadwr arloesol’.¹⁵⁸ Yn yr un modd hawlia Marjorie Howes mai ei hamcan yw canolbwyntio ‘on nationality, rather than nationalism’,¹⁵⁹ ac ail-wneud parhaol yr elfen honno yng ngwaith Yeats. Awgryma Howes

that Yeats’s occult and metaphysical preoccupations were crucial components of his national and political concerns rather than a separate sphere in which he could either escape or represent those concerns.¹⁶⁰

Gwelir felly y gall cysyniad o Geltigrwydd o’r math hwn gynorthwyo i herio’r dadansoddiad o farddoniaeth Jones a Yeats fel dihangfa lwyr, ffantasiol, sydd yn ymwrthod â hanes ac yn sefyll yn gwbl ar wahân i faterion gwleidyddol, diwylliannol, economaidd ac ieithyddol y byd real. Trwy gyflawni hyn gellir herio hefyd y dybiaeth, a nodweddir gan feirniaid megis George Watson ac sydd yn seiliedig ar ddeongliadau hanfodaidd, Renanaidd, fod y Celt yn endid digyfnewid sydd yn sefyll oddi allan i amser a hanes.¹⁶¹ Yn hytrach, fel yr awgryma Seamus Deane, dylid darllen gwaith Yeats (a Jones) fel ‘a body of traditional work in which history is endlessly inscribed, but a history that is powerfully and curiously achronic, a history that is not [...] distinct from legend’.¹⁶² Wrth gwrs, fel y sylwa Gregory Castle yn ei ddehongliad yntau o awduron Celtaidd fel anthropolegwyr modernaidd, y mae peryglon a chymhlethdodau hefyd ynghlwm wrth ystyried ymwneud y Celt â hanes yn y fath fodd:

¹⁵⁸ Derec Llwyd Morgan, ‘Cyflwyniad’, yn T. Gwynn Jones, *Caniadau*, 2il arg. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992), tt. i-viii (t. v).

¹⁵⁹ Howes, *Yeats’s Nations*, t. 5.

¹⁶⁰ Howes, *Yeats’s Nations*, t. 2.

¹⁶¹ ‘[T]he intellectual strategy of Celticism is the annulment, elision or denial of history [...] For a culture to have no history puts it beyond change [...] “the Celtic” and “change” are seen as antithetical categories’. George Watson, ‘Celticism and the Annulment of History’, yn *Celticism*, gol. Terence Brown (Amsterdam: Rodopi, 1996), tt. 207-220 (tt. 208-11).

¹⁶² Seamus Deane, *Strange Country: Modernity and Nationhood in Irish Writing since 1790* (Oxford: Clarendon Press, 1997), t. 116.

What the Celtic Revivalists reveal in their complicit relationship with anthropology is a quintessentially modernist dilemma – the gap between experience and its representation – which in an Irish context takes on a conservative character that threatens to transform the revolutionary energies of the Revival into a reactionary nostalgia for “archaic,” pre-colonial origins.¹⁶³

Yn ôl Castle, llwydda Yeats i osgoi hynny o drwch blewyn, ond erys y gred ‘that the Celtic Revivalists create a “contact zone” in which a traditional or “archaic” folk culture enters into a productive and, at times, critical dialogue with the modernizing tendencies of anthropology’.¹⁶⁴ Gellir dychwelyd drachefn yma, felly, at awgrym Tomos Owen fod modd ailgylchu elfennau ‘residual’ diwylliant er mwyn eu gosod, drachefn, fel diwylliant ‘emergent’ sydd yn herio’r ‘dominant’.¹⁶⁵ Trwy hyn y gellir negodi gofod i’r Celt rhwng cenedligrwydd naratifol a chenedligrwydd gweledigaethol, a hyn sydd yn galluogi beirniad fel Daniel Williams i gasglu nad hanfodaeth, o reidrwydd, mo Celtigrwydd, ond symudiad radical, *avant-garde*.¹⁶⁶

¹⁶³ Gregory Castle, *Modernism and the Celtic Revival* (Cambridge: Cambridge University Press, 2001), t. 36.

¹⁶⁴ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 36.

¹⁶⁵ Owen, *London-Welsh Writing 1890-1915*, t. 42.

¹⁶⁶ Williams, ‘Pan-Celticism and the limits of Postcolonialism’, t. 17.

Strwythur y thesis

Yn yr ail bennod, awgrymir fod Celtigrwydd yn cynnig modd o ddygymod ag alltudiaeth, ar lefel profiad personol T. Gwynn Jones a W. B. Yeats a hefyd wrth iddynt ddod i delerau â'r modd y cafodd y Cymry a'r Gwyddelod eu dad-dirioogaethu neu eu dadleoli i raddau gan y broses drefedigaethol. Cynigia Celtigrwydd ffordd o dreiddio o'r 'Fringe', neu'r ymyl Celtaidd, i'r canol cosmopolitan, imperialaidd, a'i adfeddiannu a'i ail-lunio ar ei dermau ei hun.¹⁶⁷ Fel y sylwa Joep Leerssen, daw'r gwledydd Celtaidd i gael eu hystyried fel gofod ymylol, yn ddaearyddol a diwylliannol, ac yn hynny o beth, yn ôl Leerssen, y mae eu perthynas â'r canol imperialaidd yn debyg i berthynas gwledydd trefedigaethol, 'ecsotig' eraill.¹⁶⁸ Ond ni allwn ychwaith fodloni ar symlwrwydd y ddeuoliaeth hon, oherwydd i Geltigrwydd am gyfnod ddod yn ystyriaeth ganolog o fewn y metropolis. Bydd y bennod yn fodd o ymrafael â datganiad Ania Loomba 'that both the 'metropolis' and the 'colony' were deeply altered by the colonial process. Both of them are, accordingly, also restructured by decolonisation'.¹⁶⁹

Yn y drydedd bennod, dadleuir fod Celtigrwydd yn croesi ffiniau ieithyddol, ac yn gweithredu ar lefelau ieithyddol gwahanol o ran ffurf a chywair. Trwy wneud hyn cyfyd Celtigrwydd gwestiynau ynghylch y berthynas rhwng iaith a hunaniaeth. Gall esgor hefyd ar hunaniaeth sydd ar yr un pryd yn genedlaetholgar ac yn Ewropeaidd, yn rhyngwladol ei bydolgwg. Yn hyn o beth gwelir sut y mae Celtigrwydd yn cydymffurfio â honiad Fanon mai '[c]'est au coeur de la conscience nationale que s'élève et se vivifie la conscience internationale. Et cette double émergence n'est, en définitive, que le foyer de toute

¹⁶⁷ O'Connor, *Haunted English*, t. xiv: 'The Celtic Fringe refers territorially to the western and northwestern pockets of Welsh Wales and the Gaeltacht and symbolically to the zone where Britons' English-only self-image begins to fray and merge into otherness, an archaic fragmentary past, and a subliminal sense of loss.'

¹⁶⁸ Leerssen, 'Celticism', t. 7.

¹⁶⁹ Loomba, 'Situating Colonial and Postcolonial Studies', t. 1110.

culture'.¹⁷⁰ Yn sgil hyn oll, dadleuir hefyd y llwydda'r Celt fel y'i dychmygir yng ngwaith Jones a Yeats i fabwysiadu safbwynt sydd ar yr un pryd yn fewnol ac allanol. Un o'r strategaethau wrth gyflawni hyn yw cymryd arnynt safbwyntiau yr artist a'r ysgolhaig, dau safle y gellid dadlau eu bod yn perfformio swyddogaeth anthropolegol, ac sydd hefyd yn croesi rhwng y trefedigaethedig a'r trefedigaethol. Archwilir y safbwyntiau hyn yn y bedwaredd bennod.

Fel y sylwodd Laura O'Connor, y mae Celtigrwydd ar ei ffurf Arnoldaidd yn dra phroblematig am nifer o resymau yn ymwneud ag iaith ac ethnigrwydd:

Although the term *Celtic* would seem to flaunt the linguistic basis of ethnic difference among Britons, historically it has served to suppress it by representing Gaelic and Welsh cultures as geographically and historically remote. English culture is here and now; Gaelic and Welsh cultures, by contrast, are transposed into a Celtic Fringe that recedes into the distant mists of a faraway place and a once-upon-a-time mythic space. The effect of the peripheralization is to deny the contemporaneity of adjacent Gaelic- and Welsh-speaking cultures by imagining them as a storehouse of an ancient cultural tradition, which can be salvaged, through translation into English, as a "Celtic" heritage for all Britons.¹⁷¹

Un o brif amcanion y thesis wrth symud o'r bedwaredd i'r bumed bennod fydd archwilio sut y mae'r Celt yn nwylo T. Gwynn Jones a W. B. Yeats yn mynd ati i ddryllio a chwarae â hanes ac yn disodli rhagoriaeth ddealedig y dehongliad naratifol o genedligrwydd ar y naill law, ac yn arysgrifio elfennau o genedligrwydd naratifol ar ddehongliad gweledigaethol, hanfodaidd Arnold ar y llaw arall. Bydd y bennod hefyd yn dychwelyd at honiad Fanon fod y grym trefedigaethol yn 'gwagio'r meddwl trefedigaethedig o bob ffurf a phob cynnwys', ac yn ystyried y gosodiad hwn yng ngolau gwaith Jones a Yeats. Y mae hyn hefyd yn ei dro yn codi nifer o gwestiynau ynghylch dilysrwydd, addasrwydd a defnyddioldeb termau monolithig megis 'rhamantiaeth' a 'moderniaeth' wrth fynd i'r

¹⁷⁰ Fanon, *Les damnés de la terre*, t. 185: 'Wrth galon ymwybyddiaeth genedlaethol y cyfyd ac y bywha ymwybyddiaeth ryngwladol. Ac nid yw'r esgoriad deuol hwn, yn y pen draw, ond rhywbeth sydd wrth wraidd pob diwylliant'.

¹⁷¹ O'Connor, *Haunted English*, t. xv.

afael â llenyddiaethau lleiafrifol, ac archwilir hynny hefyd yn y bumed bennod drwy roi ystyriaeth i arddull a ffurf ym marddoniaeth Geltaidd Jones a Yeats.

Bydd y thesis yn cloi drwy ddadlau fod lle, bellach, i ailystyried pwysigrwydd T.

Gwynn Jones a'i ddylanwad ar lenyddiaeth a gwleidyddiaeth Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Diddorol yw cofio geiriau Saunders Lewis mewn sgwrs ag Aneirin Talfan Davies:

Trwy ddarllen llenyddiaeth Yeats, Synge, Patrick Colum [...] y des i, am y tro cyntaf, i ddeall beth oedd gwlatgarwch ac ysbryd cenedl. Ac yn fuan mi ddechreuais i feddwl fod pethau fel yna, oedd yn gafael ynddyn' nhw yn Iwerddon, yn briodol i mi afael ynddyn' nhw yng Nghymru.¹⁷²

Nid yw Lewis, yma, yn cydnabod pwysigrwydd T. Gwynn Jones yn yr un modd.

Mentrodd R. M. Jones, ar y llaw arall, awgrymu fod dylanwad T. Gwynn Jones yn aruthrol ar y Saunders Lewis ieuanc. Pam, tybed, nad yw Saunders Lewis yn cydnabod nemor ddim o ddylanwad T. Gwynn Jones, a'i fod eto'n barod iawn i enwi Yeats fel un a daniodd deimladau cenedlaetholgar ynddo? Gobeithio y bydd yr astudiaeth hon yn cynnig ailystyriaeth o le T. Gwynn Jones a W. B. Yeats fel beirdd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Un o amcanion astudiaeth o'r fath fydd cymryd i ystyriaeth ddatblygiad

Celtigrwydd y ddau awdur dros nifer o flynyddoedd, wrth iddynt geisio ailddiffinio eu safleoedd fel beirdd yn chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif, ac o ganlyniad y mae cwmpas cronolegol yr astudiaeth yn anochel yn gymharol faith. Yn 1890, man cychwyn cronolegol yr astudiaeth, yr oedd T. Gwynn Jones yn bedair ar bymtheg oed, a W. B. Yeats yn bump ar hugain. Olrheinir datblygiad eu Celtigrwydd felly o'u hysgrifennu cynnar hyd 1925, er mwyn gallu ei olrhain hyd at gyfnod y frwydr dros annibyniaeth Iwerddon a datblygiadau rhyngwladol yn ei sgil. Oherwydd yr ystod cymharol eang hwn,

¹⁷² Saunders Lewis, 'Dylanwadau: Saunders Lewis Mewn Ymgom ag Aneirin Talfan Davies', *Taliesin*, 2 (Nadolig 1961), 5-18 (t. 9).

cyfyngir ar y draffodaeth yn bennaf i farddoniaeth yr awduron, er cydnabod eu bod hefyd yn nofelwyr ac yn ddramodwyr, a defnyddir nifer o'u hysgrifau a'u gweithiau beirniadol er mwyn darparu cyd-destun deallusol a chymdeithasol i'r farddoniaeth.

Pennod 2

‘Amgen bro na’i fro ei hun’: Alltudiaeth, Celtigrwydd a’r *Unheimlich*

Yr ‘argyfwng alltudiol’: alltudiaeth bersonol a diwylliannol

Yn ôl Ernest Renan, roedd hanes y Celt yn ‘une longue complainte; elle se rappelle encore ses exils, ses fuites à travers les mers’.¹ Nodweddiadol o gymeriad y Celtiaid, yn ôl Renan, yw’r tinc hiraethus sydd yn hydreiddio’u llenyddiaeth, o feirdd y chweched ganrif (‘ils pleurent plus de défaites qu’ils ne chantent de victoires’), i gymeriad Celt y presennol lle gellir dweud amdani, ‘une larme ne tarde pas à briller derrière son sourire’.² Awgrymir perthynas agos rhwng y natur bruddglwyfus hon ac alltudiaeth, neu rhyw ymdeimlad mwy annelwig o ddatgysylltiad, wrth i Renan awgrymu yn ddiweddarach fod tristwch alawon cenedlaethol y Celt ‘comme des souvenirs d’un autre monde’.³ Yn y bennod hon, archwilir rhai o’r cysylltiadau rhwng Celtigrwydd ac ymdeimladau o alltudiaeth neu ddatgysylltiad, ac o’r atgofion hyn o ‘fydoedd eraill’, yng ngwaith T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, dau awdur a chanddynt brofiad uniongyrchol o alltudiaeth. Trwy wneud hynny, gobeithir treiddio’n ddyfnach heibio i gysyniadau hanfodaidd fel rhai Renan, a holi sut y gall hiraeth ac alltudiaeth, yn hytrach na bod yn rhan hanfodol o gynhysgaeth ethnig y Celt, gyfrannu tuag at ffurfiant yr ymdeimlad modern o Geltigrwydd.

‘Crwydrais dipyn ar y byd’, medd T. Gwynn Jones mewn braslun hunangofiannol, a hyd yn oed cyn iddo adael Cymru am y tro cyntaf yr oedd, fel bachgen, eisoes wedi

¹ Ernest Renan, ‘La poésie des races celtiques’, yn *Essais de Morale et de Critique* (Paris: Michel Lévy Frères, 1859 [1854]), u. 375-456 (t. 383): ‘un alarnad hir; fe gofia eto bob alltudiaeth, ei theithiau ar draws y moroedd’.

² Renan, ‘La poésie des races celtiques’, t. 383: ‘fe wylant fwy am eu methiannau nag y canant am fuddugoliaethau’; ‘nid yw’n hir cyn y bydd deigrin yn disgleirio tu ôl i’w gwên.’

³ Renan, ‘La poésie des races celtiques’, t. 384: ‘megis atgofion o fyd arall’.

crwydro cryn dipyn.⁴ Ym Metws-yn-Rhos, sir Ddinbych y ganed Jones yn 1871, ond symudodd y teulu i'r Pentre Isa ger Hen Golwyn yn fuan wedyn (TGJ 26). Yn Plas-yn-Green, ar gyrion Dinbych, y treuliodd Isaac Jones a'i deulu'r 1880au cynnar, pan oedd Thomas, nad oedd eto'n Thomas Gwynn, rhwng deg ac un ar bymtheg oed. Yn 1886, i Dyddyn Morgan ar ystad Cinmel y symudodd y teulu. Bu'n gweithio fel clerc cyn iddo roi ei fryd ar fynd i Rydychen i astudio, ond oherwydd gwaeledd a'i rhwystrodd rhag sefyll yr arholiad matriciweiddio, collodd ei gyfle, ac wedi hynny ni chafodd addysg prifysgol erioed (TGJ 46-7). Yn 1891, 'blinodd ar fod gartre ac ar "fympwy noeth-lymyn" cododd ei bac i Lerpwl' (TGJ 69-70). Byr fu ei gyfnod yno oherwydd fod ar ei dad ei angen at waith gartref.

Daeth tro ar fyd yn lled fuan wedyn, wrth i Thomas Gee wahodd T. Gwynn Jones i ymuno â staff *Baner ac Amserau Cymru* yn Ninbych, y cam cyntaf iddo'i gymryd mewn gyrfa newyddiadurol a barhâi hyd 1909. Ystyriodd symud i'r Unol Daleithiau (TGJ 78), ond yn 1893 cafodd gynnig gan Isaac Foulkes i weithio ar *Y Cymro* yn Lerpwl, ac aeth yno drachefn, am gyfnod o oddeutu blwyddyn y tro hwn (TGJ 91-7). Gwaeledd a'i gorfododd i ddychwelyd i Dyddyn Morgan ym mis Rhagfyr 1894 (TGJ 97). Dilynwyd cyfnod Lerpwl gan ragor o symud a chrwydro, o'r Wyddgrug i Ddinbych, cyn i Jones briodi Margaret Davies yn 1899, gan ymgartrefu â'u teulu ifanc yng Nghaernarfon (TGJ 108); yn y cyfamser yr enillodd ei gadair genedlaethol gyntaf yn 1902. Ond ynghanol degawd gyntaf yr ugeinfed ganrif, fe'i trawyd yn wael drachefn, ac er mwyn diosg y gwaeledd hwn argymhellwyd iddo fynd i'r Aifft am y gaeaf yn 1904 (TGJ 133-55). Treuliodd amser yn Alexandria, Cairo, a Hulwan, ac yn ystod y cyfnod hwn, tra'r oedd yn yr Aifft, bu farw ei frawd, Robert, a'i gyfaill mawr Emrys ap Iwan. Yn 1908, cafodd gyfle i deithio eto wrth

⁴ LIGC Papurau T. Gwynn Jones GV2, dim dyddiad.

iddo fynd i Ddilyn ar gyfer Ysgol Haf y *School of Irish Learning*, ei ail ymweliad â'r wlad gan y bu yno unwaith ynghynt, yn 1892. Hyd ei ddyfodiad i Aberystwyth yn 1909, pan y'i penodwyd i swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol, felly, ni ellir dweud iddo fagu gwreiddiau cryfion mewn un lle. Ar aml i wedd, bywyd yr alltud ydoedd ei fywyd am flynyddoedd, wrth symud a mudo'n gyson o un man i'r llall.

Patrwm o symud cyson, hefyd, a fu i flynyddoedd cynnar W. B. Yeats. Fe'i ganed yn Sandymount ger Dilyn yn Iwerddon, yn 1865, ond yn fuan wedyn, pan benderfynodd ei dad, J. B. Yeats, adael ei yrfa yn y gyfraith er mwyn bod yn arlunydd yn 1867, symudodd y teulu i Lundain (LWBY 11). Golygai gyrfa newydd y penteulu fod arian yn brin yn gyson, ac yn aml byddai'r plant, William a'i frawd a'i ddwy chwaer, yn aros yn Sligo gyda'r Pollexfens, teulu eu mam, tra dychwelai J. B. Yeats i Lundain ar ôl gwyliau'r haf (LWBY 12). Chwaraeai'r tri lle hyn ran allweddol ym mywyd Yeats am flynyddoedd i ddod; treuliodd gyfnodau'n byw yn Llundain ac yn Nulyn yn ystod ei ieuenctid, a daw'r tensiwn a'r dynfa rhwng y ddau le hwnnw i'r amlwg yn gyson yn ei lythyrau a'i ysgrifau. Yn ddiweddarach, treuliodd ambell haf yn Sligo, gan gyfansoddi rhannau helaeth o'i gerdd faith, *The Wanderings of Oisín*, yno yn haf 1887, a manteisio ar y cyfle i gasglu straeon gwerin gan bobl leol.⁵ Hwn oedd un o'i gyfnodau hwyaf yn ôl yn Iwerddon yn ystod y blynyddoedd hyn, a ddehonglwyd gan R. F. Foster fel 'a determination, above all, to stay in touch' (AM 71). Golygai'r ffaith iddo dreulio cyfnodau hapusaf ei blentyndod yn Sligo y byddai'n ystyried y lle fel math o baradwys ddelfrydol am flynyddoedd, a chawsai ei adfywio o fod yno: 'The very feel of the familiar Sligo earth puts me in good spirits', meddai mewn llythyr at Katherine Tynan yn 1887.⁶ Drwy gydol

⁵ Mewn llythyr at Katherine Tynan, bardd a chyfaill cynnar, Medi 17 neu 24 1887, dywed Yeats ei fod yn gobeithio dychwelyd i Ddilyn yn fuan ond bod arno angen gorffen y gerdd yn gyntaf (CL1 t. 37).

⁶ Llythyr at Katherine Tynan, Awst 13 1887, CL1 t. 33.

ei ieuenctid symudodd Yeats rhwng y lleoliadau hyn; am dair blynedd ddiwedd y saithdegau, yr oedd y teulu'n ôl yn Llundain (LWBY 23), ond dychwelwyd i Ddilyn yn 1881 (LWBY 25). Symudwyd i Lundain drachefn yn 1887, ac er mai yno yr arhosodd fwyafrif y nawdegau, am flynyddoedd wedyn rhannodd Yeats ei amser rhwng Llundain, Dilyn a Pharc Coole yn swydd Galway, nes ysgogi Terence Brown i nodi nad oedd y fath beth â 'Yeats house, for memory and legend to mythologize, until the poet purchased a Norman keep at Thoor Ballylee in County Galway in 1917 — only a series of addresses' (LWBY 25).

Mater gwleidyddol sydd fel pe bai'n llechu y tu ôl i lawer o'r symud cynnar hwn yw pwnc y tir, a fu yn bwnc llosg gwleidyddol yng Nghymru ac yn Iwerddon am ran helaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Honnodd Seamus Deane fod gan yr Adfywiad Celtaidd ddiddordeb penodol mewn dau beth: iaith, a thirwedd. Canolbwyntir ar gymhlethdodau ieithyddol yr Adfywiad yn ddiweddarach; ond yn ôl Deane, y gwrthdaro ynghylch perchnogaeth tir, a fu'n fater tyngedfennol yn ystod rhan helaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg, oedd gwraidd yr obsesiwn hwn â thirwedd:

In literature, this economic and political question [the land struggle] was converted into a fascination with the regional landscape. Loyalty to that particular region, another characteristic of early Romanticism, when it was called 'local attachment', was both a literary and a political gesture in Ireland.⁷

Gellid awgrymu fod gan y pwnc gwleidyddol hwn berthnasedd agos i brofiadau personol Yeats o ansfydlogrwydd. Teulu o'r Oruchafiaeth Brotestannaidd a ddad-dirioogaethid, i raddau helaeth, yn ystod y cenedlaethau yn union cyn i Yeats gael ei eni, oedd ei deulu. Gallai hawlio, felly, fod ganddo brofiad teuluol o ddad-sefydlogi, er bod hynny, o bosibl, o'r 'ochr' anghywir. Efallai mai arwydd o'i allu oedd iddo fynd ati i ddefnyddio ei 'local

⁷ Seamus Deane, *Strange Country: Modernity and Nationhood in Irish Writing since 1790* (Oxford: Clarendon Press, 1997), t. 13.

attachment' i Sligo er mwyn ceisio ail-hawlio'r tir hwnnw, yn ei waith Celtaidd, ar ran Iwerddon gyfan.

Roedd profiad T. Gwynn Jones hyd yn oed yn fwy uniongyrchol. Collodd Isaac Jones, ei dad, fwy nag un o'i ffermydd oherwydd iddo fynnu pleidleisio yn erbyn ei feistr tir, ac y mae'n amlwg i'r digwyddiad gael cryn effaith ar Jones oherwydd iddo gyfeirio at y peth mewn llythyr at Saunders Lewis flynyddoedd yn ddiweddarach yn dilyn cyhoeddi drama Saunders Lewis, *Gwaed yr Uchelwyr*.⁸ Arwydd arall o'r datgysylltiad hwn yw ei ddymuniad cyson i ddychwelyd i weithio'r tir (TGJ 149). Cyhoeddodd erthyglau gwleidyddol ar bwnc y tir yn y nawdegau,⁹ ac un o weithiau Jones a ddengys yn fwyaf eglur rym gwleidyddol y pwyslais ar dir yw ei ddrama *Eglwys y Dyn Tlawd*, drama a ddengys hefyd gysylltiad agos trafferthion y Mesur Tir â mater datgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru.¹⁰

Y mae'r disgwrs ynghylch perchnogaeth dros dir ynghlwm hefyd â phryderon ynghylch trawsffurfiad y tir hwnnw yn sgil y chwyldro diwydiannol, fel y sylwodd Dafydd Johnston:

the disfigurement of the landscape's natural beauty through industrialization was of great concern to writers of that time [...] In this flight from the modern industrial world Welsh writers were doing exactly the same as their English counterparts such as Tennyson and William Morris, but with an added political element in that industry was often perceived as something essentially foreign to Wales, whilst the rural communities were seen as strongholds of Welsh culture[.]¹¹

Mewn cyd-destun Cymreig neu Wyddelig, felly, yr oedd yr obsesiwn hwn â'r tir, yn aml drwy gyfrwng disgrifiadau o natur, nid yn unig yn weithred wrth-ddiwydiannol, wrth-

⁸ T. Gwynn Jones, Llythyr at Saunders Lewis, Ebrill 19 1922. LIGC Papurau Thomas Gwynn Jones, E39.

⁹ T. Gwynn Jones, 'Cymru, a'i Chyfeillion', *Baner ac Amserau Cymru*, Mawrth 23 1892, t. 5.

¹⁰ T. Gwynn Jones, *Eglwys y Dyn Tlawd*, *Baner ac Amserau Cymru*, Chwefror 22 1893, t. 12; Mawrth 15, t. 6; Mawrth 29, t. 4; Ebrill 5, t. 7; Ebrill 26, t. 7; Mai 3, t. 7; Mai 10, t. 7.

¹¹ Dafydd Johnston, 'The Literary Revival', yn *A Guide to Welsh Literature, c.1900-1996*, gol. Dafydd Johnston, (Cardiff: University of Wales Press), tt. 1-22 (tt. 3-4).

fodern mewn modd Ruskinaidd i awduron megis T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, ond hefyd yn weithred wrthdrefedigaethol wrth iddynt ailhawlio'r tir hwnnw drwy ei ailddiffinio a'i ddisgrifio yn ôl eu delfryd eu hunain.¹²

Gellir cyd-destunoli'r braslun bywgraffyddol uchod drwy gyfrwng sylwadau Deleuze a Guattari ar lenyddiaeth lai, hynny yw, 'minor literature'. Er eu bod yn diffinio llenyddiaeth lai fel llenyddiaeth a ysgrifennir gan awdur o safle lleiafrifol drwy gyfrwng iaith fwyafrifol, diffiniad sydd yn gweddu i waith W. B. Yeats ond nid i waith T. Gwynn Jones, gellid dadlau fod rhai o nodweddion y llenyddiaeth hon a gynigir ganddynt yn rhai y gellir eu priodoli i Jones hefyd. Un nodwedd ar lenyddiaethau llai, yn ôl Deleuze a Guattari yw 'that everything in them is political',¹³ ac eisoes gwelwyd y modd y gellir, ac yn wir y dylid, gweld rhai o nodweddion gwaith yr awduron mewn goleuni gwleidyddol. At hynny, nodwedd arall ar lenyddiaeth o'r fath yw 'that in it everything takes on a collective value',¹⁴ ac i'r graddau hynny felly y cyfiawnheir yn yr achos hwn ddefnyddio profiad personol y ddau fardd o alltudiaeth fel sail ar gyfer astudiaeth o'u gwaith yn y bennod hon. Yn wir, er mwyn i un awdur allu ysgrifennu yn y fath fodd, gan yngan ar ran y 'collective', rhaid iddo/iddi, ar yr un pryd, yn dra pharadocsiaidd, fod oddi allan i'r gymuned honno. Yn y cyflwr hwn:

literature finds itself positively charged with the role and function of collective, and even revolutionary, enunciation. It is literature that produces an active solidarity in spite of skepticism; and if the writer is in the margins or completely outside his or

¹² Beirniad celfyddydol a chymdeithasol, arlunydd, a bardd oedd John Ruskin (1819-1900) a ddaeth yn ddylanwad mawr ar gelf a phensaerniaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cysylltir ef yn benodol â'r mudiad Cyn-Raphaelaidd, ac yn ei waith pwysleisiodd bwysigrwydd natur a chadwraeth. Gw. Robert Hewison, 'John Ruskin', *Oxford Dictionary of National Biography: From the earliest times to the year 2000. Volume 48: Rowell to Sarsfield* (Oxford: Oxford University Press, 2004), tt. 173-92.

¹³ Gilles Deleuze a Félix Guattari, *Kafka: toward a minor literature*, cyf. Dana Polan (London: University of Minnesota Press, 1986), t. 17. Proseses yw 'deterritorialization' yng ngwaith Deleuze a Guattari a olyga ddwyn ymaith reolaeth a threfn oddi wrth wlad neu leoliad, neu 'dirioogaeth'. Y mae i'r broses berthynas agos (ond nid anochel) â'r weithred o 'reterritorialization', sydd yn golygu gosod gwahanol ffurfiau o awdurdod yn lle'r rhai a ddygwyd ymaith. Golyga proses 'deterritorialization', felly, y gellir cymryd set o gysyniadau a'u dad-leoli o'u cyd-destun gwreiddiol.

¹⁴ Deleuze a Guattari, *Toward a minor literature*, t. 17.

her fragile community, this situation allows the writer all the more the possibility to express another possible community and to forge the means for another consciousness and another sensibility[.]¹⁵

Trafodir rhagor ar y nodweddion hyn yn ddiweddarach yn yr astudiaeth. Yn y nodwedd gyntaf o'r tair a restrir gan Deleuze a Guattari, fodd bynnag, y ceir yr awgrym cryfaf o'r berthynas annatod rhwng llenyddiaeth diwylliant lleiafrifol ac alltudiaeth: 'the first characteristic of minor literature in any case is that in it language is affected with a high coefficient of deterritorialization'.¹⁶

Os felly, y mae perthynas agos rhwng y profiad o 'deterritorialization', neu ddad-dirioegaethu, a'r gallu i siarad dros ddiwylliant lleiafrifol. Yng nghyd-destun y bennod hon, cynigir y gellir synio am y dad-dirioegaethu hwn mewn modd tra llythrennol, wrth i nifer o gysyniadau diwylliannol cenedlaethol gael eu ffurfio a'u llunio oddi allan i Gymru ac Iwerddon, o bosibl oherwydd nad oedd y gofod angenrheidiol ar gael o fewn y gwledydd eu hunain o ganlyniad i ddad-dirioegaethu ar lefel deallusol yn ogystal â daearyddol neu gymdeithasol. Gellir ystyried nifer o enghreifftiau cyfarwydd cyffelyb ledled Ewrop. Un enghraifft sydd yn berthnasol i'r astudiaeth hon yw pwysigrwydd Paris yng nghyd-destun yr iaith Lydaweg. Fel y sylwa Rhisiart Hincks, 'ceir bod gan Baris le pwysig yn nadeni'r Llydaweg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn union fel y bu Llundain yn chwarae rôl allweddol yn y diddordeb hynafiaethol ac ysgolheigaidd yn y Gymraeg yn y ddeunawfed ganrif ac ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg'.¹⁷ Gellir cymharu hyn hefyd, wrth gwrs, ag arwyddocâd cyffelyb Dulyn yn Iwerddon. Ymhellach, dangosodd Hincks y modd y tueddai'r Llydewyr alltud ym Mharis i ramantu am Lydaw'r gorllewin o'u safle alltud, ond eu bod hefyd maes o law wedi dechrau

¹⁵ Deleuze a Guattari, *Toward a minor literature*, t. 17.

¹⁶ Deleuze a Guattari, *Toward a minor literature*, t. 16.

¹⁷ Rhisiart Hincks, *Pawb yn ei Baradwys/Yn ei Uffern ei hun: Y dref a'r ddinas mewn barddoniaeth Lydaweg* (Roazhon: Hor Yezh, 2007), t. 37.

sylweddoli pwysigrwydd arddel yr iaith mewn cyd-destun dinesig.¹⁸

Safle amwys Franz Kafka fel awdur o deulu Iddewig a ysgrifennai yn Almaeneg o fewn Ymerodraeth Awstria-Hwngari yw canolbwynt sylw Deleuze a Guattari. Ystyriodd beirniaid eraill bwysigrwydd cyflwr o ddad-dirioogaethu, neu ryw fath ar alltudiaeth, mewn cyd-destun mwy penodol Gymreig. Yn ôl Aneirin Talfan Davies, gall alltudiaeth fod yn angenrheidiol i'r awdur mewn diwylliant lleiafrifol:

Po nesaf yw'r gyfathrach rhwng y llenor â'r gymdeithas y mae'n rhan ohoni, ac yn fynegydd iddi, pellaf yn y byd y bydd ei gynnyrch oddi wrth y bywyd sy'n nodweddu'r gymdeithas honno [...] Wrth sylwi ar hanes llenorion gwledydd bychain Ewrop, cawn i'r rhan fwyaf ohonynt dreulio llawer o'u hamser yn alltudion o'u gwlad.¹⁹

I'r un perwyl y dadleuodd Paul Birt, yn *Cerddi Alltudiaeth* (1997), fod alltudiaeth yn chwarae rhan hanfodol ym mynegiant awduron o'u hunaniaeth mewn diwylliannau lleiafrifol, gan ganolbwyntio ar dair enghraifft benodol: Salvador Espriu yng Nghatalunya; Gaston Miron yn Quebec; a Gwenallt yng Nghymru. Dadleuodd Birt fod alltudiaeth yn dod i'r amlwg yng ngwaith yr awduron hyn oherwydd eu bod yn ysgrifennu mewn cyfnod o drawsnewid cenedlaethol. Deillia'r 'argyfwng alltudiol', eglura Birt, wrth i genhedloedd 'anhanesiol', gan ddilyn diffiniad Friedrich Engels, sylweddoli eu bod mewn perygl o ddifodiant. Pan geir 'gwrthdaro uniongyrchol' rhwng hunaniaethau, try'r diwylliant lleiafrifol yn ôl at lenyddiaeth a llên gwerin, gan gymryd diddordeb ysgolheigaidd yn ei orffennol ei hunan.²⁰ Er bod nifer o'r enghreifftiau hyn yn deillio o alltudiaeth wirioneddol, felly, cawn mai'r cyflwr hwinnw, yr 'argyfwng alltudiol', sydd yn arwyddocaol yn y cyd-destun hwn fel cyflwr ar gyfer creu llenyddiaeth mewn

¹⁸ Hincks, *Pawb yn ei Baradwys/Yn ei Uffern ei hun*, tt. 40-50.

¹⁹ Aneirin Talfan Davies, *Yr Alltud: Rhagarweiniad i weithiau James Joyce* (Llundain: Gwasg Foyle, 1944), t. 89.

²⁰ Paul Birt, *Cerddi Alltudiaeth: Thema yn Llenyddiaethau Québec, Catalunya a Chymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), t. 4.

diwylliant lleiafrifol. Yn hynny o beth y mae'n ddigon posibl i awdur mewn diwylliant lleiafrifol fod yn alltud, neu gael profiad o 'ddad-dirioogaethu', o fewn ei wlad neu ei gwlad ei hun.

Yn wir, rhaid pwysleisio nad profiad unffurf ydyw alltudiaeth; fel y sylwodd Edward Said, y mae mewn gwirionedd yn sbectrum o wahanol brofiadau, o ddatgysylltiad llwyr a chyflawn i gyfnodau o adael a dychwelyd. Gwahaniaethodd Said rhwng 'exiles', 'refugees', 'expatriates' ac 'émigrés', a'r gwahaniaeth mwyaf yw'r elfen o ddewis, o alltudiaeth wirfoddol.²¹ Y mae'r ystod eang hon o brofiadau yn rhwym o esgor ar amrywiol ymatebion i gyflwr alltudiaeth. Diddorol felly yw sylw Birt nad yw'r alltudiaeth hon, o reidrwydd, yn alltudiaeth ddaearyddol, *iffwrdd* o'r wlad, neu'r diriogaeth, dan sylw. Yn achos diwylliannau lleiafrifol, gall yr alltudiaeth fod yn alltudiaeth fewnol, wrth i'r gymuned 'encilio rhag dylanwadau estron', boed hynny'n enciliad llythrennol, corfforol, neu'n enciliad sydd yn fwy 'delfrydol a symbolaidd'.²² Yn wir, awgryma Birt, 'un o nodweddion amlycaf llenyddiaeth y gwledydd anhanesiol yn y cyfnod hwnnw yw'r ymdeimlad o "alltudiaeth fewnol"'.²³ Gobeithir awgrymu fod yr 'argyfwng alltudiol', ar wedd lythrennol, gorfforol, allanol, ac ar wedd 'fewnol', drosiadol, yn rhan ganolog o waith cynnar T. Gwynn Jones a W. B. Yeats. Dadleuir yma, gan ddilyn gwaith arloesol R. F. Foster a Daniel Williams, fod alltudiaeth yn ganolog i ffurfiant W. B. Yeats a T. Gwynn Jones o'u Celtigrwydd, ac yn enwedig eu defnydd o Geltigrwydd ac alltudiaeth i negodi eu hymwybyddiaeth gynyddol ohonynt eu hunain fel yr Arall.²⁴

²¹ Edward Said, 'Reflections on Exile', yn *Reflections on Exile and Other Essays* (Cambridge, MA: Harvard University Press, 2000), tt. 173-186 (t. 181).

²² Birt, *Cerddi Alltudiaeth*, t. 5.

²³ Birt, *Cerddi Alltudiaeth*, t. 8.

²⁴ Gweler, er enghraifft, AM1, tt. 59-201, a Daniel G. Williams, *Ethnicity and Cultural Authority: from Arnold to Du Bois* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2006), t. 153.

Celtiaid Llundain a Lerpwl

Gellid dadlau, ar y naill law, mai cyfnod magwraeth lenyddol ac esthetaidd, yn bennaf, oedd cyfnod Yeats yn Llundain. Ef oedd un o sylfaenwyr y ‘Rhymers’ Club’, a gyfarfyddai yn nhafarn y Cheshire Cheese ar Stryd y Ffilyd. Gwelai Yeats aelodau’r clwb hwn fel rhai â diddordeb mewn estheteg ac mewn celfyddyd er eu mwyn eu hunain, yn hytrach nag mewn gwleidyddiaeth; *credent*, yn ôl Yeats, fod barddoniaeth yn ‘an end in itself; it has nothing to do with thought, nothing to do with philosophy, nothing to do with life, nothing to do with anything but the music of cadence, and beauty of phrase’.²⁵

Cyfarfu Yeats ag Ernest Rhys am y tro cyntaf yng nghartref William Morris, prif ladmerydd y symudiad Celf a Chrefft, ond wrth gwrs er bod tuedd i gysylltu’r ddau hyn â mudiadau celfyddydol, yr oedd ganddynt hwythau eu diddordebau gwleidyddol hefyd.²⁶

Dylanwad mawr arall yn y nawdegau cynnar ydoedd Arthur Symons, a hawliai hunaniaeth Geltaidd hefyd drwy ei wreiddiau Cymreig a Chernyweg (AM 107), a gydletyai â Yeats yn 1891 (AM 155), ac a oedd yn ddylanwad allweddol wrth ei gyflwyno i symbolaeth Ffrengig. Dylanwadodd Yeats yn ei dro ar y rhai o’i gwmpas. I Holbrook Jackson, llygad-dyst i weithgaredd llenyddol Llundain y 1890au, Yeats oedd ‘the chief figure of the Celtic Renaissance of the Eighteen Nineties’,²⁷ tra mabwysiadodd nifer o awduron eraill y ‘Rhymers’ Club’ fantell Celtigrwydd hefyd.²⁸

Dyma gyferbyniad llwyr â’r cymdeithasau trafod gwleidyddol y bu Yeats yn ymhel â

²⁵ W. B. Yeats, ‘Hopes and Fears for Irish Literature’ [1892], yn UP1, tt. 248-50 (t. 249).

²⁶ ‘But the guest who particularly caught my eye was a tall, pale, exceedingly thin young man, with a raven lock over his forehead; his face was so thin indeed that there was hardly room in it for his luminous black eyes. He was introduced to me after supper, as a young Irish poet, Willie Yeats’. Ernest Rhys, *Wales England Wed: An Autobiography* (London: J. M. Dent & Sons Ltd, 1940), tt. 91-2.

²⁷ Holbrook Jackson, *The Eighteen Nineties: A Review of Art and Ideas at the Close of the Nineteenth Century* (London: Grant Richards, 1913), t. 152.

²⁸ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, tt. 158-9.

hwy yn y Contemporary Club yn Nulyn, dan adain John O’Leary.²⁹ Synhwyrir tinc o rwystredigaeth yn ysgrifennu Yeats wrth iddo gofio ei gyfnod yn Llundain, a’r ‘irritated silence that fell upon a noted gathering of the younger English imaginative writers once [h.y. y Rhymers’ Club], when I tried to explain a philosophy of poetry in which I was profoundly interested, and to show the dependence, as I conceived it, of all great art and literature upon conviction and upon heroic life’.³⁰ Yr oedd Yeats, yn wahanol i’r ‘Rhymers’ eraill fel y gwelai ef bethau, yn awyddus i ddefnyddio’i Geltigrwydd mewn modd mwy uniongyrchol wleidyddol hefyd: ‘elsewhere, where market forces were more directly involved with nationalist politics, it was possible to employ a Celtic identity as one might a weapon’ (LWBY 64). Wrth weithio fel gohebydd i newyddiaduron yn America, er enghraifft, a nodi ‘[y]our Celt has written the great bulk of his letters from the capital of the enemy’,³¹ nid canolbwynt dirywiaethol ac esthetig oedd Llundain ond ymgorfforiad o ormes Prydeinig, ac yntau’r Celt wedi llwyddo i dreiddio i’w ganol a gohebu o’r tu mewn.

Fel y sylwa Marjorie Howes, roedd cenedlaetholdeb diwylliannol Yeats yn ‘less a coherent ideology than a series of strategic engagements with different audiences or potential audiences’, ac yn ôl Howes rhaid cydnabod ‘[w]riting for such different publics involved some inconsistencies on Yeats’s part’.³² Gallai hunaniaeth Geltaidd ei gynorthwyo i ddod â’r anghysondebau hyn ynghyd. Yn ôl Daniel Williams: ‘Yeats’s self-

²⁹ Newyddiadurwr a chenedlaetholwr Gwyddelig a gysylltir â’r mudiad Ffeniaidd. Bu’n byw mewn alltudiaeth ym Mharis am rai blynyddoedd, ac ar ôl dychwelyd i Ddulyn yn 1885 bu’n ddylanwad mawr ar yr Yeats ifanc, yn gymaint felly nes i Yeats ei anfarwoli yn ei gerdd, ‘September 1913’: ‘Romantic Ireland’s dead and gone, / It’s with O’Leary in the grave’ (VP 122 ll. au 7-8). Gw. Alan O’Day, ‘John O’Leary’, yn *Oxford Dictionary of National Biography: From the earliest times to the year 2000. Volume 41: Norbury–Osborn* (Oxford: Oxford University Press, 2004), t. 715-16.

³⁰ Yeats, ‘Hopes and Fears for Irish Literature’, t. 248.

³¹ *Letters to the New Island by William Butler Yeats*, gol. H. Reynolds (Cambridge, MA: Harvard University Press, 1934), t. 64.

³² Marjorie Howes, *Colonial Crossings: Figures in Irish Literary History* (Dublin: Field Day Publications, 2006), t. 96.

fashioned “Celticism” functioned as a means for him to locate himself as a man of letters within, between and beyond the factions – Catholic/Protestant, Gaelic/English, Unionist/Nationalist – that divided Irish society. Yeats followed the Pan-Celticists in locating his cultural nationalism within a Celtic past as a means of bypassing the religious divisions of the present’.³³ Awgryma hefyd mai drwy alltudiaeth a chyfnod crwydrol Yeats yr eginodd y Celtigrwydd hwn, wrth iddo geisio negodi

the tension between a rooted nationalism and a mobile cosmopolitanism, between his desire as a man of letters in the Arnoldian mould to engage with and influence the cultural life of his nation, and his commitment to an aestheticist poetic practice that venerates a transcendent realm beyond the ‘impurities’ of everyday life. Yeats’s Celticism can be seen to have developed as a strategy for creating a whole out of these divergent tensions, of achieving an elusive ‘unity of being’ for which his totalising mind sought.³⁴

Yr elfen Geltaidd oedd yr elfen drosgynnol a gysylltai’r elfennau distadl hyn yn ei waith, ac yng nghyd-destun y bennod hon y mae un o’r deuoliaethau hyn yn enwedig, y tyndra rhwng y ‘rooted nationalism’ a’r ‘mobile cosmopolitanism’, yn hynod berthnasol.

Cymharol anodd yw ceisio deall yr union effaith a gawsai ei alltudiaeth ar T. Gwynn Jones. Nid rhagor na dyfalu yw tybiaeth David Jenkins y byddai ‘awyrgylch “clasurol”’ prifysgol ‘wedi llareiddio’i ysbryd gryn lawer’ (TGJ 52). Er y gellid cytuno fod cryn wirionedd yn y gred mai ‘[p]rofiad y blynyddoedd hyn o fyw a gweithio gartre ar y fferm a’i cyflyrodd i ymateb mor bendant ar faterion politicaidd’, yn Lerpwl cafodd gyfle pellach i ddatblygu ac aeddfedu ei syniadau gwleidyddol: ‘O gwmpas bwrdd cinio mewn tafarn gerllaw’r swyddfa’, ‘byddai ei brif gyfathrach â Saeson, gan ddadlau Sosialaeth a syniadau Blatchford’ (TGJ 92).³⁵ Yno hefyd y ‘[c]yfarfu â radicaliaid blaenllaw fel Ben

³³ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, t. 139.

³⁴ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, t. 152.

³⁵ Newyddiadurwr ac awdur a ddaeth drwy gyfrwng ei brofiadau newyddiadurol yn sosialydd oedd Robert Peel Glanville Blatchford (1851-1943). Cyhoeddais ei gasgliad o erthyglau sosialaidd, *Merrie England*

Tillet a Tom Mann' (TGJ 97), a thraddododd ddarlith ar 'Ragolygon a manteision Cymru Fydd' (TGJ 93). Yr oedd Clwb Cymru Fydd Lerpwl newydd gael ei agor yn ffurfiol yn Ionawr 1893, yn fuan cyn i Jones gyrraedd y ddinas.³⁶

Byddai awyrgylch newyddiadurol Caernarfon, Stryd Fflyd Gymreig y cyfnod, lle bu Jones yn gohebu ar ran nifer o bapurau, o'r *Caernarvon and Denbigh Herald* i *Bapur Pawb*, yn ogystal â'r bwrlwm gwleidyddol yno a gylchdroai o amgylch gweithgareddau Cymru Fydd ac esgyniad Lloyd George i'r ffurfafen wleidyddol, wedi bwydo'r ymwybyddiaeth wleidyddol hon ymhellach. Yng Nghaernarfon hefyd y daethai T. Gwynn Jones i gysylltiad â ffigyrau diwylliannol o bwys megis Daniel Rees,³⁷ Gwynfor,³⁸ R. Williams Parry (1884-1956), Alafon,³⁹ W. J. Gruffydd (1881-1954), Elphin,⁴⁰ a Robert Bryan,⁴¹ drwy gyfrwng cymdeithasau megis Cwmni Theatr y Ddraig Goch a Chlwb Awen a Chân. Yn sicr, mae lle i ystyried bywyd a chyffro cosmopolitanaid yng Nghaernarfon y cyfnod fel estyniad neu barhâd o gyfnod Jones yn Lerpwl. Yno hefyd, wrth gwrs, y cynhaliwyd y Gyngres Geltaidd yn 1904, gan sicrhau fod Caernarfon, am wythnos o leiaf,

(1893), tra'r oedd Gwynn Jones yn Lerpwl. Gw. R. C. K. Ensor a H. C. G. Matthew, 'Robert Blatchford', yn *Oxford Dictionary of National Biography: From the earliest times to the year 2000. Volume 6: Blackmore to Bowyer* (Oxford: Oxford University Press, 2004), tt. 183-85.

³⁶ Dewi Rowland Hughes, *Cymru Fydd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), t. 138.

³⁷ O'r rhain oll, mae'n debyg mai Daniel Rees oedd cyfaill pennaf Jones yn ystod ei gyfnod yng Nghaernarfon, a bu'n gymorth mawr iddo drwy gydol y 1900au cynnar. Bu'n gyfaill triw i Gwynn Jones, yn dod o hyd i waith iddo'n gyson ac yn codi'i galon mewn cyfnodau o iselder. Cydweithiodd y ddau ar gyfieithiadau o Dante hefyd, gyda Jones yn ysgrifennu'r rhagymadrodd i gyfieithiad Daniel Rees o'r 'Ddwyfol Gân' yn 1903. Yn ôl David Jenkins, 'nid oes amheuaeth nad oedd yn un o'r dylanwadau dyfnaf arno ar ddechrau'r ganrif'. Gw. TGJ, tt. 107-8.

³⁸ Thomas Owen Jones (Gwynfor, 1875-1941), cigydd wrth ei waith bob dydd, ond a oedd hefyd yn un o ffigurau mwyaf gweithgar Caernarfon yn hyrwyddo byd y ddrama ac yn ysgrifennu dramâu. Sefydlodd Gwmni Theatr y Ddraig Goch, a chafodd Gwynn Jones flas ar fod yn rhan o'r bwrlwm hwn, gan ysgrifennu ei ddramâu ei hun iddynt maes o law; gw. E. Wyn James, 'T. Gwynn Jones a Gwynfor', *Taliesin*, 76 (1992), 61-71.

³⁹ Owen Griffith Owen (1847-1916), gwas fferm, chwarelwr, pregethwr, bardd, llenor, a golygydd *Y Drysorfa*. Gw. *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens, 2il arg. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), t. 559.

⁴⁰ Robert Arthur Griffith (1860-1936), cyfreithiwr a bardd. Gw. *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens, 2il arg. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), t. 285.

⁴¹ Robert Bryan (1858-1920), bardd, llenor a cherddor. Golygodd ddau ddetholiad o gerddoriaeth o dan y teitl *Alawon y Celt*, a theithiodd gyda Gwynn Jones i'r Aifft yn 1905. Gw. *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens, 2il arg. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), t. 66.

yn ganolbwynt y byd modern Celtaidd yr ymddiddorai yn gynyddol ynddo.

Yn sgil y profiadau hyn, crewyd gwrthgyferbyniad rhwng y wlad a'r dref yn ysgrifennu T. Gwynn Jones a W. B. Yeats. Cynrychiolai cefn gwlad y bywyd cyn-ddiwydiannol, mwy hynafol a thraddodiadol, ac yn wir fel yr awgrymodd Robin Chapman, dim ond o bellter alltudiaeth y gallai hyn barhau i fod yn wir, oherwydd mai 'o bell y mynnai Cymru edrych arni ei hun, gan na fynnai'r Gymru go iawn a welai o agos ymdebygu i'r ddelfryd'.⁴² Ar y llaw arall, yr oedd cosmopolitaniaeth a modernedd lleoedd fel Lerpwl neu Lundain, ac, yn ddiweddarach, yr Aifft a hyd yn oed Caernarfon, yn cynnig posibiliadau newydd. Fel y sylwodd Said, tra nodweddiadol o feddylfryd alltud ydoedd syniadaeth o'r fath: 'Seeing "the entire world as a foreign land" makes possible originality of vision. Most people are principally aware of one culture, one setting, one home; exiles are aware of at least two, and this plurality of vision gives rise to an awareness of simultaneous dimensions, an awareness that to borrow a phrase from music is contrapuntal'.⁴³

Ffurfiwyd Celtigrwydd Cymreig yntau i raddau helaeth oddi allan i Gymru. Ni ellir gorbwysleisio cyfraniad Cymry Rhydychen, er enghraifft John Rhÿs, John Morris-Jones, ac O. M. Edwards, ac enwi tri'n unig i'r adfywiad llenyddol yng Nghymru a'r gogwydd Celtaidd a dadogwyd ar yr adfywiad hwnnw. Nodir gan Alun Llywelyn Williams, er enghraifft, waith Syr John Rhÿs, a '[g]yfeiriodd ei ddawn' at 'chwedloniaeth a llên gynnar y gwledydd Celtaidd', gan arwain at osod 'seiliau diogel i'r diddordeb newydd yn hanes a hynafiaethau'r Cymry'.⁴⁴ Drachefn, felly, pwysleisir y cysylltiad rhwng

⁴² T. Robin Chapman, *Meibion Afradlon a Chymeriadau Eraill: Golwg ar y Dymer Delynegol, 1891-1940* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004), t. 29.

⁴³ Said, 'Reflections on Exile', t. 186.

⁴⁴ Alun Llywelyn-Williams, *Y Nos, y Niwl a'r Ynys: Agweddau ar y Profiad Rhamantaidd yng Nghymru 1890-1914* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1960), t. 18.

yr etifeddiaeth Geltaidd a'i phwysigrwydd i'r Cymry yn benodol. 'Mae'n ddiddorol', awgryma Llywelyn-Williams, 'sylwi ar ddyddiad cyhoeddi rhai o'i lyfrau gwerthfawrocaf a mwyaf dylanwadol, ac ar eu teitlau: *Celtic Britain* (1882), *Celtic Heathendom* (1886), *The Arthurian Legend* (1891), *Celtic Folk-lore, Welsh and Manx* (1901)',⁴⁵ gan awgrymu mai oddi yno y deuai nifer o'r syniadau Celtaidd a ddaeth i boblogrwydd yn y cyfnod. Yr oedd dylanwad Almaenaidd ar ysgolheictod Geltaidd gynnar hefyd, gyda Rudolf Thurneysen, Kuno Meyer a'u tebyg yn gosod seiliau ffilolegol cadarn i ddealltwriaeth Morris-Jones o'r Gymraeg. Trwy ei ohebiaeth â J. Glyn Davies ddechrau'r ugeinfed ganrif, daethai T. Gwynn Jones i gyswllt â Meyer ac eraill o adran Geltaidd Lerpwl.⁴⁶ Davies a'i hanogodd hefyd i deithio i Iwerddon er mwyn ymgymryd â chwrs mewn Hen Wyddeleg, gan gryfhau ynddo y cyswllt rhwng ysgolheictod a dysg ffilolegol, a llenyddiaethau Celtaidd.⁴⁷ Meddylfryd allanol, nid meddylfryd mewnol, a oedd yn gyfrifol am y duedd i gorlannu holl ieithoedd y gwledydd Celtaidd ynghyd i un maes astudiaeth. Creodd hyn, ar y naill law, sefyllfa a safbwynt imperialaidd y gallai ysgolheigion megis Matthew Arnold fanteisio arnynt (a chofier pwysigrwydd ei ddarlithoedd wrth arwain at sefydlu cadair Geltaidd Rhydychen).⁴⁸ Ar y llaw arall, i rai fel Jones a Yeats, golygai y gellid edrych y tu hwnt i ffiniau eu gwledydd eu hunain ar gyfer cymariaethau, dylanwadau a chydweithio.

O arddel bathodyn Celtigrwydd gellid cael y gorau o'r ddau fyd oherwydd, fel yr awgryma R. F. Foster, yr oedd y Celt yn hanfodol Wyddelig i Yeats ond ar yr un pryd yn fwy na hynny ac mewn cyswllt â ffrwd ehangach, fwy rhyngwladol o lenyddiaeth: 'The tone was to be "Celtic" rather than "national": in other words, while using Irish modes

⁴⁵ Llywelyn-Williams, *Y Nos, y Niwl a'r Ynys*, t. 18.

⁴⁶ Llythyr gan J. Glyn Davies, LIGC Papurau T. Gwynn Jones G695, dim dyddiad.

⁴⁷ Amrywiol lythyrau gan J. Glyn Davies, Ebrill-Mehedin 1908. LIGC Papurau T. Gwynn Jones G698-711.

⁴⁸ Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980* (Oxford: Clarendon Press, University of Wales Press, 1981), t. 4.

and themes, it [gwaith Yeats] was to appeal to an audience beyond Ireland' (AM 86). Yr oedd gan y Celt allu i drosgynnu ffiniau cenedlaethol mewn modd na allai'r Gael, neu'r Cymro, ei wneud, a dyna pam y mae sylw Daniel Williams fod 'equating "Celtic" with "Irish"' yn unig yn hanfodol gamarweiniol i'n dealltwriaeth o Geltigrwydd Yeats.⁴⁹ Yn yr un modd, sylweddolai T. Gwynn Jones yntau y rhyddid a gynigid mewn lleoliad allanol, cosmopolitan i greu hunaniaeth a oedd mewn cysylltiad â rhywbeth ehangach. Yn yr Aifft, meddai, o'i wrthgyferbynnu â'r 'Dwyreiniwr', 'nid Cymro na Sais, na Ffrancwr nag Almaenwr yw dyn, ond Ewropeaid'.⁵⁰ Yr oedd Celtigrwydd, felly, yn cynnig hunaniaeth a oedd yn ehangach na'r cenedlaethol yn unig, ac yn fodd o negodi'r tyndra rhwng cynhwynoliaeth a chosmopolitaniaeth.

Yn wir, mewn erthygl yn *Baner ac Amserau Cymru* yn 1892, mynnodd T. Gwynn Jones am y bardd Cymraeg mai 'goreu po fwyaf a wŷr o ieithoedd a hanes cenedloedd eraill'.⁵¹ Gresynai dro arall nad oedd rhagor o ddylanwad allanol ar farddoniaeth Gymraeg,⁵² ac ymroes i wneud iawn am hyn, gan gyfieithu testunau o wahanol ieithoedd i'r Gymraeg. Dechreuasai ddysgu Almaeneg yn ystod ei gyfnod yn Lerpwl,⁵³ ac yn yr Aifft yn ddiweddarach cafodd gyfle i ymarfer ei Ffrangeg a'i Eidaleg hefyd. Fel rhan o'r gosmopolitaniaeth hon, ac fel rhan o brosiect diwylliannol ehangach, felly, y gellir synio am Geltigrwydd Jones. Pwysleisiodd bwysigrwydd ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill:

Dylai pob bardd Cymreig yn awr, nid yn unig fod yn hyddysg yn [sic] marddoniaeth Dafydd frenin ac Iuddewon [sic] barddonol eraill, ond hefyd yn hyddysg gydag

⁴⁹ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, t. 124.

⁵⁰ T. Gwynn Jones, 'Cymro yn Cairo', *Yr Herald Cymraeg*, Rhagfyr 17 1907, t. 6.

⁵¹ T. Gwynn Jones, 'Gwyllt Walia: I godi yr hen wlad yn ei hol', *Baner ac Amserau Cymru*, Chwefror 17 1892, t. 14.

⁵² T. Gwynn Jones, 'Y Byd Llennyddol: Y Geninen' [ail ran], *Baner ac Amserau Cymru*, Tachwedd 2 1892, t. 4.

⁵³ '[...] cyfarfu â gŵr a fedrai Almaeneg yn dda ac a'i cychwynnodd ar ben ffordd i'w dysgu. Prynodd yntau Pitman's German Weekly ac ymroddodd i feistroli'r iaith. Cafodd flas a budd o'r gymdeithas hoyw yma a chyfle i ddarllen llawer yn llyfrgell y dre yn John Brown Street' (TGJ 93).

arwyr a gwroniaid Homer a Vyrsil, Danté; a bu agos i mi enwi Milton, ond y mae rhai o honynt ddigon o dan ei ddylanwad ef yn barod! Ac yn sicr, ni fyddai yn golled iddynt fod o dan fwy o ddylanwad hanes y genedl Gymreig[.]⁵⁴

Amlyga'r dyfyniad hwn, fodd bynnag, mor hawdd ydoedd i lenyddiaeth Saesneg

ddylyanwadu ar waith Yeats a Jones hefyd. Nododd Paul Birt

agwedd arall sydd yn ymwneud â chymeriad llenyddiaeth leiafrifol, sef dylanwad gan waith llenorion y wladwriaeth ddominyddol peth na ddylid synnu ato, mae'n siŵr, o gofio fod y rhan fwyaf o lenorion yn y maes hwn yn ddwyieithog [...] Ymddengys ar y cyfan fod y dylanwad mwyaf ffurfiannol yn dod o du'r wladwriaeth lle lleolir y diwylliant lleiafrifol. Onid yw'n debycach y byddai llenor Gàidhlig o'r Alban yn tynnu mwy o'i faeth o'r de Saesneg nag oddi wrth waith y llenorion Gwyddeleg?⁵⁵

Mewn llythyr at Jones ynghylch ei nofel *Gwedi Brad a Gofid*, gwelodd Alfred Thomas yn dda ei ganmol fel hyn:

To all intents and purposes it is a first class work written in Welsh by a great literary Englishman, your style is after the best English models, your methods are English, and all goes to prove that you have burned the midnight oil to some very considerable purpose.⁵⁶

Naturiol oedd tynnu ar ddylynwadau llenyddiaeth Saesneg fel y gellid ei wneud â

llynyddiaethau eraill. Fel y syniodd J. P. Frayne:

Yeats advised the improvisatory Irish to learn the virtues of style and complexity. Here again is Yeats's paradoxical balance: literature as national as possible, criticism and the literary education of the poet as international as possible [...] In all areas of literature, Yeats wished the Irish writer to study the finest models of English literature as guides.⁵⁷

Ar yr un pryd yr oedd Celtigrwydd yn darparu'r gwahaniaeth, yr Arallrwydd, hanfodol, fel y gallai'r awdur osgoi cyhuddiadau o Brydeindod neu Seisnigrwydd. Yn *Peau noire*,

⁵⁴ T. Gwynn Jones, 'Y Byd Llenyddol: Y Geninen' [rhan gyntaf], *Baner ac Amserau Cymru*, Hydref 26 1892, t. 13.

⁵⁵ Birt, *Cerddi Alltudiaeth*, tt. 15-6.

⁵⁶ Llythyr oddi wrth Alfred Thomas, Tachwedd 15 1898. LIGC papurau T. Gwynn Jones G6346.

⁵⁷ J. P. Frayne, 'Introduction: Twilight Propaganda', yn UP1, tt. 35-59 (t. 57).

masques blancs (1952), disgrifiodd Frantz Fanon y profiad o gael ei weld fel ‘Negro’ am y tro cyntaf. Nid yw’r person du’n sylwi ei fod yn ddu hyd nes iddo gael ei weld drwy lygad y person gwyn:

Tant que le Noir sera chez lui, il n’aura pas, sauf à l’occasion de petites luttes intestines, à éprouver son être pour autrui [...] Et puis il nous fut donné d’affronter le regard blanc.⁵⁸
[...] et voici que je me découvrais objet au milieu d’autres objets.⁵⁹

I Fanon, profiad annymunol oedd y sylweddoliad o’r hunan fel un a oedd yn ‘arall’. Ond yn yr Aifft, disgrifia Jones yr amrywiaeth o ddinasyddion a oedd yno – Saeson, Ffrancod, Eidalwyr, Groegiaid, Arabiaid, Swdaniaid, Almaenwyr, Assyriaid, Iddewon ac Armeniaid gan ymhyfrydu yn yr amrywiaeth. Ei ofal pennaf yw ei fod yn peri i’w borthor sylweddoli mai Cymro ydyw – neu’n hytrach, nad Sais. Sieryd Gymraeg yn uchel o’i flaen, ac edrydd iddo glywed fod y porthor wedi’i ddisgrifio yn ddiweddarach i rywun arall fel hyn: “dim byd yn debyg i Sais”. Mae gennyf barch iddo byth’.⁶⁰ Yn yr un modd, dim ond trwy ddod i gyswllt â diwylliannau eraill y sylweddolai’r alltud werth ei wlad ei hun, fel y sylwa Robin Chapman. ‘Rhagamod gwladgarwch yw ymbellhau’, pwysleisia, oherwydd na ‘wyr y tyddynnwr gymaint o destun edmygedd yw ei fywyd mwy nag y dealla’r brawd a arhosodd gartref yn y ddameg gymaint ei fendith’.⁶¹

Awgrymwyd yn achos Yeats hefyd, gan Laura O’Connor, fod Celligrwydd yn fathodyn i’w wisgo er mwyn gallu gwadu Seisnigrwydd, a phwysleisio gwahaniaeth ac arallrwydd yr awduron: ‘To declare that “I am a Celt” is to allude to a personal ethnicity encompassed by the pan-ethnic tag, to differentiate oneself as “not-Anglo,” and to

⁵⁸ Frantz Fanon, *Peau noire, masques blancs* (Paris: Éditions du Seuil, 1995 [1952]), tt. 88-9: ‘Tra bydd y person du yn ei le ei hun, ni fydd, heblaw am ambell enghraifft o gweryla mewnol ar achlysur, yn cael profiad o’i fodolaeth drwy eraill [...] Ac yna bu raid i mi wynebu edrychiad llygaid y person gwyn.’

⁵⁹ Fanon, *Peau noire, masques blancs*, t. 88: ‘a dyna pryd y canfûm mai gwrthrych ymhlith nifer o wrthrychau eraill oeddwn’.

⁶⁰ T. Gwynn Jones, ‘Cymry yn yr Aifft’, *Yr Herald Cymraeg*, Tachwedd 26, 1907, t. 3.

⁶¹ Chapman, *Meibion Afradlon*, t. 29.

embrace otherness in a characteristically “je est un autre” modernist gesture’.⁶² Gwelai Yeats fanteision llenyddol hyn; mewn llythyr at awdur di-brofiad a anfonodd ei gwaith ato, cynghorodd yntau hi: ‘You will find it a good thing to make verses on Irish legends and places and so forth. It helps originality [sic] and makes one’s verses sincere, and gives one less numerous competitors [sic]. Besides one should love best what is nearest and most interwoven with ones [sic] life’.⁶³ Ond âi’r manteision, i Yeats, ymhellach na’r arwynebol neu’r ffasiynol yn unig: gan na allai siarad Gwyddeleg, yr oedd unrhyw arlliw o arallrwydd yn rhywbeth i ymaflyd ynddo. Fel y sylwodd Edward Said, ‘[c]lutching difference like a weapon to be used with stiffened will, the exile jealously insists on his or her right to refuse to belong’.⁶⁴

⁶² Laura O’Connor, *Haunted English: The Celtic Fringe, the British Empire, and De-Anglicization* (Baltimore: Johns Hopkins University Press, 2006), t. xiii.

⁶³ W. B. Yeats, Llythyr at Elizabeth White, Ionawr 30 1889 (CL1 131).

⁶⁴ Said, ‘Reflections on exile’, t. 182.

Safle allanol-fewnol y bardd Celtaidd

Arweiniodd yr ymwybyddiaeth hon o arallrwydd yr hunan at ailystyriaeth o safle a swyddogaeth y bardd, ystyriaeth a barhaodd hyd yn oed pan nad oedd y ddau awdur, bellach, yn alltud mewn ystyr daearyddol. Canfu Yeats fodel delfrydol yn yr hen dderwyddon a beirdd:

To Yeats, who had never fully accepted the doctrine of “art for art’s sake,” the ancient bards were enviable for the political and religious power which they had exercised.⁶⁵

Gwelir elfennau o’r meddylfryd hwn yn y gerdd ‘Fergus and the Druid’ ([1892], VP 19), ac yn y tyndra a geir rhwng rhwystredigaeth y derwydd oherwydd ei safle allanol, anweithredol (‘these hands that may not lift the sword’, ll. 24) a chenfigen y brenin, yn ei safle canolog, o ‘dreaming wisdom’ (ll. 22) y derwydd. Dyma densiwn allweddol yn syniad Yeats o’r bardd, sef y tyndra rhwng y gŵr sy’n gweithredu a’r gŵr sy’n llefaru:

The warriors were not simply warriors, the kings simply kings, the smiths merely smiths; they all seem striving to bring something out of the world of thoughts into the world of deeds – a something that always eluded them.⁶⁶

Er grym gwleidyddol honedig, penrhyddid a safle breintiedig y bardd, y mae yn y pen draw yn analluog i newid dim. Y mae’r dynfa rhwng bod yn ei chanol hi a bod oddi allan yn densiwn cyson yn ei waith:

If Yeats, on the one hand, held the conviction that the Irish writer needed a profound sense of involvement with the destiny of his country and the life of its country people, on the other hand, Yeats believed along with Verlaine and “the school of the sunset” that the writer must exercise the greatest devotion to his craft and its techniques [...] Already in 1892, Yeats had that love of strange, proud, lonely things which was to be reflected in his choice of personal heroes [...] The poet, in Yeats’s imaginings, was to retreat in inner exile [...] there were to be deep conflicts between Yeats’s ideal of the withdrawn poet and the demands which Irish public

⁶⁵ Frayne, ‘Introduction’, t. 50.

⁶⁶ W. B. Yeats, ‘Bardic Ireland’ [1890], yn UP1, t. 162-6.

life made upon him.⁶⁷

Dyna'r 'inner exile', yr alltudiaeth barhaol a osodir ar y bardd Celtaidd. Y tyndra hwn a bortreëdir yn 'The Madness of King Goll' hefyd ([1887] VP 10), hanes brenin a ffôdd o'r frwydr i goedwig gyfagos.⁶⁸ Tynged yr alltud, bellach, yw tynged Goll: 'I wander on, and wave my hands, / And sing' (llau. 43-4). Mewn cymeriadau o chwedloniaeth Wyddelig fel Fergus a Goll, archwilia Yeats anawsterau a deuoliaethau ei brofiadau o alltudiaeth a chrwydro, o gyfriniaeth barddoniaeth, a'r modd y mae'r ddawn o farddoni yn fyrdwn yn ogystal â bod yn fraint, gan arwain at eithrio'r bardd o gymdeithas, neu at wallgofrwydd. Nid mater syml o alltudiaeth yn effeithio ar estheteg Geltaidd a geir yma, felly, ond ymdeimlad hefyd fod y bardd, yn ei ymgorfforiad Celtaidd, yn anochel yn mynd i gael ei alltudio – ac felly, y farddoniaeth sy'n arwain at alltudiaeth, nid alltudiaeth at farddoniaeth. Yr oedd yn safle'r bardd y gymysgedd ryfedd honno a olygai, ar y naill law, mai '[u]he bards were the most powerful influence in the land' ond eu bod ar yr un pryd yn 'kept by the rules of their order apart from war and the common affairs of men'.⁶⁹

Nid oedd T. Gwynn Jones yr un mor barod i ddefnyddio ffigur y derwydd fel symbol o safle'r bardd modern.⁷⁰ Ond gwelai yntau safle'r bardd Celtaidd fel un alltud,

⁶⁷ Frayne, 'Introduction', t. 54.

⁶⁸ Peintiodd tad Yeats ddarlun ohono fel y brenin Goll yn 1887 (AM Plât 9). Flynyddoedd wedyn, cyfaddefodd Yeats wrth Olivia Shakespeare: 'I am always thinking of myself at that age - the age I was when my father painted me as King Goll, tearing the strings out [of] a harp, being insane with youth, but looking very desirable' (AM 34).

⁶⁹ Yeats, 'Bardic Ireland', t. 163.

⁷⁰ Gweler, er enghraifft, ei sylwadau ar 'Y Brudiau Cynaraf': '[d]iffyg tystiolaeth hanesyddol – cyflawnder dychmygion goddrychol [...] Tystiolaeth Gymraeg am y Derwyddon? Dim y gellir dibynnu arno [...] digonedd o haeriadau – cyfundrefn gyflawn o syniadau am y byd hwn a'r nesaf – cymysgedd o ddychmygion a syniadau wedi eu benthyca o wahanol gyfnodau a chrefyddau [...] Am y ddysgeidiaeth, ni cheir dim ohoni mewn unpeth Cymraeg cyn amser Iolo'. Fodd bynnag, dywed yn ddiweddarach fod y 'dystiolaeth Wyddelig yn llawer helaethach. O'r cwbl, gellid dwyn ynghyd gryn gryswth o draddodiadau ac arferion y byddai'n lled ddiogel eu hystyried yn weddillion cyfnod y Drywon [h.y. Derwyddon], a bwrw eu bod am hynny yn awgrymu i ni pa beth oedd Drywyddiaeth'. Os yw'r derwydd yn apelio at Jones o gwbl, yn ei swyddogaeth fel traethydd gwleidyddol y mae hynny amlycaf: 'Yn y traddodiad Gwyddelig yr oedd y Dryw yn broffwyd neu frudiwr ac yn hudol. Gelwid arno i ragfynegi canlyniad ymgyrchoedd

crwydrol, gwrthodedig. Yn ‘Y Bardd’ (YA tt. 168-73), cawn ein cyflwyno i gymeriad breuddwydiol sy’n ffoli ar natur: ‘Carai grwydro rhwng y blodau, / Ac ymgolli dan y dail’ (t. 168 llau. 4-5). Ond mae hyn pan fo’r bardd ‘yn llanc pen felyn / Gartref ar y mynydd gynt’; gadael fu raid iddo, ac ‘yn nhreigladd y blynyddau, / Mynd a ddarfu iddo ef / O dawelwch y mynyddau’ (t. 170 llau. 1-2), a chyrraedd ‘y dref yn flin ei drafael’ (t. 170 ll. 4):

Gwybu estron draddodiadau,
 Dysgodd bennaf ieithoedd byd;
 Iaith a hanes gwlad ei dadau,
 Mwy y carodd hwy o hyd. (t. 170 llau. 9-12)

Y mae dadleoli’r bardd o’i gynefin yn chwalu delwedd ramantaidd ‘idëol fyd’ ei ieuenctid, ond cawn yr argraff hefyd fod dod yn gyfarwydd ag ‘estron draddodiadau’ ac ieithoedd eraill yn hanfodol i dwf y bardd. Dim ond ar ôl y profiad hwn y sylweddola lawn werth ei wlad ei hun, ond caiff ei ddirmygu yn wyneb cymdeithas, ac yn benodol yn wyneb materoliaeth fodern:

Gwrthun, ebe gwŷr y geiniog,
 Ofer oedd ei lafur ef,
 A’i ddychymyg ffol, adeiniog,
 Mellith oedd, nid bendith nef. (t. 171 llau. 21-4)

Eto y mae’r gagendor rhwng y cynefin gwledig, rhamantaidd a’r dref fodern, faterol yn un llydan, ond ar yr un pryd y mae’n gwbl angenrheidiol i groesi’r gagendor hwnnw. Yn debyg i ddeallusyn Said, felly, y mae’r bardd sydd wedi profi alltudiaeth ddaearyddol mewn aml i ystyr yn parhau yn alltud mewn ffyrdd eraill hefyd:

the intellectual who, because of exile, cannot, or, more to the point, will not, make the adjustment, preferring instead to remain outside the mainstream, unaccommodated, unco-opted, resistant [...] while it is an actual condition, exile is also, for my purposes, a metaphorical one [...] Even intellectuals who are lifelong

members of a society can, in a manner of speaking, be divided into insiders and outsiders. Ones on the one hand who belong fully to society as it is, who flourish in it without an overwhelming sense of dissonance or dissent, those who can be called “yaysayers”, and on the other hand, the “naysayers”, the individuals at odds with their society and therefore outsiders and exiles, so far as privileges, power and honours are concerned. The pattern that sets the course for the intellectual as outsider [...] is best exemplified by the condition of exile [...] Exile for the individual in this metaphysical sense, is restlessness, movement, constantly being unsettled, and unsettling others. You can't go back to an earlier and perhaps more stable condition of being at home, and alas, you can never fully arrive, be at one with your new home, or situation. Secondly, [...] the intellectual as exile tends to be happy with the idea of unhappiness, so that dissatisfaction bordering on dyspepsia, a kind of curmudgeonly disagreeableness, can become not only a style of thought, but also a new, if temporary, habitation[.]⁷¹

Perthyn hyn yn agos i'r modd y cofleidiodd Jones safle'r 'naysayer' hefyd. Ceir awgrymiadau eglur ei fod yn disgwyl cael ei fwrw allan oherwydd ei ddaliadau; yr oedd hynny'n rhan o'r gwaith iddo, bron: 'Mi a wn y cyhuddir fi o gulni a gelyniaeth, o ragfarn a châs. Pob peth yn dda. Ni thyr hynny mo fy nghalon'.⁷² Yn yr un modd, er cymaint oedd hoffter Yeats at Sligo, yr oedd hynny 'not out of liking for the people so much as for the earth and the sky here'.⁷³ Teimlai T. Gwynn Jones fod pobl yn ei erbyn drwy'r amser: 'Gwn yn hysbys nad oes ar fy ngwlad eisiau fy ngwasanaeth i' (TGJ 149), a phwysleisiodd Jenkins 'ei argyhoeddiad cyson nad oedd y Cymry'n malio'r un botwm corn amdano' (TGJ 155). Drwodd a thro yn ei ohebiaeth, gwelwn Jones yn weithredol yn ei osod ei hun, yn gymaint ag y gwnâi unrhyw un arall, ar y tu allan, yn union fel Llywelyn yn 'Ymson y Llyw Esgymmun', sy'n gwrthod ymadael â'i egwyddorion er mwyn cael dychwelyd i'r eglwys (GG tt. 69-70).

Digon posibl y cyfrannai Celtigrwydd mabwysiedig y beirdd at eu hanhawster i gael eu derbyn yn nes at adref; nododd Philip O'Leary y modd y gwrthodwyd Celtigrwydd

⁷¹ Edward Said, 'Intellectual Exiles', Radio 4 Reith Lecture: Edward Said: The Representation of the Intellectual, 1993. <http://www.bbc.co.uk/programmes/p00gxqzv> [Gwrandawyd Gorffennaf 1 2013].

⁷² T. Gwynn Jones, 'Y Genedl Fawr Hon', *Baner ac Amserau Cymru*, Ionawr 22 1896, t. 5.

⁷³ W. B. Yeats, Llythyr at Katherine Tynan, Awst 13 1887 (CL1 33).

gan rai aelodau o Gynghrair y Wyddeleg oherwydd ei fod yn arwydd o ‘gospolitaniaeth’ Eingl-Wydddeg, ac yn hanfodol wrthun.⁷⁴ Ni ellir diystyru, chwaith, y ffaith nad pawb yng Nghymru oedd mor barod â T. Gwynn Jones i addef perthynas â Cheltiaid eraill.⁷⁵ Yn wir, yn ôl Frantz Fanon, y mae’r brodor sydd wedi profi cosmopolitaniaeth y canol imperialaidd yn rhwym o’i ganfod ei hun mewn sefyllfa o amwysedd ac allanolrwydd, lle na chaiff ei dderbyn yn llwyr gan y naill garfan na’r llall: ‘Le Noir qui connaît la métropole est un demi-dieu [...] Beaucoup d’Antillais, après un séjour plus ou moins long dans la métropole, reviennent se faire consacrer. Avec eux l’indigène, celui-qui-n’est-jamais-sorti-de-son-trou, le “bitaco”, adopte la forme la plus éloquente d’ambivalence’.⁷⁶ Adlewyrcha’r amwysedd hwn yr amwysedd a brofasai Jones a Yeats eu hunain, yn enwedig yn gynnar yn eu gyrfaoedd. Fel y sylwodd E. Morgan Humphreys, y mae yn ‘anodd i lawer ohonoch erbyn hyn sylweddoli ffyrnigrwydd y gwrthwynebiad i Gwynn Jones [...] [c]eid hwyl anghyffredin wrth ymosod ar “geiliogod y colegau” a “hogiau di-farf”, gan anwybyddu’r ffaith nad oedd Gwynn Jones y pryd hwnnw wedi bod ar gyfyl coleg’.⁷⁷

⁷⁴ Philip O’Leary, “Children of the Same Mother”: Gaelic Relations with the other Celtic Revival Movements 1882–1916’, *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, VI (1986), 101–30 (tt. 105–8).

⁷⁵ Edrychodd Louise Miskell, er enghraiffti, yn fanwl ar ffenomen yr ‘Anti-Irish riot’ mewn cyd-destun Cymreig ynghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a diddorol o ystyried cyswllt agos T. Gwynn Jones â nifer o leoliadau yng ngogledd-ddwyrain Cymru yw astudiaeth Peter Jones o’r nifer cymharol uchel o Wyddelod a drigai yn Wrecsam yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Louise Miskell, ‘Reassessing the Irish Riot: Popular Protest and the Irish in South Wales, c. 1826–1882’, tt. 101–18; Peter Jones, ‘The Irish in Wrexham, 1850–1880’, tt. 83–100; yn *Irish Migrants in Modern Wales*, gol. Paul O’Leary (Liverpool: Liverpool University Press, 2004).

⁷⁶ Fanon, *Peau noire, masques blancs*, t. 15: ‘Y mae’r person du sydd yn adnabod y metropolis yn hanner-duw [...] Y mae digonedd o drigolion yr Antilles, ar ôl aros am hir neu am ychydig yn y metropolis, yn dychwelyd i gael eu haddoli. Tuag atynt hwy y mae’r brodor, yr-un-na-ddaeth-allan-erioed-o’i-dwll, y “bitaco”, yn arddangos y ffurf fwyaf huawdl o amwysedd.’

⁷⁷ E. Morgan Humphreys, ‘T. Gwynn Jones’, yn *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 193–8 (t. 195).

Celtigrwydd a'r *unheimlich*

Ond ni olygai hynny, ychwaith, nad oedd gan T. Gwynn Jones ei edmygwyr a'i ddilynwyr. 'Caned beirdd Cymru', awgrymodd, 'gerddi a ddyfnhao'r hiraeth', ac ymddengys yr ymroes nifer o'i gymheiriaid i wneud hynny.⁷⁸ Ond er y gellid dadlau fod 'canu hiraeth', a'r hiraeth hwnnw yn aml yn cael ei ymgorffori gan fath ar ddyhead am wlad well neu dir sydd ymhell i ffwrdd, yn ffenomen ddigon cyffredin yn ysgrifennu'r cyfnod, y mae nifer o resymau dros edrych yn fanylach ar y rhyng-chwarae rhwng yr 'adref' ac 'i ffwrdd' yng ngweithiau T. Gwynn Jones a W. B. Yeats. Ystyrir 'hiraeth' yn aml fel thema sydd yn nodweddu'r Cymry neu'r Gwyddelod, neu'r Celtiaid, fel yr awgrymir gan ddyfyniad Renan ar ddechrau'r bennod, mewn modd hanfodaidd, a gallai archwiliad theoretig o hyn gwestiynu a dadadeiladu tybiaethau o'r fath. Yn bennaf, defnyddir cysyniad yr *unheimlich* er mwyn amlinellu'r cysylltiad hwn rhwng hiraeth a Cheltigrwydd, gan gymhlethu'r berthynas rhwng yr 'adref' a'r 'nid-adref' a dangos nad yw'r un o'r ddau leoliad yn sefydlog. Mae rhyw lithriad neu ddiffyg yn rhan gynhenid ohonynt yn aml, ac mae hyn yn ei dro yn cymhlethu'r ddelwedd lywodraethol o'r bardd Rhamantaidd yn yr ugeinfed ganrif fel un sydd yn deisyfu dihangfa i wlad well neu ynys bellennig, oherwydd nad yw byth yn gallu cyrraedd yn llwyr nac ychwaith yn gallu gadael mewn modd cyflawn a pherffaith yr hyn sydd o'i ôl.

Dylid pwysleisio nad alltudiaeth lwyr, ar unrhyw gyfrif, oedd alltudiaeth T. Gwynn Jones a W. B. Yeats. Yn wir, roedd gan y cymunedau yr oeddent yn ymdroi ynddynt berthynas agos â'r 'famwlad', ac ar un wedd gellid dadlau nad oeddent yn alltud o gwbl. Cafwyd astudiaethau manwl eisoes o bwysigrwydd Llundain fel man cyfarfod i

⁷⁸ T. Gwynn Jones, 'Lliw a Llun yn Llên Cymru', *Y Geninen* 21 (1903), 88-94 (t. 94).

ddeallusion ac awduron Cymreig dros y blynyddoedd.⁷⁹ Nid mor amlwg, efallai, yw'r pwyslais ar Lerpwl fel cymuned gosmopolitanaidd Gymreig bwysig arall, yn enwedig mewn perthynas â'r gogledd. Serch hynny, pwysleisiodd D. Ben Rees fod 'Cymru'n fawr ei dyled i Gymry Lerpwl', a bod llinyn cyswllt wedi ei gynnal rhwng y ddinas a'r famwlad am ddegawdau lawer.⁸⁰ Ategir hyn gan Merfyn Jones, a nododd fod Cymry Lerpwl wedi chwarae 'rhan amlwg, hollbwysig o bosibl, yn y gwaith o egluro termau cenedligrwydd i'r Cymry; ar lawer ystyr, hwy biau'r clod am greu ymdeimlad o ddiwylliant Cymreig',⁸¹ ac yn sgil twf y *bourgeoisie* Cymreig yn Lerpwl, ei bod yn 'dilyn fod arwyddocâd y dosbarth canol hwn yn Lerpwl yn gwbl hanfodol i ddeall twf yr ymwybod cenedlaethol yng Nghymru ei hun'.⁸² Ar y naill law, felly, yr oedd natur y gymdeithas yn Lerpwl yn gwbl wahanol i'r hyn a geid yng nghefn gwlad Cymru, ond ar y llaw arall meithrinid cyswllt annatod â'r hen wlad.

Nid yn Lerpwl yn unig y parhaodd y cyswllt hwn; tra'r oedd Jones yn yr Aifft, fe'i mynegwyd mewn modd mwy emosiynol drwy'r hiraeth affwysol a deimlai, a hefyd yn y modd yr oedd y golygfeydd y daethai ar eu traws yn ei atgoffa o olygfeydd tebyg, i'w dyb ef, yng Nghymru:

Wrth fynd i Gairo ddydd Mawrth gwelais gae o ffa yn dechrau blodeuo. Aeth hynny a fy meddwl ym mhell iawn yn ol, i Gymru, ac at ddydd Gwyl yn yr haf, pryd yr oedd geneth a bachgen heb gwbl wybod eu bod yn eu caru ei gilydd yn anwyl iawn, wedi mynd am dro yn y prynawn hyd ffordd sy'n mynd drwy ganol Dyffryn Clwyd, o Ddinbych i Fodffari, ac yn sefyll i edrych ar gae o ffa yn eu

⁷⁹ Fel yr awgrymwyd yn y bennod gyntaf, y mae traethawd PhD diweddar Tomos Owen, *London-Welsh writing 1890-1915: Ernest Rhys, Arthur Machen, W.H. Davies, and Caradoc Evans* (PhD Prifysgol Caerdydd, 2011), ac archwiliad y thesis hwnnw o'r modd y daeth y Celt yn ffigwr canolog yng ngwaith yr awduron dan sylw o fewn cyd-destun cosmopolitan Llundain, yn ddiddorol yn y cyd-destun hwn.

⁸⁰ D. Ben Rees, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau, Cyfrol 1* (Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf., 1997), t. 15.

⁸¹ D. Ben Rees a Merfyn Jones, goln., *Cymry Lerpwl a'u crefydd: dwy ganrif o Fethodistiaeth Galfinaidd Gymreig* (Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1984), t. 20.

⁸² Jones, *Cymry Lerpwl a'u crefydd*, t. 23.

blodau, blodau oedd yn llenwi'r awyr ag arogl hyfryd. A ydych yn cofio'r diwrnod hwnnw, Meg fach?⁸³

Wrth edrych ar wychter a phrydferthwch yr eglwys hon, ni allwn beidio a meddwl am gapeli bychain diaddurn Cymru, a theimlwn yn drist. (TGJ 159)

Mynegir profiad cyffelyb yn nofel W. B. Yeats, *John Sherman* (1891), wrth i'r prif gymeriad grwydro strydoedd Llundain:

Ballah was being constantly suggested to him. The grey corner of a cloud slanting its rain upon Cheapside called to mind by some remote suggestion the clouds rushing and falling in cloven surf on the seaward steep of a mountain north of Ballah. A certain street-corner made him remember an angle of the Ballah fish-market. At night a lantern, marking where the road was fenced off for mending, made him think of a tinker's cart, with its swing-can of burning coals, that used to stop on market days at the corner of Peter's Lane at Ballah. Delayed by a crush in the Strand, he heard a faint trickling of water near by; it came from a shop window where a little water-jet balanced a wooden ball upon its point. The sound suggested a cataract with a long Gaelic name, that leaped crying into the Gate of the Winds at Ballah. Wandering among these memories a footstep went to and fro continually.⁸⁴

Gwelir eisoes fel y mae'r syniad o grwydro, o symud 'to and fro' yn barhaol, yn elfennau creiddiol i'r profiad hwn. Yn ôl atgofion llawer diweddarach Yeats ei hun, amgylchiadau cyffelyb o 'sudden remembrance' a 'remote suggestion' a arweiniodd at gyfansoddi un o'r cerddi a ddaeth ag enwogrwydd gwirioneddol iddo am y tro cyntaf, sef 'The Lake Isle of Innisfree' ([1890] VP 25). Cyfansoddwyd y gerdd honno, a'r dyfyniad uchod, mewn cyd-destun dinesig a adlewyrchai, yn wir a fodolai bron fel math ar ddimensiwn cyfochrog, i'r wlad, gan atgoffa'r awdur yn ddi-baid o'i wreiddiau. Y mae cysylltiad agos rhwng y profiad hwn a'r crwydro, y symud, hefyd, a'u heffaith ar fanylion lleiaf y cerddi; heb ei brofiad fel alltud, dywed Yeats, 'I would not have written that first line with its conventional archaism "Arise and go" nor the inversion in the last stanza' (Au 153-4).

⁸³ Llythyr at Meg, Rhagfyr 22 1903. Dyfynnwyd yn TGJ, tt. 162-3.

⁸⁴ W. B. Yeats, *John Sherman* (1891). Dyfynnwyd yn CVP7, tt. 253-4.

Nid yn unig y mae symudiadau crwydrol y bardd yn effeithio ar gynnwys ac ar naratif y gerdd, ond ar ei rhythm a'i chystrawen hefyd. Y mae rhyw dyndra yma rhwng yr 'I will arise and go now' a'i bwysleisiau sydd bron fel pe baent yn cymell y darllenydd, hefyd, i godi, a'r llinellau olaf, lle mae'r siaradwr yn sefyll yn statig 'on the pavements grey' (llau. 1, 11).

Canlyniad y cyswllt rhyfedd hwn rhwng dau le yw yr hydreiddir gwaith y ddau awdur ag arlliw o'r *unheimlich*. Un o'r rhai cyntaf i ymdrin â'r cysyniad yn fanwl oedd Sigmund Freud, ond cafodd gryn drafferth wrth geisio diffinio'r term:

It is undoubtedly related to what is frightening – to what arouses dread and horror; equally certainly, too, the word is not always used in a clearly definable sense, so that it tends to coincide with what excites fear in general.⁸⁵

Er mor anodd yw diffinio'r *unheimlich*, teimla Freud y gellir awgrymu un peth yn bur sicr: 'the uncanny is that class of the frightening which leads back to what is known of old and long familiar'.⁸⁶ Crëir neu awgrymir yma felly gyswllt rhwng yr *unheimlich* a'r modd y mae rhywbeth yn gyfarwydd neu'n anghyfarwydd i amrywiol raddau. Caiff Andrew Bennett a Nicholas Royle gryn anhawster â'r term hefyd; yn eu diffiniad hwy nid canfod yr anghyfarwydd ynghanol y cyfarwydd yn unig a all esgor ar brofiad *unheimlich*, ond i'r gwrthwyneb yn ogystal. Gan seilio eu hastudiaethau yn bennaf ar ysgrif Freud ar yr *unheimlich*, aeth Bennett a Royle ati i geisio diffinio a dehongli'r term hefyd, ond gan nodi:

The uncanny has to do with a sense of strangeness, mystery or eeriness. More particularly it concerns a sense of unfamiliarity which appears at the very heart of the familiar, or else a sense of familiarity which appears at the very heart of the unfamiliar.⁸⁷

⁸⁵ Sigmund Freud, 'The Uncanny' ('Das Unheimlich', 1919), yn *The Complete Psychological Works of Sigmund Freud, Vol. XVII (1917-19)*, cyf. James Strachey, Anna Freud, Alix Strachey ac Alan Tyson (London: The Hogarth Press, 1955), tt. 217-52 (t. 219).

⁸⁶ Freud, 'The Uncanny', t. 220.

⁸⁷ Andrew Bennett a Nicholas Royle, *Introduction to Literature, Criticism and Theory*, 4ydd arg. (Harlow: Pearson Longman, 2009), t. 34.

Y mae'r cyferbyniad hwn yn dwyn i gof ddiffiniad cynharach nag eiddo Freud i gof, sef trafodaeth Ernst Jentsch ar yr *unheimlich*. Yn ei erthygl yntau, cynigiodd Jentsch: '*a lack of orientation is bound up with the impression of the uncanniness of a thing or incident*'.⁸⁸ Ymddengys y byddai dilyn diffiniad fel hyn o'r *unheimlich*, felly, yn tueddu i awgrymu fod y profiad *unheimlich* yn fwy tebygol o gael ei deimlo mewn lleoliad anghyfarwydd, oddi cartref.

Er i Freud feirniadu Jentsch am y disgrifiad hwn oherwydd ei anallu i 'get beyond this relation of the uncanny to the novel and unfamiliar',⁸⁹ y mae ar yr un pryd yn barod i addef fod perthynas agos rhwng yr *heimlich*, y cartrefol neu'r amlwg, yr agored, y cyfarwydd, a'r *unheimlich*, y cuddiedig, y preifat, yr 'anghyfarwydd', o fewn yr un gair: '[w]hat interests us most in this long extract is to find that among its different shades of meaning the word *heimlich* exhibits one which is identical with its opposite, *unheimlich*. What is heimlich thus comes to be *unheimlich* [...] *heimlich* is a word the meaning of which develops in the direction of ambivalence, until it finally coincides with its opposite, *Unheimlich*'.⁹⁰ Y mae cysyniad Freud, felly, yn annatod ynghlwm â dau begwn cyferbyniol. Cymhlethir hyn ymhellach pan noda fod yr *unheimlich* hefyd yn wrthbwynt i'r *heimisch*, y brodorol, a rhydd hyn arwyddocâd pellach i'r *unheimlich* fel y daw i gael ei deimlo yng ngwaith Jones a Yeats, yn enwedig yng nghyd-destun alltudiaeth.⁹¹ Yn ymhlyg ac yn gynwysedig o fewn yr *unheimlich* y mae perthynas agos rhwng y cartrefol a'r anghartrefol, y cuddiedig a'r amlwg, y cynefin (yn ei holl ystyron) a'r anghynefin. Rhaid i ystyriaeth o'r *unheimlich*, felly, addef a chydabod amryw ystyron ac ymgorfforiadau

⁸⁸ Ernst Jentsch, 'On the Psychology of the Uncanny' [1906], cyf. Roy Sellars, *Angelaki*, 2: 1 (1995), 7-16 (t. 8).

⁸⁹ Freud, 'The Uncanny', t. 221.

⁹⁰ Freud, 'The Uncanny', t. 226.

⁹¹ Freud, 'The Uncanny', t. 220.

posibl a pharadocsiaidd y term, gan gynnwys yr ‘anghartrefol’, yr ‘anghyfarwydd’ yr ‘anghynefin’, ac yn ddiddorol y gair a ddefnyddir gan amlaf ar gyfer y term yn y Gymraeg, sef yr ‘annaeinol’.

Gellid dadlau felly fod a wnelo'r *unheimlich* yn agos iawn â phrofiadau T. Gwynn Jones a W. B. Yeats yn eu halltudiaeth. Dyma'r cyflwr yr esgorir arno yn sgil dadleoliad sydd, i raddau helaeth, yn ddadleoliad anghyflawn, yn achos y ddau fardd. Fel yr awgrymodd D. Ben Rees am lenyddiaeth Cymry Lerpwl, '[ll]enyddiaeth pobl y ddeufyd ydyw [...] Er fod Glannau Mersi mor agos i Gymru, eto alltudion ydym ni'.⁹² Y mae hefyd yn cydsynio'n agos â dadansoddiad Edward Said o'r cyflwr alltud:

There's a popular, but wholly mistaken assumption, that being exiled is to be totally cut off, isolated, hopelessly separated from your place of origin. Would that surgically clean separation were true, because then at least, you could have the consolation of knowing that what you've left behind is, in a sense, unthinkable, and completely irrecoverable. The fact is that for most exiles, the difficulty consists, not simply in being forced to live away from home, but rather given today's world, living with the many reminders that you are in exile, that your home is not in fact so far away, and that the normal traffic of everyday contemporary life, keeps you in constant, but tantalising, and unfulfilled touch with the old place. The exile therefore exists in a median state, neither completely at one with the new setting, nor fully disencumbered of the old, beset with half-involvements, and half-detachments, nostalgic and sentimental on one level, and adept mimic or secret outcast on another.⁹³

Y mae'r profiad a ddisgrifir gan Said yma yn hynod o debyg i brofiad o'r *unheimlich*. I'r ddau awdur, sydd mewn 'constant, but tantalising, and unfulfilled touch with the old place', dadleuir y daw eu cerddi Celtaidd yn fodd o archwilio'r profiad *unheimlich* hwn, mewn tôn sydd yn 'nostalgic and sentimental'. Yn sgil hyn, y mae'r *unheimlich* yn gyflwr neu'n brofiad sydd yn cyfleu ymdeimlad personol o ddadleoliad ac alltudiaeth personol. Ond y mae hefyd yn adlewyrchu ymdeimlad ehangach, cenedlaethol o bosibl, o ddad-dirioogaethu ac ansefydlogrwydd: yn y cyd-destun hwn y gellir synio am Yeats yn

⁹² Rees, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau*, t. 20.

⁹³ Said, 'Intellectual Exiles'.

disgrifio'r Gwyddelod fel 'Exiles wandering over lands and seas' yn 'The Dedication to a Book of Stories selected from the Irish Novelists', er enghraifft ([1891] VP 35, ll. 9).

Gellir awgrymu hefyd fod y cyflwr crwydrol y canfu'r ddau awdur eu hunain ynddo, o gymharu ag alltudiaeth sefydlog neu lonydd, yn dwysáu'r ymdeimlad hwn o'r *unheimlich* ymhellach. Pan nad yw'n hiraethu am ei gynefin, hiraethu am lannau'r Fenai y mae T. Gwynn Jones, ac fe gymhlethir y sefyllfa gan hynny, oherwydd nad bro enedigol neu ardal ei febyd yw Caernarfon ychwaith, gan awgrymu mor llithrig yw'r cysylltiad, nid yn unig rhwng y lleoliad 'i ffwrdd' a'r lleoliad 'adref', ond rhwng 'adref' ac 'adref' hefyd. Yn yr un modd, hiraethu am Sligo a wna W. B. Yeats yn Llundain, er mai rhwng Dulyn a phrifddinas Lloegr y bu yntau a'i deulu'n symud am rai blynyddoedd, ac felly nid mater syml o ryngchwarae neu dyndra rhwng dau leoliad a geir fyth yng ngweithiau T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, ond palimpsest cymhleth o leoliadau, atgofion, ac atyniadau.

Adlewyrchir hyn gan yr obsesiwn â chrwydro, ac â ffigwr y crwydryn, yn eu barddoniaeth. Yn wir, fel y sylwodd Terence Brown, 'a key word in all Yeats's early verse is "wandering"' (LWBY 75). Yn yr un modd, awgrymir yn rhagair cyfrol Jones, *Ymadawiad Arthur a Cherddi Ereill* (1910) fod nifer o'r cerddi yn gynnrych y datgysylltiad a deimlasai yn ystod ei gyfnod ansefydlog; yn ei air 'At y Darllenydd', dywed yr '[y]sgrifennwyd rhai o'r cerddi pan oeddwn ymhell o'm gwlad ac yn meddwl nas gwelwn byth mwy. Nid wŷr ond a grwydro anwyled yw Cymru, a mwyned yw'r iaith a glaned yw'r bywyd sydd yno, ac a fydd yno byth, gobeithio'.⁹⁴ Y mae'r syniad o 'grwydro', felly, yn un llywodraethol ac allweddol i'r cerddi cynnar hyn; fe'i ceir yn 'Y Dysgawdr' (YA tt. 162-7), 'Mai' ('Pan lawen grwydrit ti a mi', YA tt. 61-2, t. 62 ll. 7) ac yn 'Y Pennaeth' 'Fel y

⁹⁴ T. Gwynn Jones, 'At y Darllenydd', yn YA tt. vii.

gwynt yn rhydd y rhedai / Ac y crwydrai fryn a glyn' (YA u. 58-9, llau. 13-4), i enwi tair cerdd. Y mae'r un peth yn wir am gynnyrch cynnar Yeats, yn 'Ephemera' ([1889] VP 9), 'The Song of the Happy Shepherd' ([1885] VP 2) ac, wrth gwrs, yn 'The Song of Wandering Aengus' ([1897] VP 49), lle mae Aengus yn 'old with wandering / Through hollow lands and hilly lands' (llau. 18-9). Yna, yn 'To the Rose upon the Rood of Time' ([1892] VP 18), gwelwn 'Eternal beauty wandering on her way' (ll. 12).

Unwaith eto, y mae dehongliad Said yn taro linc cyfarwydd: 'a life of exile moves according to a different calendar, and is less seasonal and settled than life at home. Exile is life led outside habitual order. It is nomadic, decentered, contrapuntal; but no sooner does one get accustomed to it than its unsettling force erupts anew'.⁹⁵ Fel cymaint o elfennau alltudiaeth, perthyn deuoliaeth i'r crwydro hwn. Ble bynnag yr âi, â'r bobl ymylol, grwydrol y cydymdeimlai Jones, gan synio eu bod hefyd mewn cyswllt â ffordd fwy hynafol o fyw, boed yn Sipsiwn Romani neu'r Bedouin yn yr Aifft: 'rywfodd, y mae gennyf fi lawer o gydymdeimlad a'r Bedawen, neu o leiaf a'u dull o fyw'.⁹⁶ Effeithia'r crwydro, hefyd, ar safbwynt daearyddol y siaradwr; nid yw'r llefarydd yng ngherddi Jones a Yeats byth yn gwbl sefydlog yn ei leoliad presennol, ac yn yr anfodlonrwydd crwydrol hwn cyfleir cymhlethdod ac amwysedd agwedd yr alltud.

Yn wir, caiff yr holl elfennau a drafodwyd eisoes eu dwyn ynghyd ym meddwl Jones. Mewn erthygl o'r enw 'Beirdd y Mynydd a'r Mor', honna fod gan feirdd sy'n hanu o wledydd mynyddig ac arfordirol ryw fath ar ddawn farddonol wahanol i eiddo beirdd gwledydd eraill.⁹⁷ Er mwyn enghreifflio'r ddawn hon, rhestra ddyfyniadau gan feirdd sydd, ac eithrio Maeterlinck, i gyd yn dod o wledydd 'Celtaidd' Iwerddon, Cymru,

⁹⁵ Said, 'Reflections on Exile', t. 186.

⁹⁶ T. Gwynn Jones, 'Cymro yn Alexandria', *Yr Herald Cymraeg*, Rhagfyr 10, 1907, t. 3.

⁹⁷ T. Gwynn Jones, 'Beirdd y Mynydd a'r Mor', yn *Traethodau* (Caernarfon: Swyddfa'r Herald, 1910), u. 77-86.

Llydaw a'r Alban. Cynneddf Geltaidd ydyw hon yn y bôn, felly, ond nad enwir hi felly gan Jones. Ac am y ddawn hon drachefn, dywed:

Ni bydd ar blentyn gwlad y mynydd a'r mor ofn Natur wyllt. Daw'n gynefin â hi, a thrydd ei moddau yn rhan o'i feddyliau a'i weithredoedd. Cartrefol yw, a phan elo ar lled, bydd arno hiraeth, ac o'r hiraeth hwnnw y tarddodd pethau tlysaf a thyneraf ei lenyddiaeth.⁹⁸

Ceir cynneddf sydd bron yn unigryw Geltaidd, felly, yn y disgrifiad hwn, dawn fel pe bai wedi ei rhoi neu ei thadogi ar y bardd gan dirlun ei gynefin. Ond ar y llaw arall, bron nad yw'n rheidrwydd arno deithio ymhell i ffwrdd o'r cynefin hwn cyn y gall ei allu barddol ddod i'w lawn dwf; bryd hynny y sylweddolir 'erupting force' alltudiaeth, ac y daw'r gallu i greu 'pethau tlysaf a thyneraf ei lenyddiaeth.'

Canlyniad hyn oll yw y dadsefydlogir y deongliadau traddodiadol o waith Jones a Yeats. Canolbwyntiodd nifer o feirniaid ar yr hyn a alwyd gan Beynon Davies yn thema'r 'Hyfryd Wlad', a 'thema gyfoethocaf' T. Gwynn Jones, sef yr awgrym fod llawer o'i gerddi pwysical yn cynnwys dihangfa i ynys neu fyd delfrydol.⁹⁹ Traethodd Alun Llywelyn Williams yntau ynghylch 'ynys y baradwys bell' y mae cymeriadau T. Gwynn Jones o hyd yn ymgyrraedd atynt, weithiau'n eu cyrraedd, fel yn 'Ymadawiad Arthur', ac weithiau'n methu, fel yn 'Madog'.¹⁰⁰ Ond ar wahân i'r cerddi cynharaf un, mae'r berthynas rhwng y ddeufyd yn un llawer mwy cymhleth yng ngerddi Jones a Yeats, a'r dynfa yn ôl yr un mor gryf. Rhaid i Bedwyr yn 'Ymadawiad Arthur' ([1902] YA tt. 3-21), er enghraifft, ddychwelyd 'at y drin [...] eto draw' (t. 21 llau. 5-6), a gadael er mwyn dychwelyd, maes o law, a wna Arthur yntau: 'Ond i fy nhud dof yn ol' (t. 19 ll. 1). Tebyg yw'r datblygiad yn 'Tir Ieuentid' (YA tt. 69-70). '[D]im ond awr / Ymhell o swm a

⁹⁸ Jones, 'Beirdd y Mynydd a'r Mor', t. 77.

⁹⁹ W. Beynon Davies, 'Canu Thomas Gwynn Jones', yn *Cyfes y Meistri: Thomas Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 225-41 (t. 235).

¹⁰⁰ Llywelyn-Williams, *Y Nos, y Niwl a'r Ynys*, tt. 128-40.

thrafferth byd a'i boen' (l. 70 llau. 5-6) a dreulir yno; yna bydd rhaid i Trystan ac Eyllt, fel Arthur, dychwelyd. Felly hefyd yn 'The Wanderings of Oisín' ([1889] VP 1), cerdd hir gyntaf Yeats, lle hydreiddir y teithio o ynys i ynys gan y galar am gynefin. Dychwelyd a wna Oisín hefyd, er y golyga hynny ei ddiwedd, yn hytrach na bywyd tragwyddol gyda Niamh. Daw'r rheidrwydd i dychwelyd yn gynyddol anochel i gymeriadau'r cerddi hyn; fel y sylwodd Robin Chapman ar ddiwedd ei astudiaeth o ganu telynegol dechrau'r ugeinfed ganrif, '[d]ychwelyd yw diwedd glo'r gylchdaith ddaearol hon'.¹⁰¹ Y mae rhyw gaethiwed chwerwfelys ynghylch yr ymlyniadau hyn â'r tir, ac â'r cynefin. Yn gynyddol, archwilio'r cymhlethdod, y rhyngchwarae rhwng aros a dychwelyd a wna Yeats a Jones yn eu cerddi, a dyhead sydd ynddo'i hun, fe ellid dadlau, yn *unheimlich* oherwydd ei fod, yn bur llythrennol, yn ddyhead ansefydlog. Disgrifia Bennett a Royle y profiad o ddarllen ac o brofi'r *unheimlich* fel profiad 'unsettling', ac mae'r cerddi hyn yn ychwanegu at yr ymdeimlad hwn.¹⁰²

Gellir cysylltu hiraeth â Cheltigrwydd mewn modd mwy diriaethol hefyd. Mewn darlith o'r enw 'Lliw a Llun yn Llên Cymru' a gyhoeddwyd yn *Y Geninen* yn 1903, awgrymodd T. Gwynn Jones fod hiraeth yn ffenomen fodern sydd yn galluogi'r bardd cyfoes i ysgrifennu fel bardd Celtaidd cynhanesiol neu ganoloesol. 'Pobl oedd yr hen Geltiaid yn byw yn y wlad, plant Natur, heb eto ddysgu gwneyd trefi',¹⁰³ meddai Jones, gan droi at gymorth tystiolaeth o lenyddiaethau Celtaidd, gan ei arwain i synio 'mai dawn Geltaidd' yw'r ddawn i ddisgrifio lliw a llun natur.¹⁰⁴ Dyma'r hyn y mynn Jones ei bwysleisio:

Gwelwch ynddo [yr *Agallamh na Senorach*] [y]n eglur gariad angerddol at fywyd

¹⁰¹ Chapman, *Meibion Afradlon*, t. 144.

¹⁰² Bennett a Royle, *Introduction to Literature, Criticism and Theory*, t. 34.

¹⁰³ Jones, 'Lliw a Llun yn Llên Cymru', 88.

¹⁰⁴ Jones, 'Lliw a Llun yn Llên Cymru', 93.

gwledig, a hoffder at liw a llun. Onid yw'r darn fel gwaith bardd o Wyddel o'r oes hon yn gorfod byw y'nghanol tref fawr, ac yn caffael hamdden weithiau yn y mwg a'r brys a'r twrw i feddwl am y wlad a'i hawyr iach a'i gorffwys a'i thawelwch, ac yn ei disgrifio y'ngrym hiraeth? [...] Ond nid y Gwyddel yn unig a fedr weld y tegwch hwn. Y mae o i'w gael y'ngweithiau ein beirdd a'n llenorion ninnau.¹⁰⁵

Y mae'n anodd peidio â meddwl yma am W. B. Yeats, ac fe ddichon mai dyna'r union fardd y cyfeiria T. Gwynn Jones ato. Yn ôl David Jenkins bu i Jones draddodi darlith ar yr union bwnc hwn gerbron cymdeithas lenyddol yn Lerpwl yn 1895 (TGJ 93); o ystyried, hefyd, mai sgysiol a llafar yw llawer o'r erthygl fel yr ymddengys yn *Y Geninen*, gellir cynnig yn betrus mai dyma'r un ddarlith, er bod posibilrwydd iddi gael ei golygu yn y cyfamser. Os felly, yna caiff y ddarlith hon ei hun hefyd ei thraddodi a'i hynganu o safle alltud. Awgrymir ei bod yn rheidrwydd ar y bardd modern i brofi cyflwr o ddatgysylltiad ac o ddad-dirioogaethu er mwyn mynegi ac yngan ei weledigaeth, 'y'ngrym hiraeth', o safbwynt 'Celtaidd'. Yn hyn, felly, gellir dadlau fod yr *unheimlich*, y cyswllt annatod ond cythryblus ac annaearyl hwnnw rhwng dau safle daeryddol neu amseryddol ddistadl, yn chwarae rhan ganolog yn ffurfiant a hunan-ddatblygiad y bardd modern yn yr ugeinfed ganrif fel 'Celt'.

Efallai y crisielir y modd y daeth yr *unheimlich* i darfu ac aflonyddu ar waith T. Gwynn Jones mewn cerdd Saesneg ei hiaith o'i eiddo, 'Fatherland'.¹⁰⁶ Ymddangosodd yng nghylchgrawn O. M. Edwards, *Wales*, yn fuan wedi'r cyfnod pan oedd Jones yn byw yn Lerpwl, ond fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn *Baner ac Amserau Cymru* yn Awst 1894 dan y ffugenw Kynan Meredydd. Nid cwbl gyfeiliornus, felly, fyddai awgrymu mai yn Lerpwl y'i cyfansoddwyd, neu o leiaf mai yno y cafodd ei lleoli. Dyma un o'r cerddi sy'n arddangos yn fwyaf uniongyrchol nodweddion Celtigrwydd o'r math a goleddid gan Yeats ac Ernest

¹⁰⁵ Jones, 'Lliw a Llun yn Llên Cymru', 88-9.

¹⁰⁶ T. Gwynn Jones, 'Fatherland', *Wales: a national magazine for the English speaking parts of Wales*, II (1895), 47.

Rhys. Y mae'r tylwyth teg yn bresenoldeb cyson; 'fairy-land tale' (ll. 9) yw hon am straeon 'mystic' (ll. 13) a adroddir gan y 'fairy-band bright' (ll. 14), a cheir ymdeimlad arallfydol drwy'r gerdd wrth i'r bardd grwydro 'roam' (ll. 10) y tro hwn 'Dreaming wild dreams of delicious delight' (ll. 11). Egyr y pennill cyntaf wrth i'r bardd sefydlu ei bellter daearyddol, ei alludiaeth, i ffwrdd oddi wrth y tir y cenir amdano; mae'r pwyslais ar natur, ac yn benodol ar afonydd a nentydd:

Far o'er the hills, where the streamlets and rills
Sparkle and dance into feathery foam (llau. 1-2)

Yr ydym yn ymwybodol felly mai o bellter y mae'r siaradwr yn disgrifio'r 'fatherland'. Digwydd y gerdd 'When the glades were darkening' (ll. 12), yn y 'gwyll' neu'r 'cyfnos' Celtaidd, a daw i ben gyda'r cwpled canlynol:

Ever I cling to thee fondly, and sing to thee,
Fatherland! loveliest Wales! (llau. 26-7)

Tra gwahanol yw'r math melyn hwn o ganu i rai o gerddi cynharaf T. Gwynn Jones. Er gwaethaf eu tinc Fictoraidd a blodeuog, ni ellir anwybyddu islais cenedlaetholgar a milwriaethus y cerddi hynny. Ond gogwydd mwy gwladgarol na chenedlaetholgar sydd i 'Fatherland', a mynegir hynny drwy greu Celtigrwydd dirywiaethol, yn ymylu ar y delicet, yn cyfleu synnwyr o hiraeth o safle alltud a dadwreiddiedig, ac y mae'r llais yma yn llawer nes at fwyafrif y cerddi a fyddai'n cael eu cyhoeddi, maes o law, yn *Gwlad y Gan a Chaniadau Eraill* (1902), ac yn wir yn *Ymadawriad Arthur a Chaniadau Ereill* (1910). Yma hefyd y daw'r cymeriadau arallfydol, y tylwyth teg a'r nymffau, i'r amlwg gan ddisodli cymeriadau hanesyddol. Effaith hyn yw ychwanegu at yr ymdeimlad o Gymru fel byd cwbl 'arall' i'r byd presennol y mae'r siaradwr ynddo. Ond ar yr un pryd y mae'n honni adnabyddiaeth glos o'i thirwedd, ac felly ar yr un pryd â bod yn llwyr anghyffwrdd a distadl, y mae'r cynefin hefyd, yn rhyfedd, yn gwbl *gynefin*. Dyma gymhlethu a

phroblemateiddio drachefn, felly, ddehongliad beirniaid megis Alun Llywelyn-Williams a Robin Chapman, a awgrymodd y '[r]hedai syniadau dihangfa a iachâd trwy farddoniaeth blynyddoedd cynnar y ganrif, yn wrthbwynt telynegol i gymdeithas drefol neu ddinesig a ofnid ac a ddilornid i raddau cyfartal'.¹⁰⁷ Er y gellir cytuno â'r gosodiad hwn i raddau, dengys cerddi megis 'Fatherland' ac eraill isod fod angen ystyriaeth fanylach o'r dyblu hwn a âi y tu hwnt i'r gwrthbwyntiol, a'r berthynas ryfedd, fwy parhaol rywsut nag enciliad i un cyfeiriad, rhwng y gwahanol leoliadau alltud a mewol hyn.

Mynegiant o'r un sentiment â'r cerddi cynharach a geir yma, sef yr ymdeimlad o ddad-dirioogaethu, o fod wedi datgysylltu oddi wrth y tir ond yn dyheu amdano er hynny. Y gwahaniaeth yw fod yr ymdeimlad hwnnw bellach yn wirioneddol *unheimlich*, yn annaeorol ac yn anghartrefol. O bellter alltud, ac yn Saesneg, y daw'r persona hwn i ffurfiant llawnach, bron fel pe bai angen rhyw fath ar ddatgysylltiad er mwyn gallu creu'r Celt, a'i ymdeimlad o'r cynefin. Yn hynny o beth y mae a wnelo'r gerdd hon â chysyniad arall a gysylltir â'r *unheimlich*, sef y dwbwl. Un o 'those themes of uncanniness which are most prominent' yw thema'r dwbwl neu ddyblu: 'it is marked by the fact that the subject identifies himself with someone else, so that he is in doubt as to which his self is, or substitutes the extraneous self for his own'.¹⁰⁸

Mae modd canfod elfennau o'r dyblu hwn yn Jones ac yn Yeats hefyd, yn eu hymdrechion aml hwythau i gyrraedd rhyw gyflwr cyfannol, neu o leiaf i ddod â'u holl weithiau, creadigol a beirniadol, i gwmpas cyfannol a oedd yn gyson â'i gilydd, ond yn methu yn yr ymgais honno dro ar ôl tro. Ond yn achos 'Fatherland', teimlir effaith y dyblu oherwydd ei bod wedi ei mynegi mewn iaith arall, ac felly y mae'r gerdd hon yn

¹⁰⁷ Chapman, *Meibion Afradlon*, t. 61.

¹⁰⁸ Freud, 'The Uncanny', t. 234.

annisgwyl ac anghyfarwydd i ddarllenydd sydd wedi arfer â deunydd Cymraeg Jones, gan beri i ni ei darllen o'r newydd. Yma hefyd ceir adleisiau, fel yr awgrymwyd eisoes, o gerddi fel rhai Yeats ac Ernest Rhys yn y cyfnod, ac yn wir o feirdd cynharach fel Tennyson, ac y mae hynny hefyd, felly, yn ychwanegu at yr ymdeimlad o ddyblu ac at y llais ansefydlog o fewn y gerdd. Nid yn y gerdd hon yn unig, fodd bynnag, y gellir canfod yr *unheimlich* yng ngherddi Jones o'r cyfnod, ac efallai y gall archwiliad mwy manwl o hyn yn ei gerddi ef a Yeats gynorthwyo i'n goleuo ynghylch perthynas y dwbwl â'r *unheimlich*.

Cerdd gynnar o eiddo Yeats sydd, fe ellid dadlau, yn arddangos nodweddion *unheimlich*, yw 'The Stolen Child', a gyhoeddwyd yn *Crossways* (1889). Ceisia'r tylwyth teg gymell a denu'r plentyn i ffwrdd gyda hwy i 'Sleuth Wood', 'furthest Rosses', a'r 'wandering water' uwchben 'Glen Car' ([1880] VP 11, llau. 2, 15, 28-9), lleoliadau yn Sligo, ac felly fe'n cymhellir i holi o ble'n union y mae'r tylwyth teg yn ceisio'i ddenu. Ceir darlun delfrydol o wlad well, 'Full of berries / And of reddest stolen cherries' (llau. 7-8) lle ceir dawnsio drwy'r nos. Canolbwyntir ar ddisgrifio tirwedd y lle, '[w]here dips the rocky highland' (ll. 1), tirwedd y gellid, yn hawdd, ei gymharu â thirwedd 'Fatherland', mewn ffordd cymharol fanwl yma hefyd. Ond er i'r tylwyth geisio darbwyllo'r plentyn y byddai'n dianc 'From a world more full of weeping than he can understand' ped âi gyda hwynt, nid argyhoeddir y darllenydd yn llwyr. Wrth sibrawd yng nghlustiau'r brithyll rhydd y tylwyth 'unquiet dreams' iddynt; mae'r rhedyn yn gollwng dagrau hyd y nentydd, a chanlyniad hyn i gyd yw yr aflonyddir ar y plentyn ac ar y darllenydd fel ei gilydd, gan ysgogi ymdeimlad cythryblus. Bron nad yw'r hyn y mae'r plentyn yn ei adael ar ôl yn fwy dymunol na'r hyn a gynigir iddo, oherwydd ei fod yn fwy cyflawn o gyfarwydd:

He'll hear no more the lowing
 Of the calves on the warm hillside
 Or the kettle on the hob
 Sing peace into his breast (llau. 44-7)

Cymhleth, felly, yw'r berthynas rhwng y byd 'go iawn' a'r arallfyd yn y gerdd hon, oherwydd er ceisio cymell y plentyn o fyd llawn wylo, bron nad yw'r byd go iawn yn fwy dymunol na'r arallfyd oherwydd ei natur ddiriaethol, gyffyrddadwy. Pwysleisir amwysedd y teimladau tuag at y ddau leoliad, a'r modd y gallai'r un lle fod yn 'gynefin' ac yn 'arall' ar yr un pryd, fel y sylwa Frank Kinahan: 'Far from positing the fairy world as an ideal, then, Yeats's early writings on the *sidhe* – whether prose, poetry, or drama – suggest his hesitancy to give himself over wholly to the supernatural world and his ultimate choice for a world whose workaday sounds sing peace into the breast'.¹⁰⁹

Bron nad yw'r plentyn yn alltud pa ddewis bynnag a wneir ganddo – yn wir, nid ei eiddo ef yw dewis p'un bynnag. Nid yw'n gwbl allanol, ond nid yw'n gwbl 'gartrefol', yn *heimlich*, yn yr un man chwaith. Yn ôl Seamus Deane, '[i]n the vast repertoire of Irish exilic positions, this is one of the most effective. The stolen child or man or woman remains within Ireland as part of its true and permanent history and yet in exile from all that in Ireland is part of its transient and yet actual existence'.¹¹⁰ Yn hynny o beth, y mae 'The Stolen Child' yn ymgorfforiad ar gerdd o'r hyn a brofasai Yeats ei hun ar y stryd yn Llundain, sef y teimlad annaeorol ei fod mewn dau le ar yr un pryd. O ddilyn Deane y mae i'r cyfan hefyd islais gwleidyddol, sydd eto'n cysylltu'n ôl at bwnc y tir, ond yn edrych ymlaen hefyd at Iwerddon a all fodoli mewn cyflwr nad yw mor annatod ynghlwm â'r tir hwnnw. Fel y newid cynnil yng ngwaith T. Gwynn Jones, y mae'r nodyn gwleidyddol yn dal i'w glywed yn y cerddi hyn, ond wedi ei ddad-sefydlogi i'r fath

¹⁰⁹ Frank Kinahan, *Yeats, Folklore and Occultism* (London: Unwin Hyman, 1988), t. 64.

¹¹⁰ Deane, *Strange Country*, t. 113.

raddau gan Geltigrwydd y deunydd fel nad ydyw yn hawlio'r llwyfan.

Y mae nifer o nodweddion eraill sydd yn cyfrannu at yr ymdeimlad o aflonyddwch neu ymyrraeth a all ddod dros y darlennydd wrth ddarllen, neu wrth glywed, y gerdd. Yn aml y mae i'r nodweddion hyn berthynas agos â Cheltigrwydd y cerddi; cymerer, er enghraifft, y breuddwydio cyson, nodwedd y gellir ei chymharu â *genre*'r *aisling* mewn llenyddiaeth Wyddeleg. Yn y *genre* hwnnw bydd ffigur y bardd yn cael 'gweledigaeth' mewn breuddwyd, a honno'n aml, erbyn y ddeunawfed ganrif o leiaf, yn weledigaeth o Iwerddon fel merch. Teg yw awgrymu y byddai Yeats yn ymwybodol o'r *genre* erbyn troad y ganrif, o leiaf, gan iddo gyfansoddi dramâu, megis *Cathleen ni Houlihan* (1902) yn ddiweddarach, ar y cyd ag Augusta Gregory, a oedd yn efelychu'r confensiwn hwnnw. Un ffordd neu'i gilydd, fe ddaeth breuddwyd y bardd yn nodwedd gyson o gerddi Yeats yn y 1890au. Ceir sôn am freuddwydio 'unquiet', fel y nodwyd uchod, yn 'The Stolen Child'. Y mae *The Wind Among the Reeds* (1899) hefyd yn llawn breuddwydion: yn 'He Remembers Forgotten Beauty', edmyga'r siaradwr 'pale breast and lingering hand' ei gariad oherwydd ei bod yn dod 'from a more dream-heavy land' ([1896] VP 56, llau. 15-6), gan awgrymu eto'r cysylltiad rhwng breuddwydion a thiroedd eraill; ac yn 'He Tells of a Valley full of Lovers' ([1897] VP 63), disgrifir yr olygfa a ddychmygir gan y siaradwr, ac yntau'n datgan 'I cried in my dream' (ll. 5) oherwydd y cariadon a welodd.

Er y ceir breuddwydio yn nheithl 'The Man Who Dreamed of Faeryland', nid oes awgrym cryf o fewn corff y gerdd ei hun mai breuddwydio y mae'r gŵr o gwbl; nid oes unrhyw awgrym fod angen amau'r gosodiad cychwynnol 'He stood among a crowd at Dromahair' ([1891] VP 34, ll. 1) fel rhywbeth sydd yn digwydd o ddifrif, ac felly cymylir y ffin rhwng cwsg ac effro. Ond yn y bedwaredd linell dysgwn fod y ddaear wedi cymryd y gŵr 'to her stony care' (ll. 4), ac felly aflonyddir ar y darlennydd, a dadsefydlogir y gerdd

ymhellach, gan fod y ffin nid yn unig rhwng deufyd ond rhwng byw a marw hefyd yn niwlog bellach. Hyd yn oed yn y cyflwr hwn, dal i grwydro a wna'r gŵr: 'He wandered by the sands of Lissadell' (ll. 13), a'i feddwl yn dal ar betheuach daearol. Gwrthodir gadael i'r darllenydd fodloni, dileir y ffin rhwng breuddwyd ac effro a rhwng byw a marw, a chedwir y gŵr rhag cyrraedd y wlad berffaith a addawyd iddo: 'The man has found no comfort in the grave' (ll. 48).

Cerdd arall o'r un casgliad sydd o ddiddordeb i'r astudiaeth hon yw 'Into the Twilight', yn enwedig o gofio mai ei theitl gwreiddiol ydoedd 'The Celtic Twilight' ([1893] VP 48). Ceir y siaradwr yn cymell y galon, yr 'heart', i dorri'n rhydd 'of the nets of wrong and right' a chwerthin eto 'in the grey twilight' (llau. 1-3). Er bod tuedd i synio am 'twilight' fel y gwyll a ddaw ar ddiwedd dydd cyn dyfodiad y nos, y mae'n bur amlwg mai gwyll y bore a olygir yma. 'Sigh, heart, again in the dew of the morn' (ll. 4) yw gorchymyn y siaradwr, a chyfosodir y llinell olaf hon yn y pennill cyntaf â dwy linell gyntaf yr ail bennill, sef 'Your mother Eire is always young, / Dew ever shining and twilight grey' (llau. 5-6). Ceir awgrym yma o syniadaeth Yeats ynghylch oedran gwahanol lenyddiaethau, a'i gred fod cyfnod mwyaf llewyrchus llenyddiaeth Lloegr yn dod i ben, fel yr oedd llenyddiaeth Iwerddon yn ei phlentyndod yn dechrau aeddfedu:

It is not possible to call a literature produced in this way [lenyddiaeth Lloegr] the literature of energy and youth. The age which has produced it is getting old and feeble, and sits in the chimney-corner carving all manner of curious and even beautiful things upon the staff that can no longer guide its steps. Here in Ireland we are living in a young age, full of hope and promise – a young age which has only just begun to make its literature. It was only yesterday that it cut from the green hillside the staff which is to help its steps upon the long road. There is no carving upon the staff, the rough bark is still there, and the knots are many upon its side.¹¹¹

Hydreiddiai'r gred hon agwedd Yeats at farddoniaeth, ac yn wir at Geltigrwydd,

¹¹¹ Yeats, 'Hopes and Fears for Irish Literature', t. 249.

oherwydd pan ddywed fel hyn: ‘We have the limitations of dawn. They have the limitations of sunset’, gwelwn mai posibilrwydd newydd gwyll y wawr, o’i gymharu â darfodedigaeth a dirywiad gwyll y machlud, sydd dan sylw yn y ‘Celtic Twilight’.¹¹² Yr oedd Yeats, yn ôl Brown, yn grediniol ei fod yn ffurfio llenyddiaeth newydd allan o wacter, ac mai’r allwedd i hynny oedd ‘all this involvement in things Irish and Celtic, this earnest attempt in the early 1890s to invent an Ireland since no adequate Ireland had yet come into existence’ (LWBY 68). Ar wahân, felly, i’r ieithwedd gyfriniol, a’r cyfeiriadau at yr haul a’r lleuad, ac at afonydd a nentydd, sydd yn gydnaws â gweddill cerddi’r gyfrol ac yn arallfydol ynddynt eu hunain, gellir ychwanegu hefyd fod y dwbwl annaeorol i’w ganfod yn un o ddelweddau canolog y ‘Celtic Twilight’, ar y naill law yn arwyddo dechrau newydd, genedigaeth, a gwawr, ac ar y llaw arall yn dal i gyfleu adlais o farwolaeth, nosi, a thywyllwch.

Cerdd arall y gellir awgrymu gyda rhagor o sicrwydd ei bod yn digwydd yn ystod y machlud yw ‘He wishes his Beloved were Dead’ ([1898] VP 74), un o gerddi mwyaf *unheimlich* yr Yeats cynnar. Gellir awgrymu bod cysylltiad rhwng y deisyfiad rhyfedd a nodir yn y teitl a hiraeth yr alltud. Fel yr eglura Nicholas Royle,

At some level the feeling of the uncanny may be bound up with the most extreme nostalgia or “homesickness”, in other words a compulsion to return to an inorganic state, a desire (perhaps unconscious) to die, a death drive.¹¹³

Yng nghwmpas yr *unheimlich*, felly, y mae cysylltiad agos rhwng hiraeth a marwolaeth.

Ond cymhlethir pethau yma oherwydd y tadogir y ‘death drive’ Freudaid hwn ar gariad y siaradwr yn hytrach nag arno’i hun. Yn y gerdd facabr hon, chwaraeir â thensiynau gadael a dychwelyd, wrth i’r siaradwr gyfarch ei gariad a dymuno ei marwolaeth

¹¹² Yeats, ‘Hopes and Fears for Irish Literature’, t. 250.

¹¹³ Nicholas Royle, *The uncanny* (Manchester: Manchester University Press, 2003), t. 2.

oherwydd, wedyn, ‘Nor would you rise and hasten away, / Though you have the will of the wild birds’ (llau. 7-8). Awgrymir mai dim ond mewn marwolaeth y gellir canfod gwir sefydlogrwydd, neu y gellir gorffwyo o’r diwedd oddi wrth y crwydro di-baid. Y mae’r llinell ‘Nor would you rise and hasten away’ yn cyferbynnu â ‘I will arise and go, now’ yn ‘The Lake Isle of Innisfree’, gan awgrymu dyhead cynyddol am roi’r gorau i grwydro. Ond gellir dal i ganfod symudiad yn y gerdd sydd yn gwrthsefyll y dyhead statig hwn: o farw, byddai’n rhaid i’r cariad yn gyntaf ‘come hither’ (ll. 3) tuag at safle’r bardd; er cael ei gorfodi i aros, dal i geisio dianc a wna’r cariad. Yng nghaethiwed ei marwolaeth mae ei gwallt bellach yn ‘bound and wound / About the stars and moon and sun’ (llau. 9-10). Ond cyfyd hyn gwestiynau ynghylch sut y gall hithau fod, ar yr un pryd, yn gorwedd a’i phen wedi ei blygu, a phen y siaradwr ar ei bron (llau. 3-4); y mae’r ymdeimlad annaeorol hwnnw o fod mewn un byd ar yr un pryd â’r llall yn dal yno, ac atgyfnerthir hynny gan y ddwy ferf ‘bind’ a ‘wind’, un yn dynodi synnwyr o fod ynghlwm wrth rywbeth, a’r llall yn awgrymu symudiad cyson, troellog bron fel ‘gyres’ barddoniaeth ddiweddarach Yeats, neu hyd yn oed ei gerdd gynnar ‘The Two Trees’ ([1892] VP 38).

O bosibl mai llinell fwyaf nodedig a diddorol y gerdd yw’r ail linell. Egyr y gerdd fel a ganlyn:

Were you but lying cold and dead,
And lights were paling out of the West (llau. 1-2)

Ar un olwg, y mae hyn yn ddigon arferol a chydawns â delweddaeth y gyfrol ar ei hyd, ac mae machlud yr haul yn y gorllewin yn ddrych naturiol i farwolaeth y cariad. Ar y llaw arall, fodd bynnag, y mae’r ffaith fod y ‘West’, gair arall a gaiff ei ailadrodd drwy gydol y casgliad, wedi ei nodi â phrif lythyren yn awgrymu fod gorllewin penodol dan sylw yma.

Mewn lleoliad alltud penodol, Llundain o bosibl, byddai edrych tua'r machlud hefyd yn golygu edrych tuag adref, heibio i Gymru, tuag Iwerddon ac, yn benodol, Gorllewin Iwerddon. Dyma'r cadarnle ysbrydol hwnnw lle ceid y 'gwir' Wyddelod gwladaidd, gwerinol, lle treuliasai Yeats hafau ei blentyndod a lle bu yn ddiweddarach yn cywain chwedlau gwerin ar gyfer ei gasgliadau. Dyma hefyd, wrth gwrs, y lleoliad delfrydol ar gyfer cyfarfyddiadau arallfydol megis yr un a geir yn y gerdd.

Y tu hwnt i hynny, y mae un gair sydd yn taro'r darlennydd fymryn yn chwithig neu yn afreolaidd yn y llinell, a hwnnw yw 'paling'. Fe ellid dadlau y byddai 'fading' wedi bod yn ferf mwy cyfarwydd a disgwylidig yma, ac efallai felly fod defnyddio 'paling' yn ymbellhau neu'n dieithrio ystyr a llif y llinell. Yn y cyd-destun hwn, fodd bynnag, ac mewn cyfodiad mor agos gyda'r 'West', gall fod arwyddocâd arbennig i'r gair 'paling' oherwydd ei fod yn dwyn i gof y *Pale*, neu *An Pháil*, yr enw a roddid ar yr ardal honno o Iwerddon a oedd o dan reolaeth llywodraeth Lloegr yn ystod yr oesoedd canol, ac o ble y tarddodd yr ymadrodd poblogaidd, 'beyond the pale'. Fel yr awgrymodd Laura O'Connor, '[t]he Pale is a limit; the [Celtic] Fringe is consistently associated with liminality: twilight zones, misty horizons, chimerical visions, and vanishing lore',¹¹⁴ a chymhlethir hynny gan ymwybyddiaeth y siaradwr ei fod yntau un ai o fewn y 'Pale', yn Nulyn, neu y tu hwnt iddo o'r ochr anghywir, yn Llundain. Aflonyddir ar y gerdd gan y lleoliadau gorllewinol hynny y tu hwnt i'r 'Pale' ar yr ochr arall; y maent yn symud, yn wir yn 'paling out' o'r gorllewin, ac yn ymyrryd ar leoliad y siaradwr i'r fath raddau nes y cymhlethir ac y niwlogir y symud, a'r diffyg symud, yn ôl a blaen rhwng y lleoliadau hyn a rhwng tiriogaeth y byw a'r meirw, ac nad oes modd, bellach, gwahaniaethu'n glir ac eglur rhyngddynt. Bellach, y mae'r 'pales' gwreiddiol, sef y pyst a osodid yn y ddaear i

¹¹⁴ O'Connor, *Haunted English*, t. xiv.

osod ffin bendant ac i wahaniaethu rhwng tir ‘Seisnig’ a thir ‘Gwyddelig’, wedi colli pob arwyddocâd ac ystyr.

Y mae rhai o gerddi T. Gwynn Jones yn *Ymadawiad Arthur a Chaniadau Ereill* (1910) hefyd yn archwilio’r ffiniau hynny rhwng deufyd mewn modd ansefydlog, a gellid awgrymu eu bod yn deillio o’i brofiadau ei hun o’r modd y gall yr *unheimlich* gysylltu’r alltud â’i gynefin mewn ffordd annaeorol. Tebyg ei naws i ‘Fatherland’ ydyw ‘Gwlad y Tylwyth Teg’ ([1905], YA tt. 39-40). ‘Chwiliais hyd y dolau ganwaith’ (t. 39 ll. 7) am y tylwyth teg, medd y siaradwr, ‘Ond ni welais, er a wyliais, / Un ohonynt / Yn y glyn’ (t. 39 llau. 16-8). Ond parhau a wna ffydd y siaradwr, mewn ‘Oes ddi awen’ (t. 40 ll. 2), y gall ddychwelyd ryw ddydd i’w fro enedigol, er mwyn ‘[d]ychwel adref a chael yno / Ieuanc lawen / Dylwyth teg!’ (t. 40 llau. 4-6) O safle alltud, y mae’r cartref ar unwaith yn gynefin ond hefyd yn arallfydol ac yn *liminal*, yn agor posibiliadau Celtaidd. Ond dim ond o bellter y gall y ddau leoliad hyn fod hefyd yn un. Yr un modd yn ‘Daear a Nef’ (YA t. 43), a gyfansoddwyd er cof am ei frawd, a fu farw pan oedd yntau yn yr Aifft, y mae’r ddeufyd, y byd materol corfforol a’r byd ysbrydol, yn cydfodoli yn yr un man wrth wely angau’r brawd. Dwy ferch sydd yno’n gwyllo, ond mae un ‘Nas gwelai llygaid cnawd’ (ll. 4). Wrth i un, yn ‘drist ei gwedd’ (ll. 7), weld ei fynd ymaith, y mae’r llall yn datgan ‘Mae’n dyfod’ (ll. 8). Strwythurwyd y gerdd gyfan i ddyblu ar ei hun, gyda llinellau’n cael eu hailadrodd a’u hadleisio, a ffigyrau canolog y ddwy ferch hefyd yn ddyblau i’w gilydd; ond yr awgrym yw fod y siaradwr yn adrodd yr hanes o bellter, ac yn sicr nad yw’n siarad o leoliad oddi mewn i’r ystafell ei hun. Ni chyfeirir at gymeriadau’r gerdd yn uniongyrchol ond fel ‘chwaer’, ‘brawd’ ac ‘un arall’ (llau. 1-3). At hynny, o ddarllen y gerdd mewn modd bywgraffyddol, fe gofir fod Gwynn Jones ei hun yn yr Aifft pan fu farw ei frawd, ac felly mai dychmygu’r sefyllfa hon o gryn bellter daearyddol, o

reidrwydd, yr oedd. Ymddengys eto, felly, fod perthynas agos rhwng alltudiaeth a'r *unheimlich*, neu o leiaf y gallu i ymglywed ac i ymdeimlo â'r annaeorol a'r anghartrefol.

Cerdd arall o *Ymadawiad Arthur* a ddengys ddatblygiad a chymhlethdod yr *unheimlich* yng ngwaith Gwynn Jones ers *Gwlad y Gan* yw 'Y Nef a Fu' ([1903] YA tt. 25-32). Y mae fel pe bai'r gerdd wedi ei harysgrifio, neu ei mapio, gan nifer lawr o ffyrdd, llwybrau, troadau a chrwydriadau. Y mae hefyd yn nodweddiadol o nifer o gerddi Jones yn y cyfnod oherwydd ei bod yn *aislingaidd* iawn drachefn, ac yn hyn o beth y mae'n ddiddorol i'w hystyried yn yr un cyd-destun â cherddi *aisling* Yeats, megis 'The Song of Wandering Aengus' (1897), neu o leiaf i'w gweld yn gweithio tuag at nod cyffelyb, wrth i'r siaradwr yn y gerdd honno hefyd 'walk among long dappled grass' yn y 'hazel wood' (VP 49, ll. 21 a 1).

Wrth i siaradwr 'Y Nef a Fu' grwydro'n freuddwydiol trwy dirlun gwledig, blodeuog a hardd, nid yw'r darllenydd yn gwbl sicr ai ynghwsg ynteu yn effro y mae. Yn y tirlun hwn hefyd y deuir i gyswllt agos, er nad uniongyrchol, â'r arallfydol:

Pan fyddai wyneb dôl a gweun a ffrith
Dan orne huan bore'n berlau brith,
Ceid dan y deri gylchau'r Tylwyth Teg,
Fodrwyau gwyrdd ynghanol gleiniau'r gwllith.

Di nifer ydoedd llwybrau mân y coed,
A'u mwsogl aur yn masw ogleisio'm troed,
A minnau wrth eu crwydro megys un
Ar lwybrau nad adnabu dyn erioed. (YA t. 27, llau. 9-16)

Y mae'r tir a droedir ac eto yma pwysleisir y 'crwydro' dibaid yn gyfarwydd ac yn adnabyddadwy oherwydd y gŵyr y siaradwr yn union ble i ganfod cylchau'r Tylwyth Teg. Ond ar yr un pryd, golyga natur niferus a throellog y 'llwybrau mân' '[d]i nifer' (t. 27 ll. 9) fod y tirwedd hefyd yn ddieithr ac annirnadwy, fel pe baent yn cael eu troedio am y tro cyntaf. Dyna'r effaith, os cofiwn eiriau Said, a gaiff alltudiaeth ar rywun, sef peri iddynt

weld rhywbeth fel pe baent yn ei weld am y tro cyntaf. Fe'n hatgoffir yma hefyd o ddisgrifiad Jentsch o'r *unheimlich* fel rhywbeth sydd ag ymdeimlad o ddiffyg cyfeiriad neu o fod ar goll yn perthyn iddo. Yn fuan iawn yn y gerdd, yn y trydydd pennill yn wir, disgrifia'r siaradwr ei hun yn cerdded drwy'r tir hwn:

A minnau yn rhyfeddu, megys un
Ym mlaenau amgen bro na'i fro ei hun,
A yrro ar ei enaid swyn na thyrr,
Fal honno a welodd Macsen drwy ei hun. (t. 25, llau. 13-6)

Y mae'r gymhariaeth â Macsen Wledig yn creu cyswllt â Chaernarfon, lleoliad dwbwl arall i T. Gwynn Jones oherwydd nad dyma'i gynefin ac nad oedd, ychwaith, yn wledig, yn 'amgen bro na'i fro ei hun', ond a oedd ar y llaw arall yn gwbl Gymreig. Y mae cyswllt yma hefyd â'r weledigaeth aislingaidd y deuir ati drwy freuddwyd, fel profiad Macsen ei hun, sydd yn creu 'swyn na thyrr', yn aflonyddu ar y siaradwr mewn modd na all ei anghofio. Macsen yw'r ffigur chwedlonol cyntaf o nifer y cyfeirir atynt yn y gerdd hon, a cheir dyfyniad o *Breudwyt Maxen* mewn troednodyn ar waelod y tudalen. Gwneir yr un peth gyda chyfeiriadau at ffynonellau canoloesol 'Afallennau Myrddin', 'Gorhoffedd Hywel ab Owain Gwynedd', a rhannau o *Math vab Mathonwy* a *Kulhwch ac Olwen* (t. 26, llau. 5-12). Effaith y cyfeirio a'r cyfosod agos hwn o nifer o destunau canoloesol yw esgor ar ymdeimlad o ymddieithriad ac ansefydlogrwydd a bair i'r darllynydd deimlo fel pe bai'n ailddarganfod y testunau hyn mewn gwaith cwbl newydd, 'megys un / Ar lwybrau nad adnabu dyn erioed.' Y mae fel pe bai'r siaradwr yn gwahodd y darllynydd i ymuno ag ef wrth iddo ddilyn amrywiol lwybrau trwy wahanol gerddi a chwedlau, gan geisio canfod ei ffordd adref trwyddynt.

Ostranenie ydoedd term y Ffurfiolwyr Rwsiaidd ar ddyfais lenyddol o'r fath, lle defnyddid technegau penodol er mwyn peri i'r cyfarwydd deimlo'n anghyfarwydd, gan

greu ymbellhad a dieithriad rhwng y darlennydd a'r testun.¹¹⁵ Yn ôl Royle y mae gan *ostranenie* gysylltiad agos â'r *unheimlich*, oherwydd mai digon tebyg yw canlyniad y ddau mewn gwirionedd: 'The unfamiliar [...] is never fixed, but constantly altering. The uncanny is (the) unsettling (of itself)'.¹¹⁶ Trwy ddedol a blaendirio'r cyfeiriadau a'r cymeriadau llenyddol hyn, a'u lleoli mewn tirwedd anghyfarwydd ac anghartrefol, llwyddir i greu ymdeimlad o ymddieithriad yn y darlennydd, sydd, fe ellid dadlau, yn rhoi iddynt brofiad agos iawn i brofiad yr alltud.

Gellid awgrymu i W. B. Yeats fanteisio ar y dechneg hon o ddieithriad hefyd. Sylwodd Laura O'Connor ar ei arfer o enwi lleoedd penodol yn ei farddoniaeth, ei fod yn '[a]lways coming back to moods and places. Aengus's hazel wood is a *specific* hazel wood, in Sligo'.¹¹⁷ Trwy eu halltudiaeth gallai Yeats a T. Gwynn Jones grynhoi a chanolbwyntio eu hiraeth ar leoedd penodol. Wrth enwi'r lleoedd hyn yn ei waith, yr oedd Yeats yn eu hawlio'n ôl iddo'i hun, ac i'w ddiwylliant ei hun, gan efelychu y *dinnsheanchas* canoloesol. Gellid dadlau ei fod felly yn gwrthsefyll, yn mynd yn gwbl groes, i rym ansefydlog yr *unheimlich*, gan hoelio'r sylw ar un man penodol yn hytrach nag addef y posibilrwydd y gallai un lle fod yn fyrdd o leoedd, yn gynefin ac yn arall, ar yr un pryd. Yn wir, fel y sylwodd Ann Saddlemeier, dyma un o gryfderau barddoniaeth Yeats, o'i chymharu â cherddi eraill yn y cyfnod: 'the new element in the "celtic revival" was a sense of *place*, as opposed to a vague atmosphere'.¹¹⁸

¹¹⁵ Gweler, er enghraifft, Victor Shklovsky, 'Art as Technique', yn *Literary Theory: An Anthology*, gol. Julie Rivkin a Michael Ryan (Oxford: Blackwell, 1998), tt. 17-23. Diddorol yw nodi y pwysleisiodd Angharad Price, yn ei hastudiaeth hithau o *ostranenie* yng ngwaith Robin Llywelyn, effaith 'adnewyddol pwysig' technegau o'r fath. Gw. Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: agweddau ar ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002), t. 47.

¹¹⁶ Royle, *The uncanny*, t. 5.

¹¹⁷ O'Connor, *Haunted English*, t. 69.

¹¹⁸ Ann Saddlemeier, 'The Cult of the Celt: Pan-Celticism in the Nineties', yn *The World of W. B. Yeats: Essays in Perspective*, goln. Robin Skelton ac Ann Saddlemeier (Dublin: The Dolmen Press, 1965), tt. 19-21 (t. 19).

Ac eto, o ddarllen cerddi megis ‘The Hosting of the Sidhe’ ([1893] VP 41), ni ellir osgoi ymdeimlad o *rywle arall* yn llechu y tu ôl i’r enwau hyn ychwaith. Y gerdd hon yw’r un a egyr gasgliad Yeats o 1899, *The Wind Among the Reeds*, a chawn ein cyflwyno i gymeriadau megis Caoilte a Niamh, sydd yn galw’n uniongyrchol, ‘Away, come away’ (ll. 4). Teimlwn ein bod yn dal i glywed lleisiau *Crossways* ddeng mlynedd ynghynt, a’r tylwyth teg yn galw’r plentyn i ffwrdd yn ‘The Stolen Child’. Y mae’r llu yn rhuthro ‘twixt night and day’ (ll. 13), gan ddangos ein bod yn y lleoliad *liminal* hwnnw, y cyfnod rhwng deufyd. Ni cheir ateb, ychwaith, i’r alwad i ddod i ffwrdd, ac felly daw’r darlennydd oddi wrth y gerdd heb gael datrysiaid. Bygwth dod rhwng y gwyliwr (y darlennydd?) a’i ddymuniadau y mae’r llu sydd yn rhuthro heibio:

And if any gaze on our rushing band,
 We come between him and the deed of his hand,
 We come between him and the hope of his heart. (llau. 10-12)

Nid ein cymell i ateb yn gadarnhaol a wna’r alwad ‘come away’, ond aflonyddu arnom a pheri cryn ymdeimlad o fygythiad, mewn lleoliad nad yw’r naill beth na’r llall. Nid gwanhau ond atgyfnerthu’r ymdeimlad hwn a wna enwau’r lleoliadau penodol ar ddechrau’r gerdd:

The host is riding from Knocknarea
 And over the grave of Clooth-na-Bare (llau. 1-2)

Y mae symudiad sydyn y llu dros y tir, yn ogystal â rhuthr cyffredinol y gerdd a’r ffaith ei bod wedi dod i ben bron cyn iddi gael ei hyngan, oll yn cyfuno i roi ymdeimlad o olygfa drosgynnol a brofir ar amrantiad. Yn fwyaf arwyddocaol, efallai, y maent yn marchogaeth dros fedd Clooth na Bare, sef hen wraig Beare, yn ôl nodyn Yeats ei hun,¹¹⁹ a’i boddodd ei hun ar ôl crwydro’r byd. Ceir yn y ddelwedd hon felly adlais o’r tyndra hwnnw rhwng

¹¹⁹ Gw. VP, t. 801n.

crwydro a cheisio canfod heddwch yn y bedd, a'r hen wraig yn methu ei gael, awgrymir, oherwydd fod y llu'n dal i ruthro trosti. Y mae'r weithred hy o ruthro dros fedd rhywun hefyd yn awgrym o'r bydoedd eraill sydd wastad ar gyrion y cerddi hyn a'u lleoliadau ac yn bygwth aflonyddu arnynt, bron fel pe bai'r dyhead hiraethus hwnnw am ad-hawlio'r tir yn weithred beryglus oherwydd ei bod wastad wedi ei thynghedu i arwain y tu hwnt i hynny, tuag at wrthrych y 'most extreme nostalgia or homesickness' hwnnw, marwolaeth.

Casgliad

Wrth drafod gwaith rhai o ysgrifenyddion mawrion dechrau'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys

Martin Heidegger, Ludwig Wittgenstein, Viktor Shklovsky a Bertolt Brecht, awgryma

Nicholas Royle:

All of these writers [...] allow us to sense in different ways the ineluctable significance of the uncanny as a means of thinking about so-called 'real life', the ordinary, the familiar and everyday. Inextricably bound up with thoughts of home and dispossession, the homely and unhomely, property and alienation, the uncanny becomes, in the words of Anthony Vidler, "a metaphor for a fundamentally unlivable modern condition".¹²⁰

Dadleuwyd yn y bennod hon fod i waith cynnar T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, hefyd, ymdeimlad cryf o ddieithriad a dadleoliad, a'u bod hwythau wedi archwilio'r profiadau alltud hyn trwy gyfrwng eu cyfansoddi. Y modd y daw'r alltudiaeth i'r amlwg yn eu barddoniaeth yw trwy ymdeimlad o'r *unheimlich* a gyfleir yn y cerddi Celtaidd eu naws, a thrwy hynny daw eu Celtigrwydd yn fodd o archwilio ac o negodi'r dad-dirioegaethu a brofasai'r beirdd fel unigolion, ond a oedd hefyd yn symptomatig o'r cyflwr Cymreig neu Wyddelig ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Yr oedd y Celtigrwydd *unheimlich* hwn yn fodd o gyflawni rhagor na hynny hefyd.

'The uncanny is unextricably bound up', medd Nicholas Royle, 'with the history of the Enlightenment and with European and North American Romanticism. As such, it is also characterized by a particular "take" on things more ancient, archaic, immemorial'.¹²¹

Drwy fabwysiadu Celtigrwydd *unheimlich*, a oedd i raddau helaeth wedi ei dad-dirioegaethu, canfu T. Gwynn Jones a W. B. Yeats eu hunain mewn safle amwys a oedd yn cynnig nifer o bosibiliadau. Gallai safbwynt y Celt bontio rhwng nifer o leoedd daearyddol, gan alluogi'r awduron i sefyll oddi allan i Gymru ac Iwerddon ond dal i

¹²⁰ Royle, *The uncanny*, tt. 5-6.

¹²¹ Royle, *The uncanny*, t. 8.

ymdeimlo'n agos â'r cynefinau hynny. Roeddent yn rhydd i roi eu barn ar y diwylliannau hynny ac ehangu eu gorwelion a manteisio ar ddylanwad llenyddiaethau Ewropeaidd eraill. Ar yr un pryd â bod yn fathodyn eu harallrwydd, gellid defnyddio Celtigrwydd i ymgorffori'r dylanwadau hyn. Gallai'r Celt gyflawni nifer o swyddogaethau eraill hefyd; gallai lareiddio'r gwleidydd tanbaid ac ar yr un pryd medrai radicaleiddio'r *aesthete* dirywiaethol, gan agor gofod i fynegi'r ystod hwn o safbwyntiau drwy gyfrwng cenedlaetholdeb diwylliannol.

Efallai fod atyniad mwyaf y Celt, fodd bynnag, i'w olrhain yng nghyswllt datganiad Nicholas Royle uchod. Yn ei symud cyson, *unheimlich* ac ansefydlog rhwng y byd hwn a'r arallfyd, rhwng y cynefin a'r anghynefin, gallai'r Celt hefyd bontio'r gagendor rhwng y byd hynafol a'r byd modern. Ac yn eu Celtigrwydd hefyd y safai T. Gwynn Jones a W. B. Yeats ar y ffin honno rhwng rhamantiaeth y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg, ar y naill law, a moderniaeth yr ugeinfed ganrif ar y llall. Dychwelir i ystyried y drafodaeth hon yn ddiweddarach, ond try'r astudiaeth hon am y tro i ystyried sut y gallai'r Celt hefyd negodi'r gofod rhwng gwahanol ieithoedd.

Pennod 3

‘Rhin yr heniaith’: iaith a hunaniaeth genedlaethol a Cheltaidd

‘Rhagfur a atalia lawer drwg’: iaith a hunaniaeth yn yr ugeinfed ganrif

‘The assumption that language is so integral to human life that it determines one’s world or, conversely, that the character of one’s social and cultural being determines the language one speaks, has been a persistent feature of discourse on language’, awgryma Bill Ashcroft yn ei gyfrol, *Caliban’s Voice: the Transformation of English in Post-Colonial Literatures* (2009).¹ Yr oedd hyn yn sicr yn wir am nifer o drafodaethau diwylliannol troad y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau’r ugeinfed yng Nghymru ac Iwerddon, a thu hwnt, wrth geisio diffinio a ffurfio hunaniaeth genedlaethol. Ymhellach na hynny, yr oedd hefyd wrth graidd nifer o’r dadleuon ynghylch y ffordd orau o ddiffinio Celtigrwydd. Carreg filltir bwysig yn Iwerddon ydoedd araith enwog Douglas Hyde ar ddad-Seisnigeiddio, ‘The Necessity for De-Anglicising Ireland’ (1892).² Gwelai Hyde y sefyllfa ar y pryd fel un cwbl afresymol, oherwydd y deisyfiad gwleidyddol, ar y naill law, i ymddihatru oddi wrth Brydain, ond bod y Gwyddelod ar y llaw arall, yn ei dyb ef, yn ddiwylliannol yn rhy debyg i’r Saeson eu hunain: ‘I should also like to call attention to the illogical position of men who drop their own language to speak English, of men who translate their euphonious Irish names into English monosyllables, of men who read English books, and know nothing about Gaelic literature, nevertheless protesting as a matter of sentiment that they hate the country which at every hand’s turn they rush to

¹ Bill Ashcroft, *Caliban’s Voice: the Transformation of English in Post-Colonial Literatures* (London: Routledge, 2009), t. 61.

² Douglas Hyde, ‘The Necessity for De-Anglicising Ireland’ [1892], yn *1000 Years of Irish Prose: Part 1 – The Literary Revival*, gol. Vivian Mercier a David H. Greene (New York: The Devin-Adair Company, 1952), tt. 79-89.

imitate'.³ Yn ôl Hyde, colli eu hiaith oedd wrth wraidd y newid diwylliannol hwn mewn Gwyddelod: 'in Anglicising ourselves wholesale we have thrown away with a light heart the best claim which we have upon the world's recognition of us as a separate nationality [...] we have lost the notes of nationality, our language and customs'.⁴ Gosododd yr araith hon y llwyfan ar gyfer sefydlu Cynghrair y Wyddeleg, *Conradh na Gaeilge*, a sylfaenwyd ar y gred fod dysgu a defnyddio'r iaith Wyddeleg yn hanfodol fel sail ar gyfer unrhyw weithgareddau diwylliannol eraill, ac mai dim ond trwy ymddihatru, nid yn unig oddi wrth y Saesneg, ond oddi wrth ddylanwad Seisnig a Phrydeinig ar weithgareddau diwylliannol, y gellid ail-hawlio Iwerddon yn ei hól yn wleidyddol hefyd.

Yr oedd eraill yn Iwerddon, hefyd, megis D. P. Moran, yn llafar eu barn dros yr angen i sefydlu'r Wyddeleg ynghanol unrhyw ddiffiniad o hunaniaeth Wyddelig, a thros bwysleisio mai '[w]hat had sustained – indeed, preserved – the Irish as a distinct nationality through centuries of persecution was above all their devotion to their language'.⁵ Yn wir, mewn pennod o'r enw 'The Nation's Tongue, the Nation's Soul' yn ei gyfrol *The Prose Literature of the Gaelic Revival, 1881-1921*, rhydd Philip O'Leary grynhoad o'r modd y dychmygwyd y Wyddeleg gan nifer o awduron Gwyddelig y cyfnod yn rhyw fath o fur amddiffynnol a fyddai'n rhwystro diwylliant Gwyddelig rhag cael ei 'lygru' gan ddylanwadau allanol: 'this defensive metaphor recurs again and again in the jeremiads of many proponents of the Revival'.⁶

Tra gwahanol oedd y sefyllfa yng Nghymru oherwydd cryfder cymharol y Gymraeg ar y pryd. Yn wir, fel y sylwodd Philip O'Leary, edrychai nifer ymysg y *Conradh na*

³ Hyde, 'The Necessity for De-Anglicising Ireland', t. 79.

⁴ Hyde, 'The Necessity for De-Anglicising Ireland', t. 80.

⁵ Philip O'Leary, *The Prose Literature of the Gaelic Revival 1881-1921: Ideology and Innovation* (University Park, PA: Pennsylvania State University Press, 1994), t. 213.

⁶ O'Leary, *The Prose Literature of the Gaelic Revival*, t. 20.

Gaeilge tua Chymru fel esiampl ieithyddol a diwylliannol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Yr oedd cryfder cymharol sefyllfa'r iaith Gymraeg, o ran ei defnydd mewn meysydd addysgiadol, crefyddol, a sefyllfaoedd sifig a busnes yn destun edmygedd i'r Gwyddelod.⁷ Yr oedd Cymru ar droad yr ugeinfed ganrif yn brawf i nifer o ladmeryddion y Wyddeleg y gallai iaith Geltaidd gael ei defnyddio fel cyfrwng byw yn y byd modern, diwydiannol.

Ond yr oedd ymwybyddiaeth gynyddol hefyd mai gostwng yn hytrach na chodi yr oedd nifer siaradwyr yr iaith yng Nghymru, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o ddyfodiad y Saesneg i nifer o agweddau ar fywyd cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys yr ysgolion a'r capeli. Un o effeithiau 'Brad y Llyfrau Gleision' 1847 oedd peri i nifer sylweddoli y gallai'r Gymraeg fod dan fygythiad, ac erbyn 1885 yr oedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi ei sefydlu er ceisio sicrhau rhagor o hawliau i'r iaith.⁸ Wrth gwrs, unigolyn neilltuol a oedd yn llafar ei farn dros yr iaith yn yr holl sfferau hyn oedd Emrys ap Iwan (Robert Ambrose Jones, 1848-1906), ac mae dylanwad ei safbwyntiau gwrth-Seisnig chwyrn yntau yn bwrw eu cysgod dros nifer o ysgrifau T. Gwynn Jones a drafodir yn y bennod hon. Yn wir, y mae rhethreg rhai o'i erthyglau yn nodedig o debyg i un Hyde. Byrdwn 'Y Llo Arall', er enghraifft, yw fod y Cymry yn llawer rhy chwannog i ddynwared y Saeson, ac mai'r modd o atal hynny yw drwy ddal gafael ar iaith:

Dadlau yr wyf nad yw corff y genedl Seisnig ddim yn gyfryw bobl y dylem ni'r Cymry eu *haddoli a'u dynwared* [...] Da chwi, byddwch yn Gymreigaidd; cedwch nodweddion mwyaf rhagorol eich cenedl: cedwch eich iaith [...] Trwy wneuthur hyn, chwi a godwch ragfur a atalia lawer drwg rhag dyfod ar eich gwarthaf o Loegr.⁹

Diddorol, wrth gwrs, yw nodi fod Emrys ap Iwan yma yn defnyddio'r union ddelwedd,

⁷ Philip O'Leary, "Children of the Same Mother": Gaelic Relations with the other Celtic Revival Movements 1882-1916', *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, VI (1986), 101-30 (t. 112).

⁸ Y mae'n werth nodi, wrth gwrs, mai rhagflaenydd i'r gymdeithas bresennol oedd hon, ac nad oes cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt.

⁹ Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Y Llo Arall' (1877), yn *Detholiad o Erthyglau Emrys ap Iwan, I: Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol*, gol. D. Myrddin Lloyd (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), t. 51-61 (t. 52-3).

sef iaith fel rhagfur amddiffynnol, yr oedd ei gyfoedion Gwyddelig wedi ei mabwysiadu.

Ond darlith Saunders Lewis, *Is there an Anglo-Welsh Literature?* yn 1938, oedd un o'r gweithiau cyntaf i ystyried yn uniongyrchol y posibilrwydd y gellid coleddu hunaniaeth Gymreig heb fedru'r iaith, er iddo ddod i'r casgliad nad oedd hynny'n bosibl, mewn llenyddiaeth o leiaf. Dadl Lewis yw mai offeryn a luniwyd ac a siapiwyd gan y gymdeithas o'i gwmpas yw iaith i awdur, mai ar gyfer y gymuned honno yr ysgrifenna, ac na ellir ond ysgrifennu yn yr iaith honno.¹⁰ I Lewis, felly, y mae unrhyw awdur a feiddia ysgrifennu yn Saesneg yn awdur Saesneg. Y farn hon a arweiniodd at ei ddatganiad nad oes 'nothing hyphenated' am Dylan Thomas,¹¹ ac a'i arweiniodd i gasglu 'that there is not a separate literature that is Anglo-Welsh, and that it is improbable that there ever can be that'.¹²

Ynghynt na datganiad uniongyrchol a diamwys Saunders Lewis, fodd bynnag, yr oedd bryd *intelligentsia* y Gymru Gymraeg, ac yn bennaf John Morris-Jones, ar bennu orgraff sefydledig, swyddogol i'r iaith. Bid siŵr, ymateb i fygythiadau allanol i'r iaith, os nad ymateb mor uniongyrchol ag un Hyde, oedd y broses hon, hefyd. Fel yr eglura Simon Brooks, trwy sefydlu orgraff a chywair ysgrifenedig ffurfiol i'r iaith, yr oedd Morris-Jones a'i ddisgyblion hefyd yn ymgeisio i sicrhau yr ystyrid y Gymraeg yn iaith ddilys, awdurdodol a weddai fel arwyddnod hunaniaeth genedlaethol. Deilliai hyn o'r

¹⁰ Saunders Lewis, "Is there an Anglo-Welsh literature?": *being the annual lecture delivered to the branch on December 10th, 1938* (Caerdydd: Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, 1939), t. 3. Gwerth nodi, fodd bynnag, yng nghyd-destun y ddadl hon, mai Saesneg oedd iaith drama gyhoeddedig gyntaf Lewis, *The Eve of St John* (1921), a bod ei hamcanion yn yr iaith honno yn debyg i rai'r dramodwyr Gwyddelig fel Yeats a J. M. Synge. Fel y dywed T. Robin Chapman, 'Ei nod oedd creu iaith ddramatig newydd a gyfleai rythmau a naws y Gymraeg i gynulleidfa ddi-Gymraeg [...] mae ieithwedd, plot a chymeriadau'r ddrama'n dangos ôl dylanwad *The Shadow of the Glen* o waith Synge'. T. Robin Chapman, *Un bywyd o blith nifer: cofiant Saunders Lewis* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2006), tt. 58 a 60.

¹¹ Lewis, *Is there an Anglo-Welsh literature*, t. 5.

¹² Lewis, *Is there an Anglo-Welsh literature*, t. 13.

ffaith bod yr iaith, o fewn y Gymru Gymraeg, fel yr awgryma Brooks, ‘yn cael ei gweld fel “bod” (*being*) y genedl’.¹³

Yn wir, gellid dadlau mai felly yr oeddid wedi synio am y berthynas rhwng iaith a hunaniaeth ers yr oesoedd canol yng Nghymru. Yn *Drych y Prif Oesoedd*, mynnai Theophilus Evans, gyda’i lygad ar destunau canoloesol cynharach, ac ar hanes Tŵr Babel yn y Beibl:

Ond yr ym ni etto (*Gweddillion* yr hen *Frutaniaid*) yn trigo mewn *Cwrr* o’r *Ynys fawr hon*, y buom gynt yn *Feistriaid* o’r *naill gwrr* i’r *llall* o honi; ac um cadw ein Hiaith gyntaf, os nid yn berffaith gwbl, etto yn *burach* nag un *genedl arall* yn y Byd. *Eu Hiaith a gadwant, eu tir a gollant, ebe Myrddin*.¹⁴

Yr awgrym yn hyn o beth oedd y gallai’r Cymry gadw eu hunaniaeth, er colli annibyniaeth wleidyddol a sofraniaeth, pe cadwent yr iaith. Ond yr hyn a wnaeth gwaith John Morris-Jones ac eraill ar ddechrau’r ugeinfed ganrif oedd dwyn y syniad hwn i ffocws cliriach pan oedd, o bosibl, yn wynebu’r bygythiad mwyaf eto. Efallai mai arwydd arall o’r berthynas annatod ym meddwl y Cymry ar hyd y canrifoedd rhwng iaith a hunaniaeth yw yr arferid yr union enw hwnnw, ‘iaith’, i ddynodi neu adnabod y grŵp o bobl a’i siaradai. Yn wir, dyma ail ystyr y gair yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, sef ‘[c]orff o bobl sy’n siarad yr un iaith, pobl, cenedl, tylwyth’, ystyr y gellir ei holrhain yn ôl bron cyn belled â’r ystyr arall, fwy cyffredin heddiw.¹⁵ Er bod y Cymry wedi synio fel hyn am ganrifoedd am y berthynas annatod rhwng iaith a hunaniaeth ddiwylliannol, fodd bynnag, rhywbeth cymharol newydd oedd y rheidrwydd ar rai megis Emrys ap Iwan, John Morris-Jones a Saunders Lewis i ystyried y posibilrwydd y byddai rhai yn dymuno

¹³ Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo: yr oleuedigaeth Gymraeg a theori lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004), t. 30.

¹⁴ Theophilus Evans, *Drych y prif oesoedd, yn ddwy ran*, 2il arg. (Amwythig: Thomas Durston, 1740), t. 4.

¹⁵ *Geiriadur Prifysgol Cymru II: G-LLYYS* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1968-1987), t. 1999. Yn Llyfr Taliesin yn y drydedd ganrif ar ddeg, yn ôl GPC, y ceir yr ystyr hon gyntaf, o gymharu â’r ystyr arall a geir yn Llyfr Du Caerfyrddin, c. 12-13g.

arddel hunaniaeth Gymreig na fynegid drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i lefaru'n groch yn erbyn hynny.

Yr oedd yng Nghymru ac yn Iwerddon ar y pryd, felly, amrywiol drafodaethau ynghylch y berthynas annatod dybiedig rhwng iaith genedlaethol a hunaniaeth genedlaethol, a goblygiadau hynny yng nghyswllt gweithgareddau diwylliannol. Wrth i ban-Celtigrwydd fagu nerth ac arwyddocâd ar droad y ganrif, cafwyd llawer o drafod hefyd ynghylch y ffordd orau o ddiffinio'r Celtigrwydd hwnnw, ac unwaith drachefn yr oedd iaith yn ystyriaeth ganolog. Yn wir, gellir olrhain y cysylltiad hwn rhwng Celtigrwydd ac iaith yn ôl i araiith Douglas Hyde hefyd. Yno meddai 'But you ask, why should we wish to make Ireland more Celtic than it is – why should we de-Anglicise it at all?'¹⁶ Yn ymhlyg yn y cwestiwn hwn y mae awgrym fod dad-Seisnigeiddio, ac ymddihatru oddi wrth ddylanwad diwylliannol Seisnig, hefyd yn galluogi'r Gwyddelod i ddyfod rywfodd yn fwy Celtaidd. Gosodir Celtigrwydd fel gwrthwyneb, yr hunaniaeth amgen, i Seisnigrwydd neu Brydeindod.

Ond, am nifer o resymau, yr oedd y drafodaeth hon o fewn cylchoedd pan-Geltaidd yn rhwym o fod yn un gymhleth a phroblematig. Yn sicr, man cychwyn y gymdeithas ban-Geltaidd oedd y gred mai iaith, a pherthynas agos yr ieithoedd Celtaidd â'i gilydd, a ddiffiniau Celtigrwydd. Yn ôl *Celtia*, cyfnodolyn yr Undeb Pan-Geltaidd, yn 1901:

In the life of nations the same thing happens when a strong nation uses its superiority to deprive a weaker nation of that which gives the latter a spiritual existence of its own, and that is chiefly its Language. National customs, music, and costume are secondary elements.¹⁷

¹⁶ Hyde, 'De-Anglicising Ireland', t. 80.

¹⁷ *Celtia*, I: 2 (1901), 17.

Rhoddid iaith, felly, o flaen unrhyw elfen arall wrth gynnal ‘bodolaeth ysbrydol’ cenedl. Deilliai’r gred hon o’r lle canolog a roddai’r gymdeithas i iaith wrth geisio diffinio beth yn union oedd cenedl Geltaidd:

the modern and living forms of Celtic speech will be our main concern [...] We define a Celtic nation as one the great majority of whose people speak one of the Celtic group of languages, or spoke it to within recent times, and among whom that same language still survives.¹⁸

O’r dechrau, felly, ystyrid iaith yn rhan hanfodol o hunaniaeth ethnig yn y cyd-destun hwn. Honnir mai dylanwad yr iaith Saesneg sydd wrth wraidd yr elyniaeth rhwng gwahanol Geltaid. Oherwydd hynny y mae erthygl olygyddol y rhifyn yn gresynu ‘that “Paddy,” while endeavouring to escape Anglo-Saxon sneers at himself, should take to English doggerel concerning his brother Celt with less aversion, and that English opinions concerning the Irish should be imported into Wales in the wake of the English language’.¹⁹

Yn wir, yr oedd ieithwedd *Celtia* drwyddi draw yn awyddus i bwysleisio math ar gyswllt annatod rhwng iaith ac ethnigrwydd. Ar y sail hwn y gwrthodwyd aelodaeth i’r Cernywiaid yn wreiddiol; yr oedd hyd yn oed awduron megis William Sharp (Fiona Macleod) yn bur ddiamwys eu barn yn hyn o beth: ‘The Cornishman has lost his language, and there is now no bond between him and his ancient kin’.²⁰ Hyd yn oed i rywun fel William Sharp, felly, a ysgrifennai, yn Saesneg, y cerddi ‘Celtaidd’ nodweddiadol a edmygid gan Yeats yn ystod ei yrfa gynnar, yr oedd colli iaith hefyd yn golygu colli rhan allweddol o hunaniaeth genedlaethol, ac yn golygu colli’r cyswllt hwnnw â’r gorffennol a oedd yn angenrheidiol er coleddu Celtigrwydd. Pwysleisid y cyswllt hwn yn gryfach ar adegau, gyda nifer o erthyglau yn defnyddio perthynas

¹⁸ ‘The Future’, *Celtia*, I: 1 (1901), 15.

¹⁹ *Celtia*, I: 1, (1901), 3.

²⁰ Dyfynnwyd yn Terence Brown, ‘Preface’, yn *Celticism*, gol. T. Brown (Amsterdam: Rodopi, 1996), tt. vii-viii (t. vii)

ieithyddol y Celtiaid i synio amdanynt fel ‘hil’ neilltuol hefyd. Pwysleisia Marion Löffler mai ‘[p]rif amcanion yr Undeb Pan-Geltaidd oedd “hybu astudiaethau Celtaidd a datblygu cydweithrediad a chydymdeimlad rhwng gwahanol ganghennau’r *hil* Geltaidd yn holl faterion eu hieithoedd a’u nodweddion cenedlaethol”’.²¹ Yn wir fe wnaethpwyd y cysylltiad hwnnw yn bur amlwg yn rhifyn cyntaf y cylchgrawn, wrth ddatgan un o’r tri pheth ‘that we believe’: ‘That the cultivation of the Celtic languages means the regeneration of the Celtic race’.²²

Mae modd dadlau y byddai’r duedd i gysylltu iaith a hil yn y fath fodd annatod yn gwbl naturiol yn y cyfnod. Yn *Caliban’s Voice*, olrheinia Bill Ashcroft y duedd hon yn ôl i ddarganfyddiad teulu’r ieithoedd Indo-Ewropeaidd.²³ Un awdur a gysylltodd iaith a hil yn y fath fodd, awgryma Ashcroft, yw Ernest Renan. ‘Rénan [sic] rejected the notion of biological races,’ medd Ashcroft, ‘proffering instead the theory of “linguistic races”, which demonstrate a cultural determinism every bit as rigid as the biological determinism of people such as [Joseph] Gobineau’.²⁴ Er mai trafod y benderfyniaeth hon yng nghyd-destun ei astudiaeth o gymunedau Iddewig, lle cymerir y ddadl i’w ‘logical extreme’,²⁵ a wna Ashcroft, yr un agwedd a gymerasai Renan tuag at y Celtiaid, a dadl Ashcroft yw y gall penderfyniaeth o’r fath fod lawn mor broblematic. Hawdd yw gweld sut y gallai’r Gymdeithas Ban-Geltaidd fabwysiadu’r rhethreg hon, gan ei defnyddio wedyn i honni perthynas waed rhwng y bobl a siaradai’r ieithoedd hynny.

Hyn a arweiniodd rai o fewn Cynghrair y Wyddeleg, er enghraifft, i ymwrthod â phan-Celtigrwydd oherwydd y tybient ei fod yn gaeëdig i rai o gefndir ethnig gwahanol:

²¹ Marion Löffler, ‘Agweddau ar yr Undeb Pan-Geltaidd, 1889–1914’, yn *Y Traethodydd*, CLV, 652 (2000), 43–59 (t. 48). Fy mhwyslais i.

²² ‘The Future’, *Celtia*, 15.

²³ Ashcroft, *Caliban’s Voice*, tt. 59–60.

²⁴ Ashcroft, *Caliban’s Voice*, t. 61.

²⁵ Ashcroft, *Caliban’s Voice*, t. 63.

We are not Pan-Celts ourselves – and for this reason. We are working for the building up of the Irish nation – a nation which will be an Irish Ireland rather than a Celtic Ireland – a nation in which the Irish-born Celt and Saxon, the Irish-born Dane and the Irish-born Norman, shall live together as brothers. The Irishman of Saxon or Norman or Danish blood is of vastly more importance to the Gaelic League than the man of Celtic origin who belongs to any other nation. Our objects are national, not (in the narrow sense of the word) racial.²⁶

Yr oedd elfennau eraill o'r mudiad hefyd yn wrthun i'r Gynghrair, oherwydd mai eu nod hwythau oedd moderneiddio ac addasu'r Wyddeleg i ddibenion yr ugeinfed ganrif.²⁷

Tebyg oedd ymateb rhai yng Nghymru hefyd:

Yr ydym yn credu mewn gwelliant a chynydd. Ni fynem ar un cyfrif ddiystyru pethau yr hen bobl – y pethau nas gwyddent am eu gwell i ateb eu pwrpas ar y pryd. Ni ddiystyrem y 'foes tender', eithr ni phleidleisiam dros ei ddwyn i arferiad eto. Y mae hyn yn gymwysiadwy at wisgoedd, offerynnau, ac iaith. Y mae yn dda ryfeddol genym am Destament William Salisbury, ond gwrth-dystiem a'n holl egni yn erbyn dylyn ei orgraff heddyw. Ceir dyddordeb a gwersi, ond nid oes lawer iawn o hen bethau cenedlaethol neb o honom y byddem well o droi yn ol atynt.²⁸

I rywrai fel golygyddion y *Gwyliedydd*, felly, roedd mudiad fel y Pan-Celtiaid yn rhy drw i'r gorffennol, yn enwedig felly o ran materion ieithyddol, a chyswllt yr iaith honno â rhyw orffennol delfrydol. Gellir dychmygu eu gwrthwynebiad, a gwrthwynebiad rhywun fel D. P. Moran, felly, pan y cyflwynwyd gwahoddiad i'r Orsedd gan y pan-Geltiaid Gwyddelig i ddod i Ddulyn 'in old Irish of the early tenth century'.²⁹ Yn wir, dyma oedd ymateb ffyrnig Moran i dueddiadau hynafiaethol y pan-Celtiaid:

²⁶ 'Notes of the Month / The Pan-Celts', *Inis Fáil: a Magazine for the Irish in London* (Hydref, 1907), 4. Dyfynnir yn O'Leary, 'Children of the Same Mother', 109.

²⁷ Kiberd, *Inventing Ireland*, t. 134: 'English historians would translate the challenge posed by the Gaelic League back into the familiar binarism of tradition against modernity, rural versus urban, culture as opposed to industry. This, however, was not at all how the Irish Irelanders saw things: had this analysis been true, they would simply have been making common cause with the most backward and conservative elements in English aristocratic tradition. They, on the other hand, had learned from Thomas Davis of the vital link between culture and industry, and so they opted for a both/and philosophy rather than the either/or binarism of imperial theory. The Gaelic League did indeed wish to revive Irish as a prelude to a recovered national pride and economic prosperity, but its methods – mass democratic action, workers' education, mingling of the sexes on a basis of equality at free classes and summer schools – were anything but conservative.'

²⁸ 'Nodiadau Golygyddol', *Y Gwyliedydd* (Rhyl), Medi 7 1904, t. 4.

²⁹ O'Leary, 'Children of the Same Mother', 110.

Claiming that the Irish had “quite enough sunbursting and make-believe already,” Moran warned against this trick of celebrating the absolutely dead and forgotten as “a thing which can only draw down ridicule on any movement intended to be serious”.³⁰

Roedd eraill, fodd bynnag, yn fwy parod i annog gweithgareddau'r Gymdeithas; fel y sylwa Marion Löffler, ‘cafwyd sylwadau ffafriol am y Gyngres yn y rhan fwyaf o'r papurau newydd, gan gynnwys yr *Irish Times*, y *Western Mail*, yr *Isle of Man Times* a'r *Westminster Gazette*, a thybrid yn gyffredinol fod cynulliad o'r fath yn gam tuag at well dealltwriaeth rhwng cenhedloedd Ewrop’.³¹ Wrth i Gymru ‘dyfu allan’ o'i rhagrith crefyddol, awgryma'r *North Wales Observer and Express*, ‘the sentiment of race and speech once more asserts itself’,³² gan ddangos drachefn mor agos oedd y ddwy elfen hon, iaith ac ethnigrwydd, yn ieithwedd y cyfnod. Ond yr oedd carfanau eraill o Gynghrair y Wyddeleg hefyd yn gefnogol i'r achos, a hynny oherwydd y gwelent fod nifer ymysg y mudiad yn ceisio annog cydweithio i ddibenion ieithyddol, heb ddibynnu ar ddiffiniadau ar sail hil, nac ychwaith droi at faterion gwleidyddol:

‘Celtia’ or ‘Keltia’ is the name adopted at Cardiff last year for the aggregate territory of the Five Celtic Nations, i.e., those nationalities whose surviving, or rather reviving, national language belongs to the Celtic family of Indo-European languages. That definition leaves the question of blood-relationship, of historical connection, of racial purity, and of political status altogether on one side. ‘Celtia’ has an actual existence in the hearts of those who speak and love their Celtic language, and are in sympathy with the parallel efforts of their kinsfolk across the sea . . . The five nations are linked together, however far apart may lie their political or religious tendencies.³³

Yn ôl Daniel Williams, y mae angen rhoi rhagor o sylw i'r ‘pragmatic awareness of similar objectives and shared obstacles among those embracing what Philip O’Leary

³⁰ O’Leary, ‘Children of the Same Mother’, 109-10.

³¹ Marion Löffler, *A book of mad Celts: John Wickens and the Celtic Congress of Caernarfon 1904. John Wickens a Chyngres Geltaidd Caernarfon*, (Llandysul: Gomer, 2000), t. 29.

³² *North Wales Observer and Express*, Medi 2 1904. Dyfynnwyd yn Löffler, *A Book of Mad Celts*, t. 29.

³³ O’Leary, *Prose Literature of the Gaelic Revival*, t. 378.

describes as a “lower-case pan-celticism”.³⁴ Gan gydnabod felly fod amrywiol ddiffiniadau o Geltigrwydd, a gwahanol ffyrdd o ddehongli'r cysylltiad rhwng iaith ac ethnigrwydd yn bodoli o fewn y Gymdeithas ban-Geltaidd ei hun, yr eir ati i olrhain ymwneud T. Gwynn Jones a W. B. Yeats â'r amrywiol garfanau hyn, ac i ofyn i ba raddau yr oedd eu hymwybyddiaeth hwythau o hunaniaeth genedlaethol a Cheltaidd ynghlwm â'u hymwybyddiaeth o iaith.

Amlyga Bill Ashcroft y pwysau a roddir ar iaith o fewn diwylliant lleiafrifol oherwydd y disgwyliad ei bod, yng ngeiriau'r awdur o Kenya, Ngugi wa Thiong'o (1938-), nid yn unig yn 'means of communication' ond hefyd yn ymgorfforiad o ddiwylliant, yn rhyw fath o 'carrier of culture'.³⁵ 'Is culture embodied in a language?' yw'r cwestiwn pwysigaf yn hyn o beth, yn ôl Ashcroft, ac '[i]s it impossible for a language to “carry” a different culture?'³⁶ Awgrymir gan Ashcroft, yn ddadleuol, fod perygl y gall arddel y cyswllt annatod rhwng iaith a diwylliant fod yr un mor benderfyniaethol â honni'r cysylltiad rhwng iaith a hil.³⁷

Gellir herio dadl o'r fath, wrth reswm; nid yw ethnigrwydd ar sail iaith, yn wahanol i ethnigrwydd ar sail hil neu gyswllt gwaed, yn gaeëdig, gan y gellir caffael iaith a'i dysgu. Ond efallai mai'r drafodaeth hon ynghylch lle canolog iaith mewn hunaniaeth yw un o densiynau mwyaf diddorol y thesis, oherwydd mai yn Gymraeg yn bennaf yr ysgrifennai T. Gwynn Jones, ac yr ysgrifennai W. B. Yeats yntau yn Saesneg. Byddai hynny felly, fe ymddengys, yn awgrymu fod y ddau awdur fel pe baent yn mabwysiadu safleoedd cyferbyniol o ran cwestiwn Ashcroft, gyda Jones yn tueddu i gredu fod

³⁴ Daniel G. Williams, 'Another lost cause? Pan-celticism, race and language', *Irish Studies Review*, 17: 1 (2009), 89-101 (t. 91).

³⁵ Ngugi wa Thiong'o, 'Decolonising the Mind', yn *Literary Theory: an Anthology*, gol. J. Rivkin a M. Ryan, 2il arg. (Oxford: Blackwell 2004), tt. 1126-50 (t. 1132).

³⁶ Ashcroft, *Caliban's Voice*, t. 105.

³⁷ Ashcroft, *Caliban's Voice*, t. 62.

mynegiant drwy'r iaith frodorol, y Gymraeg, yn gwbl allweddol, a Yeats ar y llaw arall yn arddangos y gred y gellid mynegi a llunio diwylliant cenedlaethol drwy gyfrwng yr iaith drefedigaethol, y Saesneg. Ond amcan y bennod hon yw dadlau nad yw'r sefyllfa mor syml â hynny.

Yn hyn o beth dygir dadansoddiad Deleuze a Guattari o'r hyn sydd yn ffurfio llenyddiaeth lai (*minor literature*), neu yn hytrach eu hymgais i amlinellu nodweddion sydd yn gyffredin i bob llenyddiaeth lai, i oleuni newydd. Ystyriwyd eisoes, er enghraifft, honiad Deleuze a Guattari mai 'the first characteristic of minor literature in any case is that in it language is affected with a high coefficient of deterritorialization'.³⁸ Awgrymwyd hefyd y gellir cytuno 'that everything in them [llenyddiaethau llai] is political' a 'that [...] everything takes on a collective value'.³⁹ Yn baradocsiaidd, fodd bynnag, arweinia'r union nodweddion hyn at sefyllfa lle nad yw'r label 'llenyddiaeth lai' bellach yn gweddu i lenyddiaeth gan awduron o grwpiau diwylliannol lleiafrifol:

We might as well say that minor no longer designates specific literatures but the revolutionary conditions for every literature within the heart of what is called great (or established) literature.⁴⁰

Trwy gael ei rhwymo i fod yn ynganiad cynulliadol ar ran diwylliant ehangach, a thrwy feddu ar arwyddocâd gwleidyddol a olyga fod i bopeth o fewn y llenyddiaeth honno botensial chwyldroadol, daw llenyddiaeth 'lai' maes o law i arwain y llenyddiaeth 'fwy', neu lywodraethol. Y mae achos awduron megis Yeats, neu James Joyce (1882-1941), yn nodweddu hyn oherwydd y modd y daeth eu gweithiau hwy, a ffurfiwyd o dan

³⁸ Gilles Deleuze a Félix Guattari, *Kafka: toward a minor literature*, cyf. Dana Polan (London: University of Minnesota Press, 1986), t. 16.

³⁹ Deleuze a Guattari, *Toward a minor literature*, t. 17.

⁴⁰ Deleuze a Guattari, *Toward a minor literature*, t. 18.

amgylchiadau trefedigaethol neu o fewn diwylliant trefedigaethol, yn flaenllaw yng nghanon prif ffrwd llenyddiaeth Saesneg.

Anos yw dadlau hynny yn achos T. Gwynn Jones, a dyna a ddaw i'r amlwg o fewn astudiaeth gymharol o'i waith ef a Yeats, oherwydd i un ddod i sylw rhyngwladol tra nad yw'r llall yn cael ei gydnabod nemor ddim oddi allan i gylchoedd llenyddol y Gymraeg. Yn wyneb hyn, fe'n harweinir i sylwi ar gyfyngiad a gwendid pennaf model Deleuze a Guattari, sef eu honiad ei bod yn rheidrydd i lenyddiaeth lai gael ei chreu, ei chyfansoddi, ei hyngan, yn iaith y diwylliant llywodraethol: 'A minor literature doesn't come from a minor language; it is rather that which a minority constructs within a major language'.⁴¹

Gellir canfod cysail lle ceir enghreiffliau eraill o awduron a beirdd yn dewis ysgrifennu yn yr iaith leiafrifol fel gweithred wrth-drefedigaethol, ac yn cael eu hanwybyddu i raddau helaeth yn rhyngwladol o'r herwydd. Cychwynnodd Ngugi wa Thiong'o yntau ar ei yrfa gan ysgrifennu ffuglen yn Saesneg, cyn troi at Gikuyu. Un o ffyrdd mwyaf effeithiol y pŵer imperialaidd o bwysleisio goruchafiaeth dros y trigolion a drefedigaethir, yn ôl Ngugi, yw gadael i'r iaith drefedigaethol eu diffinio a'u mowldio drwy iddi ddod yn iaith iddynt. Hyd yn oed wrth fynd ati i ysgrifennu mewn modd gwrth-drefedigaethol, o wneud hynny yn yr iaith oruchafol, ac nid y famiaith, y mae'r awdur Affricanaidd yn tanseilio'i neges wrth-drefedigaethol ei hun:

writers who should have been mapping paths out of that linguistic encirclement of their continent also came to be defined and to define themselves in terms of the languages of imperialist imposition. Even at their most radical and pro-African position in their sentiments and articulation of problems they still took it as axiomatic that the renaissance of African cultures lay in the languages of Europe.⁴²

⁴¹ Deleuze a Guattari, t. 16.

⁴² Ngugi, 'Decolonising the Mind', t. 1127.

Yn sgil y sylweddoliad hwn y penderfynodd Ngugi ysgrifennu o hynny ymlaen yn ei iaith frodorol yn hytrach nag yn Saesneg. Canlyniad eironig hynny yw nad yw wedi derbyn sylw beirniadol i'r un graddau ag awduron cyffelyb megis Chinua Achebe, a gellid dadlau felly fod ei sefyllfa yntau yn un drawiadol o debyg i un Jones.

Nid oedd unrhyw un yn fwy ymwybodol o'r anghysondeb hwn a'r cymhlethdodau a ddeilliai ohono na lladmeryddion yr adfywiad Celtaidd yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhaid cofio, wrth gwrs, er delfrydau clodwiw y Gymdeithas Ban-Geltaidd, mai'r Saesneg oedd iaith mwyafrif helaeth y cyfraniadau i'r cylchgrawn, *Celtia*, ac mai yn Saesneg y cynhelid nifer o weithgareddau Cyngres 1904 hefyd, oherwydd ymarferoldeb. Rheidrwydd ydoedd ar i olygyddion *Celtia* dderbyn hefyd: '[p]ending the evolution of some Celtic *lingua franca*, be the same Irish or Welsh, we shall use English as our chief weapon of war and instrument of propaganda'.⁴³

Yr oedd Yeats ei hun yn ymwybodol o'r modd y gallai'r ffaith ei fod yn ysgrifennu yn Saesneg wanhau ei ymdrechion diwylliannol.⁴⁴ Fel y sylwa Declan Kiberd, 'The Irish writer has always been confronted with a choice. This is the dilemma of whether to write for the native audience – a risky, often thankless task – or to produce texts for consumption in Britain and North America'.⁴⁵ Y mae hyn yn wir hefyd am awduron Cymreig. Fel yr awgryma Katie Gramich yn ei herthygl, 'Both in and out of the game: Welsh writers and the British dimension', bu priod gyfrwng ieithyddol llenyddiaeth yn destun trafod a phenbleth cynyddol i nifer o awduron Cymreig yn yr ugeinfed ganrif, ac ynghlwm wrth hynny hefyd y mae'r ymrafael am yr hunaniaeth a fabwysiedir ganddynt

⁴³ 'The Future', *Celtia*, 15.

⁴⁴ 'Yeats admits that he "was sometimes made wretched [that he] knew of no language to write about Ireland in but raw modern English".' Laura O'Connor, *Haunted English: The Celtic Fringe, the British Empire, and De-Anglicization* (Baltimore: Johns Hopkins University Press, 2006), t. 76.

⁴⁵ Declan Kiberd, *Inventing Ireland: The Literature of the Modern Nation* (London: Jonathan Cape, 1995), t. 136.

ac a gyfleir drwy eu gwaith, heb sôn am y drafodaeth ynghylch pa gynulleidfa ai mewnol a Chymreig, ai allanol a rhyngwladol, ac anochel Brydeinig, efallai y dylent anelu eu gwaith ati. Noda Gramich fod nifer o awduron Cymreig wedi cael eu dal yn y canol rhwng hunaniaeth Gymreig a Phrydeinig. Er bod hynny'n destun poendod i rai, awgryma, 'Some might see nothing problematic about this choice, viewing "British" as a designation which embraces and includes that "other", "Welsh"'.⁴⁶

Gellid dadlau mai cyflawni swyddogaeth debyg yr oedd Celtigrwydd yng ngwaith Yeats, yn caniatáu iddo 'embrace' y Gwyddel neu'r Gael ond ar yr un pryd yn ei alluogi i apelio trwy'r Saesneg at gynulleidfa ehangach. Fel yr awgrymodd Laura O'Connor, 'the dominant English tongue is a killer *and* a winner language for Anglo-Celts because the Anglicization that alienated them from their ancestral ethnic tongue also enabled many of them to enjoy the fruits of empire'.⁴⁷ Erys yn wir fod gweithiau Yeats, yn rhinwedd y ffaith eu bod wedi eu hysgrifennu yn Saesneg, wedi cyrraedd cynulleidfa lawer ehangach nag a wnaethent pe'u hysgrifenasid yn y Wyddeleg.

Ond dadleuir yn y bennod hon, yn union fel gyda Ngugi, nad rhywbeth cwbl naturiol ac anochel ychwaith ydoedd i T. Gwynn Jones ysgrifennu yn y Gymraeg. Yr oedd yn ieithydd hynod ddawnus, a chyfansoddwyd nifer o'i gerddi cynnar yn Saesneg. Gweithred a phenderfyniad cwbl ymwybodol, dadleuir, ydoedd ysgrifennu yn Gymraeg i Jones, ac felly awgrymir fod arwydd o weithred wrth-drefedigaethol, yn yr un modd â gweithred Ngugi, yn y penderfyniad hwn. Ymhellach, y mae'r modd y gwelai Jones y Gymraeg yn gweithredu fel un o nifer o ieithoedd o fewn cyd-destun o gyfnewid diwylliannol Ewropeaidd, yn herio safbwynt Deleuze a Guattari. Trwy gymhariaeth o

⁴⁶ Katie Gramich, 'Both in and out of the game: Welsh writers and the British dimension', yn *A Guide to Welsh Literature, Volume VII: Welsh Writing in English*, gol. M. Wynn Thomas (University of Wales Press, Cardiff: 2003), tt. 255-77 (t. 257).

⁴⁷ O'Connor, *Haunted English*, t. xiii.

waith Jones a gwaith W. B. Yeats, dadleuir hefyd nad yw yn ddigonol i nodi fod Yeats yntau yn syml wedi adfeddiannu'r Saesneg ar gyfer ei waith mewn modd nodweddiadol ôl-drefedigaethol. Yn hytrach, dadleuir fod lle pwysig a chanolog i'r Wyddeleg yn ei waith yntau hefyd, a bod ei gerddi Celtaidd yn aml yn gweithredu fel gofod er mwyn negodi'r berthynas a'r tyndra rhwng y ddwy iaith.

Drachefn, y mae'r cysyniadau a ddefnyddir o fewn astudiaethau ôl-drefedigaethol er mwyn trafod y modd yr ystyrir ac yr adfeddiannir iaith mewn sefyllfa drefedigaethol, yn ddefnyddiol ac yn berthnasol yma. Y termau hyn yw 'abrogation' ac 'appropriation', a gyfieithir yma fel 'dirymiad', a 'chfyfeddiant'.⁴⁸ Y mae 'dirymiad' yn gyfieithiad sydd yn galw i gof wreiddiau 'abrogation' o fewn terminoleg y gyfraith, a'r ystyr wreiddiol yn y cyd-destun hwnnw yw 'repeal or do away with (a law, right, or formal agreement)', o'r Lladin *abrogare*, *ab* (i ffwrdd) + *rogare* (cynnig cyfraith).⁴⁹ Gweithred yw 'dirymiad' yn y cyd-destun ôl-drefedigaethol, felly, o ymwrthod â chategorïau, safonau ac estheteg y diwylliant imperialaidd, hawl y diwylliant imperialaidd i bennu'r safonau hynny, a'r modd y mynegir y rhain trwy iaith y diwylliant hwnnw. Hynny yw, gwrthodir hawl y grym trefedigaethol dros ddulliau cyfathrebu. O'r safbwynt ideolegol hwn, wedyn, y gellir ymgymryd â chfyfeddiant, sef meddiannu a defnyddio iaith y trefedigaethwr ond gan arysgrifio a thadogi gwerthoedd a phrofiad diwylliannol y trefedigaethedig arni, a hynny yn aml trwy ddefnyddio ffurf 'ansafonol' ohoni.⁵⁰ Bydd y bennod hon yn ystyried y modd y gellir canfod y gweithredoedd hyn ar waith yn ysgrifennu W. B. Yeats.

⁴⁸ Ceir crynodeb, esboniad ac archwiliad o'r termau hyn yng nghyfrol Bill Ashcroft, Gareth Griffiths a Helen Tiffin, *The Empire Writes Back: Theory and practice in post-colonial literatures*, 2il arg., (London: Routledge, 2002), tt. 37-43.

⁴⁹ *Oxford Dictionary of English*, 2il arg. diwygiedig (Oxford: Oxford University Press, 2006), t. 5.

⁵⁰ Ashcroft, Griffiths, a Tiffin, *The Empire Writes Back*, tt. 37-8. 'Abrogation is a refusal of the categories of the imperial culture, its aesthetic, its illusory standard of normative or "correct" usage, and its assumption of a traditional and fixed meaning "inscribed" in the words [...] Appropriation is the process by which the language is taken and made to "bear the burden" of one's own cultural experience'.

Ond pwysleisir hefyd fod cyfyngiadau i'r model damcaniaethol hwn oherwydd nad yw'n ystyried posibilrwydd bodolaeth, ymyrraeth a defnydd yr iaith 'frodorol' yn y gwaith o ddadsefydlogi grym a dilysrwydd diwylliannol yr iaith drefedigaethol. Cymhlethir a phroblemateiddir y termau hyn trwy ofyn drachefn sut y daeth yr iaith Wyddeleg, hyd yn oed mewn achos ymddangosiadol nodweddiadol o ddirymiad a chyfeddiant megis gwaith Yeats, i gymhlethu'r darlun. Gellir synio mewn modd tra amlwg, ar y llaw arall, am y ffordd y gall gwaith T. Gwynn Jones herio'r cysyniadau hyn, ond gellir holi ymhellach yn ei achos ef hefyd a ddefnyddiodd yntau rai o dechnegau dirymiad a chyfeddiant er mwyn adfywio a thrawsnewid Cymraeg lenyddol. Yn achos Jones, y mae modd dadlau iddo roi dirymiad a chyfeddiant ar waith o fewn y Gymraeg ei hun.

‘Their mournful talk’: Yeats, y Wyddeleg, a’r Saesneg

Yn ei ymateb i ‘The Necessity for De-Anglicising Ireland’ yn 1892, anghytuna W. B.

Yeats â neges ganolog darlith Hyde, gan honni y gellir defnyddio iaith y trefedigaethwr i fynegi profiad y trefedigaethedig, yn wir i greu llenyddiaeth cwbl Arall, a defnyddia enghraifft America fel rhagflaenydd a chynsail i hynny: ‘America [...] is creating a national literature which in its most characteristic products differs almost as much from English literature as does the literature of France’.⁵¹ I Yeats, yr oedd modd gwahanu diwylliant a hunaniaeth ar y naill law, a’r iaith a ddefnyddid i’w mynegi ar y llall: ‘When we remember the majesty of Cuchullin and the beauty of sorrowing Deirdre we should not forget that it is that majesty and that beauty which are immortal, and not the perishing tongue that first told of them’.⁵²

Wrth geisio diffinio beth yn union oedd bod yn Wyddelig felly, mater eilaidd oedd yr iaith a ddefnyddid i fynegi’r cyflwr hwnnw; yr oedd Arallrwydd y Gwyddel yn bod ar wahân i iaith. Bodolai mewn Celtigrwydd, yn y cymeriadau mytholegol eu hunain, yn y tir, ac mewn ffordd o fyw cyn-ddiwydiannol. Cyn belled ag y gellid cadw’r pethau hyn, nid oedd ots ym mha iaith y’u mynegid. I un a gafodd ei fagu drwy gyfrwng y Saesneg, yr oedd pwysleisio hynny’n hanfodol: ‘Side by side with the spread of the Irish language, and with much writing in the Irish language, must go on much expression of Irish emotion and Irish thought, much writing about Irish things and people, in the English language, for no man can write well except in the language he has been born and bred to’.⁵³

⁵¹ W. B. Yeats, ‘The De-Anglicising of Ireland’, llythyr yn *United Ireland*, Rhagfyr 17 1892. Adargraffwyd yn UP1, tt. 255-6 (tt. 255-6).

⁵² Yeats, ‘The De-Anglicising of Ireland’, t. 256.

⁵³ W. B. Yeats, ‘Irish Language and Irish Literature’, llythyr yn *The Leader*, Medi 1 1900. Adargraffwyd yn UP2, tt. 237-42 (t. 238).

Er iddo feithrin perthynas weddol glos â rhai o aelodau Cynghrair y Wyddeleg, yn bennaf Douglas Hyde ei hun, amwys fu'r ymwneud rhwng Yeats a'r Gynghrair er y cychwyn. Yr oedd D. P. Moran, golygydd y *Leader*, yn hallt ei feirniadaeth o'r math o Geltigrwydd a goleddid gan Yeats a'i gyfoedion esthetaidd oherwydd ei fod yn wrthun i'r syniad a oedd ganddo yntau am 'Irish Ireland'; y Celt oedd 'one of the most glaring frauds that the credulous Irish people have ever swallowed'.⁵⁴ Yr oedd Yeats yn ei dro yn fodlon talu gwrogaeth i'r iaith, ond ni allai dderbyn y gellid seilio holl fywyd cyhoeddus Iwerddon arni:

Can we not build up a national tradition, a national literature, which shall be none the less Irish in spirit from being English in language? Can we not keep the continuity of the nation's life, not by trying to do what Dr. Hyde has practically pronounced impossible, but by translating or retelling in English, which shall have an indefinable Irish quality of rhythm [sic] and style, all that is best of the ancient literature? [...] Let us by all means prevent the decay of that tongue where we can, and preserve it always among us as a learned language to be a fountain of nationality in our midst, but do not let us base upon it our hopes of nationhood.⁵⁵

Yn wir, nid yw safbwynt o'r fath yn rhy annhebyg i farn Arnold am y Gymraeg. Er cefnogi parhad yr iaith ar ryw ffurf felly, ymddengys yn y bôn nad oedd Yeats yn grediniol fod modd i'r Wyddeleg ennill ei thir drachefn fel prif gyfrwng ieithyddol Iwerddon: 'It [y Wyddeleg] will always be too separate from the general life of Ireland to influence it directly'.⁵⁶

Gwelir newid syfrdanol yn safbwynt Yeats, fodd bynnag, erbyn ei daith i'r Unol Daleithiau yn 1903-1904. Mewn un ddarlith yn benodol, yn Mhrifysgol Catholig America yn Washington, D. C., gwna ddatganiad ysgubol o blaid adfywio'r iaith:

⁵⁴ D. P. Moran, *The Philosophy of Irish Ireland*, 2il arg. (Dublin: James Duffy and Co. Ltd, 1905), t. 22. Dyfynnwyd yn Daniel Williams, *Ethnicity and Cultural Authority: From Arnold to Du Bois* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2006), t. 126.

⁵⁵ Yeats, 'The De-Anglicising of Ireland', tt. 255-6.

⁵⁶ Yeats, 'Irish Language and Irish Literature', t. 238.

I hope we will all live to see the day when Irish will again be spoken in Ireland to the exclusion of all other tongues. The Gaelic language will be a barrier to the vulgarity and coarseness which is today the plague of Ireland.⁵⁷

Fe ellid awgrymu mai addasu ei neges ar gyfer ei gynulleidfa, a hithau'n rhwydd iddo wneud hynny ymhell o Iwerddon yn America, yr oedd Yeats yma. Ond er bod y datganiad hwn o'i eiddo, fel y sylwodd Robert Mahony, yn 'most singular in concluding with the hope for the eventual dominance of Irish',⁵⁸ y mae hefyd yn gynyddol nodweddiadol, gellid dadlau, o'i agwedd gymysg tuag at yr iaith o'r cyfnod hwnnw ymlaen. Wrth i Yeats synio am y Wyddeleg fel 'barrier' amddiffynnol, pwysleisir y cyswllt tybiedig agos rhwng iaith a diwylliant. Serch ei fethiant personol i ddysgu'r iaith, ac er ei gred barhaus yn nilysrwydd ei brosiect o greu llenyddiaeth unigryw Wyddelig drwy gyfrwng y Saesneg, daeth yr iaith maes o law, dadleuir, yn anhepgor i'w ddehongliad ef o Wyddeligrwydd.

Erys y mater hefyd, fodd bynnag, yn un o'r tensiynau canolog o fewn ei gynnyrch llenyddol wrth i'w agwedd tuag at iaith newid, ac wrth i'w Geltigrwydd ddatblygu hefyd. Cyhoeddwyd y gerdd 'Under the Moon' gyntaf yn *The Speaker* yn 1901 (VP 89), ond y mae'n fuddiol i'w hystyried ac i'w darllen o fewn cyd-destun y gyfrol *In The Seven Woods*, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1903 yn dilyn cyfnod cymharol faith o ddistawrwydd barddonol.⁵⁹ Y mae'r gerdd, fel y saif ynghanol y gyfrol, yn nodweddiadol o'r casgliad cyfan. Mewn cerddi megis 'Adam's Curse', 'O Do Not Love Too Long', a'r gerdd a rydd ei theitl i'r gyfrol, 'In the Seven Woods', yn hytrach na 'He', 'The Poet', a 'The Lover'

⁵⁷ W. B. Yeats, Darlith i Brifysgol Catholic America, yn Robert Mahony, 'Yeats and the Irish Language Revival: An Unpublished Lecture', *Irish University Review*, 19: 2 (Hydref 1989), 220-6 (t. 223).

⁵⁸ Mahony, 'An Unpublished Lecture', 223.

⁵⁹ Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf cain o'r gyfrol gan wasg Dun Emer, gwasg Susan (Lily) ac Elizabeth (Lolly) Yeats, chwirydd W. B. Yeats. Cyhoeddwyd argraffiad arall, gyda rhediad mwy, yn ddiweddarach yr un flwyddyn, ond gyda rhai cerddi wedi eu dileu ac eraill wedi eu hychwanegu. Gw. VP, t. 198, lle ceir rhestr o'r amrywiol argraffiadau.

llawer o gerddi'r casgliadau blaenorol, a symbolaeth drymlwythog y Rhosyn, ceir ffigyrau y gellid eu cysylltu'n llawer nes â bywyd personol Yeats ei hun. Egyr y casgliad gyda 'In the Seven Woods' ([1903] VP 80), lle mae'r adroddwr wedi 'forgot awhile / Tara uprooted' (llau. 5-6), a chyfeirir at ddigwyddiadau cyfoes megis coroni'r brenin newydd 'new commonness / Upon the throne' (llau. 6-7). Dyma osod cywair newydd, felly, ar gyfer y casgliad.

Allweddol o ran y newid hwn oedd ymwneud cynyddol Yeats â'r prosiect i sefydlu Cwmni Theatr Cenedlaethol i Iwerddon, prosiect a olygai fod gwrthdaro dramatig yn dod yn ystyriaeth bwysicach i'w waith. 'Celtic Theatre' oedd hon i fod, er mwyn gallu cynnwys gwaith Fiona Macleod o'r Alban yn ei rhaglen arfaethedig. Yeats ei hun a awgrymodd newid yr enw hwnnw i'r 'Irish Literary Theatre':

I hope to [...] go <back> to Dublin sometime in January or February to work at the "Celtic Theatre" which by the by we now think should be called "The Irish Literary Theatre" as less dangerous than Celtic. What do you think?⁶⁰

Yn wir, aeth Yeats mor bell yn 1900 â honni nad oedd erioed wedi defnyddio 'the phrases "Celtic note" and "Celtic Renaissance" except as a quotation from others'.⁶¹ Yn wir, yn ôl R. F. Foster, 'WBY later realised that the concept of "Celticism" was bogus through reading an article by Andrew Lang'.⁶² Diddorol yw nodi iddo ddechrau ymbellhau oddi wrth Geltigrwydd ar yr un pryd ag y dechreuodd arddangos cydymdeimlad cynyddol â mudiad yr iaith Wyddeleg. Tybed a sylweddolodd, er iddo ddod i dybio fod Celtigrwydd yn 'highly problematic concept in historical or cultural

⁶⁰ W. B. Yeats, llythyr at Augusta Gregory, Hydref 24 1898, yn CL2, t. 277.

⁶¹ Yeats, 'Irish Language and Irish Literature', t. 241.

⁶² AM, t. 571n. Ymhelaetha Sinéad Garrigan Mattar ar brofiad Yeats o ddarllen yr erthygl hon, sef 'The Celtic Renaissance', *Blackwood's Magazine*, 161 (February 1897), 181-91. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, nad fel ymwrthodiad llwyr o Geltigrwydd y gwêl Garrigan Mattar ymateb Yeats i'r erthygl hon, ond fel symudiad tuag at gynhwynoliaeth (*nativism*) ehangach, a thrafodir hynny mewn perthynas â'i erthygl yntau, 'The Celtic Element in Literature' (1897), yn ddiweddarach yn y bennod. Gw. Sinéad Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival* (Oxford: Clarendon Press, 2004), t. 72.

terms',⁶³ fod modd, drwy symud y pwyslais at yr ieithyddol, o ddal i goleddu Celtigrwydd ar lefel wahanol?

Ymddengys 'Under the Moon' yn nodweddiadol o'r arddull a'r cyfeiriad newydd hwn, wrth i'r adroddwr ymwrthod â rhestr faith o ffigyrau a lleoliadau chwedlonol, 'Celtaidd'. Gwrthod yr arallfyd oherwydd ei fod yn 'hollow', a'r tonnau o'i amgylch yn 'unpeopled' (VP 89, llau. 2, 15) a wneir yma:

I have no happiness in dreaming of Brycelinde,
Nor Avalon the grass-green hollow, nor Joyous Isle[.] (llau. 1-2)

Dyma agwedd dra gwahanol i'r un yn y cerddi a drafodwyd yn y bennod flaenorol. Dilynir y datganiad agoriadol hwn gan restr o enwau lleoliadau chwedlonol 'Land-under-Wave' (ll. 6), 'Land-of-the-Tower' (ll. 8), y 'Wood of Wonders' (ll. 9), ac Ulad (ll. 4) a chymeriadau Celtaidd Lancelot (ll. 3), Naoise (ll. 4) a Niamh (ll. 12) (sy'n ymddangos yn un o weithiau cynharaf Yeats, *The Wanderings of Oisín*), Laban, Fand (ll. 12), 'wood-woman' ddi-enw (ll. 13), Branwen a Guinevere (ll. 11). Heblaw Lancelot, cymeriadau benywaidd yw'r rhain oll, ac y mae breuddwydio am ferched 'whose beauty is folded in dismay' (ll. 19), hyd yn oed mewn hen straeon, yn 'burden not to be borne' (ll. 20). Argraff o deithiwr blinedig a geir yma, a syrffedodd ar gario baich sy'n rhy drwm i'w gario.

Dyma ymwrthod, felly, â 'byrdwn' cynhysgaeth chwedlonol y Celt oherwydd nad oes dedwyddwch na pherthnasedd i'w canfod yno; y mae'r arallfyd yn 'lands that seem too dim to be burdens on the heart', ac awgrymir fod materion eraill, yn llythrennol yn llawer nes at adref, yn mynd â bryd yr adroddwr bellach, er na chyfeirir atynt yn uniongyrchol. Nodweddir Naoise, Niamh, Branwen a Gwenhwyfar, nid yn unig gan eu

⁶³ AM, l. 185.

benyweidd-dra ond hefyd gan y ffaith y clywir eu ‘mournful talk’ (ll. 16) lle bynnag yr â’r bardd. Wrth ymwrthod â benyweidd-dra Celtigrwydd (nid dim ond Gwyddeligrwydd y mae presenoldeb Branwen a Guinevere yn gwrthod hynny), y mae’r adroddwr hefyd yn dymuno ymbellhau oddi wrth yr iaith fenywaidd y maent yn eu mynegi eu hunain ynddi.⁶⁴ Trwy gysylltu’r ‘mournful talk’ â’r merched hyn y mae Yeats yn derbyn y dehongliad Réanaidd, ac Arnoldaidd, o’r ieithoedd Celtaidd fel rhai benywaidd, ond hefyd yn ceisio ymbellhau oddi wrth yr ieithoedd hynny. Fel y datganodd yn 1904:

I cannot probably be quite just to any poetry that speaks to me with the sweet insinuating feminine voice of the dwellers in that country of shadows and hollow images. I have dwelt there too long [...]⁶⁵

Fel y sylwa Marjorie Howes, ‘Yeats [...] consistently coded his move away from Celticism as a transition from feminine to masculine and more truly national art’.⁶⁶ Felly o gysylltu’r deuoliaethau a ymddengys yn ‘Under the Moon’ fel a ganlyn: chwerwder v melyster; gwryweidd-dra v benyweidd-dra; haul v lleuad; gellir awgrymu fod y siaradwr yn symud oddi wrth un set o begynnau tuag at y llall. Oddi wrth felyster tuag at chwerwder, oddi wrth y benywaidd tuag at y gwrywaidd, ac, o bosibl, oddi wrth y Wyddeleg tuag at y Saesneg.

Ond cynigia’r gerdd ddarlun llawer mwy cymhleth mewn gwirionedd. Daeth Yeats i gredu fod y ddau begwn cyferbyniol mewn unrhyw ddeuoliaeth mor angenrheidiol â’i gilydd, wrth dynnu’i gilydd i gyfanrwydd cynhwysol;⁶⁷ ac y mae’r tiroedd a drafodir ‘out

⁶⁴ Yn wir, fe ellid awgrymu mai am reswm tebyg y cyfansoddodd T. Gwynn Jones gerdd yn Saesneg i’w ‘Fatherland’ (gw. y bennod flaenorol) yn hytrach nag i’r ‘Motherland’.

⁶⁵ Llythyr at George Russell. Dyfynnwyd yn Marjorie Howes, *Yeats’s Nations: Gender, Class, and Irishness* (Cambridge: Cambridge University Press, 1996), t. 17.

⁶⁶ Howes, *Yeats’s Nations*, t. 17.

⁶⁷ Am drafodaethau ynghylch natur greiddiol y deuoliaethau, neu’r ‘mygydau’ hyn, yn estheteg Yeats, gw. Richard Ellmann, *Yeats: the Man and the Masks* (London: Faber and Faber, 1961 [1949]); T. R. Henn, ‘The Masks – Self and Anti-Self’, yn *The Lonely Tower: Studies in the Poetry of W. B. Yeats* (London: Methuen, 1950), u. 36-50; a John Unterecker, *A Reader’s Guide to William Butler Yeats* (London: Thames and Hudson,

of the moon's light and the sun's' (ll. 6); y mae corn yr heliwr a'r lleuad yn 'hung between the night and the day' (ll. 18), ac felly yr ydys yma'n methu ymwrthod yn llwyr â'r naill elfen na'r llall. Nid ymwrthod yn llwyr â Cheltigrwydd a wnaethai Yeats, ond yn hytrach tynnodd y deunydd hwnnw i berthynas agosach â materion cyfoes ei oes ei hun, a dod â hwynt i wrthdrawiad â'i gilydd. Mae cymeriadau Celtaidd yn dal i hawlio lle hanfodol yn yr amcan hwn:

I find that "Cuchullain" wants new passages here & there. You need not be troubled about my poetical faculty. I was never so full of new thoughts for verse though all thoughts quite unlike the old ones. My work has got far more masculine. It has more salt in it.⁶⁸

Yn rhinwedd eu presenoldeb niferus, dal i fynnu eu lle o fewn naratif y farddoniaeth a wna'r enwau Celtaidd yn y gerdd hefyd. Yn wir, gellid dadlau mai dyma un o'i gerddi mwyaf gwirioneddol 'Geltaidd', oherwydd yr ystod eang o gymeriadau o wahanol draddodiadau llenyddol a geir ynddi. Yr un modd gyda'u hiaith; gwrthodant ildio'u 'mournful talk', gan orfodi'r adroddwr i gario byrdwn eu siarad a'u clywed o bell. Er ei ymdrech i ymbellhau oddi wrth y llais benywaidd yma, y mae cysgod ac atsain y Wyddeleg yn dal i lechu. Mae 'Land-under-Wave', er enghraifft, yn gyfieithiad uniongyrchol o 'Tir-fa-thonn' heb newid y gystrawen. Os yw'r tiroedd hyn yn 'too dim to be burdens on the heart' (ll. 5), nid ydynt eto'n rhy wan i barhau i fwrw'u baich ar lais ac iaith y gerdd ei hun, ac yn y gerdd deuir i gyfarfyddiad llawn â pha mor greiddiol a hanfodol yw cymysgrywedd, a gyflawnir drwy gyfeddiant, i estheteg farddonol Yeats. Mewn termau Yeatsaidd, felly, yr oedd yn rhaid cydbwysu melyster benywaidd â chwerwder gwrywaidd. Os dymunai Yeats ymbellhau oddi wrth symbolaeth a

1959), a ddywed bod y bardd yn wynebu dau 'fersiwn' gwahanol o'r hunan, ac yn gorfod dewis rhyngddynt 'or, if he is like Yeats, find ultimate reality not in any one of them but in their interaction' (t. 16).

⁶⁸ W. B. Yeats, llythyr at Augusta Gregory, Ionawr 14 1903, yn CL3, t. 303.

delweddaeth Geltaidd, cynyddu a wnâi'r angenrheidrwydd am bresenoldeb y Wyddeleg o fewn y cerddi fel arwydd o Arallrwydd ethnig y bobl Wyddelig. Ond er mwyn cadw'r cydbwysedd, gan gydnabod melyster hanfodol y Wyddeleg a chadw hyd braich oddi wrthi ar yr un pryd, yr oedd cyfeddiant o'r Saesneg, a'r cymysgrywedd a ddeilliai o hynny, yn gwbl allweddol.

Fe ellid dadlau yn hawdd, fel y gwna Marjorie Howes, i Yeats, drwy'r gymysgrywedd hon, gydymffurfio i raddau â delfryd Arnold o gyfraniaeth: 'Yeats's eventual rejection of Celticism as effeminate, blurred and melancholy represents a capitulation to imperial structures of thought rather than a move away from them'.⁶⁹ Ond y mae modd dadlau hefyd fod ymbellhad Yeats oddi wrth 'fenyweidd-dra' tybiedig Celtigrwydd, a'r iaith Wyddeleg yn benodol, yn ei alluogi i werthfawrogi'r benyweidd-dra hwnnw o bellter mwy gwrthrychol, drwy ddod â'r Wyddeleg i uniad newydd â'r Saesneg 'wrywaidd'. Sylwodd Howes ei hun ar y 'dialectic between hybridity as the elimination of difference and hybridity as the intermingling of distinct entities',⁷⁰ a dadleuir mai'r ail yr oedd Yeats yn amcanu ato. Awgrymodd Howes fod dau fodel o hunaniaeth Geltaidd ar gael i Yeats: 'one that was Arnoldian, feminine and particular, and another that was anti-Arnoldian, masculine and universalist'.⁷¹ Yn ôl rhesymeg Howes ei hun, felly, yr oedd symud at Geltigrwydd mwy gwrywaidd yn golygu symud oddi wrth safbwynt Arnold. Arweiniodd y safbwynt newydd hwn at ryddhau Yeats mewn dwy agwedd; yn gyntaf, fe'i rhyddhaodd i synio am y Wyddeleg fel rhywbeth canolog i ethnigrwydd y Gwyddelod. Yn ei gymysgrywedd, gall fynegi Celtigrwydd gwrywaidd drwy gyfrwng y Saesneg sydd yn dal i ymgorffori elfennau o'r Wyddeleg 'fenywaidd'.

⁶⁹ Howes, *Yeats's Nations*, t. 18.

⁷⁰ Howes, *Yeats's Nations*, t. 21.

⁷¹ Howes, *Yeats's Nations*, t. 21.

Eto, gwêl Sinéad Garrigan Mattar y datblygiad hwn yng Ngheltigrwydd Yeats fel a ganlyn: ‘It shifted from a romantically primitivist Celticism into something more self-critical, rigorous, and modernist. The chief factor in this shift was, I believe, his engagement with comparative science’.⁷² Archwilir yr honiad mai tuag at Geltigrwydd mwy modernaidd y symudodd Yeats yn ddiweddarach yn y thesis, ond am y tro bodlonir ar nodi’r gydnabyddiaeth hon fod ymdeimlad o ddatblygiad i Geltigrwydd Yeats yn y cyfnod. Gan fod y datblygiad hwnnw yn golygu ymwybyddiaeth gynyddol o ddulliau gwyddonol, y mae modd dadlau, fel y gwna Howes, mai *tuag at* Geltigrwydd mwy Arnoldaidd yr oedd y symudiad hwn. Ond heibio Celtigrwydd Arnoldaidd, yn hytrach na thuag ato, y symudodd Yeats mewn gwirionedd. Fel y sylwa Howes uchod, cynigiai’r Celtigrwydd newydd hwn safbwynt mwy ‘universalist’, ac un o ganlyniadau mwyaf arwyddocaol y safbwynt newydd hwn i Yeats ydoedd ei effaith ar ei agwedd tuag at Ewrop. Erbyn 1906 gwelwn ef drachefn, yn sgil ei brofiadau gyda’r theatr genedlaethol, yn mynnu mai drwy’r Wyddeleg yn unig y ceid mynediad at hen ffordd o fyw ganoloesol y Gwyddelod, ac mai dyna, yn wir, oedd wrth wraidd pob adfywiad ieithyddol drwy Ewrop gyfan:

It is some comparison, like this that I have made, which has been the origin, as I think, of most attempts to revive some old language in which the general business of the world is no longer transacted. The Provençal movement, the Welsh, the Czech, have all, I think, been attempting, when we examine them to the heart, to restore what is called a more picturesque way of life [...] That this is the decisive element in the attempt to revive and to preserve the Irish language I am very certain. A language enthusiast does not put it that way to himself; he says, rather,

⁷² Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival*, t. 41. Fel yr addefa Garrigan Mattar, ‘such a claim requires much justification, since Yeats argued repeatedly in the same period against science and the scientific dissection of folklore’ (t. 41). Dadleuir, fodd bynnag, bod Yeats ar brydiau wedi defnyddio gwyddoniaeth yn yr ymgyrch hon yn erbyn y gwyddonol. Dadleuir y trodd Yeats yn gynyddol at ddisgwrs wyddonol yn ei waith ar lôn gwerin o’r 1890au ymlaen, ac fel tystiolaeth cyfeiria Garrigan Mattar at astudiaethau ‘gwyddonol’ a chymharol o lenyddiaeth Geltaidd megis gwaith John Rhys a Henri d’Arbois de Jubainville (t. 44-63). Ystyrir y mathau mwy neu lai ‘gwyddonol’ o Geltigrwydd a goledwyd gan Yeats a Jones ymhellach yn y bedwaredd bennod.

“If I can make the people talk Irish again they will be the less English”; but if you talk to him till you have hunted the words into their burrow you will find that the word “Ireland” means to him a form of life delightful to his imagination, and that the word “England” suggests to him a cold, joyless, irreligious and ugly life[.]⁷³

Y mae awydd Yeats i dreiddio heibio a thrwy iaith at ystyr ac arwyddocâd “Ireland” ac “England”, i ‘hela’r’ geiriau i’w ‘ffau’, yn arwyddocaol o ymwybyddiaeth ddyfnach o bwysigrwydd iaith wrth lunio bydolwg. Yn hytrach na pheri ymlyniad nes at ddisgwrs imperialaidd, felly, fel yr awgryma Howes, trwy ei Geltigrwydd newydd daw Yeats i gydymdeimlad ieithyddol mwy cyffredinol â rhai o wledydd eraill Ewrop. Y mae ymbellhad Yeats oddi wrth y Wyddeleg wedi ei alluogi i’w harchwilio a’i hedmygu yn fwy manwl. Amlygir yn y dyfyniad ymwybyddiaeth gynyddol Yeats o’r cyd-destun ehangach mewn perthynas â’r materion a drafodid yn Iwerddon. Ceir cyfeiriad at Gymru, sy’n awgrymu fod Yeats yn dal i synio am yr hyn a ddigwyddai yn Iwerddon o fewn fframwaith mwy Celtaidd hefyd. Ond drwy enwi’r mudiadau Provençal a Czech amlygir y prosiect, neu’r nod, y mae Celtigrwydd newydd, gwrywaidd Yeats yn y pen draw yn anelu tuag ato; sef gosod, neu ail-osod, Iwerddon mewn cyd-destun Ewropeaidd, ac ym mhrif ffrwd y diwylliant Ewropeaidd. Awgrymodd R. F. Foster a Garrigan Mattar mai darllen erthygl o eiddo’r Albanwr Andrew Lang, o’r enw ‘The Celtic Renaissance’ (1897), a oedd yn gyfrifol am y newid safbwynt hwn yng Ngheltigrwydd Yeats, safbwynt a nodweddir yn ei erthygl yntau, ‘The Celtic Element in Literature’, o’r un flwyddyn.⁷⁴ ‘[I]t is very important’, medd Garrigan Mattar, ‘that Yeats’s famous article is seen as a direct response to Lang, since it is the article in which he took his first

⁷³ W. B. Yeats, ‘Literature and the Living Voice’ [1906], yn *Explorations*, gol. Georgie Yeats (London: Macmillan, 1962), tt. 202-21 (tt. 204-5).

⁷⁴ W. B. Yeats, ‘The Celtic Element in Literature’ [1897], yn *W. B. Yeats: The Major Works*, gol. E. Larrissy (Oxford: Oxford University Press, 2001), tt. 369-78.

definitive step away from ‘Celticism’ and towards a broader primitivism’.⁷⁵ Hyn a olygai fod y Celtigrwydd newydd, ehangach hwn mewn safle perffaith i estyn allan at ddiwylliannau Ewropeaidd cyffelyb.

Parhau yn gymhleth, fodd bynnag, a wnaeth perthynas Yeats â'r Wyddeleg. Er iddo sylweddoli y gellid ei dirnad a'i defnyddio i fynegi profiadau presennol a gwleidyddol yr ugeinfed ganrif, arhosai oddi allan i gyrraedd Yeats oherwydd ei anallu i'w dysgu a'i defnyddio. Noda Laura O'Connor ei ddibyniaeth ar rai a chanddynt rywfaint o Wyddeleg er mwyn cyflawni'r ‘accelerated weathering’⁷⁶ y gallai'r Wyddeleg ei chynnig yn ei waith ei hun: ‘considerable internal textual evidence suggests that they [beirdd yr adfywiad] often mentally translated their English into Gaelic and back again to achieve the desired effect’.⁷⁷ Ond er y ddibyniaeth ar eraill i gael y ‘blas’ hwn ar ei waith, dichon hefyd fod elfen wirfoddol i fethiant Yeats i ddysgu'r Wyddeleg. Dengys sylw craff Maria Tymoczko ynghylch sillafu enwau Gwyddeleg mewn llenyddiaeth Saesneg y grym a roddid i Yeats drwy lenyddia yn Saesneg:

the phonology and orthography of Irish names that have prevailed in English canons of world literature are paradoxically the spellings and pronunciations of W. B. Yeats (based in turn on those of Augusta Gregory and earlier translators and refractors), for it is through Yeats's refractions that many of the characters and stories have become most widely known. In some cases Irish tales have in fact entered the literary canon as a result of the canonization of Yeats's refractions rather than as independent pieces of literature.⁷⁸

Diau fod hyn hefyd ynghlwm â'r ymdeimlad fod ymlyniad â'r Saesneg yn rhoi safle goruchafol iddo wrth gydweithio ag awduron megis Douglas Hyde ar gyfieithiadau o'r Wyddeleg; ‘a positioning that allows Yeats to maintain access to, and yet personal

⁷⁵ Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival*, t. 72.

⁷⁶ O'Connor, *Haunted English*, t. 75.

⁷⁷ O'Connor, *Haunted English*, t. 76.

⁷⁸ Maria Tymoczko, *Translation in a Postcolonial Context* (Manchester: St. Jerome Publishing, 1999), t. 228.

distance from, the alien Gaelic culture through an intermediary, Hyde, who, despite his Anglo-Irish background, is placed outside their elite circle because of his Gaelic affiliation'.⁷⁹ Er ei gefnogaeth gynyddol i'r iaith, aros yn betrus a wna Yeats ynghylch ei lle ym mywyd Iwerddon:

If the mass of the people come to think in Gaelic, it [h.y. 'Gaelic theatre'] will become the national theatre of Ireland, but not till then. People can only act and sing and write or enjoy these things with a perfect enjoyment in the language of their thought.⁸⁰

Arhosodd y tyndra problematig hwn rhwng pwysigrwydd yr iaith ac anallu Yeats ei hun i'w siarad yn dyndra canolog drwy gydol ei yrfa. Daw i'r amlwg mewn ysgrif o'i eiddo bron i ugain mlynedd wedi cyhoeddi *In the Seven Woods*. Yn dilyn sefydlu Gwladwriaeth Rydd Iwerddon, penodwyd Yeats yn gadeirydd ar bwyllgor seneddol i drafod gwneud y Wyddeleg yn bwnc gorfodol mewn ysgolion. Yng ngoleuni'r swydd hon, y mae ei erthygl ar 'Compulsory Gaelic', a gyhoeddwyd yn *The Irish Statesman* yn Awst 1924, yn ddadlennol. Yn y drafodaeth, a luniwyd ar ffurf sgwrs neu ddadl rhwng 'Peter', seneddwr, a 'Paul', ei ddirprwy, ymddengys bod Paul yn llwyr o blaid rhoi lle blaenllaw i'r Wyddeleg o fewn y wladwriaeth newydd, ac yn benodol o fewn y system addysg, a Peter yn erbyn hynny. Honna Frayne a Johnson fod Yeats ei hun wedi mabwysiadu safbwynt y ddau ar wahanol adegau yn ei yrfa.⁸¹

Elfen amlwg yn y ddadl yw'r pwyslais ar bwysigrwydd yr iaith Wyddeleg fel arwydd o arallrwydd ac arwahanrwydd y Gwyddelod. Eto, fel yr awgryma Roy Foster, yr un byrdwn ag a geir yn narlith Hyde sydd yma.⁸² Gallai Iwerddon ddyfod, pe na ellid troi'r

⁷⁹ O'Connor, *Haunted English*, t. 75.

⁸⁰ W. B. Yeats, 'A Defence of the Abbey Theatre', NLI Papurau W. B. Yeats, MS 30,097, t. 7.

⁸¹ J. P. Frayne a Colton Johnson, Cyflwyniad i 'Compulsory Gaelic', yn UP2, t. 439.

⁸² AM t. 126. '[W]ithout it [y Wyddeleg] they might as well accept their fate and become a people purely imitative of English modes'.

Wyddeleg yn ‘disturbing intellectual force’, yn ddim mwy na ‘dull school-book’ gan orffen gyda ‘consequent apathy and final absorption in the British Empire’.⁸³ Cred Paul yw fod yr iaith yn gwbl greiddiol i ymwybod ethnig y Gwyddelod. Ond efallai mai’r peth mwyaf arwyddocaol am y ddadl yw y modd y cafodd ei fframio o fewn cyd-destun penodol Ewropeaidd. Cymherir Iwerddon gan Paul â chenhedloedd bychain Sgandinafaidd sydd wedi llwyddo i wneud argraff ar Ewrop, a hynny yn eu hiaith eu hunain: ‘Norway could never have created the greatest dramatic school of modern times if it had spoken a world-wide language’.⁸⁴ Nodedig o debyg yw’r sylw hwn i awgrym Katie Gramich y gall mai’r awduron Cymreig sydd yn llwyddo, maes o law, i greu’r llenyddiaeth fwyaf arloesol, yw’r rhai sydd yn ‘unwilling to play strategically, to instrumentalize, but rather continu[ing] to play their own, “other” game’.⁸⁵

Try dadl Yeats yn dilyn hyn at ba effaith y byddai creu Iwerddon Wyddeleg ei hiaith yn ei gael ar ei pherthynas â gweddill Ewrop. Tra bod Peter yn argyhoeddedig y byddai hyn yn arwahanu Iwerddon oddi wrth y cyfandir, barn Paul yw nad oes unrhyw reswm pam y dylai hyn fod yn wir.⁸⁶ Ond er i’r ddau anghytuno ar y ffordd orau o gyflawni eu nod, yr un sydd ganddynt, mewn gwirionedd: sefydlu Iwerddon fel diwylliant sydd yn ganolog ac allweddol i’r prif ffrwd Ewropeaidd. Y Wyddeleg yw’r unig gyfrwng, yn ôl Paul, y gall Iwerddon ddod i amlygrwydd Ewropeaidd drwyddo.⁸⁷ Ceir yn nhrasodaeth Paul a Peter ymwybyddiaeth o’r tyndra a’r anhawster o geisio cyrraedd cydbwysedd rhwng hawlio lle yn Ewrop a cholli arallrwydd. Erys pwysigrwydd cyfeddiant a chymysgrywedd, fe ymddengys, yn amlwg yn y ddadl hon. Deuir i’r casgliad:

⁸³ Yeats, ‘Compulsory Gaelic’, *The Irish Statesman*, Awst 2 1924, yn UP2, tt. 440-9 (tt. 445-6).

⁸⁴ Yeats, ‘Compulsory Gaelic’, t. 441.

⁸⁵ Gramich, ‘Both in and out of the game’, t. 276.

⁸⁶ Peter: ‘[Y]ou would cut Ireland off from Europe and plunge it into a controversy that will be incredibly bitter’. Paul: ‘I see no reason why the Gaelic movement should cut Ireland off from Europe’. Yeats, ‘Compulsory Gaelic’, t. 443.

⁸⁷ Yeats, ‘Compulsory Gaelic’, t. 445.

‘Whatever imagination we have in Ireland to-day, we owe to the Gaelic literature or to the effect of Gaelic speech upon the English language’.⁸⁸

Yr oedd pryderon tebyg yn cael eu trafod ymysg aelodau Cynghrair y Wyddeleg ac ar dudalennau cyfnodolion megis *An Claidheamh Soluis* (Cleddyf Goleuni) ac *Irisleabhar na Gaedhilge* (Cylchgrawn y Wyddeleg), yn ogystal â rhwng gwahanol awduron a beirdd yn yr iaith. Yn ôl Philip O’Leary, yr oedd y mudiad iaith wedi ei rannu i ddwy garfan gyffredinol, a’r termau a ddefnyddir ganddo i’w disgrifio yw’r ‘nativists’, ar y naill law, a’r ‘progressivists’ ar y llall. Tra’r oedd y ‘nativists’ yn awyddus i ddefnyddio’r Wyddeleg fel rhyw fath o fur i amddiffyn Iwerddon rhag unrhyw ddylanwadau allanol, ac yn enwedig rhai Seisnig neu Brydeinig, a allai gael effaith andwyol ar eu crefydd, eu diwylliant a’u llenyddiaeth,⁸⁹ yr oedd y ‘progressivists’, ar y llaw arall, yn cyfrif yn eu mysg Pdraig Piarais ac Éamonn Ó Néill, yn bleidiol i geisio defnyddio’r Wyddeleg fel sianel i ddysgu Iwerddon am yr holl ddiwylliant a oedd gan Ewrop i’w gynnig, ac yn ofni y gallai defnyddio’r Wyddeleg fel rhyw fath o ‘fur’ amddiffynnol rwystro Iwerddon rhag datblygu fel cenedl fodern.⁹⁰

Dyma’r safbwyntiau a oedd yn destun myfyrdod i Yeats yntau. Golygai mabwysiadu’r Saesneg y perygl o golli unrhyw fath o arwahanrwydd, a’r pryder oedd y gallai’r diwylliant Gwyddelig gael ei draflyncu’n llwyr gan dra-arglwyddiaeth y diwylliant Prydeinig. Ar y llaw arall, byddai defnyddio’r Wyddeleg yn golygu bod perygl o ynysu Iwerddon, nid yn unig oddi wrth Loegr, ond oddi wrth Ewrop hefyd. Fel y sylwodd Philip O’Leary, yr oedd breuddwyd Paul ynghylch gallu cyfieithu’n uniongyrchol o’r Wyddeleg i ieithoedd Ewropeaidd eraill yn dra ffantasiol, oherwydd na fedrai’r mwyafrif

⁸⁸ Yeats, ‘Compulsory Gaelic’, t. 446.

⁸⁹ O’Leary, *The Prose Literature of the Gaelic Revival*, t. 21.

⁹⁰ O’Leary, *The Prose Literature of the Gaelic Revival*, u. 52-3.

helaeth o ladmerwyr yr iaith ond Saesneg a Gwyddeleg. Yr oedd eithriadau, yn bennaf Tadhg Ó Donnchadha ('Tórna', 1874-1949), a benodwyd i swydd Athro'r Gwyddeleg yng Ngholeg Prifysgol Core,⁹¹ a thrafodir ei gyfraniad yntau yn helaethach yn ddiweddarach. Ond fel yr oedd pethau, prin y gallai aelodau Cynghrair y Wyddeleg feithrin cysylltiadau rhyngwladol hyd yn oed pe deisyfent hynny. Mewn erthygl arall nodir gan Philip O'Leary yr anhawster a gâi carfan ban-Geltaidd y Gynghrair i roi sylw beirniadol digonol, yn wir unrhyw sylw a âi heibio i'r arwynebol, i'r cyfrolau a dderbynient o'r Alban ac o Gymru oherwydd nad oedd gan nemor unrhyw un yn eu mysg y gallu yn ieithoedd y gwledydd hynny i'w dadansoddi yn llenyddol.⁹²

Yr oedd y trafodaethau hyn wedi bod ar droed ers amser maith, felly, ac yr oedd Yeats yntau, wrth gwrs, wedi bod yn cyffwrdd ar y pwnc mewn amryw ffyrdd ers blynyddoedd. Ond dengys y ffaith iddo fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r mater yn 1924 mai dod yn rhan gynyddol amlwg a hanfodol o'i Wyddeligrwydd ac o'i Geltigrwydd a wnaeth y Wyddeleg dros amser. Trwy ei gymysgrywedd newydd o fewn y *milieu* ieithyddol hwn ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, fe'i galluogwyd i gyfosod lleoliadau mytholegol, Celtaidd â sefyllfa bresennol y siaradwr, er mwyn archwilio'r obsesiwn cynyddol hwn ag iaith o fewn ei Geltigrwydd. Bellach, yn hytrach na dyfod atynt drwy haenau o symbolau ysbrydol, neu gael ei ddenu atynt gan y tylwyth teg, iaith sy'n rhoi mynediad i'r darllynydd at elfennau cyfriniol, Celtaidd, yn 'Baile and Aillinn' ([1902] VP 79) a 'The Old Age of Queen Maeve' ([1903] VP 78). Egyr 'Baile and Aillinn' gyda chri'r

⁹¹ Gwynn ap Gwilym, 'T. Gwynn Jones ac Iwerddon', *Taliesin*, 34 (Gorffennaf 1977), 90-102 (t. 91). Yn Philip O'Leary, 'Children of the Same Mother', nodir ei gyfraniad, fel golygydd yr *Irisleabhar na Gaedhilge*, i'r ymdrech i symud adolygiadau o gyfrolau o'r Alban a Chymru 'beyond mere publication notices to something closer to genuine criticism' (113). Ceir trafodaeth helaeth o'r cyfraniad allweddol hwn ar tt. 114-6.

⁹² O'Leary, 'Children of the Same Mother', 115. 'Welsh writers continued to be virtually ignored in the Gaelic press, no doubt for the same reason as always: no one involved in the Irish language literary movement could as yet read them.'

gylfinir, a'r siaradwr yn ei glywed, cyn i'w feddwl droi at Ulad tystiolaeth na all, er ei honiad yn 'Under the Moon', ymadael â lleoliad o'r fath ac at Baile, etifedd y deyrnas honno, cymeriad a nodweddir gan ei 'honey mouth' (ll. 5). Fe'n harweinir i'r byd mytholegol hwn, felly, drwy'r clyw, at felyster iaith un o brif gymeriadau'r gerdd. Nid yn unig y cawn ein cyflwyno i'r cymeriadau hyn ond cawn hefyd drigolion y presennol ynghanol y weithred o'u cofio. Yr hyn sy'n cysylltu'r ddau fyd yw iaith:

And when we walk with Kate or Nan
About the windy water-side,
Our hearts can hear the voices chide. (llau. 92-4)

Y mae cerydd y 'chide' yn y lleisiau yn pwysu chwerwder y presennol yn erbyn melyster y gorffennol, a chynyddir y chwerwder hwnnw pan ddysgwn yn y pennill blaenorol fod Baile wedi'i roi i orwedd '[u]nder a cairn of sleepy stone' (ll. 81). Un o bryderon mwyaf y gerdd yw fod y melyster hwn yn gwbl fud yn chwerwder y presennol, ac atgyfnerthir hynny drwy restru nifer o nodweddion natur anifeiliaid a choed, gan mwyaf gan holi 'What shall I call them?' (ll. 144). Cynrychiolwyr yr hen fyd yw'r rhain sydd yn dal i fyw o fewn natur ond y mae iaith yn ymbalfalu i'w henwi ac i'w diffinio, ac yn methu. Y mae iaith eto y tu hwnt i afael, a'r tro hwn y mae'r ffaith honno yn un frawychus. Tua'r diwedd holir 'What were our praise to them?' (ll. 177), fel pe bai'r siaradwr yn cydnabod nad yw'r gerdd o werth i'w chymeriadau ei hun oherwydd nad yw'n adrodd eu hanes mewn iaith y gallent ei deall. Cyfyd tensiynau cyffelyb yn 'The Old Age of Queen Maeve'. Darlun mwy hunan-ymwybodol o fardd mewn 'outlandish clothes' (VP 78, ll. 1) sy'n agor y gerdd hon, wrth iddo ganu i gyfeiliant offeryn llinynnol: 'and his voice sank / Or let its meaning mix into the strings' (llau. 7-8). Y llais sy'n ein harwain i'r gerdd drachefn felly, a'r ystyr a gymysgir yn y llinynnau eto'n dynodi cymysgrywedd, ond y tro hwn daw'r bardd o'i safle allanol, ymylol, Saesneg, tuag at ganol Gwyddeleg y gerdd. Er

ei grym canolog, imperialaidd yn y byd real, o fewn cyd-destun tirwedd mytholegol y gerdd ni all fod yn fwy na ffenestr i edrych a phrofi'r byd hwnnw o'r tu allan, a dyna bwysleisio pwysigrwydd Celtigrwydd wrth wthio'r Saesneg i safle ymylol, gan greu canol newydd.

Brithir y gerdd â chyfeiriadau at lafaredd ac at leisiau'r cymeriadau, wrth i wyrion Maeve ollwng llef uchel, ac wrth i'r tywyllwch ddeffro gyda 'shouting and the clang of unhooked arms' (ll. 111). Ond tua'r diwedd down eto yn ôl i'r presennol wrth i'r siaradwr gyfarch ei 'Friend of these many years' (ll. 130) Maud Gonne, yn ôl Norman A. Jeffares⁹³ ac wrth symud i'r presennol drachefn troir at ysgrifen fel cyfrwng cyfathrebu yn hytrach na'r llais. Y mae'r cyfarchiad ei hun fel pe ar ddechrau llythyr, ac yna honna'r bardd nad oes 'high story about queens / In any ancient book that tells of you' (llau. 134-5). Ysgrifennu, nid siarad, yw prif ddull y siaradwr o drosglwyddo'i genadwri a'i gymynrodd hefyd:

And when I'd write it out anew, the words,
Half crazy with the thought, She too has wept!
Outrun the measure. (llau. 139-41)

Yma mae iaith yn rhy bwerus, yn rhy llafar a llithrig, i gael ei dal o fewn hualau a ffiniau'r ysgrifenedig. Y mae'r geiriau'n gorlifo dros y mesur, a dychwelir yn ddiweddarach yn y bennod i edrych yn nes ar y tyndra hwn rhwng yr ysgrifenedig a'r llafar.

Daw'r gerdd i ben gyda rhai o linellau mwyaf arwyddocaol Yeats, ond odid, o ran mynegi'r tyndra ieithyddol yn ei waith. Geiriau Maeve ydynt, wrth iddi gyfarch Aengus:

'A thousand years ago you held high talk
With the first kings of many-pillared Cruachan.

⁹³ CP t. 524n.

O when will you grow weary?
 They had vanished;
 But out of the dark air over her head there came
 A murmur of soft words and meeting lips. (Illau. 150-4)

Ceir cryfder emosiwn yn y llinellau clo hyn sy'n awgrymu fod ymdeimlad Yeats â phwysigrwydd yr iaith Wyddeleg, a'r hyn a gollid pe collid hithau, yn llawer dyfnach a chryfach na'r wrogaeth arwynebol a delir iddo'n aml. Y mae 'high talk' Aengus, iaith urddas a melyster y brenhinoedd, wedi diflannu. Ond daw'r tro gyda'r 'But', ac nid yw popeth wedi ei golli; erys yr iaith yno yn y 'murmur of soft words'; eto, iaith feddal, fenywaidd, dyner ydyw, sydd yn dawel, fel sibrwd. Cwbl briodol yw i'r gerdd gloi gyda'r ddelwedd o'r 'meeting lips' (a'r awgrym sydd yn ymhlyg yn hyn o'r Wyddeleg fel iaith agosatrwydd yn hytrach nag iaith gyhoeddus), ymgorfforiad o'r foment Yeatsaidd lle y mae ei gerddi yntau yn esgor ar gyfarfyddiad, uniad, ac undod newydd, rhwng melyster y Wyddeleg a'r hen fyd y mae'n ei mynegi, a chwerwder y presennol a nodweddir gan y Saesneg.

Arweinir ni gan y tyndra ar ddiwedd 'Queen Maeve' rhwng yr ysgrifenedig a'r llafar at drafodaeth arall ymysg yr awduron Gwyddeleg, sef y drafodaeth ynghylch y ffordd orau o greu iaith lenyddol yn y Wyddeleg. Os oedd amcangyfrif Tadhg Ó Donnchadha mai prin hanner cant o bobl a fedrai ddarllen y Wyddeleg yn ei hen orgraff yn 1882, heb sôn am ei hysgrifennu, yn agos ati, sylweddolir anferthedd y dasg, a'i bod bron yn fater o ddechrau gyda llechen cwbl lân drachefn.⁹⁴ Ar y naill law ceid John O'Reilly, Richard Henebry a'u dilynwyr a gredai y dylid seilio Gwyddeleg lenyddol fodern ar Wyddeleg 'glasurol' yr ail ganrif ar bymtheg, ac mai'r unig ffordd i gyflawni hynny oedd i awduron

⁹⁴ Philip O'Leary, 'The Irish Renaissance, 1890-1940: literature in Irish', yn *The Cambridge History of Irish Literature: Volume 2, 1890-2000*, goln. Margaret Kelleher a Philip O'Leary (Cambridge: Cambridge University Press, 2006), tt. 226-69 (t. 226).

‘immerse themselves in the prose classics of the past’.⁹⁵ Ar y llaw arall, ceid lladmerwyr yr hyn a elwid yn *caint na ndaoine*, sef iaith neu lais y bobl: ‘For these writers,’ eglura O’Leary, ‘any new prose that was to have a chance of gaining an audience among either native speakers or learners of the language had to be rooted in the language as spoken by those for whom it was their first language.’⁹⁶ Dewisodd trwch helaeth yr awduron y llwybr hwn. Yr oedd nifer o’r ‘progressives’ amlycaf megis Padraig Piarais, Éamonn Mac Néill a Padraic Ó Conaire o blaid *caint na ndaoine*, ac yn wir yn rhannol gyfrifol am oruchafiaeth y dull hwnnw maes o law.⁹⁷ Iaith lafar siaradwyr brodorol ardaloedd gwledig a gorllewinol (gan mwyaf) Iwerddon a ddaeth maes o law, felly, yn sail ar gyfer iaith lenyddol.

Diddorol yw nodi y manteisiodd Yeats ar y dechneg hon, hefyd, wrth i iaith ddod yn ystyriaeth gynyddol bwysig iddo; yn wir, cred O’Connor fod yr hyn yr amcanai awduron yr *Abbey* ac awduron Gwyddeleg ei gyflawni yn hanu o’r un tarddiad: ‘Revivalist writers in Irish and Irish-English alike honed their literary vernaculars in the Pale/Fringe contact zone’.⁹⁸ Ciliodd Yeats oddi wrth ieithwedd aruchel, *ethereal* ei flynnyddoedd cynnar gan anelu at uniongyrchedd a rhythmau iaith bob dydd, ac efallai fod dylanwad y dymuniad i symud tuag at y llafar yn y mudiad Gwyddeleg ei iaith, drwy bobl megis Gregory a Hyde, a’r cyfoeth o lôn gwerin a oedd ar gael drwyddynt, ar Yeats yn hyn o beth. Eisoes gwelsom yn ‘Under the Moon’ fel yr oedd sŵn y Wyddeleg yn hydreiddio Saesneg Yeats; fel y sylwodd Laura O’Connor:

Yeats, ignorant of Gaelic and tone-deaf, succeeded where others failed at perfecting the interaction of the slow amhrán with the iambic line through

⁹⁵ O’Leary, ‘The Irish Renaissance’, t. 233.

⁹⁶ O’Leary, ‘The Irish Renaissance’, t. 236.

⁹⁷ O’Leary, *Prose Literature of the Gaelic Revival*, t. 45.

⁹⁸ O’Connor, *Haunted English*, t. 75.

trisyllabic substitution [...] Yeats counterpoints the magisterial, meditative cadences of English prosody with vehement Irish talk and lilting Gaelic tunes[.]⁹⁹

Unwaith eto, y mae ymwneud Yeats â'r theatr yn arwyddocaol wrth ystyried yr elfen hon yn ei iaith. Wrth drafod iaith y theatr yn 'Literature and the Living Voice' y mynegodd gryfaf mai llenyddiaeth wedi ei seilio ar yr iaith lafar y dylai llenyddiaeth Wyddeleg fod: 'Irish poetry and Irish stories were made to be spoken or sung, while English literature, because the newest of them all, has all but completely shaped itself in the printing-press'.¹⁰⁰ Yr oedd wedi ymroi'n llwyr i'r 'stereotypical assumption', yng ngeiriau Patrick Sims-Williams, ynghylch y 'supposed preference for oral rather than written transmission' yn y traddodiadau llenyddol Celtaidd.¹⁰¹ Ond yr oedd hon hefyd, gellid dadlau, yn weithred o ddirymiad, wrth i Yeats a'r awduron yn y Wyddeleg ymwrthod â'r cysyniad fod y fath beth ag iaith 'safonol', ysgrifenedig yn bod, a chan seilio eu hiaith lenyddol, yn hytrach, ar y llafar. Pwysleisia Laura O'Connor mor allweddol oedd cymysgrywedd dod â'r Saesneg a'r Wyddeleg i gyswllt â'i gilydd yn y broses hon. Yn y 'Pale/Fringe "contact zone" between Gaelic and English, orature and literature, classical and demotic, and the spoken and written word' yr oedd man geni'r ieithwedd hon,¹⁰² ac felly yr oedd yr elfen hon hefyd yn rhan allweddol o gymysgrywedd Yeats, a'r modd y gwelai ei hun fel ffigwr yn y canol rhwng dau begwn gwrthbwyntiol: 'In Ireland to-day the old world that sang and listened is, it may be for the last time in Europe, face to face with the world that reads and writes'.¹⁰³

⁹⁹ O'Connor, *Haunted English*, t. 84-5.

¹⁰⁰ Yeats, 'Literature and the Living Voice', t. 206.

¹⁰¹ Patrick Sims-Williams, 'Celtomania and Celtoscepticism', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 36 (Gaeaf 1998), 1-35 (t. 8-9).

¹⁰² O'Connor, *Haunted English*, t. 75.

¹⁰³ Yeats, 'Literature and the Living Voice', t. 206.

‘Gwrandu peroriaeth gerwinder’: amlieithedd T. Gwynn Jones

Os ydyw astudiaeth o berthynas Yeats ag iaith yn debygol o ddechrau gyda’r dybiaeth nad ystyrir y Wyddeleg yn rhan ganolog o’i waith ac o’i hunaniaeth, sefyllfa cwbl gyferbyniol a geir yn achos T. Gwynn Jones. Ysgrifennodd Jones yn helaeth a damniol am effaith andwyol y gyfundrefn addysg Seisnig ar allu a dymuniad y Cymry i siarad Cymraeg:

I hated all the schools I ever attended, because I felt they insulted me and everything I cared for; because the teachers never mentioned a word about Arthur or Gruffudd ap Cynan, Llywelyn or Owain Glyn Dwr [...] I do not even now love the English language – it will for ever be associated in my mind with tyranny, – nor do I really know how any linguist can love it as a language[.]¹⁰⁴

I Jones, y mae lleihau’r defnydd o’r Gymraeg ymysg y Cymry yn gysylltiedig ag ymbellhad oddi wrth Gymreictod; mewn ysgrif ar ‘Iaith’ yn *Y Wawr* yn 1914, y mae’n crybwyll ‘ugeiniau o bobl na byddent yn neb oni bae am eu Cymraeg digon salw, yn dwyn eu plant i fyny i siarad Saesneg salwach. Fe ddont hwythau yn y man i ddirmygu eu cenedl yng ngweddillion truenus ei hidiom hi ei hun’.¹⁰⁵ Os nad yw rhieni yn dysgu’r iaith i’w plant, ‘[m]egir ynddynt gywilydd o’u rhieni a’u cenedl’.¹⁰⁶

Mewn erthygl gynnar o’r enw ‘Y Genedl Fawr Hon’ yn y *Faner* yn 1896, y mae barn Jones yn dra eglur ar fater yr iaith ac ar berchnogion ‘gwir’ Gymreictod:

Dichon y dywedir y mynwn i Gymru i’r Cymry. Na fynwn, eithr mi a fynwn Gymru i’r Gymraeg a thra gelwir hi’n wlad y Cymry, ac y bo’r genedl Gymreig yn fyw ynddi[.]¹⁰⁷

Yr oedd iddo, felly, gysylltiad clos rhwng iaith ac ethnigrwydd. Daw’r cysylltiad hwn i’r amlwg yn ei gynnyrch barddonol; yn ei awdl gadeiriol ‘Gwlad y Bryniau’ ([1909] C tt. 35-

¹⁰⁴ T. Gwynn Jones, ‘Nationality and Patriotism’, *Welsh Outlook*, 3 (Ebrill 1916), 111-114 (t. 111).

¹⁰⁵ T. Gwynn Jones, ‘Iaith’, *Y Wawr* I: 3 (Haf 1914), 28-35 (t. 30).

¹⁰⁶ Jones, ‘Iaith’, 32.

¹⁰⁷ T. Gwynn Jones, ‘Y Genedl Fawr Hon’, *Baner ac Amserau Cymru*, Ionawr 22 1896, t. 5.

59), awgrymir y cysylltiad annatod rhwng iaith ac ethnigrwydd, ac nad Brython fyddai Brython heb y Frythoneg, drwy sôn am gynlluniau'r Rhufeiniaid:

Maith fu ei obaith am ladd dy feibion,
A difa'r iaith nas gadawai Frython; (t. 58, ll. 21-2)

Yr awgrym yw na byddai'r un Brython ar ôl pe llwyddid i ddifa eu hiaith. Gellid awgrymu fod pwysigrwydd y cysylltiad annatod hwn i'r Cymry Cymraeg rhwng iaith a hunaniaeth i gyfrif am eu dyfodiad braidd yn hwyrfrydig i weithgareddau pan-Geltaidd. Holodd *Celtia* yn 1901, 'A ydyw Cymru yn effro?', gan gwyno, er ei bod 'wedi arwain y gâd yn achos iaith', am ddiffyg gweithgaredd Celtaidd: 'Pa le y mae y Pwyllgor Oll-Geltaidd Cymreig? A pha beth y maent yn ei wneyd?'¹⁰⁸ Gall mai'r pwyslais hwn ar iaith a olygai nad oedd y gefnogaeth i ban-Geltigrwydd mor frwd yng Nghymru ag yr oedd mewn gwledydd eraill. Oherwydd y mynediad at iaith fel 'arwyddnod hunaniaeth Gymreig',¹⁰⁹ dilëid yr angen am Geltigrwydd i raddau helaeth. Crynhowyd y gwahaniaeth rhwng dwy lenyddiaeth Iwerddon ar y pryd yn y modd canlynol gan Seamus Deane:

we can understand a great deal about the difficulties presented by the English-language texts of the Revival – and we can understand a good deal about the translation activities of the Gaelic League and later the Irish government – if we see them as converse operations – one inheriting a so-called 'normal' tradition of writing in English that had to esotericize, the other an esoteric tradition of writing in Irish that had to be normalized. So while one was, in the hands of a Lady Gregory, an Eleanor Hull, or a Yeats, emphasizing the wondrous otherness of Irish writing and exploiting every conceivable means to intensify that otherness, the other and later activity confines itself to normalizing the Irish language by translating Jane Austen and Sir Walter Scott into Irish, the better to normalize relations between the two languages and the two traditions.¹¹⁰

¹⁰⁸ *Celtia*, I: 3 (1901), 34. Yn yr un rhifyn, enwir T. Gwynn Jones fel aelod newydd o'r Undeb (37).

¹⁰⁹ Simon Brooks, 'Ffantasi Hil-laddiad a'r Diwylliant Cymraeg: Dirnad cenedlaetholdeb ethnig, a syniadaeth Slavoj Žižek', *Ysgrifau Beirniadol XXX*, gol. Gerwyn Williams (Bethesda: Gwasg Gee, 2011), tt. 133-67 (t. 158).

¹¹⁰ Seamus Deane, *Celtic Revivals: Essays in Modern Irish Literature 1880-1980* (London: Faber, 1985), t. 117.

Gellir dadlau mai tebyg oedd y sefyllfa yng Nghymru, a bod cryfder cymharol y Gymraeg ynddo'i hun yn dileu'r angen i chwilio am arwyddion eraill, megis Celtigrwydd, o arallrwydd. Os dadleuir ar y naill law, felly, fod ar Yeats angen arddel elfennau o Geltigrwydd fel arwyddnod hunaniaeth wahanol, a'i fod wedi methu dianc yn llwyr oddi wrth hynny, gellir gofyn hefyd pam fod ar Jones angen arddel Celtigrwydd o gwbl. Gobeithir cynnig ateb i hynny yng nghwrs gweddill y bennod hon.

Yn sgil y pwyslais hwn ar iaith, datblygodd y syniad o 'burdeb' ieithyddol ac anogwyd unffurfiaeth o ran orgraff a sillafu.¹¹¹ Un o'r ystyriaethau pwysicaf wrth ymdrin â phurdeb yr iaith oedd ymwrthod â dylanwad ieithoedd eraill, yn enwedig y Saesneg, ar y Gymraeg. Teimlai T. Gwynn Jones yn gryf na ddylid cymysgu geirfa a chystrawen Gymraeg a Saesneg, ac edliwir hynny ganddo i'r Cymry.¹¹² Diddorol yw nodi ei bod yn atgas ganddo hefyd ddylanwad cystrawen Gymraeg ar Saesneg nifer o Gymry, gan awgrymu mai rhywbeth sy'n ddyledus i bob iaith, ac nid yn unig y Gymraeg, yw purdeb.¹¹³ Ar yr olwg gyntaf, felly, ymwrthod yn llwyr â phosibiliadau cymysgrywedd ieithyddol a wnaeth Jones, yn gwbl groes i Yeats. Yn wir, y mae safbwynt Gwynn Jones yn ymdebygu'n fwy i farn Hyde nag i un Yeats.¹¹⁴ Y mae'r darlenniad hwn o agwedd Jones tuag at iaith yn gydnaws nid yn unig â nifer o elfennau o'i farddoniaeth ei hun, ond ag agwedd nifer o awduron eraill y cyfnod.

Mewn gwirionedd fodd bynnag, y mae safbwynt Jones yn un llawer mwy cymhleth. Er awgrymu fod yr iaith Gymraeg, ac yn sgil hynny arddel ac arbed 'purdeb' honedig yr iaith honno, yn hanfodol i 'fod yn Gymraeg', gellir canfod awgrym yn rhai o'i ysgrifau

¹¹¹ Gw. Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, t. 27.

¹¹² Jones, 'Iaith', 32.

¹¹³ Jones, 'Iaith', 32.

¹¹⁴ Hyde, 'The Necessity for De-Anglicising Ireland', t. 80.

nad yw'r iaith mor gwbl hanfodol a chanolog i'w ddehongliad o Gymreictod ag yr ymddengys. Mewn llythyr yn y *Faner* yn 1893, ceir y datganiad hwn ganddo:

Pe collem ein hiaith rhyw dro, fel y dywed rhywrai y gwnawn - ond ni chredaf fi mo honynt nis gwnai hyny ni yn Saeson, mwy nag y gwnaeth colli eu hieithoedd y Gwyddelod neu yr Ysgotiaid yn Saeson; fe allai y byddem yn fwy cenedlig, fel y ddwy genedl uchod, pe byddai ein tafodau yn Saesneg, nag a fuom amser aeth heibio, er i'n tafodau ni fod yn Gymreig[.]¹¹⁵

Y mae'r honiad hwn yn ymdebygu i gred Yeats mai'r chwedlau eu hunain sydd yn bwysig ac nid yr iaith a ddefnyddir i'w mynegi. Rhaid cofio fod Gwynn Jones yn ifanc pan ddywedodd hyn ac mai ymgais ydyw, hwyrach, i leddfu rhywfaint ar y ffrae ieithyddol a fygythiai fodolaeth mudiad Cymru Fydd. Serch hyn, y maent yn eiriau awgrymog, a cheir datganiadau eraill, diweddarach, o eiddo Jones sydd, er nad ydynt mor ddigyfaddawd â'r uchod, yn taro'r darllynydd braidd yn chwithig os credir fod iaith yn gwbl hanfodol i hunaniaeth Gymreig eu hawdur:

Onid oes gennym ddigon o barch i ni'n hunain i ddysgu'n haith [sic] ein hunain yn ein gwlad ein hunain, digrif o beth na bae gennym ddigon o barch i'r Saesneg i'w dysgu yn weddol gywir yn ei lle.¹¹⁶

O weld a chydnabod safbwyntiau o'r fath o eiddo Jones, felly, gellir dadlau fod ei ddadleuon blaenrol am ei atgasedd at yr iaith Saesneg, ac yn wir y sylweddoliad mai penderfyniad ymwybodol ganddo oedd ysgrifennu yn Gymraeg, yn weithredoedd cydwybodol wrth-drefedigaethol ynddynt eu hunain.¹¹⁷ Yn dra pharadocsaid, efallai, gall cwestiynu safle canolog y Gymraeg yn niffiniad ethnigrwydd y Cymry ryddhau Jones i fabwysiadu rhai agweddau mwy blaengar. O bwysleisio 'purdeb' honedig yr iaith, a'r

¹¹⁵ T. Gwynn Jones, 'Llythyrau Cyhoeddus: at Ddemocratiaid Cymru', *Baner ac Amserau Cymru*, Medi 13 1893, t. 5.

¹¹⁶ Jones, 'Iaith', 32. Drachefn, y mae'r farn hon yn adleisio'n gryf safbwynt Emrys ap Iwan yntau.

¹¹⁷ Yn wir, yn ôl David Jenkins, 'fe fu agos iawn i'r Gymru Gymraeg weld cipio oddi arni un o'i beirdd mwyaf dawnus. Ni fu ond y dim i Thomas Gwynn Jones ddewis Saesneg fel cyfrwng mynegiant, a hynny oherwydd bod yr addysg a gafodd yn ysgol Lof Lôn [h.y. Love Lane, Dinbych] wedi'i ddiethrio oddi wrth ei gefndir diwylliannol a'i gyflyru'n Sais' (TGJ, t. 43).

ddolen rhyngddi a hunaniaeth genedlaethol, yr oeddid mewn perygl o syrthio i'r fagl Arnoldaidd o gredu fod rhai agweddau ar fywyd a oedd yn fwy cymwys i'w trafod yn Gymraeg. Pwysleisiai Jones mai cam gwag oedd hyn: 'Ein perygl cenedlaethol yw cyfyngu cylch defnyddioldeb yr iaith'.¹¹⁸ Ei ddymuniad oedd cadw'r Gymraeg fel iaith fodern, fyw, a'i defnydd yn ymestyn i bob agwedd ar fywyd, yn hytrach na'i chadw fel iaith farddonol yn unig:

Yng Nghymru, ceir yn y papurau weithiau "Gornel y Cymro" neu "Golofn Gymreig," ac ymddengys fod y Cymro yn eithaf bodlon ar ei gornel a'i golofn. Llenwir hwy, y rhan amlaf, a rhyw fath o brydyddiaeth, a llythyrau ar faterion heb fod o lawer o bwys na dyddordeb yn mywyd y byd fel y mae. Sylwais fod yr un peth yn wir am y Llydaweg a'r Wyddeleg, megis pe mai tynged hen ieithoedd gogoneddus yw eu prydyddu i farwolaeth.¹¹⁹

Yn wir, '[e]in camgymeriad', meddai, 'oedd cadw ein hiaith yn ormod i ni ein hunain, yn lle'i defnyddio yn holl gysylltiadau bywyd'.¹²⁰ O osod yr iaith Gymraeg fel meincnod ar gyfer Cymreigrwydd yr oeddid hefyd yn ei chyfyngu i arddull neu ddeunydd penodol; ond i Jones, gallai gweithiau llenyddol fod yn 'Welsh because they are in Welsh, that is all'.¹²¹

Fel y disgrifiodd Simon Brooks, yr oedd ystyriaethau ynghylch cywair iaith hefyd yn ganolog i'r modd y defnyddiwyd cysyniadau imperialaidd, 'goleuedig' gwledydd 'hanesiol' Ewrop am gywirdeb, a chredoau rhesymegol ynghylch gramadeg a chystrawen, yn arf i'r cenhedloedd 'anhanesiol' megis Cymru. Drwy fynnu nad iaith lafar, anffurfiol, gwerinol ac afreolaidd mo'r Gymraeg ond un ffurfiol, ysgrifenedig a rhesymegol, gallai felly hawlio'i lle ymysg ieithoedd Ewropeaidd eraill fel iaith brint ddilys. Yr oedd yr un

¹¹⁸ T. Gwynn Jones, 'Iaith a Diwylliant', *Baner ac Amserau Cymru*, Chwefror 11, 1926, t. 5.

¹¹⁹ Jones, 'Iaith', 34.

¹²⁰ Jones, 'Iaith a Diwylliant', t. 5.

¹²¹ Jones, 'Nationality and Patriotism', 112.

math o weithgaredd yn cael ei arddel mewn nifer o wledydd lleiafrifol eraill ar y pryd.¹²² John Morris-Jones oedd y prif ysgolhaig i ddwyn yr *episteme* newydd hon i Gymru,¹²³ ac ynghlwm â'r awydd i arbed 'purdeb' y Gymraeg, yr oedd 'obsesiwn nid yn unig ag iaith ond ag ansawdd yr iaith honno'.¹²⁴ Gellir dadlau felly fod *episteme* Morris-Jones, yn hytrach na mabwysiadu safbwynt dirymiad ac ymwrthod â'r syniad o iaith awdurdodedig, safonol, yn ymgeisio i guro'r Saesneg ar ei gêm ei hun a gosod y Gymraeg gyfysgwydd â hi fel iaith safonol, awdurdodol ac awdurdodedig.

Ceir ambell awgrym, fodd bynnag, nad oedd T. Gwynn Jones yn lladmerydd iaith ffurfiol, aruchel, bur i'r un graddau ag yr oedd John Morris-Jones. Yn yr un erthyglau ag y mae'n ymosod ar ddiffyg cywirdeb ieithyddol rhai siaradwyr ac ysgrifenyddwyr y Gymraeg, cyfeddyf Gwynn Jones hefyd:

Gwir bod hanes y Gymraeg wedi peri bod yn rhaid rhoi pwys arbennig ar orgraff, gramadeg, a chystrawen am y rheswm eu bod, yn ystod y ganrif ddiweddar, wedi myned mor bell oddiwrth yr iaith lenyddol gynt a'r iaith fyw hefyd. Feallai fyned yr awydd am "buro" a "gloewi" 'r iaith ychydig yn rhy bell gan rai.¹²⁵

Dengys y sylwadau hyn agwedd tuag at gywirdeb iaith sydd yn gwyro oddi wrth y safbwynt Morris-Jonesaidd. Gwêl Gwynn Jones lenyddiaeth dafodieithol fel rhywbeth diddorol o safbwynt ieithydd: '[g]ellir dadleu', meddai, 'mai gwell i bawb sgrifennu yn ôl ei dafodiaith ei hun. Ar un cyfrif, byddai hynny'n beth diddorol dros ben, ac yn

¹²² Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, tt. 18-20.

¹²³ Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, tt. 20-6. Diffinnir '*episteme*' gan Brooks fel a ganlyn: 'term Groeg yn golygu gwybodaeth. Yn y llyfr hwn, fe'i defnyddir i olygu'r syniadaeth waelodol sy'n pennu'r math o wybodaeth a ganiateir mewn cymdeithas benodol ar ryw adeg penodol' (t. xiv).

¹²⁴ Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, t. 30. Rhaid addef, fodd bynnag, fod rhywfaint o amwysedd wrth geisio diffinio union safbwynt Morris-Jones yn hyn o beth. Yn 'Cymraeg Rhydychen', er enghraifft, y mae'n awyddus i bwysleisio: 'Nid ydym mor ddall ag y tybia rhai, nas gwyddom y gwahaniaeth rhwng iaith lenyddol ac iaith lafar. Y mae iaith lafar yn dyfiant perffaith naturiol [...]. Ond y mae a fynno dŷn rywfaint a llunio'i iaith lenyddol'. John Morris-Jones, 'Cymraeg Rhydychen', *Y Geninen*, 8 (1890), 214-23 (t. 215). Ceir tystiolaeth hefyd yr arferai Morris-Jones ei hun Gymraeg digon sathredig y tu allan i gylchoedd academaidd, yn llawn geiriau Saesneg: gweler, er enghraifft, y llythyr at ei wraig o Efrog Newydd ar 10 Medi, 1920, lle ceir brawddegau fel y canlynol: 'Yr oedd Jack wedi cael ei bethau trwy'r customs dipyn o'm blaen i, ac wedi crybwyll am y flask; ond dywedodd y dyn wrtho eu bod yn barticular iawn efo spirits'. Dyfynnir yn Allan James, *John Morris-Jones* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2011), Llun 9.

¹²⁵ T. Gwynn Jones, 'Tafodiaith', *Y Llenor*, I (1922), 233-41 (t. 241).

dderbyniol iawn gennyf i, yn un, fel ieithydd'.¹²⁶ Pwysleisia'r safbwynt hwn i Morris-Jones yn bur ddiamwys: 'yr wyf yn mentro meddwl mai da y gwnaem ni fanteisio ar bethau a wnai ein hiaith yn fwy llafar, heb ddrygu ei henaid'.¹²⁷ Yr hyn a geir yma, felly, fe ellid dadlau, yw math o ddirymiad ar waith, ond fod hynny o fewn y Gymraeg ei hun. Fel y Gwyddelod, yn hytrach na dilyn y dull Morris-Jonesaidd o chwarae'r 'gêm' ymerodraethol a cheisio gosod Cymraeg safonol ar yr un lefel â'r Saesneg, tueddu tuag at ymwrthod â'r cysyniad o gywirdeb neu safon ieithyddol a wnâi Jones ar adegau.

Ac eto, trafod dewis rhwng iaith y beirdd canoloesol a thafodieithoedd siaradwyr modern yr oedd y Gwyddelod, ac o wneud hynny yr oeddent yn disodli un yn bendant o blaid y llall. Mawrygu'r llafar ar draul yr ysgrifenedig a benderfynwyd, ac yn hynny o beth yr oeddent yn cyfranogi o ddirymiad mewn modd tebyg i'r hyn yr oedd Yeats yn ei bwysleisio yn Saesneg. Ond sylwodd Simon Brooks mai'r 'weledigaeth [...] o iaith safonedig, yn pontio rhwng llenyddiaeth a'r llafar ac yn uno'r genedl i greu "cymuned gyfathrebu"' oedd gweledigaeth John Morris-Jones.¹²⁸ Dichon yr âi T. Gwynn Jones gam ymhellach, gan ddadlau nad oedd angen y pontio hwn oblegid mai'r un oedd y llafar a'r llenyddol:

[C]redu'r wyf i na chyll Cymraeg llenyddol glân a syml mo'i apêl at un dorf o Gymry eto, os bydd neges atynt. Dywedodd Mr. Berry fod y gwahaniaeth rhwng yr iaith lafar ag iaith llyfr yn fwy, os yr un, yng Nghymru nag yn Lloegr.¹²⁹

Anghytunai â barn Berry, oherwydd drwy wadu a dileu'r gwahaniaeth rhwng y llafar a'r ffurfiol, gallai hefyd ddileu'r gagendor rhwng y gorffennol a'r presennol, ac yn hytrach

¹²⁶ Jones, 'Tafodiaith', 237.

¹²⁷ Llythyr oddi wrth T. Gwynn Jones at John Morris-Jones, 16 Chwefror 1911. LIGC Papurau T. Gwynn Jones G4056.

¹²⁸ Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, t. 26.

¹²⁹ Jones, 'Tafodiaith', 239.

na hynny bwysleisio parhad: '[g]allai gwladwr o Gymro hyd heddyw ddeall y Mabinogion, er enghraifft, onid ychydig iawn o dermau'.¹³⁰

Os oedd T. Gwynn Jones yn arddel dirymiad, felly, nid yr un math yn union o ddirymiad â'r hyn a ddisgrifir gan ddamcaniaethwyr ôl-drefedigaethol ydoedd. Yn hytrach na phwysleisio'r gwahaniaeth rhwng y ffurfiol a'r llafar, a disodli'r blaenaf o blaid yr olaf fel y gwnâi'r Gwyddelod, anelai T. Gwynn Jones i leihau y gwahaniaeth a dadlau mai'r un oedd iaith ffurfiol safonol ac iaith lafar y werin yn y bôn: 'nid yw'r gwahaniaeth rhwng Cymraeg byw â Chymraeg llenyddol ystywyth, syml a dirodres, cymaint a'r gwahaniaeth rhwng iaith Bernard Shaw ag iaith gwerin Lloegr'.¹³¹ Wrth drafod y newidiadau a wnaeth i ieithwedd 'Ymadawiad Arthur', meddai:

newid a wneuthum [...] mi gredaf yng nghyfeiriad cywirdeb teimlad, symledd ac eglurder iaith, ac egwyddor mydryddiaeth Gymraeg fel y mae yn natur yr iaith ei hun. Barnu yr wyf fi bellach, mai goreu po symlaf y bydd peth, o ran geirfa a chystrawen[.]¹³²

Ceir y teimlad mai rhan o'i brosiect i ddwyn y ffurfiol a'r llafar yn gynyddol nes at ei gilydd yw hyn. Fel y sylwodd Jerry Hunter:

the newness of the 1902 awdl can also be located in Gwynn Jones's reintroduction of words from Middle Welsh, ensuring that what he called *rhin yr heniaith* ('the old language's virtue') found a place in the literary Welsh of the twentieth century. The narrative flow of *Ymadawiad Arthur* derives to a large extent from a studied imitation of "that conversational lightness which is so obvious in the Mabinogi and the other tales".¹³³

¹³⁰ Jones, 'Tafodiaith', 240.

¹³¹ Jones, 'Tafodiaith', 241.

¹³² T. Gwynn Jones, 'Rhagair' i *Detholiad o Ganiadau* (1926), tt. vi-ix (t. vi).

¹³³ Jerry Hunter, 'Llywelyn's Breath, Arthur's Nightmare: The Medievalism within Welsh Modernism', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 53/54 (Haf/Gaeaf 2007), 113-132 (t. 119).

I T. Gwynn Jones, dwy ochr o'r un geiniog oedd yr ymdrech i 'ganoloesoleiddio' iaith y cerddi a'r ddyhead i ddileu, yn hytrach na phwysleisio, y gwahaniaeth rhwng y ffurfiol a'r llafar.

Fel yn achos 'Baile and Aillinn' a 'The Old Age of Queen Maeve', trwy iaith a sain, neu eu diffyg, y down i ymglywed â'r byd Celtaidd, canoloesol yn 'Madog' ([1917] C u. 87-104). Trwy'r gerdd ceir disgrifiadau sy'n canolbwyntio ar synnwyr y clyw, a thrwy hynny ar iaith. Ond ni cheir yr un symud yn yr ieithwedd ei hun tuag at batrymau'r iaith lafar ag a geir yn rhai o gerddi Yeats. Erys yn gywrain a melys, er i'r cynnwys symud o nodyn gobeithiol cyffredinol 'Ymadawiad Arthur' neu 'Gwlad y Bryniau' tuag at chwerwder dadrithiad a methiant. Melyster yr iaith a'r modd y llefarir hi gan brif gymeriadau'r gerdd yw'r nodwedd a ddaw i'r amlwg drwodd a thro yn y gerdd. 'Mwyn oedd lleferydd y Mynach' (t. 91, ll. 15), eglurir,

a'i lais oedd felysed, yntau,
Araf ydoedd ei eiriau, a hud yn eu canlyn hwy,
Pêr a dilestair leferydd yr enaid ar hiniog rhyddid (t. 98, llau. 7-9)

Yn y llinellau hyn gellir ymglywed ag ymgais y siaradwr yn 'Gwlad y Bryniau' i 'ddwyn / Rhyfedd swyn y canrifoedd i'w seiniau' (t. 57, llau. 17-8), gyda'i 'gywrain iaith a'i geiriau digymar / Mal isel lafar eu melys lefau' (t. 57, llau. 25-6), ac fe ellid cynnig hefyd mai dyna nod y cerddi hyn eu hunain, sef dwyn melyster iaith i chwerwder y sefyllfa. Y mae i lais melys y mynach rinwedd arallfydol a swyddogaeth allweddol yn y gerdd, oblegid cawn mai ei iaith sydd yn cysylltu'r presennol â'r gorffennol:

Yna, daeth llais o'r anwel, rhyw lais na pharlysai'r blynyddoedd,
Llais a fu gynt mewn llysoedd, ai llais o'r ddaeargell oedd? (t. 88, llau. 12-3)

Dychwelir yma at y gred mai iaith yw'r allwedd i ddiwylliant ac i dreftadaeth y Cymry, gan mai iaith yw'r symbol mwyaf amlwg o'r parhad o 'oes aur' hyd y dydd, ond ei bod hefyd heb ei pharlysu gan y blynyddoedd, ac felly heb fod yn gwbl ddisyfl a digyfnwid. Y mae'r iaith yn gyfuniad o'r holl oesau hyn: 'Doethrin a chred ei athro newydd a hen oedd ei hiaith' (t. 91, ll. 12). Trwy iaith y mae dod i undod rhwng y gorffennol a'r presennol, a chreu parhad. Ond ceir amwysedd yn yr agwedd at iaith hefyd; 'Gwrando peroriaeth gerwinder ei hynt yr oedd yntau, Fadog' (t. 94, ll. 2), medd yr adroddwr, ac y mae'r ocsimoron hwn yn greiddiol i'r gerdd oherwydd mai ynddo y cawn yr awgrym cyntaf, er melynster ieithwedd y gerdd ei hun, o chwerwder iaith hefyd. Ceir ymwybyddiaeth fod modd i iaith fod yn or-felys:

Beirdd yn frwysg wrth y byrddau yn moli pob milain weithredoedd,
Gwin yn cynhyrfu gweniaith, a gweniaith yn prynu gwin (t. 97, llau. 19-20)

Y môr oedd hud fy mreuddwydion y nos, pan asiai'r prydyddion
Grugau eu geiriau gorweigion, mawl am winoedd a medd.
Wanned oedd ynfyd weniaith y rhain, a thruaned eu chwedlau (t. 100, llau. 3-5)

Fel Yeats, y mae'r adroddwr fel bardd yn dymuno symud oddi wrth yr ieithwedd or-felys hon, ond yn ymwybodol hefyd na all wneud hynny. Yn yr ymwybyddiaeth hon gellir canfod awgrym drachefn fod modd rhoi gormod o bwyslais ar burdeb iaith, gan droi geiriau yn '[e]iriau gorweigion' ac iaith yn 'ynfyd weniaith', oherwydd eu hanallu melyn i fynegi chwerwder bywyd.

Dim ond hanner y gwir, felly, a ddywedodd Derec Llwyd Morgan pan alwodd T. Gwynn Jones, gan efelychu geiriau Waldo, yn fardd 'y chwerwder pur'.¹³⁴ Adwaith dealladwy oedd hyn i'r amryw ddeongliadau o T. Gwynn Jones fel 'prydydd

¹³⁴ Derec Llwyd Morgan, 'T. Gwynn Jones: Canu'r "Chwerwder Pur"' yn *Ysgrifau Beirmiadol II*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1966), tt. 200-28.

melysgerdd',¹³⁵ a phwysleisio'i ddadrithiad graddol fel gwrthbwynt i'r deongliadau hyn a wnaeth Gwynn ap Gwilym hefyd.¹³⁶ Ond hyd yn oed ar ei chwerwaf y mae'n rhaid cydnabod fod elfen o 'felyster' yn dal i hydreiddio'r cyfan, a hynny'n bennaf yn yr iaith; fel y cyfaddefodd Jones ei hun, '[e]r melysed y gerdd a fu, y mae i'r iaith eto fiwsig nas tynnwyd allan, ac adnoddau nas cyffyrddwyd [...] hudwyd ein tadau gan felyster cynghanedd eu hiaith, ond yfent y gwin o lestri rhy fychain'.¹³⁷ Yr oedd yntau â'i fryd ar barhau â'r ymchwil hwn am felyster.

I Llwyd Morgan, melyster iaith Jones yw un o'i feiau pennaf, ynghyd â'i gryfder: 'fe guddiwyd y synnwyr i raddau helaeth gan swyn, harddwch delweddu a geiriau a chynganeddion'.¹³⁸ Disgrifiodd Jerry Hunter, hefyd, y modd y gellir gweld y pellter hwn rhwng cynnwys a mynegiant fel maen tramgwydd:

Ar y naill law y mae llawer o'i gerddi yn ymdrin â themâu a gysylltir â Moderniaeth; dadrithiad gwleidyddol, amheuaeth grefyddol, dadfeiliad cymdeithasol, ofn ac ynysiaeth mewn "byd [sydd] yn llawn o dwrf yr arfau dur". Ond, ar y llaw arall, y mae delweddu ac ieithwedd ei gerddi yn ymddangos fel dim angenach [sic] nag ymgais i ddianc rhag y byd a'r bywyd cyfoes[.]¹³⁹

Â Hunter ymlaen i gynnig ffordd o ddatrys hyn drwy awgrymu 'nad oes rhaid disgrifio cydfodolaeth Rhamantiaeth a Moderniaeth yng ngwaith T. Gwynn Jones fel tyndra neu baradocs'.¹⁴⁰ Onid mwy buddiol fyddai cydnabod y gwrthdaro rhwng melyster a chwerwder fel tyndra canolog ym marddoniaeth T. Gwynn Jones, ac yntau'n grediniol, ar y naill law, o bwysigrwydd cadw purdeb a melyster iaith fel mur amddiffyn i

¹³⁵ Llwyd Morgan, 'Canu'r Chwerwder Pur', t. 201.

¹³⁶ Gwynn ap Gwilym, 'Thomas Gwynn Jones', yn *Y Patrwam Amryliw*, gol. Robert Rhys (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 1997), tt. 10-17.

¹³⁷ T. Gwynn Jones, 'Y Gymraeg a'r Dyfodol', *Y Wawr*, IV: 3 (1917), 94-7 (t. 97).

¹³⁸ Derec Llwyd Morgan, *Barddoniaeth Thomas Gwynn Jones: Astudiaeth* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972), t. 45.

¹³⁹ Jerry Hunter, 'Y Nos, y Niwl a'r Ynysig: Estheteg Fodernaidd T. Gwynn Jones', *Taliesin*, 98 (Haf 1997), 37-54 (t. 38).

¹⁴⁰ Hunter, 'Y Nos, y Niwl a'r Ynysig', 39.

ddiwylliant cyfan, ond ar y llaw arall yn awyddus i gyfleu chwerwder a dadrithiad profiad bywyd? Oherwydd ei farn na ddylid ‘llygru’ y Gymraeg gan ei mynegi drwy gystrawen Saesneg, neu eirfa Saesneg, caeid trydydd gofod cymysgrywedd fel man i archwilio’r tyndra. Daethai melyster iaith yn ystyriaeth hyd yn oed yn bwysicach nag a fu ynghynt. Yn wir, yn ôl Laura O’Connor, yr oedd yr ‘emphasis on the primacy of “language as such” in European cultural modernism’ yn gymaint nes effeithio ar weddill datblygiadau’r ugeinfed ganrif.¹⁴¹ Ond o ymbellhau ei ieithwedd felys oddi wrth ddadrithiad yr hyn a fynegid, trwy ddad-leoli ei iaith oddi wrth y cynnwys, y galluogid Jones i archwilio’r tyndra hwn mewn cyfnod a chyd-destun lle’r oedd iaith, oherwydd ei pherthynas agos â materion o wleidyddiaeth ac ethnigrwydd, yn fater o bwys tyngedfennol. Os gellir dweud, felly, ‘Yeats conceives the phantasmagoric poet as an entirely linguistic entity’,¹⁴² yna yr oedd iaith, ei methiannau, a’i llwyddiannau yn ystyriaeth gwbl ganolog i farddoniaeth T. Gwynn Jones hefyd, ar yr un pryd, â bodolaeth math o bellter neu ddatgysylltiad rhwng yr hyn a fynegid a’r dull mynegiant, yr iaith, ei hun.

Gellir troi at Geltigrwydd T. Gwynn Jones fel fforwm i archwilio ymhellach y tensiynau ieithyddol a amlinellwyd. Mewn cyd-destun Celtaidd, cynigir nifer fawr o bosibiliadau ieithyddol amgen, gan gynnwys, fe ddichon, ysgrifennu yn Saesneg. Ar achlysur Cyngres Geltaidd Caernarfon yn 1904, cyhoeddwyd ‘ingenious pot-pourri’ o eiddo Jones yn *Celtia*:

“Cymru fo am byth”, ebe gwr yr hugan wen
 Ebe gwr y bragou braz “Breiz da virviken”!
 “Mannin veg villi[]h vee[]n” ebe gwr y teircoes bach;
 Ebe gwr y shillelagh “Glas-Eire go brath”!

¹⁴¹ O’Connor, *Haunted English*, t. xvii.

¹⁴² O’Connor, *Haunted English*, t. 54.

“Suas leis a’ Ghaidhlig” medd gwra’r guta-bais
 “Hwre!” ebe yr oll yn un llais;
 “What the deuce does it mean?” ebe’r baril bir o Sais.¹⁴³

Arwydd undod y Celtiaid, y nodwedd sy’n eu diffinio ac yn cael ei blaendirio yn y gerdd, yw iaith, gan mai trwy iaith y mae’r Celtiaid yn cael mynediad at ei gilydd ac yn cael eu huno. Mae’n rhaid fod T. Gwynn Jones yn ymwybodol nad oedd y delfryd hwn o undod ieithyddol yn adlewyrchu sefyllfa wirioneddol y pan-Geltiaid ar ddechrau’r ugeinfed ganrif. Soniodd yn 1892 am ei gyfarfyddiad â Llydawr yn Nyffryn Conwy:

Siaradai yn nodedig o gyflym, a chefais gryn anhawsder i ddeall rhai pethau efe yn siarad Llydawaeg, a finnau Gymraeg.¹⁴⁴

Dysgodd Jones Lydaweg yn ddiweddarach, ond roedd ei achos ef yn eithriad, ac nid dyna’r sefyllfa ymysg mwyafrif helaeth y pan-Geltiaid. Yr oedd eraill yn awyddus i dynnu sylw at hynny: ‘*An Claidheamh Soluis* coldly pointed out that, with the exception of Scottish Gaelic, with whose movement language ties were already being formed apart from any Pan-Celtic organization, the other Celtic languages were foreign and unintelligible to Irish speakers’.¹⁴⁵ Yr hyn a grëir, a ddychmygir ac a atgyfnerthir gan Jones o fewn y gerdd hon, felly, yw anwiredd mwyaf cyfleus Celtigrwydd, sef yr haerriad y gallai siaradwyr yr amrywiol ieithoedd Celtaidd ddeall ei gilydd.

Trwy ei gyfeillgarwch â Tórna (Tadhg Ó Donnchadha), fodd bynnag, dechreuodd T. Gwynn Jones gydweithio ag awduron Celtaidd eraill gyda’r gobaith o droi’r ffantasi hon yn ffaith. Fel yr oedd yr *Irisleabhar na Gaedhilge* ac *An Claideamh Soluis* yn cyhoeddi adolygiadau o gyfrolau Cymraeg ac Albanaidd, felly hefyd y cafodd T. Gwynn Jones gyfle i gyfrannu colofnau a cherddi i gyfnodolion a phapurau newydd Gwyddelig, ac adolygu

¹⁴³ T. Gwynn Jones, cerdd ddi-enw yn *Celtia*, IV: 6, (1904), 112. Y mae’r print yn aneglur ac felly y mae dwy lythyren ar goll o linell 3, fel y nodir yn y testun uchod.

¹⁴⁴ T. Gwynn Jones, ‘Diwrnod yn Nyffryn Conwy’, *Baner ac Amserau Cymru*, Hydref 5 1892, t. 10.

¹⁴⁵ O’Leary, ‘Children of the Same Mother’, 107.

cyfrolau Gwyddeleg newydd yn y wasg Gymreig.¹⁴⁶ I Jones, felly, yr oedd y gymdeithas ban-Geltaidd yn fodd o ffurfio cysylltiadau nad oeddynt yn ddibynnol ar gysyniadau cymylog ynghylch hil ond yn hytrach ar gydweithio a chyfnewid ieithyddol a diwylliannol gwirioneddol. Ffrwyth llafur o'r fath oedd cyfrolau T. Gwynn Jones o gyfieithiadau o farddoniaeth Wyddeleg o bob cyfnod, gan gynnwys y cyfoes, i'r Gymraeg.¹⁴⁷ Y mae dylanwad Tórna eto'n amlwg; cyhoeddasai ef, gyda chymorth a chyingor Jones, gyfrol o gyfieithiadau o farddoniaeth Gymraeg i'r Wyddeleg, *Guth ón mBreatain* (1912).¹⁴⁸ Bron na theimlai Jones fod rheidrwydd arno i ad-dalu'r ffafr: 'Fel rhan o'm dyletswydd, fel yr wyf i yn ei deall, gwneuthum fy ngoreu ers blynyddoedd i ddehongli'r Gwyddyl a'r Cymry i'w gilydd'.¹⁴⁹ Canlyniad y gweithgaredd hwn oedd y gellid gwrthod yr honiad nad oedd y Celt ond breuddwydiwr a oedd yn gaeth i'r gorffennol:

Os dywedir fod y Celtiaid yn abl i freuddwydio breuddwydion ysplenydd, dengys y ddwy Gymanfa hyn eu bod hefyd yn alluog i wneyd llawer o waith caled a sylweddol yn mhlaid eu breuddwydion.¹⁵⁰

O ganlyniad, yn ôl Daniel Williams: 'if pan-Celticism represented a dangerously racial definition of identity for some, it offered a model of a multinational movement for others'.¹⁵¹ Yn wir, buddiol yw ystyried gweithgareddau pan-Geltaidd Jones yng nghydestun ehangach ei ymwneud â nifer helaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd Ewrop. Yr oedd golygyddion *An Claidheamh Soluis* yn awyddus i ledu'r cydweithio heibio i ffiniau'r tiroedd Celtaidd yn unig: 'Of course there is sympathy because of their language

¹⁴⁶ Gw., er enghraifft, adolygiad Jones o gyfrol Tórna, *Guth ón mBreatain* (1912), yn *Y Genedl Gymreig*, Ionawr 16 1912, t. 6; a'i adolygiad o gyfrol bortread o Douglas Hyde gan Diarmid o Cobhthaigh, *Douglas Hyde, An Craobhin Aobhinn*, yn *The Welsh Outlook*, V (1918), 170-1.

¹⁴⁷ *Iwerddon* (Aberdâr: Pugh a Rowlands, 1919); *Peth nas Lleddir* (Aberdâr: Swyddfa'r Darian a'r Leader, 1921); ac *Awen y Gwyddyl* (Cardiff: Educational Publishing Co, 1923).

¹⁴⁸ Tadhg Ó Donnchadha, *Guth ón mBreatain: .i. Llais o Gymru* (Baile Átha Cliath: M. H. Gill, 1912).

¹⁴⁹ T. Gwynn Jones, 'I Leddfu Gofid', yn *Peth nas Lleddir*, tt. 3-9.

¹⁵⁰ T. Gwynn Jones, 'Cymanfa'r holl Geltiaid', *Yr Herald Cymraeg*, Awst 30 1904, t. 5.

¹⁵¹ Williams, 'Another Lost Cause?', 97.

question with both Wales and Brittany – so there is with the Provençals, the Flemings, the Finns, the Poles, and the Czechs’.¹⁵² Yn yr un modd gwelodd Jones yntau ei gyfle:

Mae'r rhan fwyaf o brif ysgolheigion a llenorion y gwahanol genedloedd yn perthyn i'r Gymdeithas [...] Mae amryw o brif ysgolheigion Ewrop, heb fod yn Geltaid eu hunain, ond eu bod yn hoff o'r ieithoedd Celtaidd a'u llen, yn perthyn i'r Gymdeithas, ac, yn wir, ni ddichon Gymdeithas o'r fath beidio a bod o ddyddordeb i'r holl genedloedd bychain, pa un bynag a f'ont Geltaidd ai peidio.¹⁵³

Nid ieithoedd caeëdig yw'r ieithoedd Celtaidd yma, felly, ond moddion o ddenu eraill o genhedloedd bychain Ewrop, i gydweithio ac i gydymdeimlo â hwy. Wele ymgais i sefydlu lle'r gwledydd Celtaidd, a lle Cymru, ymysg cenhedloedd lleiafrifol eraill Ewrop. ‘Yr oedd y Cymry’ ar un adeg, medd Jones, ‘yn gyfrannog yn niwylliant Gorllewin Ewrop, a'r Gymraeg cystal a rhyw iaith arall yno. Nid oedd “cachadurieit y wlad,” chwedl Dr. Sion Dafydd Rhys, eto wedi dysgu dirmygu eu iaith eu hunain, a siarad iaith eu meistriaid fel caethion’.¹⁵⁴ Yr un modd wrth drafod llenyddiaeth Wyddeleg: ‘[d]engys hyn oll faint oedd undod gorllewin Ewrop – yn yr oesau gwareiddiedig gynt!’¹⁵⁵ Yr oedd yr iaith yn hanfodol yn hyn:

Yr oedd ein diwylliant y pryd hynny yn rhan o ddiwylliant cyffredinol Ewrop; ac wedi'i gyfoethogi o lawer cyfeiriad. Er colli o honom lawer arfer ddymunol, wrth gadw ein hiaith cadwasom doreth mawr ein diwylliant hynafol; a gellir ei olrhain yn gadwyn, o ddolen i ddolen, o'r chweched ganrif hyd yr ugeinfed.¹⁵⁶

Yr oedd gan T. Gwynn Jones gysylltiadau yn Llydaw hefyd. Ffurfiasai gyfeillgarwch â François Jaffrennou (‘Taldir’, 1879-1956), a chyfieithodd ddetholiad o'i gerddi yn *Gwlad y Gân* (1902).¹⁵⁷ Dychwelodd at y cysylltiad cyfandirol hwn, a chwedloniaeth y

¹⁵² ‘The Pan-Celtic Congress’, *An Claidreamh Soluis*, Mai 27 1899, t. 169. Dyfynnir yn O’Leary, ‘Children of the Same Mother’, 108.

¹⁵³ Jones, ‘Cymanfa’r holl Geltaid’, t. 5

¹⁵⁴ T. Gwynn Jones, ‘Chwedlau’r Hen Fyd yn Gymraeg’, *Y Geninen*, XXXIX (1921), 181-5 (t. 184).

¹⁵⁵ T. Gwynn Jones, ‘Llenyddiaeth Wyddeleg’, *Y Beirniad*, VI (1916), 224-35 (t. 235).

¹⁵⁶ Jones, ‘Iaith a Diwylliant’, t. 5. Cf. barn D. P. Moran mai ‘[w]hat had sustained – indeed, preserved – the Irish as a distinct nationality through centuries of persecution was above all their devotion to their language’. O’Leary, *Prose Literature of the Gaelic Revival*, t. 213.

¹⁵⁷ Ceir cyfieithiadau o bedair o gerddi Taldir yn GG 73-7.

cenhedloedd Celtaidd yng Ngâl, yn ddiweddarach yn y 1920au gyda ‘Broseliawnd’ (1922), ‘Anatiomaros’ (1925), ac ‘Argoed’ ([1927-30] C tt. 105-13), gan bwysleisio’r cyswllt hollbwysig rhwng y Celt ac Ewrop. O fewn ‘Argoed’ yn enwedig, rhoddodd le i’r ystyriaethau ieithyddol y bu’n ymboeni amdanynt cyhyd, a’u gosod mewn cyswllt daearyddol ag Ewrop. Wrth gwrs, fel yr awgryma Peredur Lynch, y mae’r gerdd hefyd yn ‘ddidrugarog o gondemniol am y Cymry a gollasai eu Cymraeg’, ond y mae’n ddiddorol mai lleoliad Celtaidd-Ewropeaidd yn Llydaw a ddewiswyd fel trosiad i bortreadu hyn.¹⁵⁸ Wrth ddisgrifio’r llwyth a oedd yn byw yn Argoed, canolbwyntia’r siaradwr ar eu hiaith, gan bwysleisio ei hynafiaeth yn ogystal â’i chysylltu’n uniongyrchol ag arferion traddodiadol y llwyth:

A pheraidd yno a phur oedd heniaith
A hen arferion ei chynnar fore (t. 106, llau. 3-4)

Yn yr un modd, pan ddaw’r ‘estron’ y Rhufeiniaid yn yr achos hwn y modd y gall ‘ddofi’ y llwyth yw drwy ymosod ar yr iaith:

A dyfod ystryw a defod estron
I ddofi ei hynni, i ddifa heniaith
A hen arferion ei chynnar fore;
Na’i ddull na’i iaith ni ddeallen’ weithion,
Am ei ganiad ni chaffai amgenach
Na thaeog wên wrth ei chwith oganu
â di-raen lediaith o druan Ladin (t. 111, llau. 1-7)

Disodlir yr ‘heniaith’ gan Ladin, wrth i’r llwyth gyfranogi o’r dynwarediad Bhabha-aidd. Ond fel y pwysleisia Bhabha,¹⁵⁹ ni all y dynwarediad hwnnw fod yn gyflawn, ac o’r herwydd, ‘di-raen lediaith o druan Ladin’ a geir, nid Lladin o’r iawn ryw. Dychwelir yma, felly, at y syniad o gymysgrywedd fel rhywbeth gwrthun ac israddol, ac at y cyswllt

¹⁵⁸ Peredur Lynch, ‘Refferendwm 1979, Cerddi Ianws a Thopos “Y Cymry Taeog”’, yn *Ysgrifau Beirniadol XXX*, gol. Gerwyn Williams (Bethesda: Gwasg Gee, 2011), tt. 78-109 (t. 96).

¹⁵⁹ Homi K. Bhabha, *The Location of Culture* (London: Routledge, 1994), tt. 85-92.

rhwng iaith ac ethnigrwydd. Gwêl y siaradwr y cymysgrywedd hwn fel cam tuag at ddifodiant, ac nid fel enghraifft danseiliol o ddynewared:

A glywid yn Argoed freg Ladin wŷrgam
 Genau halog y taeog annheilwng?
 A ddôï yno do na byddai'n dyall
 Geiriau y doethion a'r gwŷr da hwythau? (t. 111, llau. 11-14)

Y mae hyn i'w ofni ac i'w wrthod, oherwydd fod diwedd iaith yn golygu llawer mwy na hynny'n unig:

A ddôï yno ben ar ddawn a bonedd
 A moesau glân, rhag gormes gelynion?
 A bregliach bas yn lle iaith urddasol,
 A budron anwiw lle bu dewrion unwaith? (t. 111, llau. 15-18)

Fel y sylwa Peredur Lynch, '[o] golli eu hiaith, collasant eu priod ddiwylliant a'u hurddas'.¹⁶⁰ Yn wir, yr hyn a awgrymir erbyn diwedd y gerdd, wrth i'r llwyth eu llosgi eu hunain a'u tiroedd, yw fod difodiant ethnig llwyr, drwy hunanladdiad, yn fwy dymunol na dal i fyw trwy gyfrwng iaith arall, a thrwy hynny golli eu hunaniaeth unigryw a'u diwylliant, eu gwahaniaeth.

Eto fyth, os oes unrhyw beth a oroesa'r hunanladdiad hwn, yr iaith ydyw, oherwydd ar ddiwedd y gerdd bron nad yw'r siaradwr yn gallu clywed 'sibrwd nerth dy ysbryd anorthrech'

Pan fud wrandawer di-air leferydd
 Y don o hiraeth yn d'enw a erys (t. 113, llau. 8, 10-11)

Os oes unrhyw fodd o ail-hawlio diwylliant wedi'r fath ddifodiant, trwy iaith y mae gwneud hynny, ac y mae'r clo hwn yn drawiadol o debyg i ddiweddglo 'The Old Age of Queen Maeve' a'i 'murmur of soft words'.

¹⁶⁰ Lynch, 'Topos y Cymry Taeog', t. 98.

Gwelai Jones ei weithgarwch Celtaidd fel parhad o'r materion ieithyddol a archwilir yn y cerddi hyn. Yn wir, y mae modd dadlau fod ymwybyddiaeth gynyddol o'r Gymraeg fel iaith *Geltaidd* yn elfen hanfodol o'r modd y gwelai Jones ac eraill y gellid ei dwyn i brif ffrwd diwylliant Ewrop. Yr oedd y canfyddiad, honna Sinéad Garrigan Mattar, fod yr ieithoedd Celtaidd yn perthyn i'r Sanskrit yn un allweddol yn hyn o beth, oherwydd '[w]hile bringing the Celts into the cultural mainstream of Europe, the discovery afforded the Celtic language a place of honour: the conservatism of the Celts and their resistance to "progress" meant that their language could be seen as one of the closest links to the Indo-European *Ursprache*'.¹⁶¹ Yma, gwyrddroir y cysyniad fod 'resistance to progress' yn ei hanfod yn beth drwg, fel y sylwa Garrigan Mattar. Ond yn gyferbyniol, hefyd, gellir dadlau fod yr union nodwedd hon hefyd yn peri i'r Gymraeg ddod yn fwy delfrydol fel iaith cynnydd. Drwy ei gweld yn iaith Geltaidd fyw, a chanddi gyswllt hynafol â gwreiddiau Ewrop, yr oedd ar amrantiad bellach yn iaith ddelfrydol er hybu a hyrwyddo cysylltiadau a chydweithio rhwng cenedloedd Ewropeaidd. Yn ei adroddiad ar y Gyngres yn 1904, meddai Jones: 'Pe na wnai y Gymdeithas hon ond dwyn ychydig ddegau neu ugeiniau o'r Celtiaid i ddeall ieithoedd a hanes eu gilydd a pharchu teimladau y naill y llall, gwnai ddaioni nad oes wybod beth a ddeilliai ohono. Yn wir, gellir dywedyd ei bod eisoes wedi gwneyd cryn dipyn o'r gwaith hwn. Mae yn Nghaernarfon yr wythnos hon gynnulliad o bobl amlieithog na byddai yn hawdd cael ei gyffelyb yn unman'.¹⁶² Mewn traethawd ar 'Ieithoedd' yn 1922, gosododd ei hun ymysg carfan o 'gyd-genedlyddion',¹⁶³ sef ieithyddion o nifer o wledydd Ewrop a oedd yn cyfnewid gwybodaeth a llenyddiaeth ymysg ei gilydd, ac yn cyfieithu gweithiau llenyddol

¹⁶¹ Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival*, t. 23.

¹⁶² Jones, 'Cymanfa'r Holl Geltaid', t. 5.

¹⁶³ T. Gwynn Jones, 'Ieithoedd' (1922), yn *Beirniadaeth a Myfyrdod* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1935), tt. 101-10 (t. 107).

ei gilydd: ‘Ceisiant feistroli eu tymherau a chasglu ffeithiau, dysgant fwy o ieithoedd na’r un dosbarth arall. Ysgrifennant at ei gilydd o bob cwr o’r byd i holi hanes ieithoedd, llenyddiaeth, arferion ac amcanion’.¹⁶⁴ Yn wir y mae’r hyn yr oedd T. Gwynn Jones yn ceisio’i gyflawni yn ymdebygu i ddisgrifiad Philip O’Leary o amcanion carfan y ‘progressivists’ yn Iwerddon:

Pearse, who was himself familiar with both French and German, put these principles into practice by having these two languages as well as Italian and Spanish taught through the Direct Method at his Sgoil Éanna.¹⁶⁵

Trawiadol o debyg yw datganiad Jones ei fod yn ‘advocate of the teaching of German because of its absolute necessity to all scholars and thinkers, and of the teaching of French on account of its prevalence among cultured people the world over and its unrivalled prose literature’.¹⁶⁶

Yr oedd dealltwriaeth o gynifer o ieithoedd â phosibl i’w ddymuno a’i ddeisyfu, oherwydd y galluogai ddeiliaid diwylliant lleiafrifol i ddeall a chyfathrebu â diwylliannau eraill. Yn erbyn y cefndir hwn y dylid gweld cyfieithiadau niferus T. Gwynn Jones o weithiau Ewropeaidd i’r Gymraeg.¹⁶⁷ Nod y gweithgaredd hwn oedd negyddu’r angen am Saesneg, fel y collai Saesneg ei safle imperialaidd a’i grym llywodraethol dros y Gymraeg; bellach, ni fyddai ond un arall o ieithoedd Ewrop, a’r waethaf hefyd ar hynny: ‘English is the poorest language in Europe’.¹⁶⁸ Y safbwynt amlieithog hwn, fodd bynnag, sydd ar y llaw arall yn galluogi T. Gwynn Jones i gyfansoddi cerddi yn Saesneg. Drwy ei hisraddio yn y fath fodd, dim ond un cyfrwng mynegiant o blith nifer ydyw, ac nid yw barddoni ynddi bellach yn weithred wleidyddol. Trafodwyd un o gerddi Saesneg ‘Celtaidd’ Jones

¹⁶⁴ Jones, ‘Ieithoedd’, t. 108.

¹⁶⁵ O’Leary, *Prose Literature of the Gaelic Revival*, t. 54.

¹⁶⁶ T. Gwynn Jones, ‘Ein Dysgawdwr’, *Y Genedl Gymreig*, Ionawr 3, 1911, t. 5.

¹⁶⁷ Am drosolwg o wahanol brosiectau cyfieithu Jones mewn amrywiol ieithoedd, gw. H. Idris Bell, ‘TGJ fel Cyfieithydd’, *Y Llenor*, XXVIII: 2 (1949), 141-52.

¹⁶⁸ Jones, ‘Ein Dysgawdwr’, t. 5.

eisoes yn yr ail bennod, a thrafodir un arall yn y drydedd, ac awgrymir efallai ei bod yn haws cyfansoddi yn Saesneg o fewn y cyd-destun Celtaidd hwn. Ond daw'r amlieithedd hwn i'r amlwg hefyd mewn cerddi megis 'Cywydd o'r Aifft', lle nad yw'r Saesneg ond un ymhlith lliaws o ieithoedd Ewropeaidd:

Scurrying off to Sakkara
 Mal diawl ar gefn mul, a da
 Os doir adre o'r lle llwm
 Gwedyn heb erchyll godwm.
 Passant par sable et poussière
 Nous courrons aux carrières
 Terrain où [sic] on á [sic] tiré
 On dit par les rois du pays
 Pierres mates pour les Pyramides
 Plygech mewn parch o'u plegid,
 Dann gehen wir nach Kairo
 Weiss nicht warum oder wo!
 Dimmi, ah! dio mio!
 A aeth gŵr dros byth o'i go?
 Rebels yw'r holl Arabiaid
 Fel na cheir aflanach haid,
 Llau a chwain a phob llwch ýnt
 Diawledig deulu ydynt!¹⁶⁹

Gwelir Jones yn berffaith hapus i osod y Gymraeg ymysg ieithoedd eraill Ewrop, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu mai agwedd wrth-drefedigaethol yn erbyn Lloegr y mae'n ei mabwysiadu; yn hytrach, yr amcan yma yw cyfosod y Gymraeg ag ieithoedd imperialaidd megis y Ffrangeg a'r Almaeneg. Er arddangos agwedd tuag at yr Arabiaid sydd yn wrthun ac yn broblematig i ddarllenwydd modern, felly, o ran ei dyfeisgarwch ieithyddol y mae'r gerdd yn un flaengar a dyfeisgar.

Mewn gwirionedd, fodd bynnag, parhâi'r Saesneg yn iaith allweddol i gyfathrebu rhwng cenhedloedd ac i fynegi'r cyflwr trefedigaethol i eraill. Dichon mai

¹⁶⁹ T. Gwynn Jones, 'Cywydd o'r Aifft' (1905-06), *Y Ford Gron*, I (Hydref 1931). Adargraffwyd yn 'Atodiad F', yn *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym (Llandybie: Gwasg Christopher Davies, 1982), t. 466.

ymwybyddiaeth o hynny sydd wrth wraidd galw cyson Jones am fabwysiadu Esperanto fel iaith gyffredin i'w disodli. Amhosibl fyddai cyplysu'r iaith honno ag unrhyw hil mewn modd benderfyniaethol, na'i defnyddio fel arf i honni goruchafiaeth un hil dros un arall: 'fel iaith gyffredin, ni byddai nemor siawns onid i gyfrwng na pherthynai i neb mwy na'i gilydd'.¹⁷⁰ Er i *Celtia* fabwysiadu Saesneg fel *lingua franca* dros dro, yr oedd awgrym o arbrofi blaengar i'w ganfod o fewn ei gloriau hefyd: '[d]efnyddid ynddo yr ieithoedd Celtaidd, Saesneg a Ffrangeg, ac Esperanto',¹⁷¹ a gwelodd Jones gyfle, o fewn cyd-destun Celtaidd, i efelychu ac adeiladu ar hynny.

¹⁷⁰ Jones, 'Ieithoedd', t. 107.

¹⁷¹ Löffler, 'Agweddau ar yr Undeb Pan-Geltaidd', 49.

Casgliad

Mewn erthygl yn *Celtia* yn 1901, defnyddiodd awdur anhysbys safbwynt golygydd y *Times*, er ysgrifennu mewn tòn wawdlyd ar yr un pryd, i atgyfnerthu ei gred na thalai i awduron Celtaidd ysgrifennu yn Saesneg. Yn wir, rhagargoel o ddarlith Saunders Lewis, ‘Is there an Anglo-Welsh Literature?’, a geir yma, wrth i’r awdur ddyfynnu’n helaeth o erthygl olygyddol y *Times* a’i aralleirio, a chytuno’n goeglyd â’i safbwynt:

In other words, ‘Your Anglo-Celtic writers can go on for ever singing your “Celtic Note”’; we shall even, for the sake of brevity, adopt that term to indicate a quality which ‘at times’ has been wholly absent from English literature. But your writings will be English literature, nothing more and nothing less, ‘swift, aerial, super-sensuous’ *English* literature.¹⁷²

Er herio cymhwyster y golygydd ‘ill-informed’ oherwydd ei ‘ignorance which must be excused by the palpable impossibility of a man in Fleet street troubling to learn either of those languages’, cyfeddyf yr awdur hefyd fod gwirionedd i’w ganfod yn y geiriau: ‘he is on safe ground when he deals with the boundaries of English literature’, ac felly, yn ôl yr awdur hwn, traflynir awduron megis Fiona Macleod, William Sharp (yn ddiddorol yma yn 1901 yn dal i gael eu cyfrif fel dau awdur ar wahân), Neil Munro, George Russell, Nora Hopper ac, yn arwyddocaol, W. B. Yeats, dan gochl llenyddiaeth Saesneg. Y mae barn yr awdur hwn yn ddigamsyniol a digyfaddawd: ‘Celtic literature must be in a Celtic language, or it ceases to deserve the name’.¹⁷³ Yr hyn sydd yn ddiddorol yw y cymer yr awdur falchder yn y ffaith na fyddai’r golygydd o Lundain erioed wedi clywed am enwau megis Villemarqué, Ceiriog, Daniel Owen, Rob Donn, ac O’Rahilly: ‘But we know and love them, because they are our very own, which nobody, even though he abide in Printing House Square, can take away from us’.¹⁷⁴ Dychwelir yma felly at y cysyniad a

¹⁷² ‘Anglo-Celtic Literature and the “Celtic Note”’, *Celtia*, I: 3 (1901), 35-6.

¹⁷³ ‘Anglo-Celtic Literature and the “Celtic Note”’, 36.

¹⁷⁴ ‘Anglo-Celtic Literature and the “Celtic Note”’, 36.

gynigiwyd gan Katie Gramich, sef y posibilrwydd sydd yn agored i awduron mewn diwylliant lleiafrifol o 'beidio â chwarae'r gêm', a'r manteision gwahanol a ddaw yn sgil hynny. Yn yr achos hwn, trwy iaith arall y gellid chwarae'r gêm wahanol hon. Yr oedd T. Gwynn Jones yn sicr yn chwarae gêm wahanol iawn i'r eiddo awduron Lloegr, ac oherwydd hynny yn anelu tuag at gôl a oedd wedi ei lleoli yn rhywle arall. Ond dadleuwyd yn y bennod hon hefyd nad oedd Yeats, er ymddangos fel pe bai'n chwarae'r gêm Saesneg, bob amser yn cadw at y rheolau ychwaith.

Yn gynyddol o'r 1890au ymlaen, cynigiai Celtigrwydd i T. Gwynn Jones a W. B. Yeats fforwm lle gellid trafod materion ieithyddol a diwylliannol, ac yn ofod y gellid negodi perthynas iaith â hunaniaeth o'i fewn. Cynigiai fodd o gydweithio ymysg y cenedloedd Celtaidd, a galluogai'r beirdd hefyd i sefydlu lle eu diwylliannau o fewn Ewrop heb orfod dibynnu ar y Saesneg a heb golli golwg ar eu hunaniaeth genedlaethol. Wrth drafod Celtigrwydd mewn golau cadarnhaol, canolbwyntiodd R. F. Foster ar

an attempt to widen the borders of "Celticism" into Cornwall, Brittany, the Scots Highlands – reasserting the truth of John Stuart Mill's dictum that Ireland is in the mainstream of European developments, and England an eccentric tributary. But in Ireland the Celtic Revival became the Gaelic Revival, and was rapidly politicized; so was the revival of the spoken language... In the process, old borders were reaffirmed.¹⁷⁵

Ni ellir llai na synio fod Foster yma'n awgrymu fod gorwelion eang y mudiad Celtaidd i'w ffafrio dros gulni cenedlaethol rhai o ladmeryddion Cynghrair y Wyddeleg. Nid oes raid cytuno'n llwyr â hyn er mwyn gweld i'r mudiad pan-Geltaidd fod yn fanteisiol i Jones ac i Yeats fel ei gilydd. Golygai canolbwyntio ar y cenedlaethol yn unig y byddai raid cyfyngu hunaniaeth i'r disgwrs deuoliaethol rhwng y trefedigaethedig a'r trefedigaethwr, rhwng Cymru neu Iwerddon ar y naill law a Lloegr ar y llall, a thra parheid o fewn y

¹⁷⁵ R. F. Foster, *The Irish Story: Telling Tales and Making it Up in Ireland*. London: Penguin, 2001 (t. 99). Dyfynnir yn Williams, 'Another Lost Cause', 93.

disgwrs hwnnw nid oedd modd ymddihatru ychwaith oddi wrth ddylanwad a grym imperialaidd Lloegr. Ond o ymgyrraedd drwy Geltigrwydd at awyrgylch o gydweithredu ieithyddol a llenyddol ymysg gwledydd Ewrop, gellid ymddihatru oddi wrth hynny i raddau helaeth.

Er rhannu bydolwg diwylliannol Ewropeaidd y ‘progressivists’, cyfuniad o’r ddwy ochr oedd barn Jones ar iaith lenyddol, oherwydd ymdebygai hefyd i un o’r ‘nativists’ Gwyddelig, ‘the greatest champion and practitioner of *cainnt na ndaoine*, An tAthair Peadar Ua Laoghaire,’ a allai ‘defend his commitment to the spoken contemporary language in terms of its continuity with the past’.¹⁷⁶ Gosododd Yeats, yntau, ei hun mewn safle canolog rhwng y llafar a’r ffurfiol, y Saesneg a’r Wyddeleg, y gorffennol a’r presennol, lle gallai ymdrin orau â thensiynau ieithyddol hirhoedlog ei yrfa. Trwy gymhwysu ‘melyster’ y Wyddeleg at ‘chwerwder’ y Saesneg y cyll yr olaf ei grym ymerodrol.

Er nad oedd dadl Yeats yn erbyn Arnold yn ‘The Celtic Element in Literature’ (1897) mor chwyldroadol ag y credai ef ei hun, y mae Daniel Williams yn cydnabod: ‘the replacement of “Celtic” with “primitive” [...] places Irish literature within a wider international context’.¹⁷⁷ Ond dadleuodd y bennod hon nad oedd y ‘replacement’ hwn yn un cyflawn, a bod elfennau Celtaidd yn parhau i fod yn ganolog i gynhwynoliaeth Yeats, yn aml trwy iaith. Trwy gydweithio ieithyddol, a dysgu a chyfieithu cymaint o ieithoedd Ewropeaidd ag oedd yn bosibl, yr aeth Jones hefyd ati i geisio gosod llenyddiaeth Gymraeg ar fap y diwylliant Ewropeaidd. Trwy wneud y Gymraeg, felly, yn gyfrwng pob math o fynegiant mewn brawdoliaeth ag ieithoedd Ewropeaidd eraill, neu drwy ddirymu’r Saesneg gyda melyster Gwyddeleg, yr aeth T. Gwynn Jones a W. B. Yeats ati i

¹⁷⁶ O’Leary, *Prose Literature of the Gaelic Revival*, t. 45.

¹⁷⁷ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, t. 127.

danseilio'r diwylliant goruchafol, er mwyn gallu 'undermine and subvert its claims to seamless, discursive unity and dismantle its dominant narrative mastery'.¹⁷⁸ Troir bellach i ystyried goblygiadau hyn mewn perthynas â chanfyddiadau'r ail bennod, gan ystyried sut y defnyddiodd y ddau awdur safle amwys y Celt i ddod at eu gwaith o wahanol ddisgyblaethau, ac i archwilio Celtigrwydd naratifol a gweledigaethol.

¹⁷⁸ Gareth Griffiths, 'The Myth of Authenticity: Representation, discourse and social practice', yn *De-Scribing Empire: Post-colonialism and textuality*, goln. C. Tiffin ac A. Lawson (London: Routledge, 1994), tt. 70-85 (t. 76).

Pennod 4

Yr artist a'r ysgolhaig: Celtigrwydd naratifol a gweledigaethol

'En fait comme un étranger': gweld i mewn ac edrych allan

Yn yr ail bennod dadleuwyd y bu cyfnodau alltud T. Gwynn Jones a W. B. Yeats yn ganolog wrth iddynt ffurfio'u gwahanol fathau o Geltigrwydd. Awgrymir yma fod y crwydro hwn yn y pen draw wedi arwain at ddychwelyd o'r safle allanol hwnnw i ganol, ac i galon, y diwylliant yr oeddynt yn ceisio'i gynrychioli, a bod y dychweliad hwn yn hanfodol i ddatblygiad eu hestheteg, ac i swyddogaeth yr estheteg honno fel arf gwrth-drefedigaethol. Fel y dywed Frantz Fanon, fodd bynnag, '[I]'intellectuel colonisé qui revient à son peuple à travers les oeuvres culturelles se comporte en fait comme un étranger'.¹ Yn eu dychweliad, felly, parhaodd elfen allanol i'r modd y gwelai Jones a Yeats eu diwylliannau, yn ogystal ag i'r modd y caent hwythau eu gweld. Yn y bennod hon, troir i ystyried sut y datblygodd eu Celtigrwydd ymhellach fel modd o ddelio â'r allanolrwydd hwn, ac o'i fynegi, wrth iddynt ddychwelyd, megis dieithriaid, i geisio dehongli a chynrychioli eu gwahanol ddiwylliannau.

Archwiliodd Gregory Castle safle awduron yr Adfywiad Gwyddelig yn *Modernism and the Celtic Revival* (2001), gan ddadlau fod mabwysiadu'r safle allanol hwn, sydd ar yr un pryd â chyswllt agos â'r mewnol, yn arwydd hefyd o fabwysiadu disgyblaeth

¹ Frantz Fanon, *Les damnés de la terre* (Paris: François Maspero, 1961), t. 167: 'Y mae'r deallusyn trefedigaethedig sy'n dychwelyd at ei bobl trwy waith diwylliannol yn ymddwyn, mewn gwirionedd, fel dieithryn.'

ethnograffig, a bod yr awduron hyn yn defnyddio disgyrsiau ystod o ddisgyblaethau i ddehongli ac i gynrychioli eu diwylliant:

My contention is that for each of these writers [Yeats, Synge, Joyce] the desire to revive an authentic, indigenous Irish folk culture is the effect of an ethnographic imagination that emerges in the interplay of native cultural aspirations and an array of practices associated with the disciplines of anthropology, ethnography, archaeology, folklore, comparative mythology, and travel writing.²

Y mae'r berthynas hon rhwng disgyblaeth ethnograffeg a'r adfywiad, medd Castle, yn nodwedd ganolog o foderniaeth Wyddelig.³ Y mae Castle hefyd o'r farn fod y nodweddion hyn, ynghyd â'r berthynas rhwng traddodiad a moderniaeth a fodolai yn Iwerddon ar droad yr ugeinfed ganrif, yn unigryw yn Ewrop. Yn y bennod hon, bwriedir awgrymu y bodolai perthynas debyg rhwng traddodiad a moderniaeth yng Nghymru hefyd. Yn ogystal, bwriedir addasu neu ychwanegu at ddadl Castle ynghylch y modd yr aeth awduron y gwledydd hyn ati i ddehongli'r berthynas rhwng traddodiad a moderniaeth, gan ddadlau y gellid ychwanegu disgyblaethau'r arlunydd a'r ysgolhaig at y rhestr a nodir uchod, a bod gan y disgyblaethau hyn berthynas agos â gwahanol ddulliau'r awduron o ddod at Geltigrwydd.

Yn ôl Castle, mae awduron fel Yeats a Synge yn '[a]cutely self-conscious of their marginal status as intellectuals in a colony moving inexorably toward some form of Catholic self-determination', a'u bod o ganlyniad yn 'burdened by questions of political and cultural authenticity'.⁴ Yn eironig, efallai, y mae safle ymylol yr awduron yn

² Gregory Castle, *Modernism and the Celtic Revival* (Cambridge: Cambridge University Press, 2001), t. 1.

³ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 1.

⁴ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 8.

ganolog i'r modd y maent yn gweld diwylliant Iwerddon, a Cheltigrwydd yn benodol.

Ond ceir cymhlethdodau ynghlwm â'r safle hwn hefyd:

This aesthetic is one of the most controversial elements of the Celtic Revival, in part because the anthropological authority behind it renders it internally contradictory, at once complicit with and hostile toward a tradition of representation that sought to redeem Irish peasant culture by idealizing or essentializing its "primitive" social conditions.⁵

Ymgais yw prosiect yr awduron, felly, i roi ymdeimlad o barhad i ddiwylliant drylliedig, tameidiog. Ond o wneud hynny y maent yn eu gosod eu hunain yn agored i gyhuddiadau o ddianc i orffennol delfrydol neu o ymgolli ynddo.

Y mae Daniel Williams yn ymwybodol o'r cymhlethdodau hyn wrth iddo fynd ati i archwilio deongliadau Matthew Arnold o genedligrwydd. Dyfynna John Hutchinson, a farnodd fod cenedlaetholdeb diwylliannol o'r math a ddisgrifir gan Castle yn 'product of intellectuals from backward societies, who, when confronted by more scientifically advanced cultures, compensate for feelings of inferiority by retreating into history to claim descent from a once great civilisation'.⁶ Ond dadl Williams yw nad yw cenedlaetholdeb diwylliannol o reidrwydd yn brosiect mor israddol â hynny.⁷ Gellid anelu cyhuddiad Hutchinson at waith T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, hwythau, ond ceisir dadlau yma, gan ddilyn Williams, y gall fod i genedlaetholdeb diwylliannol nodau ac amcanion cadarnhaol mewn cyd-destun trefedigaethol.

Awgryma Williams y cysylltir prosiectau cenedlaetholdeb diwylliannol, gan amlaf, â chenedlaetholdeb ethnig. Mewn blynyddoedd diweddar, medd Williams, 'an

⁵ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 3.

⁶ Daniel Williams, *Ethnicity and Cultural Authority: From Arnold to Du Bois* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2006), tt. 14-5.

⁷ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, tt. 14-5.

atavistic, backward and reactionary cultural nationalism is contrasted with a healthy, civic, political nationalism'.⁸ Er i Jones a Yeats ymateb mewn modd cyfoes a gwleidyddol i genedlaetholdeb yn ystod eu gyrfaeodd, nid oes dwywaith na ellir ystyried eu gwaith Celtaidd yn nes at y dosbarthiad cyntaf na'r ail. Nid yw hynny o reidrwydd, fodd bynnag, yn golygu mai ymgais hanfodaidd ac aflwyddiannus, yn y pen draw, i ail ddehongli eu cenedligrwydd a geir yng ngweithiau Celtaidd y ddau awdur. Yn wir, fel yr awgrymodd Williams, odid na ellir gwahanu a chyferbynnu gwahanol fathau o genedlaetholdeb yn y modd a awgrymir yn y dyfyniad uchod:

My use of the term “ethnicity” seeks to question the validity of analysing nationalism in terms of these binary distinctions. If a theoretical distinction can be made between ethnic and civic forms of nationalism, in practice these types will frequently overlap, and a given national culture will display ethnic as well as civic components in its forms of nationhood.⁹

Yn wir, gobeithir dangos mai dyna a wneir gan T. Gwynn Jones a W. B. Yeats yn eu gweithiau Celtaidd. Er mwyn cyflawni hynny, troir at dermau a ddefnyddir gan Williams mewn erthygl arall o'i eiddo, sef 'Pan-Celticism and the Limits of Post-Colonialism: W. B. Yeats, Ernest Rhys and William Sharp in the 1890s', lle'r archwilir ysgrifau Arnold ar genedlaetholdeb, gan ganolbwyntio ar ei erthygl 'England and the Italian Question' (1859). Crybwyllwyd y gwaith hwn eisoes yn y bennod gyntaf, ond y mae'n werth dychwelyd at y syniadau hyn yma er mwyn eu harchwilio ymhellach a'u defnyddio i ystyried safbwyntiau ysgolheigaidd ac artistig Jones a Yeats. Awgryma Williams: 'It seems that what informs Arnold's argument here are two distinct concepts

⁸ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, t. 14.

⁹ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, t. 15.

of nationhood; the one historical and active, the other racial and passive'.¹⁰ Yna, â Williams ati i theoreiddio'r ddau gysyniad gwahanol hyn o genedligrwydd drwy fabwysiadu termau a ddefnyddir gan Edward Said yn ei gyfrol *Orientalism*, 'vision' a 'narrative'. Defnyddir y termau hyn

as a means of characterizing Arnold's two conceptions of nationhood as "visualized" and "narrativized". The English and the Italians possess the latter kind of nationality [yn ôl Arnold]; it is a product of history, diachronic and subject to further change. The nationhood of the Poles, the Welsh, and the Irish is conceived of in visualized terms, demonstrating certain eternal racial characteristics, synchronic, atemporal and static.¹¹

Roedd Said yn sôn am derm trosgynnol yr 'Orient' wrth ddisgrifio'r modd y gellir synio am genedligrwydd yn nhermau 'vision' neu weledigaeth. Ond gellid dadlau fod modd dosbarthu Celtigrwydd hefyd yn yr un modd. Y mae Arnold, drwy ei ysgrifau ar y gwledydd Celtaidd, yn cyfod y ddau ddiffiniad: 'now visualized racial traits are to be compared with narrativized political nations'.¹² Y mae'r Celt a'i genedligrwydd 'gweledigaethol' yn ymddangos yn israddol o'i gymharu â'r Sais oherwydd fod Lloegr yn genedl ag iddi naratif hanesyddol, gwleidyddol, cydlynol a rhesymegol, tra bod hanes y Celt, os oes un yn bodoli o gwbl, wedi ei greu o 'weledigaethau' unigol nad oes ganddynt unrhyw berthynas na pherthnasedd â'r presennol. Dyma sy'n galluogi Arnold i honni nad yw'r gwareiddiad Celtaidd ond yn deilwng o gael ei archwilio a'i astudio fel gwareiddiad marw. Ni all athrylith y Celt 'count appreciably now as a material power', ond yn hytrach: 'What it has been, what it has done, let it ask us to attend to that, as a

¹⁰ Daniel Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Post-Colonialism: W. B. Yeats, Ernest Rhys and William Sharp in the 1890s,' yn *Nations and Relations: Writing Across the British Isles*, goln. T. Brown a R. Stephens, (Cardiff: New Welsh Review, 2000), tt. 1-29 (t. 7).

¹¹ Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Post-Colonialism', t. 7.

¹² Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Post-Colonialism', t. 7.

matter of science and history'.¹³ Ni all hunaniaeth Geltaidd, i Arnold, fod yn un naratifol oherwydd nad oes i'r gwledydd Celtaidd nod teleolegol. I Arnold, nid oes gan y Celtiaid ddyfodol. Ond gall fod ystyron gwahanol i'r term hwn mewn amrywiol gydestunau. Yng nghyd-destun Celtigrwydd, y mae *visualized* yn rhwym o ddwyn i gof y *visual* a'r *visionary*, y gweledydd derwyddol sydd yn gysylltiedig â safle'r bardd. Cynigir felly bod modd i'r bardd sy'n ymhel â Cheltigrwydd fanteisio ar y safle a'r safbwynt a gynigir gan y diffiniad hwn er mwyn mynd i'r afael â'r dehongliad honedig '*visualized*' ohono o du'r trefedigaethwr. Gall gydnabod ei duedd tuag at y gweledigaethol, ond gall honni hefyd bod y gweledigaethau a ddaw iddo yn rhoi iddo rym a safle goruwch eraill. Yn hyn o beth y mae'n creu neu'n adfer ei naratif ei hun o'r gweledigaethol.

Fel y sylwodd Seamus Deane yn 1985, 'It is already a convention to say that Ireland has no continuity of cultural experience comparable to that of the nation states of France and England. It is equally conventional to make a virtue of discontinuity and to argue that fragmentation itself constitutes the only continuous experience we have'.¹⁴ Ceisir yma gyflawni rhagor na dadlau dros fanteision y 'discontinuity' hwn yn unig, felly, ac yn hytrach disgrifir sut y manteisiodd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats ar eu safleoedd unigryw i gyfuno'r 'naratifol' a'r 'gweledigaethol', ac wrth awgrymu y gellid dosbarthu'r 'naratifol' gyda chenedlaetholdeb sifig, a'r 'gweledigaethol' gyda chenedlaetholdeb ethnig, amcanu i brofi honiad Williams: 'in practice these types will frequently overlap, and a given national culture will display ethnic as well as civic

¹³ Matthew Arnold, *On the Study of Celtic Literature* (London: Smith, Elder and Co., 1905 [1867]), u. 12-3.

¹⁴ Seamus Deane, *Celtic Revivals: Essays in Modern Irish Literature 1880-1980* (London: Faber and Faber, 1985), t. 18.

components in its forms of nationhood'.¹⁵ Nid cydnabod 'discontinuity' eu traddodiad oedd y gamp i Jones ac i Yeats, ond yn hytrach ceisio ailadeiladu'r traddodiad hwnnw. Daethpwyd â'r naratifol i mewn i gyd-destun gweledigaethol Celtigrwydd, a defnyddio'r ddwy ffurf ar genedligrwydd i gyfannu eu prosiect diwylliannol. Yn wir, dyna, yn ôl Dafydd Johnston, oedd prif nod symudiad celfyddydol Moderniaeth, ac amlygir hynny yng ngwaith awduron megis James Joyce a Virginia Woolf: 'Mae'n wir fod Moderniaeth yn mynegi gweledigaeth o fyd ar chwâl, ond y mae hefyd yn cynnwys y posibilrwydd o gyfannu o'r newydd trwy rym trosgynnol celfyddyd'.¹⁶

Dychwelir yma, felly, at safle a swyddogaeth y bardd. Yr oedd Celtigrwydd yn gysyniad a oedd yn agored i gael ei drin a'i addasu yn ôl mympwyon gwahanol awduron. Gan adeiladu ar awgrym Castle y defnyddid safle amwys a dulliau ethnograffyddol gan awduron yr adfywiad Celtaidd i ddehongli eu diwylliannau, awgrymir yn benodol yma i W. B. Yeats ymdrin â Cheltigrwydd o safbwynt artist neu arlunydd, ac i T. Gwynn Jones fabwysiadu safbwynt mwy ysgolheigaidd, nid yn unig yn ei waith beirniadol ond wrth fynd ati i gyfansoddi hefyd. Awgrymir y gellir uniaethu estheteg yr arlunydd yn bur agos ag ymdriniaeth 'weledigaethol', a bod estheteg yr ysgolhaig yn tueddu i weddu'n well i ymdriniaeth 'naratifol', o fewn Celtigrwydd. Gall safle'r arlunydd a'r ysgolhaig fel ei gilydd, fodd bynnag, fod yn safleoedd trefedigaethol hefyd, oherwydd eu bod o reidrwydd yn golygu sefyll oddi allan i ddiwylliant a'i arsylwi. Serch hynny, archwilir yma y modd y mabwysiadodd W. B. Yeats a T. Gwynn Jones y safleoedd hyn er mwyn eu hawlio'n ôl ar ran y diwylliant a gynrychiolir, er mwyn

¹⁵ Williams, *Ethnicity and Cultural Authority*, t. 15.

¹⁶ Dafydd Johnston, 'Moderniaeth a Thraddodiad', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), 13-24 (t. 16).

dehongli, amddiffyn, ac ailadeiladu'r diwylliant hwnnw o safle mewnol, gwrthdrefedigaethol, hefyd.

W. B. Yeats yr arlunydd

Yn ei chyfrol *Yeats and the Visual Arts* (1986), olrheinia Elizabeth Loizeaux y datblygiad yng ngwaith llenyddol cynnar Yeats oddi wrth ei geisiadau cynnar i ddisgrifio neu ymateb i ddarluniau unigol drwy gerddi at estheteg fwy soffistigedig a amcenai at ddarlunio neu gynrychioli 'vision', neu weledigaeth, yn ei farddoniaeth. Fel y sylwa Loizeaux, 'the major terms defining Yeats's poetry of the 1880s and 1890s all claim explicit and implicit alliances to the visual arts'.¹⁷ Gellir nodi nifer o ffeithiau bywgraffyddol i atgyfnerthu'r syniad mai fel arlunydd y daeth W. B. Yeats at lenyddiaeth, gan gynnwys penderfyniad ei dad i geisio ennill bywoliaeth fel artist, yn ogystal â'i ymgais gynnar ei hun i ddod yn artist drwy fynychu'r 'Metropolitan School of Art' yn Nulyn. Daethai ei frawd, Jack Yeats, maes o law yn un o beintwyr gorau ei genhedlaeth, ac yr oedd ei ddwy chwaer, Elizabeth a Susan (Lolly a Lily) yn ymwneud yn gynyddol â'r celfyddydau gweledol drwy eu gwaith yn sefydlu a rhedeg cwmnïau 'Dun Emer' a 'Cuala' o 1902 ymlaen, gyda'r bwriad o greu gwaith 'for Irish hands in the making of beautiful things' (AM 274). Ymhlith eu gwaith yno, yr oedd creu deunyddiau, brodwaith, ac argraffu hefyd maes o law, ac yno yr argraffwyd rhediadau cyntaf nifer o gyfrolau W. B. Yeats mewn rhifynnau cywrain. Fel y sylwodd R. F. Foster, '[t]hey were artist's children; WBY had the highly developed aesthetic sense of all the family [...] colour and its significance were always important to his symbolism' (AM 36).

Yn fwy arwyddocaol na dim, efallai, oedd fod Yeats wedi mynd i ysgol gelf yn hytrach na phrifysgol:

¹⁷ Elizabeth Loizeaux, *Yeats and the visual arts* (New Brunswick: Rutgers University Press, 1986), t. 50.

In Yeats's mature recollection of the years 1887-91 he remembered how he had felt his mind abstract, yet desirous of "images because I had gone to the art schools instead of a university" (Au: 166). He recognized, however, that had he gone to a university and acquired "all the classical foundations of English literature and English culture" (Au: 166) he "should have had to give up [his] Irish subject matter, or attempt to found a new tradition" (Au: 166).

(LWBY 65)

I Yeats, felly, tueddai'r gweledol a'r Celtaidd i gydfynd yn naturiol. Fel y sylwodd Marion Löffler, adfywiad celfyddydol ar sawl lefel oedd adfywiad diwylliannol Iwerddon y cyfnod. Wrth drafod rhai o greiriau cenedlaethol Iwerddon, broetsh Tara a chroes Drumcliff, awgryma Löffler y '[b]uont yn ysbrydoliaeth i'r diwydiannau cartref Gwyddelig a ddatblygwyd er y 1880au i gynorthwyo gwragedd tlawd yn ardaloedd y gorllewin, yn enwedig i gynhyrchu brodwaith a les, a hefyd i lu o gymdeithasau ac ysgolion celf a chreffft'.¹⁸ Yr oedd gan Iwerddon symbolau gweledol a gysylltai'r presennol â'r gorffennol 'Celtaidd' drwy greiriau o'r fath, ac efallai, felly, nad oes syndod i'r adfywiad gymryd arno wedd weledol. Yn sicr, elwai W. B. Yeats a'i chwiorydd dan ddylanwad William Morris a'i 'Arts and Crafts Movement', yn ogystal â'r diwylliant celfyddydol cyffredinol yn Llundain (AM 59-65), ond fel yr awgryma Löffler, rhaid sylweddoli hefyd fod y dylanwad i'r cyfeiriad arall hefyd yn gryf, ac y 'daeth y mudiad Celf a Chreffft a fewnforiwyd o Loegr dan ddylanwad y symbolau Celtaidd' yn Iwerddon, maes o law.¹⁹

Bu Arthur Symons, cyfaill o awdur a fu'n rhannu llety â Yeats am gyfnod, hefyd yn ddylanwad mawr. 'During this period', medd Katie Gramich am waith Yeats yn y

¹⁸ Marion Löffler, *A book of mad Celts: John Wickens and the Celtic Congress of Caernarfon 1904. John Wickens a Chyngres Geltaidd Caernarfon* (Llandysul: Gomer, 2000), t. 51.

¹⁹ Löffler, *A Book of Mad Celts*, t. 51.

1890au, ‘Yeats was heavily under the influence of French Symbolism, filtered through the Hibernian glass of Arthur Symons’.²⁰ Daeth symbolau yn fwyfwy pwysig i Yeats wrth iddo ddechrau ymhel â Theosoffi ac â mudiadau ysbrydol megis ‘The Order of the Golden Dawn’. Yr oedd elfennau gweledol llenyddiaeth, yn enwedig Symbolaeth, yn fodd o geisio dwyn amrywiol ddiddordebau a haenau ei fywyd i undod cyfannol. Defnyddir y gair ‘artist’ gan Yeats yn gyson am yr awdur a’r arlunydd fel ei gilydd, a dangosir y cysylltiad agos rhwng celfyddyd weledol, barddoniaeth a symboliaeth yn ei ddwy erthygl, ‘Symbolism in Painting’ (1898) a ‘The Symbolism of Poetry’ (1900) hefyd.²¹ ‘In “Symbolism in Painting”,’ eglura, ‘I tried to describe the element of symbolism that is in pictures and sculpture, and described a little the symbolism in poetry, but did not describe at all the continuous indefinable symbolism which is the substance of all style’.²² Symboliaeth yw’r ddolen gysylltiol sy’n peri fod pob celfyddyd, i Yeats, yn dibynnu ar yr un estheteg. Y mae’n ymddwyn bron fel pe bai’n arlunydd er ei waethaf, yn ceisio cael gwared o syniadau’r arlunydd wrth fynd at farddoniaeth ‘that I might not steal the painter’s business’,²³ ond yn methu. Yma, hefyd, mae fel pe bai Yeats yn sylweddoli fod a wnelo’r naill ddisgyblaeth â’r llall: ‘Why should a man cease to be a scholar, a believer, a ritualist before he begin to paint or rhyme or to compose music [...]?’²⁴ Rhywbeth naturiol iddo yw dod ag estheteg darlunio at estheteg barddoniaeth; yn wir, ar achlysur arall, meddai, ‘I cannot separate art and literature in

²⁰ Katie Gramich, ‘Creating and destroying “the man who does not exist”: the peasantry and modernity in Welsh and Irish writing’, *Irish Studies Review*, 17: 1 (2009), 19-30 (t. 22).

²¹ W. B. Yeats, ‘Symbolism in Painting’ [1898], yn *Essays and Introductions*, gol. Georgie Yeats (London: Macmillan, 1961), tt. 146-52; ‘The Symbolism of Poetry’ [1900], yn *Essays and Introductions*, tt. 153-64.

²² Yeats, ‘The Symbolism of Poetry’, t. 155.

²³ W. B. Yeats, ‘Art and Ideas’ [1913], yn *Essays and Introductions*, tt. 346-55 (t. 348).

²⁴ Yeats, ‘Art and Ideas’, t. 353.

this'.²⁵ Drwy gydol ei yrfa, dychwelodd bob hyn a hyn at gerddi *ekphrastic*, tra bod rhai o'i gerddi enwocaf, megis 'The Municipal Gallery Revisited' (VP 363) wedi eu lleoli mewn orielau ac yn disgrifio'r darluniau a geir yno.

Arweiniodd yr estheteg hon at wahaniaeth pwysig yng ngwaith Yeats rhwng yr hyn a ystyriai'n 'wyddonol' a'r hyn y ceisiai ei gyflawni. Trafoda Castle y tensiwn rhwng cynrychioliad, neu atgynhyrchiad ffyddlon, a'r awydd i drawsffurfio a chreu o'r newydd.²⁶ Defnyddiodd Yeats derminoleg peintio i egluro'r gwahaniaeth allweddol hwn: 'Of course, neither Synge nor Lady Gregory no more reproduce dialect like a phonograph than a great painter copies land and sea photographically "art is art because it is not Nature"'.²⁷ Hynny yw, yn ei natur weledol, rhaid i gelfyddyd fod yn fwy nag atgynhyrchiad gwyddonol, cred a fyddai'n cael ei hadleisio yn ddiweddarach gan awduron megis Walter Benjamin yn ei erthygl ddylanwadol, 'L'œuvre d'art à l'époque de sa reproduction mécanisée' ('Y gwaith celfyddydol yn oes atgynhyrchu mecanyddol').²⁸ Yn wir, gellid synio y byddai Yeats wedi cytuno â'r awgrym a geir yn erthygl Benjamin fod pwysigrwydd ail-greu, yn hytrach na dim ond atgynhyrchu, yn dod yn fwyfwy hanfodol yn sgil modernedd.²⁹ Barn rhai o gyfoedion Yeats oedd ei fod yntau wedi bod yn bur llwyddiannus yn hyn o beth: 'in artistry with Celtic magic, in making the old tales something more than mere tales, opening from them casements

²⁵ W. B. Yeats, 'A Symbolic Artist and the Coming of a Symbolic Art', yn UP1, tt. 132-7 (t. 134).

²⁶ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 54.

²⁷ W. B. Yeats, 'A defence of the Abbey Theatre' [dim dyddiad]. NLI Papurau W. B. Yeats, MS 30,097.

²⁸ Walter Benjamin, 'L'œuvre d'art à l'époque de sa reproduction mécanisée', yn *Zeitschrift für Sozialforschung: Jahrgang V* (Paris: Félix Alcan, 1936), tt. 40-68.

²⁹ Benjamin, 'L'œuvre d'art', t. 45; a gw. hefyd tt. 57-58. '[L]a reproduction mécanisée, pour la première fois dans l'histoire universelle, émancipe l'oeuvre d'art de son existence parasitaire dans le rituel' (Mae atgynhyrchiad mecanyddol, am y tro cyntaf yn hanes y byd, yn rhyddhau'r gwaith celfyddydol oddi wrth ei ddibyniaeth barasitig ar ddefod).

over faery lands, [Samuel Ferguson] is far surpassed by Mr. Yeats'.³⁰ I Yeats, dyma oedd y nodwedd allweddol a olygai ei fod yn wahanol i'r hyn a ddaethai o'i flaen: 'it is always this issue, in some form, that divides the "symbolist" critic, from the critic, whose principles of criticism were shaped during the scientific movement of the middle of the century'.³¹

Yn yr ymgais hon i wahaniaethu rhwng y symbolaidd a'r gwyddonol, gellir canfod hefyd, efallai, elfen o ddirmyg tuag at weithiau gor-academaidd neu ysgolheigaidd.³² Dengys y cweryla rhyngddo a Charles Gavan Duffy, ymhlith eraill, dros gynnwys arfaethedig cyfres 'The Library of Ireland' ddechrau'r 1890au, ei fod o blaid apelio at gynulleidfa boblogaidd, gyffredin, ac yn gwrthwynebu'n chwynr ymgais Duffy i droi'r gyfres yn un academaidd, ysgolheigaidd a fyddai, ym marn Yeats, yn apelio at leiafrif yn unig: 'if we fail to enlist the sympathy of the young men who will have the building up of the Ireland of to-morrow, we may throw back the intellectual development of this country for years'.³³ Dro arall, hefyd, cyhuddir casglwyr llên gwerin gan Yeats o leihau chwedlau gwerin i ddim mwy nag ymarferion mewn dosbarthu gwyddonol; digon beirniadol ydoedd o astudiaethau mwy 'gwyddonol' Alfred Nutt ac

³⁰ A. Macdonell, 'The New Young Irelanders', *The Bookman* [Rhifyn arbennig ar 'The New Irish School'] (Ionawr 1915), 159-64. NLI Papurau W. B. Yeats, MS 30,259.

³¹ W. B. Yeats, 'John Eglinton and Spiritual Art', Sligo, Tachwedd 8 [?1898]. NLI Papurau W. B. Yeats, MS 30,301.

³² Parhâi'r dirmyg hwn yn ddiweddarach yng ngyrfa Yeats mewn cerddi megis 'The Scholars', lle cwyna fod 'Bald heads forgetful of their sins' yn mynd ati i 'Edit and annotate the lines / That young men, tossing on their beds, / Rhymed out in love's despair'. W. B. Yeats, 'The Scholars' (1919), yn VP 161, llau. 1, 3-5.

³³ W. B. Yeats, llythyr yn *The Freeman's Journal*, Medi 6, 1892, yn UP1, tt. 240-2. Am arolwg o'r ffræe yn ogystal â'r llythyron a gyfnewidiwyd rhwng Yeats, Duffy a John F. Taylor yn y *Freeman*, gw. UP1, tt. 239-44; AM tt. 112-24; LWBY t. 85.

eraill.³⁴ Yn wir, ‘Yeats took seriously his role as a folklorist and [...] regarded his versions of folklore as more authentic than those that had come before’.³⁵ Wrth i Yeats gasglu chwedlau gwerin, nododd R. F. Foster, ‘his approach was deliberately literal and “unscientific” [...] While faithful to the integrity of the materials, he added artistic literary effects, injunctions about the decorum of dealing with the spirit world and a deliberately wide-eyed ingenuousness which qualified as fully “Celtic” (AM 77). Ei nod, medd Castle, ydoedd creu “fair equivalents” governed as much by an aesthetic as by an anthropological authority’.³⁶ Trafodir hyn yn helaethach yn ddiweddarach, gan y daw’r nodwedd hon i’r amlwg yn ei waith creadigol hefyd, yn ôl beirniaid megis Helen Thuente, a bwysleisiodd y ‘disdain for scholarly accuracy’ yn ei waith.³⁷

Fel y sylwodd Gregory Castle, fodd bynnag, yr oedd y pellter rhwng safle Yeats a’r sawl y ceisiai eu cynrychioli yn broblematic: ‘In short, the question remains whether Yeats can speak with the authority of a native, despite social and religious differences that clearly mark him as an outsider’.³⁸ Sylwodd Katie Gramich, hefyd, ar y gagendor rhwng y gwerinwr a’r arlunydd, y cynrychioledig a’r cynrychiolydd, neu’r dehonglydd: ‘The coldness of the dawn is at once an emblem of purity and an acknowledgement that this peasant is dead; indeed, has never been alive: he is “a man who does not exist”’.³⁹ Ond yn ymhlyg yn nehongliad Gramich o’r berthynas hon y mae cydnabyddiaeth hefyd o safle Yeats fel arlunydd, yn benodol, neu o leiaf fel artist: disgrifir y pysgotwr yn ei

³⁴ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 56.

³⁵ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 53.

³⁶ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 55.

³⁷ Mary Helen Thuente. *W. B. Yeats and Irish Folklore* (Totowa, New Jersey: Gill and Macmillan, 1980), t. 253.

³⁸ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 61.

³⁹ Gramich, ‘Creating and destroying’, 23.

gerdd 'The Fisherman' fel 'the subject of Yeats's art'.⁴⁰ Dichon fod mabwysiadu safbwynt yr arlunydd yn ei alluogi i weithio mewn ffordd fanteisiol â'r tyndra hwn. Fel y sylwa Castle, gwneir ymdrech gan Yeats o dro i dro i groesi o safle amwys yr ethnograffydd i un y dehonglydd 'brodorol'. Golyga hyn y ceir gwahaniaethau cynnil rhwng Celtigrwydd Yeats a Cheltigrwydd Arnoldaidd, ond rhybuddia Castle 'that this subversion is by no means complete', ac y parha 'residual reliance on primitivist discourse' yng ngwaith Yeats ar brydiau.⁴¹ Er mwyn dod â'r Gwyddel gwerinol, delfrydol i fodolaeth, y mae angen Yeats, y dehonglydd allanol, i'w greu.

⁴⁰ Gramich, 'Creating and destroying', 23.

⁴¹ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 51.

T. Gwynn Jones yr ysgolhaig

Yn ei herthygl ‘Creating and destroying “the man who does not exist”: the peasantry and modernity in Welsh and Irish writing’, dyfynna Katie Gramich rifyn cyntaf *Cymru*, y cylchgrawn a sefydlwyd gan O. M. Edwards, a honnai fod y ‘Cymry’n genedl o efrydwyr’.⁴² Tra bod Yeats ac eraill â’u bryd ar greu delfryd o’r gwerinwr Gwyddelig fel y ddolen gyswllt ag ysbrydiaeth elfennaidd Iwerddon gyn-Gristnogol, ac ar eu darlunio fel crefftwyr cain neu bysgotwyr, yr oedd gogwydd ychydig yn wahanol, felly, ar bwyslais y Cymry ar y gwerinwr fel ysgolhaig dysgedig. Yr oedd y pwyslais hwn hefyd yn adwaith i’r ffordd y gwelid y Cymry gan y diwylliant trefedigaethol: ‘Clearly, the emphasis on the Welsh peasant as scholar is a direct refutation of the barbaric, illiterate image propagated in the Blue Books’, yn ôl Gramich.⁴³ Gellir dadlau fod ysgolheictod T. Gwynn Jones yn gynnrych *milieu* llenyddol ei wlad, fel yr oedd Yeats yn gweddu i gyd-destun celfyddydol Iwerddon. Dadleuodd Simon Brooks i John Morris-Jones ddwyn ‘*episteme* newydd i’r Gymraeg’, a bod honno, oherwydd ei gefndir yntau fel mathemategydd yn ogystal â dylanwadau Ewropeaidd eraill, yn *episteme* wyddonol a ddibynnai yn helaeth ar ganfyddiadau empeiraidd ac ar resymeg.⁴⁴

Cwbl gydnaws â meddylfryd yr *episteme* hon ydoedd ymchwil ysgolheigaidd, empeiraidd ac, yn bennaf, ffilolegol ac ieithyddol T. Gwynn Jones yn ei waith bob dydd fel darlithydd ac yna Athro’r Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, o 1913 ymlaen. Tra’r oedd yr adfywiad Gwyddelig, felly, yn dibynnu’n fawr ar ddisgwrs

⁴² Dyfynnir yn Gramich, ‘Creating and destroying’, 22.

⁴³ Gramich, ‘Creating and destroying’, 22.

⁴⁴ Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo: yr oleuedigaeth Gymraeg a theori lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004), tt. 20-31.

esthetigiaeth, celf a chrefft, a'r pwyslais ar y gweledol, golygai *episteme* John Morris-Jones mai iaith, ac ymchwil gwyddonol, empeiraidd a rhesymegol, a bwysleisid yng Nghymru.

Os oedd natur weledol adfywiad Celtaidd Iwerddon yn galluogi W. B. Yeats i weld Celtigrwydd fel modd o gyfuno gwahanol agweddau ei fywyd materol ac ysbrydol, yr oedd T. Gwynn Jones ar y llaw arall yn awyddus i ymwrthod â nifer o elfennau mwy gweledol neu weledigaethol Celtigrwydd hyd yn oed wrth gofleidio elfennau eraill. Er ei fod ymhlith y lleisiau mwyaf brwd wrth alw am gynnal y Gyngres Geltaidd yng Nghaernarfon yn 1904, ac yn un o'r ysgrifenyddion ar ei chyfer, nododd Marion Löffler ei bod yn well ganddo yntau wisgo ei ddillad ei hun yn hytrach nag ymuno yn lliw y gwisgoedd cenedlaethol yn ystod yr ŵyl. Efallai fod hynny yn arwydd o'i ymwybyddiaeth ysgolheigaid fod y gwisgoedd hyn, yn ogystal â seremoniau'r orsedd a chwaraeai ran ganolog yn nigwyddiadau'r ŵyl ac a ddifriwyd gan Jones yntau mewn gweithiau megis ei nofel *John Homer* (1923), yn gymharol newydd.⁴⁵ Er bod dylanwad yr adfywiad yn treiddio i bob agwedd o fywyd hyd yn oed byd chwaraeon, dan arweiniad y Gymdeithas Athletaidd Wyddeleg yn Iwerddon, 'megis dechrau oedd y dasg o greu traddodiad o batrymau a symbolau cenedlaethol' yng Nghymru.⁴⁶

Ond nid oes rhaid synio am sgeptigiaeth Jones tuag at rai elfennau o Geltigrwydd fel ymwrthodiad llwyr o'r Celt. Yn hytrach dylid meddwl ynghylch y modd yr oedd ei Geltigrwydd yn gweithredu o fewn *episteme* wyddonol John Morris-Jones, ac yn wir yn erbyn cefndir nifer o ganfyddiadau gwyddonol a olygai, fel y sylwodd Sinéad

⁴⁵ T. Gwynn Jones, *John Homer* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1923).

⁴⁶ Löffler, *A Book of Mad Celts*, t. 51.

Garrigan Mattar, fod ymwybyddiaeth newydd, wyddonol o Geltigrwydd yn dod i'r amlwg ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Archwilia hithau dudalennau'r *Revue Celtique*, cyfnodolyn cymharol newydd ar gyfer astudiaethau Celtaidd yn y cyfnod, a chanfod mai gwaith y *Revue* oedd '[to] deal with the 'druidic', or uncritical school of Celticism'.⁴⁷ Yn wir, meddai, '[e]xamples abound of the manner in which the *Revue* sought to avoid the spawning of any Celtomaniacal monsters'.⁴⁸ Byddai Jones wedi dod dan ddylanwad Celtigrwydd gwyddonol o'r fath ers dyddiau Lerpwl, a chynyddu a wnâi'r ymwybyddiaeth hon wrth iddo ddod i gyswllt ag ysgolheigion megis Kuno Meyer a'i gyd-ddisgyblion yn yr *School of Irish Learning*. Trwy'r math newydd hwn o Geltigrwydd a oedd yn dod i'r amlwg ar y pryd, canfu Jones fodd o arddel y Celt heb orfod cefnu ar ei ddaliadau a'i gredoau ysgolheigaidd.

Ac yn wir, fel ysgolhaig o fardd y gwelid T. Gwynn Jones gan ei gyfoedion. Disgrifiwyd eisoes yn yr ail bennod fel y beirniadwyd Jones gan 'Hen Ddosbarth' yn *Y Geninen* am roi deunydd barddoniaeth yn nwylo '[b]echgyn y colegau', ynghanol '[ll]wch hen lyfrau'.⁴⁹ Fel rhinwedd fwy canmoladwy y gwelai eraill ysgolheictod T. Gwynn Jones. Wrth ysgrifennu geirda ar ran T. Gwynn Jones yn 1909 ar gyfer swydd ddarlithio yn Nulyn, canmolodd John Morris-Jones ei gyfansoddiadau eisteddfodol, yn benodol 'Ymadawiad Arthur' a 'Gwlad y Bryniau', gan nodi eu bod yn dangos 'a wide and intimate acquaintance with the older literature of Wales, especially the poetry and romance of the middle ages', cyn ychwanegu:

⁴⁷ Sinéad Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival* (Oxford: Clarendon Press, 2004), t. 2.

⁴⁸ Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival*, t. 27.

⁴⁹ 'Hen Ddosbarth', 'Eisteddfod Genedlaethol Bangor', *Y Geninen*, 20 (1902), 267-9 (t. 268).

Mr Gwynn Jones had the advantage of being a pupil of the late Emrys ap Iwan, the grammarian, and one of the masters of modern Welsh prose. I believe he reads French and German, and has attended courses at the Irish School of Learning. Of his strictly academic qualifications, however, I have no knowledge, except in so far as they are reflected in his poems; but he possesses the scholar's instinct in a very rare degree, and I should expect him to fill the post of Lecturer in Welsh with distinction.⁵⁰

Er diffyg addysg ffurfiol, ymddengys fod gan T. Gwynn Jones reddf yr ysgolhaig, ac felly yr ystyriwyd ef gan nifer helaeth o feirniaid diweddarach hefyd. Gwelodd Geraint Bowen ei 'ail gyfnod' o farddoni fel un o 'ymddisgyblu a chasáu anghynildeb, fel gwir ysgolor'.⁵¹ Sylwodd Hugh Bevan yntau 'fod gan y bardd hwn ddiddordeb yr ysgolhaig mewn mytholeg',⁵² ac aeth Iorwerth Peate cyn belled â honni: '[f]wy nag unwaith, daliodd Gwynn Jones wrthyf mai ysgolhaig ydoedd yn hytrach na bardd'.⁵³ Yn wir, yn ôl Seamus Deane, '[s]cholarship and literature combined to revive the memory of a civilization in the generation that saw its destruction',⁵⁴ a gwelir y cysylltiad agos hwn ar waith yn aml ym marddoniaeth gynnar T. Gwynn Jones. Diddorol yw nodi y pwysleisiwyd cysylltiad tebyg yn achos Tórna, cyfaill T. Gwynn Jones hefyd. Disgrifiodd Philip O'Leary ef fel y 'scholarly Ó Donnchadha' wrth drafod ei 'accomplished first

⁵⁰ Llythyr geirda oddi wrth John Morris-Jones, Bangor, Awst 26 1909. LIGC Papurau T. Gwynn Jones G 4053. Canmolodd Edward Anwyl yntau T. Gwynn am yr un cryfderau; gw. Llythyr geirda oddi wrth Edward Anwyl, Aberystwyth, Awst 25 1909. LIGC Papurau T. Gwynn Jones G 40.

⁵¹ Geraint Bowen, 'T. Gwynn Jones', yn Aneirin Talfan Davies, gol., *Gwŷr Llên: Ysgrifau beirniadol ar weithiau deuddeg gwŷr llên cyfoes ynghyd â'u darluniau* (Llundain: W. Griffiths a'i frodyr, 1948), tt. 73-99 (t. 85).

⁵² Hugh Bevan, 'Defnyddio Chwedlau', yn *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 270-8 (t. 271).

⁵³ Iorwerth Peate, 'Thomas Gwynn Jones 1871-1949', yn *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones*, tt. 173-87 (t. 175).

⁵⁴ Deane, *Celtic Revivals*, t. 21.

volume of original verse’, *Leoithne Andeas* (1905) [‘Awel Hyfryd’].⁵⁵ Ynglwm wrth hynny, fodd bynnag, y nodir gan O’Leary un o anfanteision pennaf y reddf ysgolheigaidd mewn bardd, sef y perygl y gallai ymwybyddiaeth glos o gonfensiynau llenyddiaeth ganoloesol arwain at atgynhyrchiad fformiwleig o’r confensiynau hynny yng ngwaith creadigol y bardd: ‘This fixation with a mechanical mastery of outmoded forms and themes is seen quite clearly in the work of the scholarly poets’; yn wir, ‘all too often [...] the result was literary taxidermy’.⁵⁶

Dyna’r argraff a geir yng nghyfrolau cynnar T. Gwynn Jones, megis yn *Gwlad y Gan a Chaniadau Eraill* (1902): bardd sydd yn gwbl gyfarwydd â chonfensiynau a delweddau llenyddiaeth ganoloesol, ond nad yw’n llwyddiannus, bob amser, yn gosod ei stamp ei hun ar y cerddi. Y mae rhai ohonynt, megis, ‘Non’, ‘Arianwen’ a ‘Serchgan’ yn ymddangos fel ffugiadau o gerddi’r gogynfeirdd, yn benodol Hywel ab Owain Gwynedd, yn eu hieithwedd a’u mesur:

Gwen ton pan torro, terwyn ei throchion,
A thrychwyllt gynnwrf a ganna ei bron;
Claer a llathrwyn llethrau is lluwchion
A llachar ôd newydd dan huan llon[.]⁵⁷

Dichon y bu’r ddealltwriaeth graff hon o ieithwedd yr Oesoedd Canol yn ddefnyddiol i Jones maes o law, pan lwyddodd i’w ffrwyno ychydig, ond yma, y mae’n faen tramgwydd sydd yn esgor ar brentiswaith.

Enghraifft gynnar arall o gerdd ‘ysgolheigaidd’ sydd ychydig yn fwy

⁵⁵ Philip O’Leary, ‘The Irish Renaissance, 1890-1940: literature in Irish’, yn *The Cambridge History of Irish Literature: Volume 2, 1890-2000*, golln. Margaret Kelleher a Philip O’Leary (Cambridge: Cambridge University Press, 2006), tt. 226-69 (t. 230).

⁵⁶ O’Leary, ‘The Irish Renaissance’, t. 228.

⁵⁷ T. Gwynn Jones, ‘Non’, GG t. 11, llau. 1-4.

llwyddiannus, efallai, yw ‘Y Nef a Fu’ (YA tt. 25-32), cerdd yn ail gasgliad unigol T. Gwynn Jones a archwiliwyd eisoes yn yr ail bennod. Ynnddi mae’r bardd yn crwydro trwy dirwedd sydd ar yr un pryd yn gyfarwydd ac yn anghyfarwydd, ac yn dod ar draws cyfuniad o nifer o wahanol gymeriadau a golygfeydd. Tynnir sylw drachefn at y gerdd yma, ond y tro hwn pwysleisir ei hysgolheictod. Ar gyfer pob un o’r cymeriadau hyn, rhoddir troednodyn ysgolheigaidd sydd yn dynodi eu ffynhonnell: disgrifir gweledigaeth o ferch ‘[f]al honno a welodd Macsen drwy ei hun’ (t. 25, ll. 16), ac mewn troednodyn ar waelod y ddalen ceir y dyfyniad perthnasol o *Breudwyt Maxen Wledic* (t. 25). Llenwir hanner ail dudalen y gerdd gan droednodiadau cyffelyb, gan gyfeirio’r darllynydd at ffynonellau megis *Pedeir Keinc y Mabinogi*, *Kulhwch ac Olwen* a barddoniaeth Hywel ab Owain Gwynedd (tt. 26-7). Brithir y dudalen â throednodiadau academaidd, fel pe bai’r awdur yn awyddus i brofi i’r darllynydd ddilysrwydd y gerdd a’i ffyddlondeb i’r traddodiad llenyddol canoloesol. Gwneir ymdrech ymwybodol i bwysleisio mai motiffau a chonfensiynau llenyddol, sydd yn gynnyrch adnabyddiaeth ysgolheigaidd o lenyddiaeth ganoloesol Geltaidd, yw’r delweddu hyn. Gwrthyd y bardd natur ‘weledigaethol’ y gerdd drwy dynnu sylw’r darllynydd at natur artiffisial, glytiog y ddelwedd, ac at ei tharddiad llenyddol, a rhwystro unrhyw argraff o gyfriniaeth neu rithweledigaeth y bardd.

Ond gall fod i’r gerdd amcan amgen hefyd. Trwy gyfuno ysgolheictod amlwg â’r syniad o’r siaradwr fel un sydd yn crwydro drwy’r tirwedd, ceir awgrym neu adlais yn y gerdd o *topos* yr ‘ysgolhaig crwydro’. Dadleuodd beirniaid megis Laura L. Howes fod y syniad o gerdded neu grwydro trwy dirlun hefyd yn galluogi’r crwydryn i weld, ac i

lunio'r tirlun fel y mynn: 'Any journey through space can be an act of spatial organization that not only reveals the landscape to the traveler but also offers him or her the opportunity to reorder it'.⁵⁸ Yn ôl Howes y mae taith o'r fath, er ei bod yn bosibl mewn unrhyw gyfnod, yn un sydd yn nodweddiadol o lawer o lenyddiaeth ganoloesol. Aeth academyddion eraill megis Marie Martin ati i chwilio am enghreifftiau Gwyddelig o'r 'ysgolhaig crwydrol', gan ddadlau trwy hynny ei bod yn bosibl ei weld hefyd fel *topos* nodweddiadol Wyddelig. Canolbwyntiodd Martin yn benodol ar enghreifftiau megis yr *echtrae* a'r *imramma*, anturiaethau a theithiau dros dir a môr sydd yn aml yn terfynu gyda'r cymeriadau yn cyrraedd yr Arallfyd, gan wneud cysylltiad rhwng y chwedlau hyn ac awch y mynachod Gwyddelig am ddysg.⁵⁹ Bid a fo am ddilysrwydd y cysylltiad hwn, gall fod yn werthfawr yma i ystyried 'Y Nef a Fu', o gofio ei bod yn diweddu gyda mynegiant o anobaith ym materoliaeth yr oes fodern, fel ymgais i ad-hawlio Celtigrwydd canoloesol o safbwynt yr ysgolhaig. Wrth grwydro drwy'r tirwedd hwn ar hyd '[y] llwybrau glanaf welodd dyn erioed' (l. 27, ll. 6), y mae'r ysgolhaig-fardd yn gosod ei drefn ei hun, yn llunio ac yn creu ei fyd delfrydol, yn hytrach na dianc iddo'n unig.

Ond fel gyda safle'r arlunydd, y mae safle'r ysgolhaig hefyd yn un amwys. Ar y naill law, y mae gan yr ysgolhaig o fardd ymwybyddiaeth ddefn o lenyddiaeth a chwedloniaeth y diwylliant a astudir; ar y llaw arall, y mae'n angenrheidiol iddo sefyll ychydig oddi allan i'r diwylliant hwnnw er mwyn ceisio ei ddehongli yn wrthrychol, er

⁵⁸ Laura L. Howes, *Chaucer's gardens and the language of convention* (Gainesville, FL: University Press of Florida, 1997), tt. 8-9.

⁵⁹ Marie Martin, *Learning by Wandering: An Ancient Irish Perspective for a Digital World* (Oxford: Peter Lang, 2010), tt. 5-25.

mor amhosibl y gall tasg o'r fath ymddangos, ac er mwyn cynnig arolwg 'gwyddonol' ohono. Yn hynny o beth, gellid awgrymu fod yr ysgolhaig o fardd yn cydymffurfio â dymuniad Arnold 'to observe the Celts scientifically whilst denying them any hope of national self determination'.⁶⁰ Ceir un gerdd yn benodol o eiddo Jones sydd yn pwysleisio safle allanol, bron yn wrthodedig, yr ysgolhaig.

Mewn ysgrif yn *A Great Welshman*, cyfrol deyrnged i T. Gwynn Jones, honnodd Gwenallt mai dau o'r prif ddylanwadau ar ei feddylfryd oedd Emrys ap Iwan a John Morris-Jones: 'Dysgodd gan y naill gywirdeb iaith, mireinder ymadrodd a gwerth disgyblaeth y mesurau cynganeddol, a than ddylanwad y llall dysgodd ieithoedd Ewrop, ac astudiodd eu llenyddiaeth, yn enwedig farddoniaeth yr Almaen'.⁶¹ Yn ogystal â gwreiddiau bydolg Ewropeaidd T. Gwynn Jones, fe'i anogwyd gan Emrys ap Iwan hefyd i feithrin safbwynt ysgolheigaidd, ac er mai er cof am Emrys ap Iwan y mae 'Y Dysgawdr' ([1902] YA tt. 162-7), hawdd fyddai cymhwyso'r penillion at Jones ei hun. Ceir cysylltiad eto yma rhwng ysgolheictod ac ymwybyddiaeth o draddodiad dysg Ewrop. Cyfyd yr adroddwr i ganlyn duwies '[a]r led y gwledydd am flynyddau maith' (t. 163, ll. 6). O wneud hynny, '[a]dnabu drwyddi wŷr o uchel fri, / A dysgodd ganddi lawer estron iaith' (t. 163, llau. 7-8), oherwydd y 'rhoed iti reddf yr ysgolhaig' (t. 163, ll. 3), yn ogystal ag 'awen bardd' (t. 162, ll. 3). Fe'n harweinir yn y penillion dilynol drwy'r gwledydd a'r ieithoedd yr oedd Emrys ap Iwan yn feistr arnynt; Groeg a Rhufain, Ffrainc a'r Almaen a'r Eidal, Sbaen, ac yna, yn arwyddocaol, wledydd Affrica a'r Dwyrain Canol. Yna daw duwies arall i'w gyfarch:

⁶⁰ Williams, 'Pan-Celticism and the Limits of Post-Colonialism', t. 8.

⁶¹ David James Jones, 'Y Bardd', yn *A Great Welshman. Dr. T. Gwynn Jones: A Symposium of Tributes* (Cardiff: Welsh Committee of the Communist Party, 1945), tt. 15-17 (t. 15).

“Rhoed awen wir y dysgawdr iti gynt,
O mynni ddysgu, dyred gyda mi.”

(t. 165, llau. 15-6)

‘Dug hithau ef yn ol i’w wlad ei hun’, ond caiff yntau nad ‘oedd ei feddwl ef a hithau’n un’ (t. 165, llau. 18 a 20):

Mynasai ef gael iaith ei wlad yn lân,
A gwneud ei llên yn eang ac yn gref,
A thybiai hithau, gyda’r beirniaid mân,
Mai mympwy ydoedd ei wybodaeth ef.

(t. 166, llau. 1-4)

Eir i’r afael yn y gerdd hon, felly, â safle cymhleth yr ysgolhaig mewn perthynas â’r diwylliant a ddehonglir ac a gynrychiolir ganddo. Ceir naratif rhesymegol sydd yn dilyn ‘Y Dysgawdr’ o un datblygiad i’r llall: yn gyntaf rhaid cael awen y bardd, yna greddf yr ysgolhaig, a dim ond bryd hynny y gall ddychwelyd at ei bobl i’w dysgu. Ond nid yw’r bobl eu hunain yn fodlon derbyn y drefn resymegol hon. Ceir yr argraff fod T. Gwynn Jones a W. B. Yeats wedi bod yn angenrheidiol, neu wedi peri iddynt eu hunain fod yn angenrheidiol, drwy eu gosod eu hunain yn ‘ddehonglyddion’ eu diwylliannau eu hunain, ac i rwystro eu diwylliannau rhag cael eu cam-ddeall fel rhai ‘gweledigaethol’ yn unig, heb fod iddynt arwyddocâd cyfoes. Ac eto, o ‘ddehongli’ fel hyn, y maent hefyd mewn perygl o’u gosod eu hunain mewn safle cyfochrog â’r trefedigaethwr, a chael eu gwrthod gan y diwylliant y maent yn dymuno’i gynrychioli.

Osian ar grwydr

Er mai dulliau cymharol ansoffistigedig a ddefnyddiwyd gan T. Gwynn Jones yn ei gerddi cynnar, a'r reddf ysgolheigaidd o bosibl yn dod i'r amlwg yn ormodol yn ei farddoniaeth, arhosodd y reddf hon gydag ef wrth i'w grefft ddatblygu. Yn yr adran hon, rhoddir sylw i ymdriniaeth y ddau fardd o'r un ffynhonnell er mwyn dangos sut yr arweiniodd eu safbwyntiau gwahanol at ddeongliadau amrywiol o'u testun. Stori Osian yw'r ffynhonnell honno; yn ei gerdd gynnar 'The Wanderings of Oisín' ([1889] VP 1) y gosododd W. B. Yeats ei stamp ei hun ar y stori, ac aeth T. Gwynn Jones ati yn 'Tir na n-Og: Awdl Delynegol at Beroriaeth' ([1910] C tt. 60-74) i gynnig ei ddehongliad yntau o'r chwedl. Y mae'r chwedl hon yn un ddiddorol i'w harchwilio, oherwydd y gellir anelu'r un cyhuddiad at Osian neu Oisín, prif gymeriad y chwedl, ag y gellir at Jones a Yeats hefyd – sef ceisio canfod cysur neu ymgeledd mewn gorffennol delfrydol yn hytrach na bodloni ar wynebu her y presennol a bywyd cyfoes. O edrych ar 'The Wanderings of Oisín' a 'Tir na n-Og', felly, gellir gweld sut y defnyddiodd Yeats safbwynt yr arlunydd o fardd, a Jones yntau safbwynt yr ysgolhaig o fardd, i ymdrin â'r ymchwiliad am ddihangfa.

Trydydd caniad 'The Wanderings of Oisín', ei gerdd hir gyntaf, oedd rhan fwyaf llwyddiannus yr holl waith, yn ôl Yeats mewn llythyr at Katherine Tynan. Deilliai'r llwyddiant hwnnw, tybiai yntau, o'r ffaith mai'r caniad hwnnw a ddaethai agosaf at fod yn 'weledigaeth': 'It really was a vision it beset me day and night'.⁶² Yr hyn sydd yn ddiddorol yw ei fod yn cysylltu llwyddiant y caniad â'i lefel o gelfyddyd: 'The last has

⁶² W. B. Yeats, Llythyr at Katharine Tynan, ?22-28 Medi 1888, yn CL1, tt. 95-101 (t. 98).

most art'.⁶³ Y mae'r gerdd yn ei chyfanrwydd yn helaeth oherwydd y disgrifiadau manwl ynddi, ac nid yw'r trydydd caniad yn eithriad yn hyn o beth; yr hyn sydd yn taro'r darlennydd ydyw'r cyfeiriadau cyson at liw ac at symud, fel y 'Grey sand on the green of the grasses and over the dripping trees' (VP 1, Llyfr 3, ll. 14). Y mae'r pwyslais yn sicr ar yr hyn a wêl Oisín, ac ar ddisgrifio'r pethau hyn mewn manylder. Disgrifir arfau'r creaduriaid y daw ar eu traws 'all inwrought and inlaid, / And more comely than man can make them with bronze and silver and gold' (llau. 31-2). Yn hyn, medd Loizeaux, y ceir Yeats 'most clearly attempting to transfer into poetry the decorative color and pattern that attracted him in Pre-Raphaelite art'.⁶⁴

Yn ogystal â'r disgrifiadau hyn sydd yn llawn lliw a manylder, ceir pwyslais hefyd ar y weithred o weld ac o edrych yn gyson yn nhrydydd caniad 'The Wanderings of Oisín'. Ceir cyswllt agos rhwng y gweld corfforol, drwy gyfrwng y llygad, a gweld ysbrydol, arallfydol, a gyflawnir drwy freuddwydio a thrwy weld gyda'r meddwl. Gwneir y cyswllt hwn yn uniongyrchol ar adegau; wrth ddisgrifio'r creaduriaid y daw Oisín ar eu traws, er enghraifft, yn cysgu'n drwm, disgrifir hefyd y tylluanod yn adeiladu nythod yn eu gwallt ac yn 'Filling the fibrous dimness with long generations of eyes' (ll. 40), ac yna, ddau bennill yn ddiweddarach, y maent yn 'filling the shade with their eyes' (ll. 48). Yn ogystal â bod yn ddisgrifiad eithaf cythryblus ac annaeorol, arweinir y darlennydd o gwsg a breuddwydion y cysgwyr, y gweledol corfforol a'r gweledol ysbrydol wrth i'r naratif symud i ganolbwyntio ar olwg yr adroddwr. Yn y llinell nesaf, dywed yr adroddwr, 'And my gaze was thronged with the sleepers', ac fel darllenwyr

⁶³ Yeats, Llythyr at Katharine Tynan, t. 98.

⁶⁴ Loizeaux, *Yeats and the Visual Arts*, t. 59.

cawn ninnau'r teimlad na allwn droi oddi wrth yr olygfa, fod ein llygaid wedi eu llenwi â'r weledigaeth hon o'r cysgwyr â'u 'faces alive with such beauty [...] Yet weary with passions' (llau. 51-2). Pwysleisir mai 'the salt eye of man' (ll. 51) a wêl y pethau hyn, cyn canolbwyntio'n nes ar achos y cwsg hwn:

I gazed on the bell-branch, sleep's forebear, far sung by the Sennachies.
I saw how those slumberers, grown weary, there camping in grasses deep
[...] Laid hands on the bell-branch and swayed it, and fed of unhuman sleep.
(llau. 53-6)

O ganlyniad, cyfyd Oisín gorn Niamh a'i chwythu i ddeffro'r cysgwyr, a phan ddigwydd hynny, disgrifir y brenin yn deffro: '[He] Watched me with mournful wonder out of the wells of his eyes' (ll. 60).

Cymhlethir y darlun yma, felly. Gyda'r pwyslais ar ddisgrifio manwl ac ar liw ac ar dirwedd, ymddengys yr adroddwr fel arlunydd neu beintiwr yn sefyll oddi allan ac yn darlunio'r olygfa i San Padrig ac i'r darllenydd. Ond â'r cysgwr yn syllu arno, daw Oisín ei hun yn oddrych golwg y darllenydd yntau, ac yn ganolbwynt y darlun. Dyma'r hyn a ddisgrifiodd Loizeaux fel problem 'aesthetic distance',⁶⁵ sef y tyndra rhwng dymuno creu tirwedd lle gall y darllenydd grwydro a theimlo ei fod yn y darlun, a'r pellter anochel a grëir o gyfansoddi yn arddull yr arlunydd: '[t]he viewer of a picture can never literally enter the pictorial world'.⁶⁶ Ond yma, adroddir y naratif yn y person cyntaf, ac er y gwyddys mai Oisín sy'n siarad mewn deialog â San Padrig, a'i fod felly yn sefyll gryn bellter oddi wrth y digwydd ei hun, hawdd yw i'r darllenydd anghofio'r ffaith

⁶⁵ Loizeaux, *Yeats and the Visual Arts*, t. 52.

⁶⁶ Loizeaux, *Yeats and the Visual Arts*, t. 52.

honno oherwydd nad yw Padrig wedi llefaru ers yr ail ganiad, ac felly cymylir y pellter hwn rhwng yr adroddwr a'r digwydd, a daw yntau'n rhan o darlun.

Nid gweld yr olygfa a wna Oisin bellach, ond profi'r weledigaeth fewnol, feddylol y mae'r 'bell-branch' yn ei chonsurio; 'gone like a sea-covered stone', meddai, 'Were the memories of the whole of my sorrow and the memories of the whole of my mirth' (llau. 70-1). Diflannodd hanes, a naratif y cof, gan adael y foment honno'n unig ar ei phen ei hun. Nid yn unig yr ymdrinnir yma â chymhlethdod safle'r bardd-artist-adroddwr, ond yn rhinwedd ei safle newydd ynghanol y chwedl daw Oisin hefyd i gysylltiad â'r gwrthdaro rhwng naratif a gweledigaeth sydd yn dyndra canolog yn y stori.

Wrth i Oisin ddod dan swyn cerddoriaeth y 'bell-branch' a cholli ei holl atgofion y rhai llawn 'mirth' yn ogystal â'r rhai llawn 'sorrow', y mae'n wynebu'r tensiwn hwn yn uniongyrchol ac yn dod ag arwyddocâd ehangach iddo oherwydd ei fod yn un cwbl gymwys i Iwerddon y 1890au hefyd. Awgrymir yma mai yn y weledigaeth y collir pob ymwybyddiaeth o unrhyw fath o orffennol; er anghofio'r galar, anghofir yr hapusrwydd a'r balchter hefyd sydd yn angenrheidiol i unrhyw ymdeimlad o barhad cenedlaethol. O wneud hyn, medd Castle, 'he invokes something like the timelessness of the ethnographic present, an escape from temporality that sustains the enduring value of a pristine primitive condition'.⁶⁷ Yn wir, enghreifftir hynny yn ddiweddarach yn y caniad, oherwydd yr hyn a wêl Oisin nesaf dan ddylanwad ei weledigaeth yw ei gyfoedion o'i hen fywyd, ganrifoedd yn ôl:

Came by me the kings of the Red Branch, with roaring of laughter and songs,

⁶⁷ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 54.

[...]

Came Blanaid, Mac Nessa, tall Fergus who feastward of old time slunk
(llau. 87 a 89)

Trwy weledigaeth, felly, y gellir canfod heddwch a llonyddwch, a bodlonrwydd, ym moment y presennol. Ond dim ond trwy weledigaeth hefyd, fodd bynnag, y gellir adnewyddu ac atgoffa'r cof am y gorffennol; yn eironig, dim ond trwy ennid y weledigaeth y cofir y naratif. Bron nad yw enwau cyfoedion Oisín yma yn gweithredu fel rhyw fath o lafargân neu swyn er mwyn consurio'r weledigaeth yn eglur o'i flaen; ond hwynt hefyd sydd yn dod ag Oisín at ei goed ac yn peri iddo ddeffro o'i freuddwyd, gan sylweddoli pwysigrwydd ei orffennol yn ei bresennol diofal. Trwy weledigaeth, felly, y daw'r rhai sydd wedi'u datgysylltu â'r gorffennol i adennill ac i ailsefydlu'r cysylltiad. Ond o wneud hynny, yn anochel fe ailsefydlir y naratif hefyd.

Cyfyd 'The Wanderings of Oisín' gwestiwn diddorol arall, yn enwedig wrth ystyried darlleniad Loizeaux, sydd yn nodi dylanwad cyffredinol William Morris a Dante Gabriel Rossetti ar y gerdd ac ar Yeats ar y pryd, ond sydd hefyd yn dadlau fod dylanwad mwy uniongyrchol tapestrïau William Morris i'w ganfod ar y modd y cyfunir gwahanol ddarluniau gan yr adroddwr yng nghaniad olaf y gerdd.⁶⁸ Yn ôl Loizeaux, cyfunir y darluniau unigol mewn modd tapestrïol i greu math ar naratif; ategir hynny ganddi wrth iddi nodi fod gwahaniaeth anochel rhwng darlun a cherdd. Gellir cael mynediad at ddarlun ar amrantiad, bron; er bod unrhyw ddarlun meistraidd yn debygol o ildio rhagor o ystyron a chyfrinachau wrth edrych arno am gyfnod maith, y mae'r cyfan 'yno' wrth i'r llygad ddisgyn arno. Mewn cerdd, fodd bynnag, y mae'r ystyr yn cael

⁶⁸ Loizeaux, *Yeats and the Visual Arts*, t. 57.

ei fynegi fesul gair, ac nid yw'r gerdd yn gyflawn hyd nes i'r darllenydd gyrraedd yr atalnod olaf. Disgrifia Loizeaux y cysylltiad a grëir o ganlyniad i hyn fel 'a curious link between the narrative and the pictorial'⁶⁹ geiriau sy'n ein hatgoffa drachefn o derminoleg Daniel Williams, y 'narrativized' a'r 'visualized'. Bron na ellir synio am Yeats, yma, yn ceisio cymhwyso'r 'gweledigaethol' i fframwaith naratif estynedig. Fel y sylwodd Gregory Castle, 'the primitiveness of the Celt, defined by Arnold in terms of racial essence, is redefined as a spiritual trait that links the ancient to the modern in a continuous, timeless unity'.⁷⁰ Ymddengys hon yn gamp baradocsaidd – sut gall rhywbeth fod yn 'ddiamser', ac eto'n 'barhaol' mewn undod sy'n estyn o'r hynafol i'r modern, ar yr un pryd? Trwy fanteisio ar y tyndra rhwng gweledigaeth a naratif, dyna'r hyn yr ymgeisia Yeats i'w gyflawni yn 'The Wanderings of Oisín'.

Y mae'r hyn a ddywed Castle am syniadau Yeats yn ei erthygl 'The Celtic Element in Literature' (1897) hefyd yn ddilys wrth drafod 'The Wanderings of Oisín':

This is a very subtle strategy, one that does not so much deny the primitiveness of the Celt as revalue it by insisting on the Celt's ability to maintain in the present a connection with an ancient (that is to say, pre-historical) "religion of the world." In this way, Yeats reconfigures primitivism, shifting its locus from a racial to a temporal plane, in order to make a bold claim for the spiritual superiority of a "timeless" people.⁷¹

Dyma'r modd y gall Yeats aros o fewn disgwrs Celtigrwydd Arnoldaidd, ond drwy safbwynt yr arlunydd gall wyrdroi'r disgwrs hwnnw i bwysleisio, yn hytrach na gwendid 'racial', parhaol y Gwyddel, ddatblygiad naratifol cadarnhaol o'r gorffennol i'r

⁶⁹ Loizeaux, *Yeats and the Visual Arts*, t. 59.

⁷⁰ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 51.

⁷¹ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 50.

presennol. Yn wir, yn hytrach na pheri anfantais, daw Celtigrwydd o'r fath yn fforwm delfrydol i ddatblygu'r naratif hwn, ac i osgoi magl arferol symbolaeth weledigaethol: 'Irish legend gave Yeats a way to be something more than the kind of symbolist who would have wished only to forsake history for eternal vision' (LWBY 83).

Os mai 'The Wanderings of Oisín' oedd un o gerddi mawr cynharaf Yeats, yr oedd T. Gwynn Jones eisoes wedi ennill ei ddwy gadair genedlaethol erbyn iddo yntau droi at stori Osian a Nia. Wrth i'w grefft aeddfedu, diflanna'r troednodiadau helaeth, ond erys yr epigramau a'r dyfyniadau. Yn 'Gwlad y Bryniau' ([1909] C tt. 35-59), er enghraifft, a enillodd iddo ei ail gadair, egyr pob caniad â dyfyniad o lenyddiaeth Gymraeg ganoloesol. Y mae'r awydd i ddod at ei lenyddiaeth o safbwynt ysgolheigaid yn dal i fodoli, ond ychydig yn fwy cynnil. Yn achos 'Tír na n-Og' (1910), cerdd a fwriadwyd yn wreiddiol fel libreto ar gyfer opera, dichon nad yw ysgolheictod y darn yn amlwg ar yr wyneb o gwbl. Ond o gymharu'r modd yr ymdriniodd Jones â'r un stori ag yr aeth Yeats i'r afael â hi yn 'The Wanderings of Oisín', mae'r gwahaniaethau bychan mewn pwyslais a ffocws yn awgrymu dull tra gwahanol i ddull yr arlunydd neu'r gweledydd.

Y mae 'Tír na n-Og' yn fyrrach o lawer na 'The Wanderings of Oisín'. O ganlyniad efallai, ni cheir yr un manylder a'r un disgrifiadau agos o liw a llun a thirwedd yng ngwaith Jones, ac nid yw'r elfen weledol mor amlwg yn y gerdd hon. Yn ei ddull ysgolheigaid arferol, fodd bynnag, ymchwiliodd Jones yn fanwl i'r ffynonellau ar gyfer y stori, fel y dengys llythyr o eiddo Tórna ato yn ei gynghori ar y mater:

It seems to be a mixture of two old Ossianic lays, one called An tSealg or Laoi na Seilge (Lay of the Chase) and the other Laoi Oisín ar Tír na nÓg... The latter is

probably the one you want so I am sending you Mr. Flannery's edition of it which will give you all the information.⁷²

Rhydd Jones yntau synopsis byr o'r stori fel yr ymddengys yn y ffynonellau ar ddechrau ei libreto, gan nodi y '[s]eiliwyd y gerdd hon ar hen chwedl Wyddelig, a geir mewn amryw ffurfiau' (C t. 60). Ganed y gerdd, felly, o ymchwil trylwyr, ysgolheigaidd.

Y mae'r stori yn dipyn symlach yn 'Tir na nOg' nag yn 'The Wanderings of Oisín'. Dim ond cael ei hudo i Dir na nOg gyda Nia ac yna dychwelyd i Iwerddon a wna Osian T. Gwynn Jones, yn wahanol i Oisín Yeats sydd yn teithio i dair ynys wahanol cyn dychwelyd. Tuedda'r ffocws yn 'Tir na nOg' i aros ar Rathlin yn Iwerddon yn hytrach nag ar yr arallfyd. Tra treulia Oisín flynyddoedd lawer ar y tair ynys, a'u disgrifio'n fanwl, ychydig iawn o sylw a roddir i'w gartref, ac nid enwir y lle hyd yn oed. Ni cheir llawer o ddisgrifiadau blodeuog yn 'Tir na nOg', ond pan y'u ceir, disgrifio Rathlin a wnânt ac nid ynys yr ieuainc. Carwriaeth fer a geir rhwng Nia ac Osian yn Rhan I cyn iddynt ddianc i Dir na nOg, a dim ond newydd gyrraedd yno y maent pan ddechreua Osian hiraethu drachefn am Iwerddon, gan ddatgan:

O! fwynaf Ynys Ienctyd,
 Ai rhy ddi-fai dy hardd fyd
 I ddal anesmwyth galon
 Dyn o hyd, a denu hon? (C t. 66, llau. 13-6)

Er rhybudd Nia y bydd farw os cyffwrdd ei droed ag Erin drachefn, o fewn dwy dudalen y mae Osian ar ei ffordd yn ôl i Iwerddon, a neilltuir y drydedd rhan yn gyfan gwbl i Iwerddon drachefn, ar ôl iddo ddychwelyd yno. Canolbwyntir ar y seiri y mae Osian yn eu canfod yno, yn ceisio ail-adeiladu hen neuadd a fu'n 'gartre'r gân' unwaith (t. 70,

⁷² Dyfynnwyd yn Gwynn ap Gwilym, 'T. Gwynn Jones ac Iwerddon', *Taliesin*, 34 (Gorffennaf 1977), 90-102 (t. 97).

ll.1). Odid nad yw hyn yn arwyddocaol, wrth i ni weld Osian, a chanddo ddealltwriaeth o'r gorffennol, yn gwylio'r seiri ac yn gresynu nad da eu gwaith. Er iddynt hwythau ddatgan y 'mynnwn ni ein meini'n ôl / I gaer ein tadau gwrol, / Fel yn nydd y gelfydd gân / Felysaf eiliai Osian' (l. 70, llau. 11-4), galaru wna yntau:

Trist yw nad oes heddyw sôn
 Am daith fy nghydymdeithion;
 Nid oes, lle'r oedd gannoedd gynt,
 Hanes am un ohonynt;
 A'm hannedd yma heddyw
 Wele, noeth adfeilion yw! (l. 71, llau. 1-6)

Gwylia Osian hwynt yn methu'n y fath fodd am ychydig, cyn eu cyfarch:

Adferant henllwyd furiau
 Ddoe fu wych yr annedd fau,
 Ond, adail, wanned ydynt
 Wrth y rhai a'th godai gynt!
 (Wrth y SEIRI):
 I minnau, wŷr, pe mynnwn,
 Diau hawdd oedd godi hwn,
 A'i roi'n y mur yn y man
 A fynnech chwi, fy hunan! (l. 72, llau. 1-8)

Y mae ymgeisiau'r seiri newydd, cyfoes i ailadeiladu'r neuadd yn fethiant truenus oherwydd nad oes ganddynt adnabyddiaeth ddigonol o'r adeilad yn ei ogoniant. Y mae i'r enw 'seiri' arwyddocâd arbennig yma, wrth gwrs, oherwydd y modd y cawsai beirdd Cymreig erioed eu cyffelybu i seiri yn trin coed a gwiail.

Efallai mai yn y rhannau olaf hyn, felly, y gellir canfod y gwahaniaethau mwyaf yn nulliau naratif y ddau awdur. Yn 'The Wanderings of Oisín', byr a bras iawn yw'r

hanes ar ôl i Oisín ddychwelyd i Iwerddon; yn wir, yn rhyfedd ddigon y mae'n torri ar ei draws ei hun yn hytrach nag adrodd hanes ei gwmp oddi ar ei geffyl:

The rest you have heard, O croziered man; how, when divided the girth,
I fell on the path (llau. 189-90)

Ar ennyd fwyaf tyngedfennol yr hanes, mae fel pe bai Oisín yn ei dynnu'i hun yn ôl allan drachefn o'r darlun, gan ddinistrio rhith 'moment' y weledigaeth fel digwyddiad o flaen ein llygaid drwy'n hatgoffa, wrth gyfarch Padrig, mai dim ond tystion ail-law ydym i'r hyn a ddigwyddodd. I'r gwrthwyneb yn 'Tir na nOg'; neilltuir trydydd rhan y libreto yn gyfan gwbl i ddangos difodiant a dinistr Iwerddon yn absenoldeb Osian, ac i gwmp trasig Osian ei hun fel math o uchafbwynt dramatig yn hytrach na'r lleihad annisgwyl a geir yng ngwaith Yeats.

Serch hynny, y mae'r ddyfais o'n hatgoffa mai sgwrsio â Phadrig y mae Oisín hefyd yn ein hatgoffa fod Yeats, yn yr achos hwn, yn fwy ffyddlon i'r gwreiddiol, gan mai sgwrs rhwng Padrig ac Oisín a geir yn fersiwn Micheál Coimín, awdur tybiedig un o'r ddwy *laoi* wreiddiol a enwyd gan Tórna, hefyd. Ond nid adrodd stori i rywun a wna Osian yn libreto 'Tir na nOg'; yn hytrach, oherwydd mai fel opera y'i bwriadwyd, gwelwn y cymeriadau yn chwarae eu rhan ac yn disgrifio'r hyn o'u cwmpas, wrth i'r digwydd fynd yn ei flaen. O holl gerddi Celtaidd T. Gwynn Jones yn y Gymraeg, dim ond un, sef 'Gwlad y Bryniau', a wna ddefnydd o adroddwr yn y person cyntaf sydd hefyd yn rhan o'r digwydd. Fel arall, y mae'r adroddwr yn ei sefydlu ei hun fel llais awdurdodol oddi allan i'r digwydd, yn disgrifio'r olygfa ac yn adrodd hanes y

cymeriadau. Y mae'r libreto, felly, yn fodd o ddileu'r angen am adroddwr ysgolheigaidd oddi allan i'r naratif gan adael i'r cymeriadau siarad drostynt eu hunain.

Yn ogystal â dulliau naratif gwahanol, y mae symlrwydd plot 'Tir na nOg' hefyd yn cyferbynnu â chrwydriadau 'The Wanderings of Oisín'. Naratif uniongyrchol sydd i 'Tir na nOg', ac yn hyn o beth, fersiwn Jones sydd yn ymdebygu fwyaf i 'laoi' Micheál Coimín. Ac eto, y mae'r naratif syml yn golygu na cheir yr un ymdeimlad yn y gerdd hon o gyfnod maith o amser yn pasio. O'r herwydd, creir yr argraff nad oes cymaint o agendor rhwng gorffennol Osian yn Rathlin a'i bresennol yn Nhir na nOg, ac felly ceir rhagor o ymdeimlad o barhad yn y gerdd hon. Ar y llaw arall, gellid dadlau fod naratif cylchol stori 'The Wanderings of Oisín' y patrwm ailadroddus o adael a dychwelyd wrth i ni ddilyn y teithwyr o un ynys i'r llall eto'n gwahodd cyfres o weledigaethau, gyda phob ynys yn sefyll ar ei phen ei hun yn y stori heb fawr o gysylltiad rhyngddynt. Dim ond wrth i Oisín osod ei droed ar dir Iwerddon ac wrth iddo farw y torrir y cylch hwn. Odid na ellid darllen y toriad hwn, ynghyd â'r nodyn gobeithiol yn y ffaith i Oisín ymwrthod â'r byd arall er mwyn wynebu 'dyfodol' yr Iwerddon go iawn, fel dathliad o'r naid angenrheidiol o'r gweledol i'r naratifol. Nid yw'r naid hon yn rhywbeth dymunol, oherwydd y mae'n gofyn am dranc yr unigolyn. Ond dim ond o wneud hynny y caiff Oisín ddychwelyd at y Feniaid; bron na cheir awgrym yma o'r hyn a ddeuai, maes o law, yn destun poendod a myfyrdod helaeth i Yeats, sef yr angen tybiedig am aberth a thywallt gwaed er mwyn sicrhau dyfodol annibynnol i Iwerddon.

Yn y toriad hwn y gellir canfod arwyddocâd canolog stori Osian/Oisín i'r ddau awdur fel ei gilydd, sef na ellir datgysylltu'n llwyr oddi wrth y gorffennol, waeth pa mor

ddymunol yr ymddengys hynny, a bod dychwelyd at y gorffennol hwnnw yn anochel ac angenrheidiol, doed a ddelo, er y perygl o wynebu tranc a marwolaeth. Fel y dywed Oisin, 'I will go to Caoilte, and Conan, and Bran, Sceolan, Lomair, / And dwell in the house of the Fenians, be they in flames or at feast' (llau. 223-24). Clo mwy melancolaidd sydd i 'Tir na nOg' wrth i'r morynion ddatgan, ar farwolaeth Osian, mai 'A feddo gof a fydd gaeth, / Cyfaredd cof yw hiraeth' (t. 74, llau. 10-1) ac eto, nid oes dianc rhag hynny. Er gwybod mai 'Os Erin werdd a gerddi, / Awr fydd d'awr a'th orfydd di' (t. 73, llau. 8-9), ac er cael cynnig bywyd tragwyddol gyda Nia, nid yw hynny'n ddewis posibl i Osian oherwydd y golygai golli cof am y gorffennol. Y mae'n rhaid dychwelyd at y gorffennol er mwyn gallu ailadeiladu.

Os mai'r un arwyddocâd a welodd y ddau awdur yn yr hanes hwn, y mae'r pwyslais yn dra gwahanol, ac y mae'r dull o ymgyrraedd at y gorffennol hefyd yn gynnwl wahanol yn y ddau waith. Dim ond drwy weledigaeth, trwy symbylu'r meddwl i weld, y gellir dychwelyd at y gorffennol yng nghaniad olaf 'The Wanderings of Oisin'. Y mae'n rhaid dwyn y gorffennol yn weledol o flaen y llygaid cyn y gellir ei gofio a dod yn ôl ato. Yn 'Tir na nOg', fodd bynnag, dim ond un ag ymwybyddiaeth ddofn ac adnabyddiaeth agos â phob un o feini unigol yr adfail, yn ogystal â'r cryfder i'w hail-godi yn eu trefn gywir, a all adfer y neuadd 'lle bu gartre'r gân' i'w hen ysblander. Y mae'r dull cyntaf yn gofyn am ddawn artistig y gweledydd; gyda'r ail ddull, adnabyddiaeth a dealltwriaeth graff yr ysgolhaig sydd yn angenrheidiol wrth fynd ati i greu o'r newydd o ddeunyddiau'r gorffennol.

Yn eu gwahanol ymdriniaethau o chwedl Osian, felly, â Jones a Yeats i'r afael yn uniongyrchol â'r cyhuddiad eu bod yn troi, yn eu cenedlaetholdeb diwylliannol, mewn modd ôl-gymathol at orffennol delfrydol, ac felly yn cydsynio â chenedligrwydd hanfodaidd nad oes ganddo berthnasedd i'r byd cyfoes. Yn y cerddi hyn ceir ymdriniaeth o'r chwedl sy'n llwyddo i fanteisio ar y 'gweledigaethol' er mwyn cymhwyso llenyddiaeth ganoloesol i greu naratif rhesymegol, a thrwy hynny adeiladu sail diwylliannol ar gyfer dyfodol llenyddol disglair. Awgryma Castle mai effaith mabwysiadu safle'r ethnograffydd yw 'to refute on literary-historical grounds the subaltern status of the Celtic people that Arnold presupposes on racial grounds'.⁷³ Dyna a wneir yn ymdriniaethau Jones a Yeats o chwedl Osian: dod â dadleuon y 'gweledigaethol' i diriogaeth y 'naratifol', a thrwy hynny eu dilysu yn nisgwrs a therminoleg y trefedigaethwr. Nid ydynt yn gwrthod yn llwyr y diffiniad Arnoldaidd, ond yn hytrach yn canfod safle cryfach i'r Celt o fewn y disgwrs hwnnw.

⁷³ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 51.

‘I saw it all in the mind’s eye’: Gweledigaethau diweddarach

Er y rhoddid rhagor o bwys ar gelf gweledol yn Iwerddon, tra clodforid y Cymro neu Gymraes werinol yn fwy am fod yn ‘dipyn o sgolor’, nid darlun cwbl ddu a gwyn a gawn ar y naill ochr na’r llall i’r Môr Celtaidd. Bid siŵr, yr oedd prosiectau academiaidd ynghlwm â’r adfywiad yn Iwerddon, fel y nododd Philip O’Leary, ac yr oedd Yeats yn frwd i gymryd rhan yn y rheini hefyd. Er ei awydd i greu o’r newydd, pwysleisia Laura O’Connor y sylweddolai ac y cydnabu le ysgolheictod yn ei ddatblygiad llenyddol ei hun: ‘[he] haunted the British museum, devoting himself to the study of Celticist scholarship and popular Irish literature in translation and establishing in the process a canon of Irish writings in English out of which he himself would emerge as a representative talent’.⁷⁴

Yn achos T. Gwynn Jones, yntau, ni ellir llwyr ddiystyru llygad yr artist ar unrhyw gyfrif. Er iddo ddod at Geltigrwydd yn aml gyda meddylfryd tra amheus y sgeptig o ysgolhaig, gellir, ar brydiau, ganfod yr arlunydd o fardd ynddo yntau hefyd. Er na chafwyd yr un bwrlwm Celtaidd hollgynhwysol yng Nghymru, nid cwbl absennol ydoedd gweithgaredd o’r fath. Un ffigur nodedig yn hyn o beth ydoedd J. Kelt Edwards (1875-1934), a oedd fel T. Gwynn Jones yn gyfeillgar â’r bardd o Lydaw, François Jaffrennou, neu Taldir.⁷⁵ Nododd Llywelyn ap Gwynn fod T. Gwynn Jones hefyd wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant mewn arlunio yn ystod ei gyfnod yng Nghaernarfon

⁷⁴ Laura O’Connor, *Haunted English: The Celtic Fringe, the British Empire, and De-Anglicization* (Baltimore: Johns Hopkins University Press, 2006), t. 33.

⁷⁵ Löffler, *A Book of Mad Celts*, t. 41.

gan Samuel Maurice Jones.⁷⁶ Wrth ddysgu Gwyddeleg, dysgasai Jones hefyd yr hen wyddor yr ysgrifennid Gwyddeleg ynddi, ac y mae rhai o'i gerddi ymysg ei bapurau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi eu hysgrifennu mewn caligraffeg sy'n efelychu llawysgrifau canoloesol. Diddorol yw'r ffaith i Lywelyn ap Gwynn nodi dyled ei dad i Iwerddon wrth awgrymu fod rhai o'r rhain yn 'gampweithiau o galigraffiaeth wych'.⁷⁷ Ymdebygai i Yeats yn y modd y cymerai'r ddau ofal mawr dros ddiwyg eu cyfrolau; ef ei hun a luniodd glawr *Gwlad y Gan a Chaniadau Eraill* (1902). Yr oedd Jones, fel Yeats, yn edmygydd o symboliaeth Maeterlinck, ac yn wir, fel bardd symbolaidd sy'n '[c]adarnhau cyfundrefn o symbolau' y gwêl Derec Llwyd Morgan ef.⁷⁸

Yr hyn y dylid ei bwysleisio yw nad oedd Yeats yn gwbl heb elfennau o ysgolheictod yn ei waith, a bod Jones yn sicr yn ymwybodol o apêl artistri gweledol. Cynigiai'r cymysgedd hwn o ddulliau, a'r ymwybyddiaeth o wahanol ddisgyblaethau, nid yn unig gyfle i sefydlu, hybu a hyrwyddo'r canon fel naratif rhesymegol, ond hefyd i'w danseilio mewn modd chwareus a medrus. Dyma, fe ddichon, oedd amcan T. Gwynn Jones yn agos at ddiwedd ei yrfa yn 1943. Cyhoeddodd astudiaeth o farddoniaeth Llyfr Taliesin o dan yr enw 'S. O. Brédasant', a haerai ei fod yn cyflwyno gwaith a gyflawnwyd gan ysgolhaig, 'Dr. Dreistaub',⁷⁹ ac a honnai mai'r hyn a wnaethai 'Taliesin' yn y cerddi hynny oedd rhagweld cyflafan y Rhyfel Byd Cyntaf. Gwnaeth hynny yn dra medrus gan gadw at gonfensiynau ysgolheictod ffilolegol y dydd, ac yn

⁷⁶ Llywelyn ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a Chelfyddyd', *Y Traethodydd: Canmlwyddiant geni T. Gwynn Jones, 1871-1971*, CXXVI, 538 (1971), 25-6 (t. 26n).

⁷⁷ Llywelyn ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a Chelfyddyd', 25-6.

⁷⁸ Derec Llwyd Morgan, *Barddoniaeth Thomas Gwynn Jones: Astudiaeth* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972), t. 38.

⁷⁹ Enw chwareus, ac un sydd yn rhoi awgrym o natur gellweirus yr astudiaeth, gan y golyga 'Dreistaub', mewn Almaeneg, 'Tri Lluch'. Ceir awgrym amlieithog yma, wrth i Jones chwarae hefyd â phosibiliadau seinegol y gair yn Saesneg, fod awdur y gwaith mor sych â lluch.

wir, wrth ddarllen y gwaith gwelir mor hawdd y gallai'r gwaith argyhoeddi'r darlennydd lleyg.⁸⁰ Yn y cywair cellweirus ond honedig ddilys hwn, gallai T. Gwynn Jones danseilio a dadadeiladu naratif parhad llenyddol y Cymry o'r tu mewn, megis, trwy geisio argyhoeddi ei gynulleidfa fod bardd o'r chweched ganrif wedi llwyddo i ragweld a phroffwydo cyflafan yn yr ugeinfed ganrif. Manteisiodd ar genre'r canu proffwydol, 'gweledigaethol', gan ei wyrddroi i danseilio a tharfu ar naratif sefydledig, ymddangosiadol 'barhaol' y traddodiad barddol. Yma, defnyddiai awdurdod yr ysgolhaig Celtaidd i herio'r naratif cenedlaethol o'r tu mewn yn hytrach nag o'r tu allan.

Yn yr un modd, dadleua Gregory Castle y defnyddiodd Yeats yntau safle'r arlunydd er mwyn tanseilio disgwrs Celtigrwydd o safle mewnol wrth gasglu llên gwerin. 'In *The Celtic Twilight*, a subversive potential emerges within the very ambivalence that signals its indebtedness to anthropology', meddai, oherwydd '[t]he first edition included a prefatory note that revealed a desire to belong among the native Irish from whom he collected his material even as it invoked objectivity and accuracy'.⁸¹ Er hawlio dilysrwydd a gwrthrychedd wrth gofnodi'r chwedlau, dengys hefyd ddymuniad i fod ymysg ei ffynonellau drwy gredu yr hyn y maent hwythau'n eu gredu. Efallai mai dyma pryd y daw safbwyntiau cyferbyniol Yeats a Jones i'w ffocws mwyaf amlwg. Cwbl wahanol, er enghraifft, yw cyfrol ysgolheigaidd a gwrthrychol T. Gwynn Jones, *Welsh Folklore and Folk-Custom* (1930), sydd yn ceisio cynnig esboniad rhesymegol bob amser dros gredoau a hanesion. Ar y llaw arall, cyfeddyf Yeats yn agored, 'I have [...] been at no pains to separate my own beliefs from those of the

⁸⁰ T. Gwynn Jones, *Gweith Argoed Llwyvein: darganfoddiadau'r Dr. Dreistaub. Trosiad Saesneg a nodiadau beirniadol gan S. O'Bréasant* (Dulyn: Gwasg y Frân Ddu, 1943).

⁸¹ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 62.

peasantry’ yn wir, ‘[t]he reader will perhaps wonder that in all my notes I have not rationalized a single hobgoblin’.⁸² Wrth nodi sut yr aeth ati i lunio casgliad ethnograffyddol, felly, ond gan ddisgrifio’n union hefyd y modd na chydymffurfiodd â chonfensiynau’r genre, gan honni yn hytrach berthynas agos â’i oddrychau, gwelwn Yeats, yntau, yn tanseilio’r genre hwnnw. Ac eto, fel yr awgryma Sinéad Garrigan Mattar, chwarae â’r confensiynau a’r *genres* hyn mewn modd amwys a wna Yeats: ‘Yeats argued repeatedly in the same period against science and the scientific dissection of folklore’; ar yr un pryd, ‘Warwick Gould has argued in recent years, however, that when Yeats “came to despise ‘scientific’ folklore”, it was “with more than a smattering of science that he did so”’.⁸³

Drwy gydol ei yrfa, defnyddiodd Yeats dermau a chyd-destun gweledol er mwyn sicrhau fod yr arallfyd, yng ngeiriau Castle, yn ‘simultaneously this-worldly’.⁸⁴ Yn 1911, pwysleisiodd Yeats bwysigrwydd creu persona o fewn cerdd ‘to oppose the new ill breeding of Ireland, which may in a few years destroy all that has given Ireland a distinguished name in the world [...] the artist can only set up a secondary or interior personality created out of the tradition of himself’,⁸⁵ gan chwarae drachefn â safle mewnl-allanol yr adroddwr. Michael Robartes yw cymeriad canolog ‘The Double Vision of Michael Robartes’ (1919) ‘a visionary, a magician’,⁸⁶ yn ôl Norman Jeffares ac mae’r gerdd honno unwaith eto’n agor gyda disgrifiad gweledol: ‘On the grey rock of

⁸² Dyfynnir yn Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 54.

⁸³ Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival*, tt. 41-2.

⁸⁴ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 58.

⁸⁵ W. B. Yeats, ‘The Folly of Argument’, *The Manchester Playgoer*, II: I (June 1911), 2-3. NLI Papurau W. B. Yeats, MS 30,010.

⁸⁶ A. Norman Jeffares, CP t. 509n.

Cashel the mind's eye / Has called up the cold spirits' (VP 195, llau. 1-2). Y mae'r gerdd drachefn yn frith o ddisgrifiadau o weld ac o'r llygaid, a rhoddir lle canolog a blaenllaw i weledigaeth, ar draul y gwyddonol, y rhesymegol a'r bydol tiriogaeth y 'blank eyes' (ll. 5) o gymharu â llygad y meddwl. Ac eto, y mae ysfa yma i dynnu'r arallfydol hwn i mewn i'r byd modern, real, rhesymegol:

Although I saw it all in the mind's eye
There can be nothing solider till I die (llau. 25-26)

Yr hyn a welodd ac a glywodd yr adroddwr yn yr arallfyd ac yn ei ddychymyg a ddylai fod yn sail i fywyd 'solid' y byd hwn. Yr ymdrech hon sy'n teyrnasu ar ddiwedd y gerdd, wrth i'r adroddwr honni iddo gymryd 'The commonness of thought and images':

And after that arranged it in a song
Seeing that I, ignorant for so long,
Had been rewarded thus
In Cormac's ruined house. (llau. 65-68)

Y mae barddoniaeth, y gân, yn fodd o osod y gweledigaethau hyn mewn naratif. Wrth gloi'r gerdd, ceir awgrym o'r awydd, yn ddigon tebyg i'r hyn a gafwyd ar ddiwedd 'Tir na n-Og', i ail-adeiladu hen adfeilion naratif traddodiad llenyddol ei wlad.

Yn un o'i gerddi Celtaidd Saesneg eu hiaith y mae T. Gwynn Jones ar ei fwyaf gweledigaethol. Yn wir, er mwyn agor 'Eblana' (1910), defnyddir techneg y byddai W. B. Yeats ei hun yn falch ohoni; erfynir i'r llygaid gau allan yr olygfa real o flaen yr adroddwr a'i arwain at ryw fath o freuddwyd atgofus:

Shut out the light from my eyes, the pale, cold light of February

Let me think of the days of June, when I wandered in Erin the Green[.]⁸⁷

Dyma un o'r cerddi, hefyd, lle rhoddir doniau disgrifiadol T. Gwynn Jones i ddefnydd prysur. Y mae Iwerddon yn

Green as an emerald born of the restless dreams of the ocean,
Set in its vivid blue and circlet of silvery wave. (llau. 3-4)

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o'i gerddi Celtaidd Cymraeg, yn y person cyntaf yr adroddir y gerdd hon, a gellid dadlau fod yr adroddwr yn bur agos at fod ym mherson T. Gwynn Jones ei hun, gan ei fod yn cyfarch ei gyfaill, Torna, yn uniongyrchol:

Tórna and Fionn Mac Eoghain, silence was eloquent for us!
(ll. 18)

Eto fyth, nid T. Gwynn Jones sydd yma, ond fersiwn 'gweledigaethol', proffwydol ohono, o dan ei 'alter-ego', Fionn Mac Eoghain. Ceir nifer o fotiffau Celtigrwydd rhamantaidd yma nad ydynt mor amlwg yn ei ddeunydd Cymraeg. Ymysg profiadau'r ddau gyfaill y mae'r canlynol:

Beheld but the flowing robes a-heaving on bosoms of snow;
Listened to the notes of the harp, and the songs of the birds, (llau. 29-30)

Dyma'r Celtigrwydd derwyddol hwnnw nad yw'n gwbl gyfarwydd, efallai, i ddarllenwyr cerddi Celtaidd Cymraeg T. Gwynn Jones, ond sydd yn drawiadol o debyg i ieithwedd rhai o gerddi cynnar Yeats. Eto fyth, er natur weledigaethol y gerdd, ymgais a geir yma,

⁸⁷ T. Gwynn Jones, 'Eblana', *Cork Free Press*, Rhagfyr 28 1910, t. 2, llau 1-2. Y mae'r dyfyniadau sy'n dilyn yn cynnwys cyfeiriad at rif y llinell(au) yn yr argraffiad hwn.

yn fwy na dim, i osod y gweledigaethau hyn o fewn cronoleg sy'n cynnig dyfodol y gellir ei ddirnad i'r gwledydd Celtaidd. Yn frith drwy'r gerdd ceir llinellau sy'n disgrifio sut y gellir dwyn ysbrydoliaeth o'r gorffennol er mwyn rhoi gobaith i'r dyfodol:

Plunged in the wealth of the past, voices we heard from oblivion
 Chant of the glories that were, and are, and yet shall be;
 They have said we live in the past, obsessed by the glory of yore -
 Fools who see but to-day, nor know that the past and future
 Solely are boundless, that only to-day hath beginning and end (llau. 19-23)

Yma y mae Jones (neu Mac Eoghain) yn ateb yn uniongyrchol y cyhuddiad fod beirdd Celtaidd ar goll yn y gorffennol. Eto, termau gweledol a ddefnyddir yma nid yw'r ffyliaid ond yn 'gweld' y foment bresennol. Ond y modd y mae'n ateb y cyhuddiad yw drwy osod y cyfan mewn naratif cronolegol sydd ar yr un pryd wedi ei gyfansoddi o un foment 'boundless'. O fewn yr ennyd honno y mae'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol fel ei gilydd, ac unwaith drachefn fe'n hatgoffir o'r paradocs y tynnodd Castle ein sylw ato: 'the primitiveness of the Celt, defined by Arnold in terms of racial essence, is redefined as a spiritual trait that links the ancient to the modern in a continuous, timeless unity'.⁸⁸

⁸⁸ Castle, *Modernism and the Celtic Revival*, t. 51.

Casgliad

Er dychwelyd, felly, o'u hamrywiol fathau o alltudiaeth i ymwneud yn nes â'u cyfryw ddiwylliannau, parhau yn ffigyrau allanol, i raddau helaeth, a wnaethai T. Gwynn Jones a W. B. Yeats am gyfnod cymharol faith. Dichon fod gan Geltigrwydd y ddau ohonynt ran i'w chwarae yn hyn, wrth iddi olygu fod rhagor na Chymru neu Iwerddon yn unig yn ystyriaeth gan y ddau.

Ond daeth y ddau hefyd i synio am eu cyfryw Geltigrwydd mewn ffyrdd tra gwahanol. Daeth Jones dan ddylanwad Celtigrwydd ffilolegol, ieithyddol a gwyddonol y cyfandir, tra bo cefndir artistig Yeats wedi rhoi lliw a llun gweledigaethol i'w Geltigrwydd yntau o'r cychwyn cyntaf. Arweiniodd yr ymdriniaethau ysgolheigaidd ac artistig hyn, yn anochel efallai, at gadarnhau safle Jones a Yeats, er cydnabyddiaeth gynyddol ohonynt fel ffigyrau o bwys cenedlaethol, fel dau yn gwylio ac yn disgrifio o'r tu allan, y naill yn ysgolheigaidd a 'naratifol', a'r llall yn arlunydd 'gweledigaethol'.

Er hynny, yr oedd y dulliau o ddisgrifio yn amrywio. Wrth gwrs, yr oedd perthynas agos hefyd rhwng yr allanol a'r mewnol, ac yn yr un modd, amrywiai'r modd y defnyddiai'r ddau awdur y 'naratifol' a'r 'gweledigaethol', gan eu cydblethu'n aml. O gydnabod hyn, gellir gweld y modd yr ad-hawliodd Jones a Yeats safleoedd yr ysgolhaig a'r arlunydd i'w dibenion mewnol eu hunain. Deëllir hefyd nad mater syml o ymwrthod â modernedd gan ffafrio traddodiad, neu o ddianc i orffennol delfrydol, ydyw ymwneud â Cheltigrwydd yn achos y ddau awdur hyn, ond yn hytrach ymgais i ddwyn y traddodiadol i berthynas nes â'r modern, ac i arysgrifio'r gweledigaethol ar y naratifol, a *vice versa*. Trwy gymysgu'r naratifol a'r gweledigaethol, y mae Jones a Yeats hefyd yn

gallu addasu eu Celtigrwydd heb ymwrthod â'r diffiniad Arnoldaidd yn llwyr, ac felly'n gallu dilysu a chyfiawnhau bodolaeth y Celt o fewn eu diwylliannau eu hunain ac yn ehangach.

Y berthynas gymhleth hon rhwng yr hynafol a'r modern a drafodir yn y bennod nesaf hefyd, ac yn wir fe all nifer o ystyriaethau'r bennod bresennol ein cynorthwyo yn hynny o beth. Wrth drafod gwahanol fathau o ddulliau celfyddydol a'u lle yn y byd modern, dywed Walter Benjamin:

Le peintre conserve dans son travail une distance normale vis-à-vis de la réalité de son sujet – par contre le cameraman pénètre profondément les tissus de la réalité donnée. Les images obtenues par l'un et par l'autre résultent de procès absolument différents. L'image du peintre est totale, celle du cameraman faite de fragments multiples coordonnés selon une loi nouvelle. *C'est ainsi que, de ces deux modes de représentation de la réalité – la peinture et le film – le dernier est pour l'homme actuel incomparablement le plus significatif.*⁸⁹

Yn dilyn yr ystyriaeth hon o fathau gwahanol Yeats a Jones o gelfyddyd wrth ymdrin â'u Celtigrwydd, bydd y bennod olaf yn mynd i'r afael ymhellach â syniadaeth Benjamin ac eraill er mwyn ystyried lle'r dryll, a'r ddelwedd ddrylliedig, ym myd modern yr ugeinfed ganrif ac o fewn moderniaeth. Trwy wneud hynny, ceir trafodaeth hefyd ynghylch symudiadau megis Rhamantiaeth a Moderniaeth, a'u haddasrwydd wrth ystyried llenyddiaeth o fewn diwylliannau lleiafrifol.

⁸⁹ Benjamin, 'L'œuvre d'art', tt. 57-58: 'Ceidw'r arlunydd bellter yn ei waith mewn cyswllt â realiti ei destun – o gymharu â'r dyn camera sydd yn treiddio'n ddwfn i we'r gwirionedd a gyflwynir. Y mae'r delweddau a geir gan y naill a chan y llall yn ganlyniad prosesau cwbl wahanol. Mae delwedd yr arlunydd yn gyflawn, a delwedd y dyn camera wedi ei wneud o ddrylliau lluosog a ad-drefnir yn ôl cyfraith newydd. Felly, o'r ddau fodd o gynrychioli realiti – arlunio a ffilm – yr olaf yw'r mwy ystyrllon o lawer i'r dyn cyfoes.'

Pennod 5

Celtigrwydd, Ffurf, a'r Dryll

‘A coat covered with embroideries out of old mythologies’: diosg a dryllio’r Celt

Erbyn cyhoeddi’r gyfrol *Responsibilities* yn 1914, bu newidiadau mawr i ieithwedd W. B. Yeats, yn enwedig yn dilyn ei waith yn y theatr a’i ymdrech gynyddol gyson i atgynhyrchu rhythm naturiol, llafar y Gwyddelod yn ei farddoniaeth. Newidiodd yr ymdriniaeth thematig hefyd, wrth gwrs, wrth i Yeats ymbellhau oddi wrth y ‘Cyfnos Celtaidd’ ac ymddihatru o nifer o’r ffigyrau a’r deunydd chwedlonol a fu wrth ei fodd yn gynharach yn ei yrfa. Un o gerddi olaf y gyfrol yw ‘A Coat’ ([1914] VP 148), a bron y gellid synio am y gerdd hon, fel y gwna Helen Vendler, fel ‘a manifesto declaring the end of Yeats the Romantic’:¹

I made my song a coat
 Covered with embroideries
 Out of old mythologies
 From heel to throat;
 But the fools caught it,
 Wore it in the world's eyes
 As though they'd wrought it.
 Song, let them take it,
 For there's more enterprise
 In walking naked.

(llau. 1-10)

Yn gyntaf, ceir datganiad gan yr adroddwr ei fod yn ymwrthod â’r ‘old mythologies’, ac yn eu diosg. Diosgir felly y deunydd Celtaidd a fu’n gymaint ffynhonnell o ysbrydoliaeth i Yeats yn y 1890au. Oherwydd y ffordd y cymerwyd y delweddau hynny a’u llurgunio gan ddynwardwyr megis George Russell (‘A. E.’, 1867-1935), a’i ddisgyblion, yr oedd

¹ Helen Vendler, *Our Secret Discipline: Yeats and lyric form* (Cambridge, MA: Belknap Press of Harvard University Press, 2007), t. 348.

yntau'n awyddus i adael y deunydd hwnnw o'i ôl.² Dyma awgrym diymwad o'i awydd cryf i droi oddi wrth Geltigrwydd felly. Ond y mae'r ddelwedd o gôt hefyd yn awgrymu nodweddion eraill – gwnaeth yr adroddwr gôt, meddai, ar gyfer ei gân, sydd yn '[c]overed with embroideries'; dyma awgrym o glytwaith o fath, wedi ei roi at ei gilydd allan o nifer o ddarnau llai. Y mae'r ffurfiau lluosog, 'mythologies' ac 'embroideries' hefyd yn ein harwain i feddwl am nifer o ddarnau wedi eu dwyn ynghyd. Y mae'r gerdd yn gymaint am y broses o greu ac am y ffordd o ddwyn yr 'old mythologies' ynghyd ag ydyw am yr 'old mythologies' eu hunain. Gwnaeth yr adroddwr y brodwaith hwn ei hun, ac i'w ddynwardwyr y mae'n edliw nid yn gymaint y ffaith eu bod wedi dwyn y 'mythologies', ond eu bod wedi cymryd arnynt mai hwy a'u saerniodd at ei gilydd yn gôt, 'As though they'd wrought it'. Cawn ein hatgoffa o'r ymadrodd Cymraeg lle dywed bardd ei fod, neu ei bod, yn 'gweithio' cerdd. O ddiosg y gôt hon, felly, bron nad oes rheidrwydd i'r bardd daflu'r ffurf, y modd y daethpwyd â'r deunydd at ei gilydd, ymaith hefyd. Mentrodd Declan Kiberd awgrymu fod arddull, a ffurf, yn gwbl allweddol i W. B. Yeats, a bod cysylltiad agos rhwng yr elfen honno a'i Geltigrwydd hefyd; yr oedd 'the search for a national style', yn ei dyb ef, yn enghraifft o 'the purest Celticism'.³ Os dymunai ddiosg Celtigrwydd, byddai'n rhaid diosg ei arddull hefyd – ond â'r arddull honno'n greiddiol i'w estheteg, nid hawdd hynny.

² Bardd, beirniad ac arlunydd a oedd yn un o sêr cynnar yr Adfywiad Llenyddol yn Iwerddon oedd George Russell. Yr oedd ganddo ddiddordeb ysbrydol mawr mewn theosoffi, a daeth yn ddiweddarach yn destun gwawd i awduron megis James Joyce (gw. pennod Scylla a Charybdis yn *Ulysses* (1922)). Fe'i henwir, ynghyd ag un o'i ddisgyblion, James Starkey, gan N. A. Jeffares fel rhai o'r 'fools' y cyfeiria Yeats atynt (CP 551n).

³ Declan Kiberd, *Inventing Ireland: The Literature of the Modern Nation* (London: Jonathan Cape, 1995), t. 116.

Wrth ystyried y cwestiynau hyn, try Kiberd at Deleuze a Guattari.⁴ Trafodwyd eu damcaniaethau mewn perthynas â gwaith T. Gwynn Jones a W. B. Yeats eisoes yn ystod y thesis ac er y dadleuwyd na ellir derbyn eu dadl fod rhaid i lenyddiaeth ‘lai’ gael ei chreu trwy gyfrwng iaith ‘fwy’, gwelodd Kiberd fod gan rai o nodweddion ‘minor literature’ fel y’u disgrifir ganddynt berthnasedd neilltuol mewn sefyllfa ôl-drefedigaethol. Yn gyntaf, mynegir y syniad fod arddull yr un mor bwysig, os nad yn fwy pwysig, na’r cynnwys mewn cyd-destun o’r fath; o’i roi mewn geiriau eraill, fod y ffordd o fynegi rhywbeth mor bwysig â’r hyn a fynegir. Yn ymhlyg yn hynny y mae’r gydnabyddiaeth fod gwahaniaeth sylfaenol rhwng ‘content’ ac ‘expression’, ac yn wir mewn ‘llynyddiaeth lai’, yn ôl Deleuze a Guattari, rhaid cael ‘Disjunction between content and expression’.⁵ I gyrraedd y cyflwr hwn, nid yw’r hen ffurfiau o fynegiant yn foddhaol nac yn ddigonol; rhaid i’r llenor sydd yn gobeithio creu delwedd neu estheteg newydd greu mynegiant newydd hefyd. Dyna pam y ceir obsesiwn â’r modd o fynegiant mewn llynyddiaeth leiafrifol: ‘a minor, or revolutionary literature begins by expressing itself and doesn’t conceptualize until afterward’.⁶

Gwnaeth nifer o feirniaid sylwadau ar y modd y mae gweithiau T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, yn enwedig y deunydd cynnar, yn fwy llwyddiannus o ran mynegiant nag o ran eu cynnwys – hynny yw, eu bod yn ymgymryd â’r weithred o ‘fynegi’ ynghynt ac yn fwy llwyddiannus na chanfod y ‘rhywbeth i’w fynegi’. Yn *Our Secret Discipline*, cyfrol sy’n canolbwyntio ar ymdriniaeth Yeats â ffurf, dyma awgrym Helen Vendler:

Because the thematic material in the early poems is frequently thin or repetitive (even to readers familiar with the poet’s esoteric interests), we can best

⁴ Gilles Deleuze a Felix Guattari, *Kafka: Toward a Minor Literature*, cyf. Dana Polan (London: University of Minnesota Press, 1986).

⁵ Deleuze a Guattari, *Toward a Minor Literature*, t. 20.

⁶ Deleuze a Guattari, *Toward a Minor Literature*, t. 117.

understand Yeats's poetic originality in some of these poems as of a technical, more than an imaginative, order.⁷

Tebyg yw'r dybiaeth yn nadansoddiadau beirniaid megis Derec Llwyd Morgan hefyd, sydd yn nodi mai 'yn yr hen chwedlau Cymreig a Cheltaidd y cafodd [Jones] afael ar y cymeriadau a allai wneud cyfiawnder â mawredd ei themâu ac *urddas ei ieithwedd*'.⁸ Eto, cawn y teimlad fod meistrolaeth T. Gwynn Jones ar arddull a ffurf wedi ei llunio cyn iddo ganfod y deunydd a fyddai'n gweddu i'r arddull hwnnw. Yr oedd y gynghanedd a'i ffurfiau yno yn barod i'w defnyddio yn system gyflawn o fynegiant a oedd yn ddi-dor, yn gaeëdig, ac yn gwbl Gymreig. Yr un modd, gellir awgrymu fod yr hen ffurfiau clasurol ar gael i Yeats, yn bennaf drwy ddylanwad beirdd Saesneg, yn ogystal â ffurfiau mwy gwerinol megis y faled, ac y meddiannodd yntau'r rheini gan anadlu bywyd newydd iddynt drwy ei ddeunydd Gwyddelig a Cheltaidd.

Ond yn ôl Deleuze a Guattari, '[e]xpression must break forms, encourage ruptures and new sproutings. When a form is broken, one must reconstruct the content that will necessarily be part of a rupture in the order of things'.⁹ I feirdd fel T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, beirdd sydd â gafael gwbl feistrolgar ar eu cyfrwng, onid anathema yw'r syniad o dorri a dryllio'r ffurf honno wedyn? Er ei feistrolaeth arni, yn rhai o ysgrifeniadau Jones ceir ymdeimlad fod glynu at y gynghanedd a'i mesurau yn slafaidd yn gallu bod yn ormesol. Yr oedd hyn yn gysylltiedig â'r modd y defnyddid y gynghanedd yn y degawdau cyn i Jones ddechrau ysgrifennu: 'Traethodau duwinyddol [sic] wedi eu cynghaneddu ydyw'r rhan fwyaf o'n hawdlau diweddar, ac athroniaeth foel ar gân ydyw lliaws mawr o'r

⁷ Vendler, *Our Secret Discipline*, t. 90.

⁸ Derec Llwyd Morgan, *Barddoniaeth Thomas Gwynn Jones: Astudiaeth* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972), t. 29 [fy mhwyslais i].

⁹ Deleuze a Guattari, *Toward a Minor Literature*, t. 28.

pryddestau'.¹⁰ Yr oedd T. Gwynn Jones yn ymwybodol fod torri oddi wrth y rhain yn golygu nid yn unig droi oddi wrth eu deunydd a'u hymdriniaeth ohono, ond oddi wrth eu mydryddiaeth hefyd. Yn wir, digon gelyniaethus oedd rhai o'i ymosodiadau ar y gynghanedd yn ei chyflawnder. Wrth ymateb i erthygl ar 'Geidwadaeth Lenyddol y Cymry' gan y Parch. D. Adams, meddai,

Dyma gic arall effeithiol i'r gynghanedd; a phe buaswn yn cael fy mara beunyddiol drwyddi, ni fuaswn yn ddig wrth yr awdwr am ei roddi [...] Y mae y cwestiwn yn hen; y rhesymau yn erbyn y gynghanedd yn gryfion; y rhesymau o'i phlaid fel hithau, yn dioddef y ddarfodedigaeth, ond glynu wrthi wna'r beirdd Cymreig o hyd, drwy barch ofergoelus ac anwybodus tuag at ei hynafiaeth dybiedig. Tybed nad yw'r diwygiad yn agos bellach?¹¹

Dyma enghraifft nodedig o fardd ifanc yn cicio yn erbyn tresi'r genhedlaeth a ddaeth o'i flaen. Yn ddiweddarach yn ei yrfa, mwy cymedrol oedd ei farn am y gynghanedd, ond o ystyried ei weld yn gyffredinol fel un o feistri'r mesurau caeth, erys ei eiriau yn y cyddestun hwn yn bur syfrdanol. Mewn llythyr at Iorwerth Peate yn 1928, meddai:

Nid yn gymaint am ei bod yn draddodiad yr wyf i yn hoffi Cynghanedd, ond am ei bod mewn rhai amgylchiadau mor anhepgor ag yw cân ederyn neu dwf cainc ar bren. Eto, nid wyf yn malio gronyn am y Mesurau Caethion gan mwyaf, ac nid wyf, fel y mae Syr J.M.J. am gadw Cynghanedd fel yr oedd ganrifoedd yn ôl heb ddatblygu dim arni. Yr wyf yn deall yn burion hefyd nad offeryn at bob pwrpas yw Cynghanedd.¹²

Yn sicr, gellir dadlau fod y ddau awdur fel ei gilydd yn feistri ar eu dewis ffurfiau.

Amneidiodd y ddau tuag at y modd yr oedd y feistrolaeth hon yn rhan allweddol ac anhepgor o'u mydryddiaeth, bron fel pe bai'n ddibyniaeth. '[Y] mae rhyw reidrwydd

¹⁰ T. Gwynn Jones, 'Y Byd Llenyddol: Y Geninen', *Baner ac Amserau Cymru*, Hydref 26, 1892, t. 13.

¹¹ T. Gwynn Jones, 'Y Byd Llenyddol: Y Geninen', *Baner ac Amserau Cymru*, Tachwedd 2, 1892, t. 13.

¹² Llythyr oddi wrth T. Gwynn Jones at Iorwerth Peate, 1928. Dyfynnwyd yn Iorwerth Peate, 'Thomas Gwynn Jones 1871-1949', yn *Cyfres y Meistri 3: Thomas Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 173-87 (t. 178).

wrth wraidd mydr, yr un rheidrwydd ag y sydd tan fôn pob crefft',¹³ medd T. Gwynn Jones yn ei ragymadrodd i *Y Gelfyddyd Gwta*, ac i Yeats hefyd yr oedd 'arddull' mewn cyswllt agos â ffurf: '[the writer] should never be without style'.¹⁴ Ond ar yr un pryd ag arddangos meistrolaeth dechnegol, yr oeddent hefyd yn gallu tanseilio a dad-wneud ffurf o safle mewnol. Fel y dywed Vendler am Yeats, 'While working closely on all sorts of structural forms — meters, rhymes, and stanza shapes — Yeats began almost at once to subvert that formality in many ingenious ways. His use of subtraction is one of his least-noticed elaborations'.¹⁵ Y mae'r syniad o 'subtraction', o dynnu rhywbeth i ffwrdd, yn ein dychwelyd drachefn at ddatganiad Deleuze a Guattari fod rhaid i'r awdur sydd yn cyfansoddi 'llenyddiaeth lai' ddryllio a thorri ffurf.

Sonia Jones uchod am 'draddodiad' cynghanedd, ac yn wir y mae i draddodiad berthynas agos â'r dryllio hwn, fel y sylwa Seamus Deane. Pwysleisia yntau fod rhagor nag un ystyr i 'draddodiad'; gall olygu 'ildio' neu 'fradychu' yn ogystal â 'pharhad':

The Irish were therefore more inclined to think of tradition as continuity betrayed rather than continuity retained. The conviction that there had once been a traditional civilization which had been destroyed by foreign interference soon came to replace the memory of the actual past[.]¹⁶

Yn y cysyniad hwn o draddodiad, gwneir 'virtue of discontinuity', oherwydd 'fragmentation itself constitutes the only continuous experience we have'.¹⁷ Mae perthynas agos, felly, rhwng traddodiad drylliedig, wedi'i fradychu, a'r traddodiad newydd o barhad a grëir ohono: 'If tradition, in the good sense, does not exist, it is necessary to invent it, even if it means building on the ruins of tradition understood in

¹³ T. Gwynn Jones, gol., *Y Gelfyddyd Gwta: englynion a phenillion* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1929), t. 6.

¹⁴ W. B. Yeats, 'Poetry and Tradition' [1907], yn *Essays and Introductions*, gol. Georgie Yeats (London: Macmillan, 1961), t. 246-60 (t. 253).

¹⁵ Vendler, *Our Secret Discipline*, t. 94.

¹⁶ Seamus Deane, *Celtic Revivals: Essays in Modern Irish Literature 1880-1980* (London: Faber, 1985), t. 19.

¹⁷ Deane, *Celtic Revivals*, t. 18.

the bad sense as discontinuity and fracture'.¹⁸

¹⁸ Deane, *Celtic Revivals*, t. 19.

‘Gwlad y Bryniau’: awdl ddrylliedig

Yn ei erthyglau ‘Llywelyn’s Breath, Arthur’s Nightmare: The Medievalism within Welsh Modernism’¹⁹ a ‘Y Nos, y Niwl a’r Ynysig: Estheteg Fodernaidd T. Gwynn Jones’,²⁰ â Jerry Hunter ati i ddadlau y gellir synio am waith T. Gwynn Jones fel cynnyrch Modernaidd. Wrth wneud hynny y mae’n cydnabod natur amlweddog Moderniaeth, ac yn addef y gall fod nifer fawr o wahanol fathau o foderniaeth, gan goffio dyfyniad defnyddiol R. M. Jones hefyd a awgrymodd nad ‘cwbl ddwl yw honni i Gymru goginio ei “Moderniaeth” gynnill hi ei hun’.²¹ Seilir dadl Hunter ar ddwy brif ystyriaeth: yn gyntaf, fod ‘canoloesoldeb’ T. Gwynn Jones yn rhan anhepgor a chanolog o’i fath penodol ef o foderniaeth, ac yn ail, fod y ‘dryll’ neu’r ‘brithlun’ yn allweddol i estheteg y ganoloesoldeb honno. ‘Drwy roi’r lle amlycaf i’r dryll yn hytrach na’r cyfanwaith’, medd Hunter, ‘y mae celfyddyd fodernaidd yn canoli sylw ar adfeiliad ac ymddrylliad undodau seicolegol, ysbrydol a chymdeithasol’.²²

Cyfeiria Hunter at waith Walter Benjamin, ac yn benodol at ei syniadau am Alegori a Thrasiedi.²³ Yno y gwyntyllodd Benjamin gyntaf ei gred fod y ‘dryll hollystyrlon’, cyfieithiad Hunter o ‘das hochbedeutende Fragment’, yn ganolog i foderniaeth.²⁴ Dilynodd Hunter waith Derec Llwyd Morgan hefyd, a dynnodd sylw ac a bwysleisiodd honiad Jones yn ei ragair i *Caniadau* mai ‘brithluniau dychymyg y canrifoedd’ ydoedd deunydd ei gerddi, fel modd o fynd ati i gymhwyso rhai syniadau am y ‘dryll’ i’w waith. Canolbwyntiodd Hunter ar gerddi megis ‘Ymadawiad Arthur’ (1902),

¹⁹ Jerry Hunter, ‘Llywelyn’s Breath, Arthur’s Nightmare: The Medievalism within Welsh Modernism’, *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 53/54 (Haf/Gaeaf, 2007), 113-132.

²⁰ Jerry Hunter, ‘Y Nos, y Niwl a’r Ynysig: Estheteg Fodernaidd T. Gwynn Jones’, *Taliesin*, 98 (Haf 1997), 37-54.

²¹ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936* (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 1987), t. 569.

²² Hunter, ‘Y Nos, y Niwl a’r Ynysig’, 41.

²³ Walter Benjamin, ‘Allegory and Trauerspiel’, yn *The Origin of German Tragic Drama*, cyf. John Osborne (London: NLB, 1977), u. 159-252.

²⁴ Hunter, ‘Y Nos, y Niwl a’r Ynysig’, 39-44.

‘Argoed’ (1927), ‘Tir na n-Og’ (1910), ‘Madog’ (1918) a ‘Cynddilig’ (1935), ac mae’r ddwy astudiaeth yn rhai tra chynhwysfawr sydd yn cwmpasu cyfnod cymharolfaith yn natblygiad celfyddydol cerddi Jones. Mae’r holl gerddi a grybwyllir gan Hunter yn rhai y gellir synio amdanynt fel rhai ‘Celtaidd’, hefyd, mewn rhyw fodd neu’i gilydd, a hynny efallai oherwydd ei ddadl fod canoloesoldeb Jones yn greiddiol i’w foderniaeth.

Ymdriniaeth thematig yw astudiaeth Hunter yn bennaf, ac un o’r delweddau a ddaw i’r amlwg yw marwolaeth, y broses ddynol o ddrylliedigaeth. Y mae Arthur yn ‘Ymadawiad Arthur’ yn ‘tynnu sylw at y broses o droi’n gelain’,²⁵ ac Osian yn ‘Tir na nOg’ yn ‘troi’n ddryll dynol o flaen ein llygaid’.²⁶ Canlyniad hyn, yn ôl Hunter, yw fod y ddelwedd yn ‘gweithio law yn llaw ag alegori i ganoli sylw ar yr adfail a’r dryll’.²⁷

Myfyrdodau a geir yma, felly, ar ‘y darlun o gymdeithas ddrylliedig’, sydd ‘ar yr un pryd yn tynnu sylw at y ffaith mai drylliedig yw hanes Cymru’.²⁸ Ond fel y sylwodd Declan Kiberd wrth ymdrin â gwaith W. B. Yeats, nid tynnu sylw, tanlinellu a phwysleisio’r dadfeilio neu’r heneiddio hwn yn unig a wnaed, ond ei gofleidio: ‘The ageing process might be welcomed, as a reminder that apparently lost moments were redeemable’ oherwydd y posibilrwydd y gellid cofleidio o’r newydd, gan genhedlaeth newydd, ‘images from the past, uttered and then lost by one social group’.²⁹ Rhaid meddwl am yr artist modernaidd, felly, fel ‘[an] artist who conspires with the process of time’s decay’,³⁰ yn hytrach nag un sydd yn myfyrio arno ac yn ei alaru, oherwydd mai dyna’r cyflwr

²⁵ Hunter, ‘Y Nos, y Niwl a’r Ynysig’, 46.

²⁶ Hunter, ‘Y Nos, y Niwl a’r Ynysig’, 48.

²⁷ Hunter, ‘Y Nos, y Niwl a’r Ynysig’, 49.

²⁸ Hunter, ‘Y Nos, y Niwl a’r Ynysig’, 49.

²⁹ Declan Kiberd, *Irish Classics* (London: Granta, 2000), tt. 454-5.

³⁰ Kiberd, *Irish Classics*, t. 455.

delfrydol ar gyfer creu o'r newydd: '[u]he more ruinous the tower seems, the more it becomes the site of breeding, fecundity and creation'.³¹

'Gwlad y Bryniau' (1909), efallai, yw'r gerdd fwyaf diddorol i'w hastudio yn nhermau dechreuad drylliedigaeth esthetaidd T. Gwynn Jones, ac o ran ei gyfuniad unigryw Geltaidd o'r Rhamantaidd a'r Modernaid. Y mae'n wir fod llawer o ieithwedd a disgrifiadau'r awdl yn dra rhamantaidd, ond o edrych yn nes ar y disgrifiadau niferus o dirwedd a geir yn y gerdd yng ngolau'r hyn a ddywedodd Jones ei hun amdanynt, gwelwn eu bod hefyd yn rhai drylliedig:

Y gwir yw na ddisgrifiais i erioed olygfa ond a welais ni chwbl ddisgrifiais olygfa erioed. Byddaf yn cymysgu, ond rhaid mi gael deunydd a welais a'm [sic] llygaid. Felly y mae 'Gwlad y Bryniau' yn llawn o gymysgedd. O gwmpas Caernarfon y mae'r olygfa yn bennaf, wrth gwrs.³²

Cawn enghreifftiau o wahanol leoliadau yr Wyddgrug, Hen Golwyn a rhwng Caernarfon a'r Waunfawr sydd yn gefndir, neu'n ysbrydoliaeth, i wahanol rannau o'r gerdd.³³ O dderbyn tystiolaeth yr awdur ei hun, felly, gwelwn natur ddrylliedig y tirluniau hyn.

Rhaid cofio, hefyd, mai'r hydref oedd y tymor mawr a ysbrydolai T. Gwynn Jones.³⁴ Marwolaeth, dirywiad a drylliad natur a geir yn yr hydref; fel y nododd Benjamin am awduron baroc, 'nature was not seen by them in bud and bloom, but in the over-ripeness and decay of her creations'.³⁵ Ymhyfrydu yn nrylliad a darfodedigaeth natur y mae'r adroddwr gyda llinellau fel 'Ni bu dail y coed erioed mor wridog / Yn marw o oed

³¹ Kiberd, *Irish Classics*, t. 457.

³² Dyfynnwyd yn TGJ, 204.

³³ TGJ, 204-5.

³⁴ Gwneir y cysylltiad angenrheidiol rhwng yr hydref a drylliedigaeth yr hunan a'r corff gan Yeats ei hun, a ysgrifennodd erthygl ar 'The Autumn of the Body'. Ynddo eglurodd mai gwell ganddo'r term hwnnw, 'the autumn of the body', dros yr hyn a elwid gan eraill yn 'decadence'. Yr oedd ymhyfrydu mewn drylliad o'r fath yn estyn yn ôl, felly, i'r 1890au yn achos Yeats. W. B. Yeats, 'The Autumn of the Body' (1898), yn *Essays and Introductions*, gol. Georgie Yeats (London: Macmillan, 1961), t. 189-94.

³⁵ Benjamin, 'Allegory and Trauerspiel', t. 179.

‘ydoedd mor odidog’ (C tt. 35-59, t. 35, llau. 13-4), a chymer y ‘marwydos’ yn y ‘r[h]edyn lliw marwydos’ (t. 42, ll.10) arwyddocâd newydd yn y golau hwn oherwydd y farwolaeth sydd fel pe bai yn ymhlyg yn y gair. Gall yr olwg hon ar natur ein hatgoffa o’r hyn a ddywedodd T. S. Eliot, y Modernydd Eingl-Americanaidd *par excellence*, ond odid, am draddodiad:

We become conscious of these items [h.y. yr ‘habitual actions, habits, and customs’ sydd yn cyfuno i ffurfio traddodiad] or conscious of their importance, usually only after they have fallen into desuetude, as we are aware of the leaves of a tree when the autumn wind begins to blow them off – when they have separately ceased to be vital.³⁶

Yn eu drylliedigaeth y daw delweddau’r gorffennol yn amlwg ac yn ddefnyddiol, ac nid oes un gerdd hir arall o eiddo T. Gwynn Jones sydd yn blaendirio hynny i’r un graddau â ‘Gwlad y Bryniau’. Lle cymer y lleill un chwedl, hanes, neu destun yn unig fel ffynhonnell neu gefnlen, rhennir ‘Gwlad y Bryniau’ yn bedair adran, ac ar ddechrau pob adran rhoddir dyfyniad o waith canoloesol gwahanol. Ceir dyfyniadau o *Gereint fab Erbin*, a chan Ddafydd ap Gwilym a Gerallt Gymro, a chymerir delweddau penodol o’r ‘drylliau’ hynny fel sail i naratif y caniad. Dyfynnir *Englynion y Beddau* ar ddechrau caniad ‘Rhyfel’ (t. 42). Y mae’r dyfyniad yn berthnasol yng nghyd-destun y caniad gan ei fod yn arwydd o natur ddinistriol rhyfel, ond hefyd yng nghyd-destun yr awdl gyfan gan ei fod yn symbol gwell na’r un, ond odid, o ddrylliedigaeth testunau llenyddol Cymraeg. Fel y sylwodd Jerry Hunter wrth drafod ‘Madog’, ‘Gan ei bod yn ymddangos fel ymdrech i lenwi bwlech mewn cronicl hanesyddol drylliedig gyda naratif ffuglennol, y mae’r gerdd ar yr un pryd yn tynnu sylw at y ffaith mai drylliedig yw hanes Cymru’.³⁷ Gellir cysylltu hyn â rhan arall o brosiect Celtaidd T. Gwynn Jones, oherwydd wrth gyfieithu cerddi o’r Wyddeleg i’r

³⁶ T. S. Eliot, ‘Tradition’, yn *Selected Prose* (Middlesex: Penguin Books, 1953), tt. 20-21 (t. 20).

³⁷ Hunter, ‘Y Nos, y Niwl a’r Ynysig’, 49.

Gymraeg, pwysleisiodd yn gyson fod modd dysgu oddi wrth y gweithiau hynny am y bylchau yn hanes a llenyddiaeth Cymru.³⁸ Yr un modd i Yeats, a ddywedodd ‘The literature of ancient Ireland is a literature of vast, half-dumb conceptions’.³⁹ Yr oedd cofio hyn, wedyn, yn gwbl hanfodol wrth ddod i gyfansoddi gwaith gwreiddiol: ‘The dead spirits one embraced should always be those which filled whatever gaps were to be found in the present’.⁴⁰

Wrth ysgrifennu am ‘Gwlad y Bryniau’, methodd Thomas Parry â gweld llawer o gysylltiad rhwng y gwahanol adrannau hyn; wrth sôn am y trydydd caniad, er enghraifft, tybia nad ‘oes iddi ddim perthynas â gweddill yr awdl’, gan ddod i’r casgliad canlynol: ‘I ni erbyn heddiw ymddengys y dull hwn o ganu’n artiffisial hollol’.⁴¹ Ond y mae’n cydnabod hefyd y gall y dull hwn ‘arwain dynion i fyd newydd’.⁴² Er mwyn i estheteg o’r fath weithio, yn ôl Benjamin, rhaid i’r dryll dynnu sylw ato’i hun fel dryll, a rhaid i’r awdur gydnabod mai dwyn darnau ynghyd y mae:

The writer must not conceal the fact that his activity is one of arranging, since it was not so much the mere whole as its obviously constructed quality that was the principal impression which was aimed at. Hence the display of craftsmanship, which [...] shows through like the masonry in a building whose rendering has broken away.⁴³

Profiad Thomas Parry o ddarllen yr awdl, felly, yw’r profiad delfrydol; y mae’n gwbl angenrheidiol i’r bardd ddangos mai traddodiad drylliedig yw’r un y mae’n ymdrin ag ef. Os yw’n gyflawn, y mae hefyd yn orffenedig, a rhaid ei adael. Yr un modd i Yeats, yn ôl

Declan Kiberd:

³⁸ Gweler, er enghraifft, ei sylw yn *Awen y Gwyddyl* (Cardiff: Educational Publishing Co., 1923), lle dywed mai ‘[ll]enyddiaeth gynnar y Gwyddyl yw’r unig beth a rydd i ni adlais o feddwl a chreffft lenyddol ein hynafiaid Celtig yn y cyfnod cyn eu dyfod tan ddyllanwad Rhufain’ (t. 1).

³⁹ W. B. Yeats, ‘Bardic Ireland’ (1890), yn UP1, tt. 162-6 (t. 165).

⁴⁰ Kiberd, *Irish Classics*, t. 459.

⁴¹ Thomas Parry, ‘Awdl “Gwlad y Bryniau”’, yn *Cyfres y Meistri: T. Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym, (Llandybïe: Christopher Davies, 1982), tt. 410-20 (t. 411).

⁴² Parry, ‘Awdl “Gwlad y Bryniau”’, t. 411.

⁴³ Benjamin, ‘Allegory and Trauerspiel’, t. 179.

an achieved, smoothly transmitted and confident culture would have been an oppression to Yeats, for it would have marked the end of a tradition. All that could be handed over of that would have been a beautiful, mummified corpse. Better by far to have a troubled passing-on of a broken but still breathing thing.⁴⁴

Y mae drylliedigaeth y traddodiad hefyd yn dangos ei fod eto'n fyw, a bod modd ei ddefnyddio drachefn. Fe'n hatgoffir yma o ddatganiad T. Gwynn Jones ei hun wrth '[b]wy bynnag a ryfygo ganu ar ryw hen chwedl a adroddwyd eisoes' y '[d]ylai fod ganddo ryw ystyr newydd i'w rhoi ar yr hen ystori neu ffordd newydd o'i hadrodd'.⁴⁵

Y newydd-deb hwn a bwysleisir yn y pedwerydd caniad, 'Dadeni'. Erys arlliw o Ramantiaeth; y mae tinc gothig i'r storm sydd yn berwi drwy'r canu, ac mae'r castell lle gosodir yr olygfa hefyd yn ddarniog, oherwydd 'balch ac oer oedd y bylchog geirydd' (t. 56, ll. 5). Ceir araith yma gan ffigur nas enwir yn gresynu'r holl ormes a ddioddefodd 'Gwlad y Bryniau'.⁴⁶ Ceisiodd y Rhufeiniaid a'r Saeson ladd y bobl a'r iaith, ond 'Tithau a'th ramant weithion a'i meddwaist, / Oni liwiaist y byd â'th chwedleuon' (t. 58, llau. 23-4). Yr oedd rhamant, felly, yn arf pwysig rhag gormes. Wrth iddo orffen ei araith, clywir taran yn 'Torri'n llaes' (t. 59, ll. 6), a thrwy hynny y mae diwedd y gerdd yn llawn drylliedigaeth: 'ebrwydd rwygwyd wybren', ac 'ymwasgaru / A wnaeth y dorf' (t. 59, llau. 13, 15-6). Y mae'r gwyll 'Yn drist oer dros y tyrau' hefyd (t. 56, ll. 5), a dyma ychwanegu'r adfail gothig i'r darlun; yn wir, mewn castell y llefarwyd yr araith, a hwnnw, o gofio disgrifiad blaenorol ohono, yn un lled ddrylliedig. Er y bylchau, arhosant yn falch, a dyna hefyd fyrdwn y llinellau clo:

⁴⁴ Kiberd, *Irish Classics*, t. 453.

⁴⁵ T. Gwynn Jones, dyfynnwyd yn TGJ, t. 228.

⁴⁶ Diddorol yw nodi i T. Gwynn Jones seilio'r olygfa hon ar araith a glywodd yng Nghastell Caernarfon yn ystod y Gyngres Geltaidd yn 1904, fel y mae R. I. Aaron yn ei nodi. 'Arglwydd Castletown oedd y gŵr', yn ôl nodiadau Jones, ac fe dorrodd taran wrth iddo siarad hefyd. Os yw'r disgrifiad yn y gerdd yn un ddramatig a rhamantaidd, felly, a yw'r ffaith i'r pethau hyn ddigwydd mewn gwirionedd yn rhoi elfen fwy real a chyfoes i'r gwaith? Gw. R. I. Aaron, 'Nodiadau T. Gwynn Jones ar *Caniadau*', yn *Cyfes y Meistri: Thomas Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym (Llandybie: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 301-8 (tt. 303 a 305).

Ysbryd gwlad, os bradog lu
 Cas lwyth fu'n ceisio'i lethu,
 Iddo, trwy hyn, ni ddaw tranc,
 Heb ddiwedd y bydd ieuanc! (t. 59, llau. 21-4)

Daw cyflawnder a bywyd 'ysbryd gwlad' ieuanc i'r amlwg yn sgil rhwygo'r awyr a gwasgaru'r dorf o adfail y castell. Darlun gothig, rhamantaidd a thra anghynnil ydyw, ond y datganiad mwyaf uniongyrchol, fe ddichon, o'r modd y gellir creu undod newydd o'r dryll. Gwerthfawr drachefn yw nodi geiriau Kiberd am Yeats: 'What gave him the courage to record the collapse of one civilisation was his confidence that such an account would be the very basis of its successor'.⁴⁷ Pwysleisir y gwrthdroad hwn o farwolaeth i fywyd drwy'r defnydd o'r ansoddeiriau negyddol 'difarw' a 'didranc' (t. 57, llau. 21-2), yn hytrach na 'byw' neu 'bywiog'.

Fel yr awgrymwyd uchod, nid hawdd yw ystyried y gerdd hon fel un fodernaidd, er ei defnydd aml o ddrylliau, a rhaid cofio, fel y mae Hunter yn ei addef tua diwedd ei erthygl, 'fod y ddelwedd hon [sef y dryll] hefyd yn rhan bwysig o gynhysgaeth gelfyddydol Rhamantiaeth', yn ogystal â Moderniaeth. Awgrymodd Hunter na 'raid anesmwytho wrth ganfod cydfodolaeth Rhamantiaeth a Moderniaeth' yng ngwaith T. Gwynn Jones.⁴⁸ Yn wir, y mae cydnabod y gydfodolaeth honno yn beth dilys a gwerthfawr, oherwydd gellir canfod arlliw yr un mor gryf o'r dryll Rhamantaidd â'r dryll Modernaidd yn ei waith. Gwahaniaetha Anne Janowitz, er enghraifft, rhwng y ddau fath o ddryll:

the Romantic fragment poem, usually presented as a *partial whole* – either a remnant of something once complete and now broken or decayed, or the beginning of something that remains unaccomplished – is the precursor form to the modernist fragment poem, which, as in T. S. Eliot's *The Wasteland*, or Ezra

⁴⁷ Kiberd, *Irish Classics*, t. 460.

⁴⁸ Hunter, 'Y Nos, y Niwl a'r Ynysig', 51.

Pound's *The Cantos*, or Louis Zukofsky's *A*, is structured as a *whole made of fragmentary parts*[.]⁴⁹

Cymhlethir hyn i raddau gan ddiffiniad Hunter, a haera nad 'darlun o fyd organig cyflawn a welir mewn llenyddiaeth fodernaidd gan mwyaf, eithr cipolwg niwlog ar fyd drylliedig'.⁵⁰ Ond gall fod yn ddefnyddiol i ystyried pa un o'r diffiniadau hyn sydd agosaf at ddryll Jones a Yeats. Gellid dadlau, er enghraifft, y gellir canfod yr '*whole made of fragmentary parts*' fel sail adeiladwaith *The Wanderings of Oisín*, a 'Tir na nOg', ond mai'r '*partial whole*', y '[S]omething once complete and now broken or decayed', yw'r dryll a gyflwynir fel delwedd ganolog y clo, sef cartref Osian/Oisín. Yn hyn o beth, gwahaniaetha Janowitz rhwng 'a ruin and a fragment. The crucial difference is that between a temporal and spatial construct'.⁵¹ Hynny yw, wedi ei drawsnewid o rywbeth cyflawn dros amser y mae'r adfail, tra bo'r dryll yn 'simply part of a whole'.

Y mae synio am y dryll fel rhywbeth Rhamantaidd yn ogystal â Modernaid hefyd yn fodd o sylwi ar ei gysylltiad â Cheltigrwydd, oblegid awgryma Anne Janowitz y gellir olrhain yr arfer o greu gweithiau 'drylliedig' yn ôl at ffugiadau llenyddol y ddeunawfed ganrif, ac yn benodol at gerddi Ossianaidd James Macpherson.⁵² Y mae'n ddiddorol synio am waith 'Celtaidd' fel un o seiliau gwreiddiol y dryll Rhamantaidd, oherwydd cyfyd y posibilrwydd o ddadlau fod Celtigrwydd wedi ei eni o ddrylliedigaeth, a bod y dryll Rhamantaidd yn ei dro wedi ei eni o Geltigrwydd. O ddeall natur gylchol y berthynas hon, gellir amgyffred natur gylchol perthynas ein beirdd ninnau â ffurf, ac â'r dryll. Awgrymir fod eu Celtigrwydd yn cyfuno nifer o elfennau 'Rhamantaidd' a 'Modernaid'; mewn geiriau eraill, annigonol o fewn *milieu* y 'Celt' yw termau a

⁴⁹ Anne Janowitz, 'The Romantic Fragment', yn *A Companion to Romanticism*, gol. Duncan Wu (Oxford: Blackwell Publishing, 1999), tt. 442-51 (t. 442).

⁵⁰ Hunter, 'Y Nos, y Niwl a'r Ynysig', 42.

⁵¹ Janowitz, 'The Romantic Fragment', t. 444.

⁵² Janowitz, 'The Romantic Fragment', t. 443.

ddefnyddir i ddisgrifio nodweddion ym mhrif ffrwd llenyddiaeth Ewropeaidd, oherwydd y modd y mae'r Celt ar yr un pryd oddi mewn ac oddi allan i'r traddodiad hwnnw. Y mae gan y Celt hwn olwg eang ar hanes hefyd. Manteisia'r dryll Celtaidd ar wahanol fathau o ddryll, gan ei fod ar unwaith yn addef ei ddrylliedigaeth, ei ddadfeiliad ac, yn wir, ei natur anghyflawn, ond ar yr un pryd yn cydnabod, ac yn dathlu, posibiladau'r ddrylliedigaeth honno fel gofod newydd i ail-adeiladu.

Fel yr awgrymwyd eisoes, ymdriniaeth thematig, yn bennaf, yw ymdriniaeth Hunter, ond honna Terry Eagleton fod cysylltiad annatod rhwng drylliedigaeth a marwolaeth yng ngherddi Yeats, a ffurf: 'Death in Yeats is a question of form'.⁵³ Awgryma Hunter y '[g]allwn synio am gerddi hirion diweddar T. Gwynn Jones fel "awdlau modernaidd" o safbwynt eu mydryddiaeth"' hefyd,⁵⁴ ac y mae'n ymhelaethu ar hynny drwy nodi mesur 'Madog', *vers libre* 'Cynddilig', a 'Gwlad y Bryniau':

Even as early as 1902, he used a hybrid form of one traditional metre, and seven years later, in writing *Gwlad y Bryniau* he used as that poem's metrical backbone a new, eight-line stanza fashioned out of two traditional metres.⁵⁵

Yn sgil hyn oll, awgryma Hunter ein bod yn ystyried 'Madog' a 'Cynddilig' 'as "modernist awdlau", poems which owe something to John Morris-Jones's affirmation of the medieval tradition, but which have also moved into the new territory of formal experimentation'.⁵⁶ Nid taith mewn un cyfeiriad tuag at farddoniaeth gwbl ddi-strwythur (pe bai'r fath beth yn bosibl) oedd diben y dryll yn estheteg Jones, fodd bynnag, ond cyfle i greu o'r newydd o hen ddrylliau. Yn hyn o beth, dechreuwn symud at ymwybyddiaeth o estheteg Jones a Yeats fel rhyw ddianc a dychwelyd cylchol at ffurf. Er

⁵³ Terry Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', yn *Crazy John and the Bishop* (Cork: Cork University Press, 1998), tt. 273-95 (t. 293).

⁵⁴ Hunter, 'Y Nos, y Niwl a'r Ynysig', 39.

⁵⁵ Hunter, 'Llywelyn's Breath', 121.

⁵⁶ Hunter, 'Llywelyn's Breath', 121.

mai pwyslais thematig sydd i astudiaeth Hunter o'r dryll yng ngwaith Jones, felly, odid nad deillio o ddrylliad ffurfiol y mae drylliad thematig: 'what begins as a historical fashion for antiquities with a particular structural form of fragmentariness becomes a poetic concern of thematic as well as spatial dimensions'.⁵⁷

Y mae hyn yn sicr yn wir yn achos 'Gwlad y Bryniau'. Nid prif adeiledd yr awdl, a'i modd o gynnwll 'drylliau' traddodiad at ei gilydd yw'r unig fath ar ddryllio a geir yn yr awdl, ond o fewn adeiladwaith penillion unigol hefyd. Defnyddir yn gyson strwythur sydd yn gyfuniad o bedair llinell o gywydd a hir-a-thoddaid i greu pennill newydd:

A haen ledrith niwl hydref
Yn hug rhwng daear a nef,
Ag ambr wawl dros gwm a bryn
Trwyddo fal gwrid rhuddfelyn,
Hyd ymyl werdd drwy y coed y cerddais,
Mwynhau segurddydd, im nis gwaherddais,
Deuwell im oedd wrando llais yr adar
Na garw drydar gwŷr y dre a edais.⁵⁸ (l. 35, llau. 1-8)

Ar adegau, ceir rhannau ar ffurf cywydd ar ei ben ei hun, a darnau eraill yn hir-a-thoddeidiau ar eu pennau eu hunain. Gellir ystyried y ddau ffurf hyn, felly, fel blociau adeiladu sylfaenol yr awdl, ond mwy diddorol na defnydd unigol y mesurau hyn yw y modd y'u defnyddir mewn cyfuniad â'i gilydd. Dyma strwythur sydd yn fodd i gyfosod dau lais neu gywair. Yn y pennill cyntaf, er enghraifft, a ddyfynnir uchod, gellir synhwyro newid cywair cynnil rhwng y darn cywydd a'r hir-a-thoddaid. Disgrifiad cwbl amhersonol a geir yn y pedair llinell gyntaf, ac yna cyflwynir y 'myfi', yr hunan, yn yr ail ran. Gwrthbwyntir harddwch llonydd a thawel byd natur y cywydd â phrysurdeb a 'garw

⁵⁷ Janowitz, 'The Romantic Fragment', t. 445.

⁵⁸ Y mae Jerry Hunter ac R. M. Jones ill dau yn adnabod y mesur hwn fel 'gwawdodyn byr (deg sillaf)'. Gellir olrhain hyn yn ôl i bennod R. M. Jones, 'Mawrion T. Gwynn Jones'. Ond gellid dadlau y gwna swy o synnwyr i'w alw'n hir-a-thoddaid, gan mai deg sillaf a geir ymhob llinell yn y mesur hwnnw, a bod y nifer o linellau a ddaw cyn y toddaidd ymhob pennill yn gallu amrywio. R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 1987), 130.

drydar' dynol y dref yn yr hir-a-thoddaid. Odid nad oes modd synhwyro, hefyd, wrth osod yr hir-a-thoddaid yn syth ar ôl y cywydd fel hyn, rhyw godi tempo neu gyflymu sydyn, swyddogaeth sydd ychydig yn wahanol i urddas cyson, araf, arferol mesurau fel y gwawdodyn a'r hir-a-thoddaid. Fel y sylwodd Stephen J. Williams wrth drafod 'Tir na nOg', 'fe gyll yr hir-a-thoddaid arafwch a thrymder ei gerddediad' yn nwylo Jones.⁵⁹ Y mae sioncrwydd i'r llinell sydd yn debyg i sioncrwydd cerddediad yr adroddwr.

Gellir ystyried rhai o'r penillion gwrthbwyntiol hyn fel ymgorfforiad o dyndra neu wrthdaro mewdol sydd yn tynnu'r adroddwr o'r naill gyfeiriad i'r llall. Y mae gan 'Gwlad y Bryniau' rywfaint o ddyled i draddodiad yr 'aisling' Gwyddelig, lle'r arweinir yr adroddwr ar daith, neu y dangosir rhyw fath o weledigaeth iddo neu iddi, o fewn breuddwyd. Wrth i'r awdl fynd rhagddi, datblygir y naratif ar y mesur hwn. Disgrifia'r adroddwr gyflwr lle mae'n 'hanner mwyn hunaw' a 'braidd fel mewn breuddwyd'. Manteisir ar y mesur i gyfleu deuoliaeth y cyflwr hwnnw. 'I wrandaw y sŵn, chwyrn neidiais innau' (t. 36, ll. 25), dywed, mewn enghraifft brin o bennill lle daw'r hir-a-thoddaid yn gyntaf, bron fel pe bai wedi ei droi ar ei ben. Ond yn ail ran (cywydd) y pennill, 'Sefais, edrychais hir dro' (t. 37, ll. 4). Dywed yn llinell olaf y pennill, 'ag un olwg ni welwn' (t. 37, ll. 6), ac mae amwysedd y gystrawen yn ddiddorol yma. Ai 'ni allai unrhyw olwg fod o gymorth i mi weld', a olygir, ynteu 'nid oedd un olwg yn ddigon rhaid oedd wrth ddwy'? Digon posibl y cynhwysir y ddau ystyr o fewn yr un llinell, ond o dderbyn yr ail gwelwn y modd y defnyddir dau 'ddryll' o bennill a'u gwahanol safbwyntiau i gyfleu'r pendilio rhwng y cwsg a'r effro, a safle amwys yr adroddwr rhwng deufyd.

⁵⁹ Stephen J. Williams, 'Y Gynghanedd a Chanu Rhydd T. Gwynn Jones', yn *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym (Llandybie: Gwasg Christopher Davies, 1982) tt. 279-85 (t. 281).

Yeats a'r 'wandering foot'

Y teimlad a geir yn aml wrth ddarllen cyfrol dreiddgar Helen Vendler, *Our Secret Discipline*, yw'r modd yr erys W. B. Yeats ar un llaw yn fydryddwr traddodiadol drwy gydol ei yrfa, gan gadw at yr un ffurfiau a gwrthod troi at y *vers libre*, yr hyn a elwid ganddo, yn ôl Ezra Pound, yn 'fesur y diafol'.⁶⁰ Ar y llaw arall ceir ymdeimlad yma hefyd o fardd sydd yn arbrofi o fewn mesurau penodol. Un ffordd hynod effeithiol sydd gan Vendler o ddangos y datblygiad hwn yw ei harchwiliad o ddefnydd Yeats o'r soned, gan gymharu y soned gyntaf o'i eiddo i gael ei hargraffu â'i soned olaf. Efallai na ddylid synnu, meddai, at y gwahaniaeth rhwng y ddwy soned, ond yn hytrach at y ffaith fod Yeats wedi llwyddo i ddal ati â'r un hen fesurau drwy gydol ei yrfa o gwbl:

Critics sometimes ask whether Yeats was the last of the Victorians or the first of the Modernists. In his sonnet practice, certainly, he left no aspect unscrutinized in his modernizing of the genre. Like all the best Modernists, he disturbed forms without entirely abandoning them.⁶¹

Arbrofi mydryddol Yeats o fewn ffiniau mesurau penodol sydd yn rhoddi iddo ei lwyddiant ac yn ei godi uwchlaw beirdd eraill ac, efallai, yn ei osod gyda'r modernwyr. Ond sut y gellir gweld y broses hon o arbrofi yng ngweithiau eraill Yeats?

Ail gerdd y gyfrol *Responsibilities* yw 'The Grey Rock' ([1913] VP 119), cerdd hir mewn tetramedr gweddol reolaidd sydd yn symud rhwng cwmniaeth gynnar Yeats, y 'Rhymers' Club' yn y Cheshire Cheese yn Llundain, a hanes hŷn am Murchadh, mab Brian Boru, a fu'n ymladd yn erbyn y Daniaid. Y mae yma, felly, rai nodweddion cyfarwydd; cyfosodir hanes neu chwedl hynafol â chyfnod llawer mwy diweddar, y ddau yn gyfnodau 'Celtaidd' yn eu ffyrdd gwahanol eu hunain. Rhydd y cyfosod a'r symud

⁶⁰ Ezra Pound, 'The Later Yeats: *Responsibilities* by W. B. Yeats', *Poetry*, 4: 2 (May, 1914), 64-69 (t. 65). '[H]e has nothing against them (les Imagistes), at least so far as I know — except what he calls "their devil's metres."'

⁶¹ Vendler, *Our Secret Discipline*, t. 181.

hwn yn ôl a blaen ynddo'i hun ymdeimlad 'drylliedig' a thameidiog i'r gerdd, ond ar yr un pryd â synnwyr o barhad hefyd, wrth i'r criw fu'n yfed eu gwin yng ngoruwchystafell y dafarn yn Llundain ymdoddi i olygfa'r wledd yn Slievenamon. Gallai'r gerdd hon hawlio'i lle yn weddol rwydd gyda chynnyrch *In the Seven Woods* (1904) a hyd yn oed *The Wind Among the Reeds* (1899). Ond ceir rhagargoel ynddi hefyd o'r newid drastig sydd ar droed yn y gyfrol. Disgrifir Murrough (Murchadh) a'i fyddin yn wyneb y Daniaid:

Foot after foot was giving way,
 He and his best troops back to back
 Had perished there, but the Danes ran,
 Stricken with panic from the attack
 The shouting of an unseen man;
 And being thankful Murrough found,
 Led by a footsole dipped in blood
 That had made prints upon the ground[.] (llau. 72-79)

Yn ddiddorol, mae'r llinellau o amgylch y ddelwedd hon yn rhai neilltuol o afreolaidd, yn enwedig y cymal 'but the Danes ran', bron fel pe bai'r rhythm yn rhedeg i ffwrdd gyda hwynt. Y mae'r amrywiadau cyfnewidiol i'r 'droed', y *foot* iambig yma yn cyferbynnu'n drawiadol â rhythm cyson y rhan pan fo'r adroddwr yn cyfarch ei gyfoedion:

*We should be dazed and terror-struck,
 If we but saw in dreams that room,
 Those wine-drenched eyes, and curse our luck
 That emptied all our days to come.* (llau. 37-40)

Gadawodd y 'footsole dipped in blood' ei ôl ar y ddaear. Y mae'r llinell 'Foot after foot was giving way' ei hun yn tynnu sylw'r darllenydd at yr ailadrodd, ac at bendantrwydd y ddwy droed yn disgyn, ac y mae hefyd yn ddisgrifiad addas o'r newid hwn yn y rhythm, bron fel pe bai'r rhythm cyson yn rhoi neu'n agor ffordd i ddirywiad mydryddol tua'r diwedd. Eto, y mae'r dirywiad hwn yn cyd-fynd â dadfeiliad dynol, wrth i Dubhlaing

wrthod anfarwoldeb gydag Aoibhell er mwyn ymladd dros Murchadh, a chael ei ladd yn y broses. Ydyw, fel y sylwodd Jerry Hunter ar waith T. Gwynn Jones, y mae'r obsesiwn â marwolaeth yma; ond rhoi ei fywyd er mwyn creu neu sicrhau dyfodol o'r newydd a wna Dubhlaing, a dyna'r gwahaniaeth allweddol.

Dychwelir at ddelwedd y droed yn y pennill olaf, pan fo'r adroddwr yn cyfarch y Rhymers drachefn:

*I have kept my faith, though faith was tried,
To that rock-born, rock-wandering foot,
And the world's altered since you died* (llau. 124-26)

Tynnwyd sylw eisoes yn yr ail bennod at obsesiwn yr adroddwr Yeatsaidd cynnar â'r gair 'wandering', a'r weithred o grwydro. Daw 'The Rose of the World' ([1893] VP 21) i ben drwy ddweud fod y byd fel 'grassy road / Before her wandering feet' (llau. 14-15).

Awgrymir yma fod y 'wandering foot' yn arwyddocaol, bron fel 'variable foot' William Carlos Williams,⁶² fel techneg fydryddol y dychwel Yeats ati yn *Responsibilities* ac sydd yn fodd, fel yr awgryma astudiaeth Vendler, o arbrofi yn dechnegol o fewn hualau ffurf cymharol gaeth. Y mae rhyw gyferbyniad rhyfedd yn y geiriau hyn. Cyferbynnir ffydd ddigyfnewid yr adroddwr â chyflwr cyfnewidiol y byd, ond yn y glynu at y 'rock-wandering foot' y mae fel pe bai sefydlogrwydd a chrwydro yn annatod â'i gilydd. Mae bron fel pe bai rhywbeth gludiog, disymud am yr ymadrodd ei hun, ac eto ar yr un pryd ymddengys fel geiriau cân. Ailadroddir y 'wandering foot' drachefn yn llinell olaf y gerdd:

*And I am in no good repute
With the loud host before the sea,
That think sword-strokes were better meant*

⁶² Am drafodaeth gan amrywiol feirniaid ar y 'variable foot' yng ngwaith Williams, gw. *William Carlos Williams: a critical anthology*, gol. Charles Tomlinson (Harmondsworth: Penguin, 1972), u. 313-32.

*Than lover's music – let that be,
So that the wandering foot's content.* (202, llau. 22-6)

Mor bell yn ôl â 1890, yr oedd Yeats yn defnyddio delwedd y môr i ddisgrifio cymeriad y Celt: 'the Celtic Irish seem of the fellowship of the sea: ever changing, ever the same'.⁶³ Fel T. Gwynn Jones, defnyddiodd Yeats y môr i symboleiddio rhwyg ac undod ar yr un pryd. Yma, gwêl yr adroddwr ei hun fel yr un a all ddwyn yr undod hwnnw'n nes, a daw hyn yn ôl drachefn at ei ymwybyddiaeth o'i draddodiad ei hun: 'In the history one sees Ireland ever struggling vainly to attain some kind of unity. In the bardic tales it is ever one'.⁶⁴ Dim ond trwy farddoniaeth, felly, y gellir cyrraedd undod o ddrylliedigaeth, ac y gall 'wandering foot' y gerdd fod yn 'content'. Ond ni ellir cyflawni'r datrysiad hwnnw; rhaid ymrafael yn gyntaf â'r 'loud host' sydd yn ffoli ar daro cleddyfau yn hytrach nag ar gerddoriaeth cariad. Am y tro, rhaid i'r droed ddal i grwydro.

Safbwynt tebyg i safbwynt Vendler a goleddir gan Terry Eagleton, wrth iddo awgrymu fod Yeats yn 'modernist more in content than in form'.⁶⁵ I Eagleton, y mae ffurf yn fodd o reoli neu gydbwyso syniadau mwy rhamantaidd ac angerddol Yeats: 'it is form which frames the passionate subject-matter into an impersonality'.⁶⁶ Tebyg yw hyn i syniad Yeats am arddull: 'it must always be making and mastering'.⁶⁷ Dyma synio am ffurf, felly, fel rhywbeth parhaol, llonydd, ensyniad sydd ar unwaith yn gwrth-ddweud Kiberd, oherwydd mai ar y *cynnwys* y mae'r pwyslais, ac mai ynddo y mae gwir hanfod y farddoniaeth, tra bo'r ffurf yn gwneud dim mwy na fframio, ac sydd ar yr un pryd yn cytuno â'r ddamcaniaeth drwy awgrymu fod ffurf yn rhywbeth mwy parhaol, oesol a fu

⁶³ Yeats, 'Bardic Ireland', t. 166.

⁶⁴ Yeats, 'Bardic Ireland', t. 163.

⁶⁵ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 274.

⁶⁶ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 295.

⁶⁷ Yeats, 'Poetry and Tradition', t. 254.

yno erioed ac sydd yn ddigyfnewid; fel y sylwodd Yeats ei hun, arddull yw “the only thing that is immortal in literature,” as Sainte-Beuve has said’.⁶⁸

Cysylltir yr hollt hwn gan Eagleton hefyd â Cheltigrwydd Yeats, ac yn benodol â'i ymwybyddiaeth o swyddogaeth y bardd clasurol Celtaidd. ‘This is another reason why the language of the poem has to separate itself somewhat from its content, so as to open up an enabling gap which allows it to go to work on it’, medd Eagleton. ‘There is no doubt a trace here of an Irish tradition of the poet as magician, social functionary and political activist’,⁶⁹ awgryma, a digon hawdd cytuno â hynny o gofio’r pwyslais traddodiadol ar ffurf a thechneg ym marddoniaeth Cymru ac Iwerddon. Y mae hon, felly, yn weithred barhaol, berfformiadol. Gwahaniaethir rhwng y ffurf clasurol a’r deunydd modern, a thrwy wneud hynny galluogir y ffurf i ymdrin â’r deunydd, a gweithio arno a’i dynnu oddi wrth ei gilydd, mewn modd modernaidd. Ar yr un pryd, deillia’r rhyngweithio hwn rhwng ffurf a chynnwys o’r ddelwedd ramantaidd, Geltaidd o’r bardd.

Cerdd Geltaidd arall ei naws a ddaw nesaf yn y casgliad, ‘The Two Kings’ ([1913] VP 120), sydd eto yn weddol faith, ond sydd yn gwbl wahanol i ‘The Grey Rock’ oherwydd ei rhythm, a hithau wedi ei gosod mewn pentamedr. Awgrymodd Anthony Bradley fod Yeats yn ‘uncomfortable writing his plays in blank verse’,⁷⁰ ac o gymryd yr enghraifft hon gellid awgrymu fod hynny’n wir i raddau am ei gerddi hefyd. Dyma ddarn o’r gerdd sydd yn disgrifio’r Brenin Eochaid ar ei geffyl:

Because it stood upon his path and seemed
More hands in height than any stag in the world
He sat with tightened rein and loosened mouth
Upon his trembling horse, then drove the spur;
But the stage stooped and ran at him, and passed,

⁶⁸ Yeats, ‘Poetry and Tradition’, t. 254.

⁶⁹ Eagleton, ‘Yeats and Poetic Form’, t. 284.

⁷⁰ Anthony Bradley, *Imagining Ireland in the poems and plays of W. B. Yeats: nation, class, and state* (New York: Palgrave Macmillan, 2011), t. 21.

Rending the horse's flank. King Eochaid reeled,
 Then drew his sword to hold its levelled point
 Against the stag. When horn and steel were met
 The horn resounded as though it had been silver,
 A sweet, miraculous, terrifying sound. (llau. 8-17)

Y mae'r modd y pery'r llinell i redeg ymlaen ac i oferu a goferu drachefn yn arwydd o'r modd na allodd y mesur gadw rheolaeth dros ei ddeunydd. Fe'n temtir i awgrymu fod hynny'n adlewyrchu'r modd y mae'r brenin yn colli rheolaeth dros ei geffyl; ond nid dyma arddull arferol Yeats: 'Nor does he like Eliot permit such indeterminacies to infiltrate and undermine the very forms of his poetry, which is one thing we mean by modernism'.⁷¹ Yn wir, yn ôl Eagleton, 'his scenarios are often violent, histrionic, unbalanced, even savage; but the very stability and well-temperedness of the verse-forms can succeed wonderfully well in concealing this'.⁷² Nid hynny a geir yma. Yn hytrach nag amrywiadau cynnil fel a geir yn 'The Grey Rock', yma cyfuna'r goferu parhaus a'r amrywio cyson ar y droed fydryddol nes y collir unrhyw synnwyr o'r rhythm gwreiddiol bron yn llwyr mewn rhai llinellau, ac felly collir grym y 'wandering foot'. Ymhelaetha Bradley ar ddefnydd Yeats o'r mesur moel:

Iambic measure, the commonest prosody of English poetry, is usually reckoned to be close to normal speech rhythms, but this may only be true of English speech patterns, and not necessarily English as it is and was spoken in Ireland. Yeats starts off with iambic meters in his poems, but just as he soon finds his own subject, he begins to find his own music. Yeats achieves that individual music many ways [sic], but it clearly has a lot to do with the rhythms of Irish speech.⁷³

Mae'r defnydd o ddeunydd Celtaidd yn y gerdd hon yn debyg i ddeunydd Yeats ugain mlynedd yn gynharach, a nodedig yn hynny o beth yw ei sylw fod y mesur moel yn cynnig modd iddo gyfuno'r presennol a'r gorffennol: 'When I speak in blank verse and analyse my feelings, I stand at a moment of history when the instinct, its traditional

⁷¹ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 274.

⁷² Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 288.

⁷³ Bradley, *Imagining Ireland*, t. 22.

songs and dances, its general agreement, is of the past [...] The contrapuntal structure of the verse [...] combines the past and present'.⁷⁴ Wrth geisio cyfuno'r holl elfennau hyn, felly, sef ymdeimlad o guriad a rhythm y Wyddeleg trwy gyfrwng y Saesneg, a chyfuniad o'r presennol a'r gorffennol mewn strwythur gwrthbwyntiol, y mae Yeats mewn perygl o golli rheolaeth dros ei fesur.

Er y tebygrwydd deunydd i'w gerddi cynharach, y mae'r modd o fynegi wedi newid yn llwyr. Yn wir, y mae'r newid rhwng 'The Grey Rock' a 'The Two Kings' yn ddigon nodedig ynddo'i hun. Y mae Yeats yn chwarae â phosibiliadau iaith fel y caiff ei siarad, ond trwy hynny y mae'n canfod nad y mesur moel yw'r ffurf i wneud hynny o'i fewn oherwydd ei fod yn ei yrru'n rhy bell i'r cyfeiriad hwnnw. Bron nad yw'r gerdd yn rhy llwyddiannus y mae yn union fel sgwrs, bron, ac o'r herwydd yn colli ei 'individual music', yn ogystal â'i gallu i dynnu sylw at ei chreffft a'i gwneuthuriad ei hun. Heb dynnu sylw at ei ddrylliedigaeth ei hun, nid yw'r dryll yn llwyddiannus. Yn yr un modd, i Yeats, os na fedrai'r gerdd dynnu sylw'r darlennydd neu ei wrandawr at ei deheurwydd ei hun, nid oedd diben iddi. Dychwelir felly at bwyslais Eagleton fod rhaid cael pellter: 'the forms of Yeats's verse stand some way off from their more dishevelled content'.⁷⁵ Dyna pam na chaiff y frawddeg fod yn rhy debyg i'r ceffyl afreolus a ddisgrifir. Yn wir, byddai hynny'n gwbl groes i'r pwynt y mae ffurf Yeats yn ceisio'i wneud: 'that language does not have to be a mirror in order to be part of what it signifies'.⁷⁶ I'r gwrthwyneb; rhaid i'r bardd ystyried ei arddull hyd yn oed yn fwy gofalus pan yw'r cynnwys yn afreolus: 'he

⁷⁴ W. B. Yeats, 'A General Introduction for my work' [1937], yn *Essays and Introductions*, gol. Georgie Yeats, (London: Macmillan, 1961), tt. 509-26 (tt. 523-24).

⁷⁵ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 279.

⁷⁶ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 285.

has it most of all amid overwhelming emotion, and in the face of death'.⁷⁷ Yn wyneb drylliedigaeth, yn anad dim, y daw ffurf ac arddull i ffocws cliriach.

Ond er pwysigrwydd cadw rheolaeth ffurf cyson dros gynnwys anwadal, trwy ac oherwydd eu datgysylltiad, y mae ffurf a chynnwys hefyd yn anwahanadwy: 'form cannot just stand off from content: to do so, it needs to draw on the dynamic of content itself'.⁷⁸ Fel yr awgrymodd Anne Janowitz, gall ystyried natur y 'dryll' ein cynorthwyo i ddeall y cysyniad cymhleth hwn oherwydd fod 'the fragment as the central structure and theme of Romanticism' yn cysylltu 'issues of form and content'.⁷⁹ Y mae'r dryll, felly, yn fodd o gydnabod yr hollt rhwng cynnwys a ffurf, ond hefyd yn pwysleisio'r berthynas annatod rhyngddynt, a'r modd y gellir 'open up an enabling gap which allows it [ffurf] to go to work on it [cynnwys]'.⁸⁰ Dyma sut, yn ôl Eagleton, 'content transmits some of its energies to form'.⁸¹

⁷⁷ Yeats, 'Poetry and Tradition', t. 254.

⁷⁸ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 291.

⁷⁹ Janowitz, 'The Romantic Fragment', t. 449.

⁸⁰ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 284.

⁸¹ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 293.

Responsibilities: Rhwng cwsg ac effro

Fel y ceffyl yn 'Two Kings', mae fel pe bai Yeats yn sylweddoli fod rhaid tynnu'r awenau yn dynnach ar yr iaith ac ar y ffurf, ac o fewn y casgliad daw newid cywair sydyn wrth i'r cerddi droi at ddiwyddiadau cyfoes, diweddar a lleol a ddaw yn gefnlen i ran helaeth o'r casgliad. Gyda hwynt, daw rhyw ailafael ac ailreolaeth dros ffurf drachefn. Y mae gan gerddi fel 'September 1913' ([1913] VP 122) afael cwbl gadarn ar fydr ac odl, ac mae'r amrywiaethau rhythmig a geir ynddynt yn gymharol gynnil. Ond diddorol hefyd yw nodi fod yr adroddwr, yn un o'r cerddi hyn, sef 'Paudeen' ([1914] VP 124), yn ei ddisgrifio ei hun fel hyn: 'I stumbled blind / Among the stones and thorn-trees' (llau. 2-3). Dyma awgrym nad yw'r droed eto'n gwbl hyderus, yn enwedig wrth drafod materion gwleidyddol cyfoes megis tranc Parnell a'r ffræe wrth geisio sicrhau arian i gael oriel gelf yn Nulyn, fel y gwneir yn y gerdd hon. Wrth gwrs, fe ellid ystyried cwmp Parnell ynddo'i hun, hefyd, fel enghraifft real a chyfoes o ddrylliedigaeth, neu o ddryll hanesyddol. Yn 'The Three Beggars' ([1913] VP 128), daw natur ddrylliedig, ranedig y gerdd i'r amlwg drachefn, wrth ddechrau gyda'r garan yn adrodd, cyn cael ein taflu'n ôl i lys y Brenin Guaire. Fel y gwnaeth yn 'The Grey Rock', gwna Yeats ddefnydd o chwedloniaeth er mwyn creu rhaniadau o fewn cerdd. Nid yw'n gwbl amlwg ar yr olwg gyntaf pam fod angen gosod ymson y garan bob ochr i hanes canolog y brenin a'r tri chardotyn. Ond yr effaith yw ei fod yn creu ymdeimlad o ddatgysylltiad, a hefyd yn cyfosod llonyddwch y garan gyda phrysurdeb deialog y brenin a'r cardotwyr. 'I have stood here from break of day' (ll. 2), meddai'r garan, ond daw'r brenin at y cardotwyr oherwydd eu haflonyddwch:

You that have wandered far and wide
Can ravel out what's in my head.

(llau. 11-12)

Trwy symudedd ac aflonyddwch y mae tynnu allan a datrys tensiynau a gwrthdrawiadau, ac atgyfnerthir y syniad hwn yn ddiweddarach wrth i'r tri chardotyn droi a throsi a holi a stilio drwy'r dydd a'r nos:

They mauled and bit the whole night through;
They mauled and bit till the day shone (llau. 48-9)

Y mae'r ailadrodd statig ar ddechrau'r ddwy linell yn cyferbynnu'n drawiadol â'r rhythm cwbl wahanol ar eu diwedd, ac y mae'r gymysgedd hon o lonyddwch ac aflonyddwch yn hydreiddio eu holl symudiadau: 'if they made a moment's stay / They sat upon their heels to rail' (llau. 52-53).

Ond pan ddaw'r brenin atynt, y maent wedi eu dryllio'i gilydd, yn 'commingling lice and blood' (ll. 56), ac nid oes ateb i'w gael ganddynt; yn hytrach, syrthiant i gysgu yn y fan a'r lle. Yna, yr ydym yn ôl gyda'r garan ar ddiwedd y llinell, fel pe na bai dim o stori Guaire wedi digwydd; y maent hwythau bellach, fel y sylwa'r garan, yn 'silent' (ll. 62), a thrwy'r cyfan bu yntau yno'n llonydd: 'I've stood as I were made of stone' (ll. 64). Mae fel pe bai un llais yn y gerdd yn mynnu mai dim ond trwy ddarnio, trwy ddryllio, trwy symud a chrwydro, y gellir dod at y gwirionedd, tra bo llais arall yn gwrthdaro â hynny ac yn mynnu mai dychwelyd, yn gylchol, at lonyddwch gwreiddiol yw'r unig ffordd. 'In his Romantic binarism,' medd Terry Eagleton, 'form is as still and self-contained as a corpse, whereas content is vital, turbulent, amorphous. But content transmits some of its energies to form, so that form is a kind of death warmed up'.⁸² Wrth i'r ffurf golli rhywfaint o'i lonyddwch, trosglwyddir hwnnw yn ei ôl i'r cynnwys.

Y mae cerddi *Responsibilities* fel pe baent yn cymryd darn, neu ddryll, o'r gerdd flaenorol ac yn creu rhywbeth newydd ohoni. Yma, cymerir ffigur y tri chardotyn o 'The

⁸² Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 293.

Three Beggars' a'u troi yn dri meudwy yn 'The Three Hermits' ([1913] VP 129), dynion sydd yn dod trwy 'the Door of Death' (ll. 8). Gan eu bod yn rhy wan eu hewyllys, rhaid iddynt ddychwelyd, gan ddod trwy'r 'door of Birth' drachefn, ond yn 'thrown / Into some most fearful shape' (llau. 19 a 22-3). Dyma olwg eto ar estheteg ganolog Yeats, sef fod yn rhaid dryllio a darnio nes cyrraedd marwolaeth, ond fod y farwolaeth honno yn esgor ar enedigaeth rhywbeth newydd, er bod *ffurf* y rhywbeth hwnnw yn dra gwahanol.⁸³

Cynrychiolir y drylliad a'r dadfeiliad hwn yn y mesur hefyd; er bod pedwar prif guriad i bob llinell yn aros yn 'The Three Hermits', fel yn 'The Three Beggars', y mae un sillaf yn llai, ac o ddarllen y ddwy gerdd yn syth ar ôl ei gilydd fe glywir y gwahaniaeth sillafau hwn yn eglur. Y mae'r llinell ei hun yn dadfeilio, ac fe ellid dadlau ei bod, o gollir sillaf hwn, yn cymryd arni sain cwbl newydd, ac yn ymdebygu bellach i'r *deibhidhe* Gwyddeleg, mesur tebyg i'r cywydd Cymraeg. Yn wir, mae un llinell tua diwedd y gerdd, 'Or a witty lovely lady' (ll. 28), yn agos at fod yn gynghanedd gyflawn. Nododd Anthony Bradley fod Helen Vendler yn ei chyfrol hithau yn darllen gwaith Yeats yn nhermau mydryddiaeth glasurol, hynny yw, yn ôl y 'droed' fydryddol. Ond awgryma ef: 'usually Yeats's verse involves an interaction between accentual and syllabic'.⁸⁴ Nid Bradley yw'r cyntaf i awgrymu hyn: aeth un o gyfoedion Yeats, Thomas MacDonagh, mor bell ag awgrymu na ddylid darllen Yeats ond yn nhermau mydryddiaeth Wyddelig. Er na fedrai Yeats Wyddeleg, fel y dywed Bradley 'it is not so far-fetched that a person as attentive to verse and music as Yeats, in the Ireland of his time, in which there was so much new translation of Gaelic sources and such a strong oral tradition in both English and Gaelic,

⁸³ Efallai mai'r enghraifft glasurol o'r cysyniad hwn ar waith yn ei gerddi yw 'The Second Coming' ([1920] VP 207), a'r llinellau enwog hynny: 'Things fall apart; the centre cannot hold; / Mere anarchy is loosed upon the world' (llau. 3-4), sy'n arwain ar ddiwedd y gerdd at y 'rough beast' yn ymlwybro tua Bethlehem i gael ei eni (llau. 21-2).

⁸⁴ Bradley, *Imagining Ireland*, t. 23.

may have absorbed an impression of Gaelic forms, even if mainly through Irish songs and verse in English'.⁸⁵ Yn wir, addefodd Yeats wrth drafod ei gerddi cynnar: 'My lines but seldom scanned, for I could not understand the prosody in the books',⁸⁶ gan awgrymu mai rhywbeth greddfól a ddeilliai o'r hyn a etifeddodd trwy'r cerddi a'r caneuon a glywodd ac a ddarllenodd ydoedd ei fydryddiaeth unigryw. Serch barn MacDonagh, fodd bynnag, mwy buddiol yw ystyried mydryddiaeth Yeats yn ôl yr hyn a ddywed Bradley, fel rhyw fath o gymysgedd hybrid, a dyna a geir yma, fe ellid dadlau. Camgymeriad fyddai priodoli ymwybyddiaeth rhy fanwl o fydryddiaeth Wyddelig i Yeats, fel yr addefa Bradley: 'There is nothing schematic or perhaps even conscious about Yeats's indebtedness to Gaelic models'.⁸⁷ Eto, cyfrannu a wna hyn oll at yr ymdeimlad mai â drylliau yr ydym yn ymdrin yma o ran ffurf yn ogystal ag o ran cynnwys.

Eto fyth, daw'r gerdd i ben drwy ddisgrifio'r trydydd meudwy, na chafodd lais o gwbl hyd hyn, fel un a ganodd 'unnoticed like a bird' (ll. 32). Cwbl groes yw hyn i gân y gerdd ei hun, gan fod honno'n gynyddol yn tynnu sylw at ei gwneuthuriad, ac at ei drylliedigaeth, ei hun. Ni all y gân fod yn 'unnoticed', ac ni all chwaith, fel cân aderyn, fod yn rhywbeth byrfyfyr, heb ffurf pendant, er ceisio o'r bardd gyrraedd cyflwr o'r fath. Sylwodd Terry Eagleton fod gan Yeats ddawn o droi'r gerdd ar i waered yn y llinell olaf fel hyn ar brydiau, gan gyflwyno rhyw fath o wrthbwynt ar gynffon y dweud.⁸⁸ Y mae hyn hefyd yn rhan o ddatod mynegiant y gerdd, ac yn fodd o agor yr hollt drachefn ar gyfer y gerdd nesaf, 'Beggar to Beggar Cried' ([1914] VP 130). Dau gardotyn sydd y tro hwn, yn lle tri, ond cymerwyd geiriau o gwpled cyntaf y gerdd flaenorol:

⁸⁵ Bradley, *Imagining Ireland*, t. 24.

⁸⁶ Dyfynnwyd yn Bradley, *Imagining Ireland*, t. 22.

⁸⁷ Bradley, *Imagining Ireland*, t. 24. Gellid cymharu hyn â'r drafodaeth barhaus ynghylch adnabyddiaeth Dylan Thomas o gerdd dafod, ac i ba raddau yr oedd yntau yn 'ymwybodol' o batrymau'r gynghanedd yn ei waith ei hun.

⁸⁸ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 280.

Three old hermits took the *air*
 By a cold and desolate *sea* (VP 129, llau. 1-2, fy mhwylais i)

Yna cawsawnt eu rhoi yng ngheg un o'r cardotwyr hyn:

'Time to put off the world and go somewhere
 And find my health again in the *sea air*'
 (VP 130, llau. 1-2, fy mhwylais i)

Ond y mae gan y gerdd hon a'r nesaf, 'Running to Paradise' ([1914] VP 131), fyrdwn sydd yn ei ailadrodd ei hun yn gyson drwy'r cerddi, ac yn cau ar a chyfyngu ar y cymeriadau.

'Beggar to beggar cried, being frenzy-struck' (VP 130 llau. 3, 7, 11, 15, 19), medd y gerdd, rhwng nodi'r holl gynlluniau a'r naratif y mae'r cardotyn yn ei ddychmygu i'w hun. Eto, dal i siarad a gwneud dim a wna'r cardotyn, wedi ei rewi yn y fan a'r lle gan ei 'frenzy', a'r gair 'struck' ar ein gwaethaf yn rhwym o atgoffa'r darllenydd o'r gair 'stuck'. Er mwyn creu, ac er mwyn gweithredu, yn hytrach na chreu geiriau yn unig, ceir dymuniad i ddianc rhag y byrdwn hwn neu'r gytgan, a thorri allan o'r ffurf, sydd yn neilltuol o gaeth yma oherwydd y gytgan gyson ac oherwydd y cynllun odli llym, sydd yn golygu fod tair llinell o bedair pob pennill yn odli, neu'n hanner odli, â'i gilydd.

Dyna a wneir yn gynyddol tua diwedd y gyfrol, a gafael y ffurf yn llai tynn ar y deunydd. Mae rhai cerddi, megis 'The Hour Before Dawn' ([1914] VP 132), 'A Song from "The Player Queen"' ([1914] VP 133) a 'The Mountain Tomb' ([1912] VP 137) yn dal i lynu'n agos at fydr ac odl. Ond yn 'Fallen Majesty' ([1912] VP 141), ceir llinellau hir ac afreolaidd eu traed mydryddol. Yn 'The Realists' ([1912] VP 134), mae'r llinellau eu hunain yn amrywio o ran hyd, a'r odl yn afreolaidd. Y mae'r deunydd yn teneuo hefyd; lle'r oedd cerddi megis 'The Three Beggars' yn llawn haenau ac yn defnyddio cymeriadau mytholegol, rhyw hanner portreadau o gymeriadau annelwig, dienw, a geir

yma y 'realydd', y 'wrach'. Colli'r fytholeg yn raddol a wneir, a chawn ein hatgoffa yma o ddarlleniad Kiberd o Yeats yn 'withering into truth' mewn proses o 'shedding of knowledge and allusions rather than an accretion of them', yn debyg i'r gôt honno a greodd 'out of old mythologies' iddo'i hun, cyn ei diosg.⁸⁹

Ymddengys y dryllio hwn yn gwbl groes i syniadau Yeats am 'Unity of Being' a 'Unity of Culture', ond dyma baradocs mawr ffurf yn ei waith ef a Jones. 'Gwendid mawr prydyddiaeth ymhob iaith, ond odid, yw'r geiriau llanw a ddodir i mewn ynddi i gwpla'r mesur, i wneuthur cynghanedd neu i gadw odl', medd T. Gwynn Jones.⁹⁰ Ond y mae hefyd yn addef mai '[o]'r Pedwar Mesur ar Hugain, diau mai 'r Englyn yw'r rhyddaf oddiwrth eiriau na bo'u heisiau i fynegi'r meddwl'.⁹¹ Dryllio a darnio, tynnu ymaith a diosg, er mwyn ymgyrraedd at gyflawnder llawnach, tynnach, a wneir. Fel y mae hollt a gwrthdrawiad byddinoedd T. Gwynn Jones yn 'Gwlad y Bryniau' yn baradocsaidd yn esgor ar undod, felly, dyna hefyd nod y cerddi hyn yn *Responsibilities*. '[N]owhere in the Yeatsian universe,' medd Helen Vendler, 'whether in Time or Eternity, does a static "Unity of Being" remain untroubled, even as an ideal. Yeats's forms, as portals to a poem's core, necessarily equal (or, in some cases, surpass) the "ideas" on which they confer unforgettable shapes'.⁹²

Ni all y darllenydd fod yn gwbl hyderus na fydd y pennill yn datod yn llwyr, yn fwy fel yr hebog a'r hebogydd yn 'The Second Coming' ([1920] VP 207) sydd yn ymbellhau oddi wrth ei gilydd na'r dawnsiwr a'r ddawns na ellir eu gwahanu.⁹³ Llwydda'r cerddi hyn, medd Eagleton, i gyfuno 'impersonal (and so deathlike) rituals with a boisterous

⁸⁹ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 453.

⁹⁰ Jones, *Y Gelfyddyd Gwta*, t. 5.

⁹¹ Jones, *Y Gelfyddyd Gwta*, t. 5.

⁹² Vendler, *Our Secret Discipline*, t. 60.

⁹³ 'How can we know the dancer from the dance?' W. B. Yeats, 'Among School Children' [1927] VP 230, ll. 64.

energy which never quite spills over their limits'.⁹⁴ 'Never quite': ond daw'r cydbwysedd hwn dan bwysau cynyddol nes ei fod bron â diflannu'n llwyr wrth gyrraedd diwedd y gyfrol. Ac fel y sylwodd Helen Vendler, y mae ffurf 'A Coat' ei hun yn ffurf cwbl newydd i Yeats, nad oedd wedi ei ddefnyddio ynghynt, ac na ddefnyddiodd wedyn chwaith. Rhydd ei linellau byrion, *trimeter*, ymdeimlad o noethni, fel diosg y gôt ei hun. Ond pery'r gerdd i dynnu sylw'r darlennydd yn ôl at ei gwneuthuriad, at ei 'embroideries' ei hun, drwy'r odl, ac felly gall yr adroddwr ddal i fynnu ei 'continued allegiance to what his coat meant to him before it was stolen by others'.⁹⁵

Efallai mai'r ymdeimlad cryfaf a geir wrth ddarllen *Responsibilities* yw ymdeimlad o ddianc a dychwelyd cylchol, yn dryllio ac yna'n ailadeiladu, ac ymgorfforiad o syniad Kiberd 'that one builds as one destroys, and that no totality is possible'.⁹⁶ Dengys y pendilio hwn rhwng Celtigrwydd a phroblemau cyfoes, rhwng ffurf gadarn a cholli ffurf, rhwng cwsg ac effro, sydd yn hydreiddio'r casgliad, nad yw trawssffurfiad Yeats o'r rhamantydd i'r modernydd yn llwyr nac yn gyflawn o bell ffordd. 'In dreams begins responsibility', medd yr epigraff ar ddechrau'r casgliad, a cheir y ddau yma breuddwydion y gorffennol a chyfrifoldeb y presennol mewn perthynas gyd-ddibynnol â'i gilydd. 'The purpose of rhythm, it has always seemed to me', medd Yeats, 'is to prolong the moment of contemplation, the moment when we are both asleep and awake, which is the one moment of creation, by hushing us with an alluring monotony, while it holds us waking by variety'.⁹⁷ Trwy ffurf, felly, a thrwy ei Geltigrwydd, y gallodd aros yn y cyflwr hwn *rhwng* Rhamantiaeth a Moderniaeth cyhyd.

⁹⁴ Eagleton, 'Yeats and Poetic Form', t. 293.

⁹⁵ Vendler, *Our Secret Discipline*, t. 349.

⁹⁶ Kiberd, *Irish Classics*, t. 456.

⁹⁷ W. B. Yeats, 'The Symbolism of Poetry' (1900), yn *Essays and Introductions*, tt. 153-64 (t. 159).

‘Cynghanedd ar adanedd’: T. Gwynn Jones yn creu o’r dryll

Fel yn achos Yeats, y mae ar yr un pryd berthynas agos rhwng dadfeiliad ffurf T. Gwynn Jones â dychweliad at yr hen batrymau, ond cyflawnir hyn mewn ffordd sydd, ar un wedd, yn gwbl groes i’r hyn a wnaeth Yeats. Yn ôl Stephen J. Williams, y cyfnod rhwng 1910 a 1926 y cyfnod yn dilyn yn union ar ôl cadeirio T. Gwynn Jones am ‘Gwlad y Bryniau’, felly oedd ‘cyfnod pwysicaf ei arbrofion mydryddol’.⁹⁸ Yn wir, tua diwedd y cyfnod hwn y cawn ei ddatganiad mwyaf manwl o’i gred ynghylch cyflwr canu caeth. Yn ei ragair i argraffiad Gwasg Gregynog o *Ddetholiad o Ganiadau*, aeth ati i osod ei stondin:

Barnu yr wyf i, bellach, mai goreu po symlaf y bydd peth, o ran geirfa a chystrawen. Credaf hefyd fod lle i ddatblygu eto ar egwyddor mydr a chynghanedd yn Gymraeg [...] Disgyn y datblygu hwnnw i’n rhan ni, cyhyd ag y prydyddom yn Gymraeg, am ddarfod atal twf crefft y meistriaid gynt drwy ladd diwylliant cartref yn ein plith gan rym trech na’r eiddom.⁹⁹

I Jones, deilliai ffurf statig, digyfnwid o ddiwylliant marw a fu dan ormes am gyfnod rhyfaith. Trwy ddatblygu ac arbrofi â’r gynghanedd, ar y llaw arall, gellid dangos nad marw eto ydoedd, a bod iddi ddefnydd drachefn. Â Jones ymlaen i ddisgrifio’n fwy manwl yr effaith a gafodd y diffyg twf hwn ar y gynghanedd:

Darganfu’n tatau fod cynghanedd yn elfen yn yr iaith na ddichon celfyddyd mydr mo’i hesgeuluso, ond wrth ei safoni a’i chaethiwo, ataliasant gyfle twf, ac aethant i rifo sillafau, yn lle’r acennau pwys, fel mesur hyd llinell. Canlyniad hynny fu beri unfurfaeth ac ystagio, ac ysgar rhwng yr iaith lenyddol a rhediad naturiol brawddegriad yr iaith lafar [...] Aeth yr odl hefyd yn sicr yn faich ar fydr Cymraeg.¹⁰⁰

Wrth edrych â llygad newydd ar y canu caeth, gallodd T. Gwynn Jones ddewis a dethol yr hyn a gredai yn allweddol i sef y gynghanedd ei hun a diosg elfennau eraill nad oedd mor hanfodol, megis odl, a phatrymau penillion y pedwar mesur ar hugain traddodiadol. Canlyniad hyn, yn achos Jones, oedd ‘dyfnhau ei gred nad oedd cyfraniad

⁹⁸ Williams, ‘Y Gynghanedd’, t. 280.

⁹⁹ T. Gwynn Jones, ‘Rhagair’, DG, tt. vi-ix (t. vi).

¹⁰⁰ Jones, ‘Rhagair’, t. vii.

y gynghanedd i'r estheteg Gymraeg yn dibynnu ar ei pherthynas â'r mesurau traddodiadol'.¹⁰¹

Fel Yeats, felly, diosg a symleiddio i gyfeiriad yr iaith lafar oedd nod Jones. Gwelir elfennau o'r argyhoeddiad hwn, ar sail myfyrio hir, yn 'Madog' ([1917] C tt. 87-104). Yn y gerdd honno, tynnir ffurf yr englyn unodl union oddi wrth ei gilydd, gan wneud i ffwrdd â'r odl, a chyflwyno'r draws fantach, y gyfatebiaeth wannaf, ond odid, o'r holl gynganeddion, yn gyson. Try'r pedair llinell draddodiadol yn ddwy, a gosodir rhythm cyson yr *hexameter* clasurol ar yr englyn. Yn hytrach na dryllio'r fydryddiaeth glasurol â'r fydryddiaeth sillafog frodorol, felly, dryllir y fydryddiaeth honno â'r 'droed' allanol:

Gwennan a'i hwyliau gwynwawr, fronheini frenhines y tonnau,
Moddus forwyn y meddwl, merch ddigaethiwed y môr
(C t. 92, llau. 5-6)

Os cydnabyddwn ddylanwad mydryddiaeth Wyddelig ar fesurau Yeats, felly, y mae modd gweld mesur 'Madog', hefyd, fel mesur cymysgryw; mesur ydyw sydd wedi ei seilio ar y gynghanedd, ond sydd, trwy ei linellau hirion a'i bwyslais ar yr acen yn hytrach na'r sillaf, yn dwyn ei ysbrydoliaeth o fydryddiaeth glasurol, neu hyd yn oed o farddoniaeth Saesneg. Diddorol nodi fod rhai beirniaid drachefn wedi nodi cysylltiad rhwng y fydryddiaeth gymysgryw hon a Cheltigrwydd T. Gwynn Jones. 'Gwedda'r llinellau hirion yn odidog i awyrgylch y cerddi hyn am yr hen fyd Celtaidd', medd Stephen Williams, gan gyfeirio at ddefnydd pellach o linellau cyffelyb yn 'Anatiomaros' a 'Broseliawnd'.¹⁰² Er yr ymddengys mai bregus, braidd, yw'r cysylltiad tybiedig hwn ar yr olwg gyntaf, y mae modd gosod sylwadau o'r fath yng nghyd-destun yr hyn a awgrymwyd eisoes ynghylch swyddogaeth Celtigrwydd yng ngwaith Jones wrth gysylltu'r traddodiad

¹⁰¹ Williams, 'Y Gynghanedd', t. 280.

¹⁰² Williams, 'Y Gynghanedd', t. 284.

Cymreig â phrif ffrwd llenyddiaeth Ewrop. Trwy'r gymysgrywedd hon sydd yn defnyddio mydryddiaeth Gymreig ac acennu clasurol ar yr un pryd, gellid dadlau mai dyma'n union a geir yn y cerddi hyn.

Cwbl wahanol ei mydryddiaeth i 'Madog' yw 'Gwlad Hud' ([1919, 1920, 1925] C t. 157-71). Dyma ddychwelyd at linell llawer byrrach, ac at batrwm sydd yn seiliedig ar y cywydd deuair fyrion. Ceir rhythm pendant sydd yn ymylu ar fod yn herciog; nid oes odl rhwng diwedd llinellau a'i gilydd ar y cyfan, dim ond odl fewnol yn y llinell, a rhydd hyn synnwyr o ddatgysylltiad rhwng llinellau a'i gilydd:

Ym moreddydd pell fy mreuddwyd,
Imi'r ydoedd man fel nefoedd;
Pob rhyfeddod yno'n hanfod,
A'r hen ddaear hon oedd ieuanc[.] (C t. 157, llau. 1-4)

Bron nad yw'r rhythm a'r odl yma yn cyfrannu at ymdeimlad o ddrylliad yn hytrach na bod yn gymorth i gysylltu llinellau. Pwysleisir y datgysylltiad hwn yng ngeiriau'r gerdd hefyd; dywed yr adroddwr y 'Clywem hidlo cwlwm odlau' (C t. 163, ll. 5), ac mae'r gair 'hidlo' yn un arwyddocaol a mwys yma, oherwydd y gall olygu mor rhwydd ac mor hidl y daw'r odlau, ac ar yr un pryd awgrymu fod rhyw broses o hidlo, neu o drylifo, ar waith, ac felly rhyw fath o ddryllo, o ddatod y cwlwm. Er dychwelyd, ar un llaw, felly, at fesur mwy caeth a chaeëdig na mesur 'Madog', y mae yma ar yr un pryd ymdeimlad cynyddol o ddatgysylltiad a dadfeiliad.

Yr un teimlad a geir ychydig linellau'n ddiweddarach, wrth i'r adroddwr ddisgrifio'r cerddor yn y wlad hud yn

bwrw ei nodau
Yn blethiadau, yn gawodau
O gryndodau a gweadau;
Hynt cynghanedd ar adanedd,

Awyr donnau arawd enaid;
 Dagrau hyder digrëedig,
 Hanfod musig, cynfod mesur (t. 163, llau. 20-6)

Ar yr un pryd â chydabod y gynghanedd fel ‘hanfod musig’ a sail mydryddiaeth, synhwyrir hefyd fod y gynghanedd ei hun ar ffo, ‘ar adanedd’ (h.y. adenydd); ac wrth i’r gerdd fynd rhagddi, dod yn llai a llai amlwg a wna’r llinell o gynghanedd hefyd. Wrth fynd yn ei flaen fe glyw’r adroddwr ‘fyr ebwch ofer obaith’ sy’n ‘[t]rengi’n llesg ymhlith yr hesg’, ‘[c]ri fach grin a thrist’ (t. 164, llau. 6-9). Rhyw fynd a dod a wna’r gynghanedd yn y gerdd, ac nid cyd-ddigwyddiad ydyw, o bosibl, ei bod ar ei mwyaf absennol mewn llinellau fel hyn.

Drylliau, brithluniau o ddeunydd Celtaidd a geir yma hefyd. Clywir tylluan yn ‘dynwared nâd anwiredd / Brad Blodeuwedd pan fu ddiwedd / Llew Law Gyfes [sic]’ (t. 162, llau. 15-7), ac yna cawn ‘Llywarch Hen yn brudd ei awen’ (t. 163, ll. 1). Ar ddiwedd y gerdd cymherir y ffynnon yn y wlad hud i’r ffynnon ‘[o]edd yn Erin addwyn oror’ (t. 170, ll. 26), lle ‘cysgai Ffynn ac Osgar’ (t. 171, ll. 3). Ond delweddau wrth basio yw’r rhain oll; nid oes naratif i’r gerdd fel y cyfryw. Cerdd ddisgrifiadol ydyw, sydd yn diweddu fwy neu lai’n yr un man ag y dechreua. Ymdroi ym marwolaeth y lle a wna’r gân, nes ceir ymdeimlad o ail-dyfu tua’r diwedd:

Yno beunydd gwyliais gynnydd
 Y rhyfeddod oedd yn dyfod;
 Am y gwiail yr ymgaeai,
 Prifiai, cydiai am y coedydd,
 Tynnai lwyni tan ei linynd,
 Nes bod pobman tan ei hugan
 I gyd yn frwysg dan ferw o wyrdd. (t. 168, llau. 8-14)

Wrth i’r tyfiant ail-gydio yn y tirlun, nes bod y ‘perthi a’r drain yn firain we’ (t. 169, ll. 4), gwelir fel y mae’r gynghanedd hefyd yn dychwelyd ac yn cydio yn y mesur. Daw’r

cysyniad hwn o ddrylliad ac ailblethiad ‘organig’ i’r amlwg mewn cerddi eraill hefyd, fel ‘Draoidheacht’ (C tt. 181-3), wrth i T. Gwynn Jones a Torna gyda’i gilydd ymgymryd â:

[...] medr y grefft, medi’r grwn,
 A harneisio’r carnasiwn;
 Adrodd chwedl, diwreiddio chwyn,
 A thrwsio’r perthi rhosyn (t. 181, llau. 9-12)

Fe’n hatgoffir gan y ddelwedd hon o eiriau Yeats am y berthynas rhwng rhosyn barddoniaeth newydd a changen doredig traddodiad: ‘On some such old and broken stem, I thought, have all the most beautiful roses been grafted’.¹⁰³ Y mae rhai y dywed amdanynt ‘They prefer the stalk to the flower’;¹⁰⁴ ond nid gwir hyn yn ei achos ei hun, nac yn achos Jones chwaith.

Fel y sylwodd Anne Janowitz, gellir gweld y dadansoddiad Schlegelaidd o’r dryll Rhamantaidd fel ‘*organic* theory of poetry, in which poems are understood as living and growing, rather than as built’.¹⁰⁵ Ond daw hyn hefyd â dehongliad blaenorol Declan Kiberd o ddadfeiliad modernaidd Yeats i gof, lle awgryma Kiberd mai gwell fyddai’r ‘troubled passing-on of a broken but still breathing thing’.¹⁰⁶ Trwy gydnabod natur anghyflawn a dadfeiliedig eu llenyddiaeth, ‘the poem’s value can be affirmed as potential rather than complete’.¹⁰⁷ Arweinia hyn yn ei dro at well dealltwriaeth o’r modd y mae’r dryll yn trosgynnu diffiniadau ‘Rhamantaidd’ neu ‘Fodernaidd’. Dyma’r ateb a’r gwrthwynebiad delfrydol ac angenrheidiol i alwadau Arnold am astudio’r ieithoedd Celtaidd ‘as an object of science’ hynny yw, fel rhywbeth marw.¹⁰⁸ Mynnodd Arnold:

¹⁰³ Yeats, ‘Poetry and Tradition’, t. 250.

¹⁰⁴ Yeats, ‘Poetry and Tradition’, t. 251.

¹⁰⁵ Janowitz, ‘The Romantic Fragment’, t. 447. Ceir trafodaeth ar ddamcaniaethau Friedrich Schlegel ar dudalennau 446-50.

¹⁰⁶ Kiberd, *Irish Classics*, t. 453.

¹⁰⁷ Janowitz, ‘The Romantic Fragment’, t. 447.

¹⁰⁸ Matthew Arnold, *On the Study of Celtic Literature* (London: Smith, Elder & Co., 1905 [1867]), t. 13.

It is not in the outward and visible world of material life, that the Celtic genius of Wales or Ireland can at this day hope to count for much [...] What it *has* been, what it *has* done, let it ask us to attend to that, as a matter of science and history; not to what it will be or will do[.]¹⁰⁹

Trwy flaendirio natur anghyflawn eu gwaith, ie, a delweddau o farwolaeth a dadfeiliad, y gallai T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, yn eironig efallai, hawlio fod y traddodiad eto'n fyw ac yn datblygu, yn ail-greu cyfanweithiau newydd o hen adfeilion, a fod ganddynt eu llygaid yn bendant ar 'what it will be or will do'.

¹⁰⁹ Arnold, *On the Study of Celtic Literature*, t. 13.

Casgliad

Y mae barddoniaeth T. Gwynn Jones a W. B. Yeats yn llawn paradocsau, ac ni ddaw hynny i'r amlwg yn unlle yn fwy nag yn eu hymdriniaeth o ffurf. Y mae'r ddau'n feistri technegol a chanddynt ymwybyddiaeth a meistrolaeth llwyr o'u cyfrwng. Ond y maent hefyd yn ysu i ddianc o hualau'r cyfryngau hynny. Eu nod yw newid, addasu ac arbrofi, a dim ond beirdd sydd yn ymdeimlo mor gryf â hanes a thraddodiad y cyfryngau hynny a all wneud hynny â'r fath hyder. Ond golyga'r ymwybod hwn na allant chwaith ddianc yn llwyr oddi wrth eu ffurfiau; y maent yn dibynnu i raddau helaeth ar gaethiwed, fframwaith a natur gaeëdig ffurf er mwyn cadw rhywfaint o reolaeth a meistrolaeth dros eu deunydd. Gellir cymharu hyn i raddau â'u perthynas â Cheltigrwydd y maent yn ddibynnol hefyd ar ddeunydd Celtaidd i roi anadl einioes i'w cerddi. Tra gellir awgrymu fod T. Gwynn Jones wedi cadw'n nes at Geltigrwydd ac wedi arbrofi rhagor â ffurf, a W. B. Yeats wedi cadw'n driw at yr un ffurfiau ond wedi ymbellhau fwyfwy oddi wrth Geltigrwydd ei flynyddoedd cynnar, y mae'r ddau i wahanol raddau yn dal i ddibynnu ar elfennau o ffurf gaeth a delweddaeth Geltaidd drwy gydol eu gyrfaeodd.

Un peth sydd yn gyffredin gan y ddau fardd fel ei gilydd yw eu hawydd i ddryllio rhai elfennau o farddoniaeth. Ond y mae diffinio'r dryll hwnnw a'u defnydd hwythau ohono yn dasg fwy dyrys. Er i feirniaid geisio dadlau y dylid gweld Jones a Yeats fel beirdd Rhamantaidd neu Fodernaidd, dangoswyd y gellir gweld elfennau o'r dryll Rhamantaidd a'r dryll Modernaidd yn y modd y maent yn ymdrin â ffurf. Gellir ystyried eu hymdriniaeth o ffurf, wrth ei ddryllio a'i ddadfeilio, a blaendirio'r drylliad hwnnw, nid er mwyn ymhyfrydu ynddo yn unig ond er mwyn creu a chyflymu dyfodiad estheteg newydd, yn gyfochrog â'u hymdriniaeth o Geltigrwydd, ac yn anelu tua'r un nod a'r un pwrpas.

Er datgan ei ddymuniad y dylid anghofio'r gynghanedd, erys gafael y grefft honno ar waith T. Gwynn Jones yn gryf. Hydreiddia'r gynghanedd ei gerddi 'rhydd' ar fydr ac odl; yn wir, gellir cyfrif hynny fel un o'i brif gampau o ran crefft. Cymerir ei fethiant i ymddihatru oddi wrth y gynghanedd fel arwydd o arbrofi ac arloesi ffurfiol. Daw hynny i'r pen rhesymegol gyda cherddi *Y Dwymyn* (1944), cerddi *vers libre* sydd eto'n methu dianc o afael y gynghanedd, sydd yn wir yn dibynnu ar y llinell unigol o gynghanedd i bennu llinellau ac i roi ffurf i'r gerdd. Yr un modd i Yeats: er ei haerriad ei fod am ddiosg y 'gôt' ddrylliedig o 'old mythologies', nid yw byth yn llwyddo i'w gadael ar ei ôl yn llwyr. Efallai fod y dymuniad hwn i ymddihatru oddi wrth gaethiwed ffurf yn deillio o ymwybyddiaeth y gallai'r ffurf dynnu sylw oddi ar y deunydd; a oedd perygl, hyd yn oed, iddynt gael eu cofio fel meistri technegol ar draul eu doniau eraill fel beirdd? Erys awgrym fod Yeats, o leiaf, yn ymwybodol o hyn: 'Yeats would wonder in more than one poem if this early elevation of form over matter had been advisable. Useful it had undeniably been as a ploy with which to kick-start a national poetic; but what if the style never found its subject, what if the singer born lacked a theme, what if it was only (as Beckett bitterly joked) a bow-tie worn over a throat-cancer?'¹¹⁰

Ond yn union ar eu safleoedd amwys rhwng y caeth a'r rhydd y mae dawn, gallu, ac yn bennaf efallai, arloesedd ffurfiol Yeats a Jones yn dibynnu. Yn yr un modd ag y mae eu Celtigrwydd yn eu galluogi i'w lleoli eu hunain rhwng gwledydd a lleoedd, ieithoedd, disgyblaethau, a hunaniaethau, y mae perthynas gylchol y ddau awdur rhwng eu hymdriniaeth o ffurf a deunydd hefyd yn eu galluogi i drosgynnu mudiadau llenyddol, ac osgoi a goroesi unrhyw ymdrech i'w gosod mewn categori penodol neu eu diffinio fel 'Rhamantwyr' neu 'Fodernwyr'.

¹¹⁰ Kiberd, *Inventing Ireland*, t. 126.

Gallai'r natur gyferbyniol, anodd-ei-difffinio hon ymddangos yn amwys a chymysglyd, ond fel y sylwodd Kiberd y mae yn angenrheidiol i'w gwaith fod felly: 'Their poems are founded on a necessary contradiction: they celebrate a nation's soul, while at the same time insisting that it has yet to be made'.¹¹¹ Efallai mai'r peth pwysicaf am ffurf yng nghyd-destun perthynas y ddau fardd â Cheltigrwydd yw'r modd y mae eu defnydd unigryw o'r dryll yn eu galluogi i wrthod ac ymbellhau oddi wrth yr hyn y dymuna Arnold ei wneud â'r Celt; nid traddodiad caeëdig, gorffenedig, llonydd a marw ydyw eu traddodiad, ond un tameidiog a drylliedig sydd yn parhau i'w ail-greu, ail-ddifffinio ac ail-ddyfeisio ei hun yn gyson, ac yn ei addasu ei hun ar gyfer cyfnod diwylliannol a gwleidyddol cwbl newydd. Trwy hyn llwyddodd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats i droi Celtigrwydd yn arf perfformiadol a chreadigol i greu o'r newydd.

¹¹¹ Kiberd, *Inventing Ireland*, t. 128.

Casgliad

The principle of continuity which [Yeats] established in literature, stretching from Swift to the Revival, and that which Pearse established in politics, stretching from Wolfe Tone to the men of 1916, are both exemplary instances of the manner in which tradition becomes an instrument for the present. Without such a tradition, or the idea of it, history appears gapped, discontinuous, unmanageably complex. The period between 1880 and 1940 made a fetish of continuity in part because the generation before had witnessed the final rupturing of the Gaelic civilization. The glamorization of the Celt and of the Ascendancy was an attempt to reconcile on the level of myth what could not be reconciled at the level of politics. It was, in effect, an Arnoldian ‘healing measure’ which failed. It offered the Irish the opportunity to be unique but refused them the right to be independent on the grounds that independence would lead to a loss of their uniqueness.¹

Dyma, fe ymddengys, brif fyrddwn Seamus Deane wrth drafod gwaith a gyrfa W. B. Yeats yn ei gyfrol *Celtic Revivals* yn 1985. Yr oedd rhai elfennau o waith Yeats, yn ôl Deane, yn enwedig y pwysau a'r pwyslais a roes yntau ar barhad ac ar draddodiad, yn anghymharus â'r newidiadau gwleidyddol real anferth a brofasai yntau yn ystod ei oes. Nid oedd modd, felly, i'r elfennau hyn gael eu cario gydag ef i Iwerddon newydd: pan ddatganodd Yeats ei hun, felly, ‘[i]t is myself that I remake’ ([1908] VP ss, ll. 4), yr oedd yr ail-greu hwn yn golygu taflu ymaith nifer o'r hen bethau, y gôt ‘[c]overed with embroideries / Out of old mythologies’ o bosibl ([1914] VP 148, llau. 2-3). Yn 1916 y gwêl Deane y toriad hwn, y ddrylliedigaeth derfynol, ond odid, yn digwydd: ‘The men of 1916 had offered their deaths to history. In doing so, they had broken the cycle of eternal recurrence’.²

Yn wir, gellir yn hawdd gredu na fu cyfansoddi barddoniaeth, nac yn wir unrhyw elfen arall o fywyd Gwyddelig, yr un peth i Yeats yn dilyn ‘terrible beauty’ y gyflafan honno:

¹ Seamus Deane, *Celtic Revivals: Essays in Modern Irish Literature 1880-1980* (London: Faber, 1985). tt. 36-7.

² Deane, *Celtic Revivals*, t. 46.

I had no idea that any public event could so deeply move me – and I am very despondent about the future. At the moment I feel that all the work of years has been overturned, all the bringing together of classes, all the freeing of Irish literature and criticism from politics.³

Gwelodd beirniaid eraill yr un toriad, yr un trothwy na ellid ei groesi ond wedi diosg rhywfaint o wisg y gorffennol, yn ei yrfa hefyd. Fel bardd trefedigaethol y gwelodd Deane Yeats, ac fel bardd ôl- neu wrth-drefedigaethol y gwelodd Edward Said ef. Ond y mae'r cytundeb ynghylch y trothwy hwn fel pe bai'n trosgynnu eu gwahaniaeth barn. Wrth gymharu gweledigaeth genedlaetholgar Yeats â 'naratif' wrth-ymerodraethol Frantz Fanon, fel hyn y gwêl Said y gwahaniaethau rhyngddynt:

The difference between Fanon and Yeats is, I think, that Fanon's theoretical and perhaps even metaphysical narrative of anti-imperialist decolonization is cadenced and stressed from beginning to end with the accents and inflections of liberation. Fanon's is a discourse of that anticipated triumph, liberation, which marks the second moment of decolonization. Yeats, on the other hand, is a poet whose early work sounds the nationalist note and stands finally at the very threshold it cannot actually ever cross.⁴

Yn ymhlyg yng ngwaith Fanon o'r cychwyn cyntaf, dadleua Said, y mae sylweddoliad y foment wrth- ac, yn wir, ôl-drefedigaethol hefyd, y 'liberation' terfynol. Ond yr awgrym ar yr un gwynt yw nad yw 'gwaith cynnar' Yeats yn meddu ar yr un potensial, ac felly fod rhaid gadael 'nationalist note' y gwaith hwnnw cyn gallu croesi'r trothwy. Yr un yw barn Jahan Ramazani:

Yeats's nationalism ironizes itself in the knowledge that fulfillment would come at great cost to a poetry built on melancholic desire [...] Poet and audience blend in an imagined community which, if ever achieved, would mean the collapse of the poem's own basis in imaginative desire. Paradoxically, poem and the realization of the nationalist ideal are incompatible.⁵

³ W. B. Yeats, llythyr at Augusta Gregory, Mai 11, 1916, yn *The Letters of W. B. Yeats*, gol. Allan Wade (London: Rupert Hart-Davis, 1954), tt. 612-14 (t. 613).

⁴ Edward, 'Yeats and Decolonization' [1988], yn *Nationalism, colonialism, and literature*, gol. Seamus Deane, (Minneapolis: University of Minnesota Press, 1990), tt. 69-95 (t. 89).

⁵ Jahan Ramazani, 'Is Yeats a postcolonial poet?', *Raritan*, 17: 3 (Winter 1998), 64-89 (tt. 73-74).

Y mae'r 'melancholic desire' yn y dyfyniad uchod fel pe bai'n amneidio tuag at fath penodol o farddoniaeth a gynhyrchwyd gan yr Yeats cynnar. Y mae syniadau Renan ac Arnold, wrth gwrs, yn atsain yn y gair hwnnw, 'melancholic', ac yn anochel ceir yr argraff fod a wnelo Celtigrwydd Yeats lawer â methiant ei 'genedlaetholdeb' cynnar i groesi trothwy chwyldro a chael ei gludo gydag ef i Iwerddon annibynnol. Yn hyn o beth, dehonglir y cerddi cynnar fel rhai a hydreiddir gan genedlaetholdeb, neu gan Celtigrwydd efallai, sydd yn gyfyng ac yn gyfyngedig oherwydd ei ddibyniaeth ar ddeuoliaethau, ar gael ei ddiffinio *yn erbyn* rhywbeth arall. Pan ddifflanno'r 'rhywbeth arall' hwnnw wedyn, neu efallai pan nad ydyw'n taflu'r un cysgod ac yn peri'r un bygythiad, collir hefyd rym, egni a photensial creadigol y farddoniaeth a grëwyd o fewn y cyd-destun hwn.

Wrth reswm, ni ddaw cenedlaetholdeb i ben gydag annibyniaeth, ac os yw gwaith unrhyw fardd yn brawf o hynny, yna gwaith Yeats ei hun yw'r gwaith hwnnw, fel y dangosodd David Lloyd.⁶ Ond y mae modd dadlau hefyd nad yw Celtigrwydd, er bod lle i ddadlau mai fel hunaniaeth a seiliwyd ar undod yr 'ymylon' yn erbyn y 'canol' Seisnig, Prydeinig ydyw, ychwaith yn diflannu'n llwyr. Yr hyn sydd yn diflannu, fodd bynnag, yw dehongliad cyfyngedig, hanfodaidd o'r Celt, yn gyntaf fel rhywbeth na ellir ei ddiffinio ond *yn erbyn* hil arall megis yr Eingl-Sacson, ac yn ail fel endid digyfnewid ag iddo/i nodweddion a chymeriad hanfodol, endid sydd mor annatod o rwym i'r gorffennol, ac mor benderfynol o sefyll oddi allan i amser ac oddi allan i hanes, nes na all newid, addasu, na goresi mewn unrhyw fodd yn dilyn tryblith a chwyldro mor eithriadol ag a brofasai Iwerddon yn negawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif.

⁶ David Lloyd, 'The Poetics of Politics: Yeats and the Founding of the State', yn *Anomalous States: Irish Writing and the Post-Colonial Moment* (Dublin: Lilliput Press, 1993), tt. 59-87.

Drachefn, wrth ddadlau dros hyn, gwna Deane y cysylltiad ag elfennau o

Gelligrwydd Yeats:

Yeats saw the constant remaking of the self as the effort to escape two things – a meaningless recurrence like that which afflicted Cuchulain, and a meaningless extinction like that which afflicts all men.⁷

Dyma'r cylch bythol hwn o ail-ddigwydd ac ail-greu y mae merthyron 1916 yn ei atal, yn ôl Deane. Ymddengys felly nad oes gan Gelligrwydd, neu o leiaf nad oes gan Cuchulain, ran i'w chwarae ar ôl y gwrthryfel hwn, ac nad yw ffigur y Celt yn gydnaws â rhyddid gwleidyddol. Roedd swyddogaeth y Celt yn wreiddiol, yn ôl Deane mewn cyfrol arall fel a ganlyn: 'By remaining a nation and refusing to be a state, by sacralizing not the soil, or the land, but the territory of Ireland as a site of difference, the Celt could pursue his or her destiny against the grain of modernity'.⁸ Bron nad oedd gwaith y Celt, felly, fe ellid dadlau, ar ben ar ôl 1923. Fel y sylwa Declan Kiberd, '[t]he limitations of Celticism (and *Négritude* in Africa) emerge from its sources in such a binary opposition to imperial definitions, a reaction with origins in a sense of inferiority rather than in a vision of liberation'.⁹

Ond gobeithir bod y thesis hwn wedi dangos nad ffenomen gyfyngedig o'r fath yw Celtigrwydd o reidrwydd, a'i bod yn nwylo T. Gwynn Jones a W. B. Yeats wedi ei hymryddhau o'r cyferbyniadau deuoliaethol hyn, ac o'r sefyllfa lle na all fodoli fel cysyniad ond mewn cyd-destun trefedigaethol. Deil Cuchulain i fwrw'i gysgod ar farddoniaeth Yeats hyd ddiwedd ei yrfa. Y mae yno gydag Oisín a Cathleen ní Houlihan yn 'The Circus Animals' Desertion' ([1939] VP 381). Er addef iddo ffoli ar y 'dream itself'

⁷ Deane, *Celtic Revivals*, t. 43.

⁸ Seamus Deane, *Strange Country: Modernity and Nationhood in Irish Writing since 1790* (Oxford: Clarendon Press, 1997), t. 88.

⁹ Declan Kiberd, 'White skins, black masks: Celticism and *Négritude*', yn *The Irish Writer and the World* (Cambridge: Cambridge University Press, 2005), tt.133-45 (t. 134).

(ll. 24), ar ‘Players and painted stage’ (ll. 31) yn hytrach na’r hyn yr oeddent yn ei ymgorffori neu’n ei gynrychioli, eto fyth ar yr un gwynt rhaid yw iddo addef nad yw’r chwyldro, na’r Iwerddon newydd, wedi cyflawni yr hyn yr oedd yntau’n ei ddisgwyl ohonynt. Bron nad oes cysur i’w gael drachefn yn yr hen chwedlau hyn, ac mai Yeats ei hun yw ‘Cuchulain Comforted’ ([1939] VP 384). Nid ymwrthod â’i themâu a wna Yeats yn y ‘Circus Animals’, ond dychwelyd atynt drachefn: ‘What can I but enumerate old themes?’ (ll. 9). Nid oes ganddo ddewis ond gwneud, oherwydd yno, efallai, ‘Something may linger there though all else die’ (‘A Bronze Head’ [1939] VP 371, ll. 5).

Y mae Cuchulain yn ganolog i ‘The Statues’ ([1939] VP 367) hefyd. Yn wir, defnyddia Terence Brown ‘The Statues’ fel enghraifft i ddangos y modd y gall barddoniaeth hwyr Yeats fod yn ‘sinister’: ‘what can seem a benign Celticism, blending cultural nationalism and occult imagining, can mask something altogether more sinister: the lineaments of a plummet-measured face, not Celtic, neither male nor female, but something awesome out of the racial dark’.¹⁰ Rhaid cydnabod yn gyntaf, felly, os gall Brown ddyfynnu llinell o ‘The Statues’ i enghreifftio hyn, fod Celtigrwydd yn parhau i fod yn rhan o estheteg Yeats ar y pryd. Ac eto y mae’r hyn y mae Brown yn ei ganfod yn y gerdd yn ‘not Celtic’, yn rhywbeth ‘awesome out of the racial dark’. Os felly, yna nid angen ymddihatru oddi wrth Geltigrwydd sydd ar Yeats er mwyn osgoi cyhuddiadau o hanfodaeth ar sail hil, ond yn hytrach lynu ato.

Yn wir, y mae pennill olaf ‘The Statues’ fel pe bai’n crynhoi nifer o’r elfennau a drafodwyd yn y thesis hwn:

When Pearse summoned Cuchulain to his side,
 What stalked through the Post Office? What intellect,
 What calculation, number, measurement, replied?

¹⁰ Terence Brown, ‘Cultural Nationalism, Celticism and the Occult’, yn *Celticism*, gol. Terence Brown (Amsterdam: Rodopi, 1996), tt. 221-230 (t. 230).

We Irish, born into that ancient sect
 But thrown upon this filthy modern tide
 And by its formless spawning fury wrecked,
 Climb to our proper dark, that we may trace
 The lineaments of a plummet-measured face. (llau. 25-32)

Trwy gydol y gerdd ceir ymgais i osod Iwerddon yn llinach diwylliant, hanes a chelfyddyd Ewropeaidd. Fel uchafbwynt i hyn i gyd, ceir yn y pennill olaf gyfarfyddiad rhwng y gorffennol a'r presennol, rhwng Iwerddon hynafol ac Iwerddon fodern, wrth i Pearse yn y Swyddfa Bost yn 1916 alw Cuchulain i'w ochr. Y mae yma ymdeimlad o grwydro 'stalked' ac o arwahanrwydd 'ancient sect' sydd ar yr un pryd wedi ei thafllu, bron yn erbyn ei hewylllys, i ganol y byd modern. Ceir yma hefyd y gred fod y byd modern yn 'formless', fod angen creu ffurf a siâp a phatrwm o'r diffyg ffurf hwn, ac mai trwy gelfyddyd weledol, weledigaethol, y mae gwneud hynny, trwy olrhain amlinellion yn y tywyllwch. Yeats, yn ei safle unigryw allanol-fewnol, oedd y mwyaf cymwys i ymgymryd â'r amlinelliad, ac â'r mesur hwn, fel yr awgryma Edna Longley: "The Statues" implies that Pearse could not have "summoned Cuchulain to his side" if the Anglo-Irish or Yeatsian plummet had not first measured the nation'.¹¹

Y mae'r 'proper dark' hwnnw yn arwyddocaol, hefyd. Fel y sylwodd Sinéad

Garrigan Mattar,

If darkness is taken as an index of all that is chaotic, pre-civil, and pre-moral, then the phrase 'our proper dark' becomes tantalizingly paradoxical: how can darkness be 'proper', in the sense of morally and socially correct, any more than it can be the 'property' of any one social grouping? The answer is that it cannot, and in the clash between their desire for 'proper'-ness and their commitment to a 'revival' of the primitive, Yeats, Lady Gregory, and Synge arrived at three very distinct versions of primitivism, all of which had one foot in the nineteenth and one in the twentieth century.¹²

¹¹ Edna Longley, *The Living Stream: Literature and Revisionism in Ireland* (Newcastle: Bloodaxe, 1994), t. 138.

¹² Sinéad Garrigan Mattar, *Primitivism, Science, and the Irish Revival* (Oxford: Clarendon Press, 2004), tt. 18-19.

Dyna ganfod drachefn, felly, yn 'The Statues', yr holl baradocsau y bu Yeats yn ymrafael â hwynt drwy gyfrwng ei Geltigrwydd drwy gydol ei yrfa.

Yn yr un modd â'r 'Statues', ceir darn yn 'Argoed' ([1927] C t. 105-113) gan Jones sydd hefyd fel pe bai'n crynhoi llawer o'i weithgaredd Celtaidd dros y chwarter canrif blaenorol.

Argoed, Argoed y manau dirgel...
 Onid yno y ganed awenydd,
 Hwnnw a ganodd ei hen ogoniant,
 A drodd hanesion dewredd hen oesau,
 Geiriau y doethion a'r gwŷr da hwythau,
 A dirgel foddau eu mydr gelfyddyd,
 Yn newydd gân a gynyddai ogoniant
 Ei wlad a'i hanes, a chlod ei heniaith? (C t. 109 llau. 1-8)

Yma ceir yn eglur yr 'awenydd' a dry 'hanesion dewredd hen oesau' yn 'newydd gân' er mawrygu'r genedl 'a chlod ei heniaith'. Yn y penillion canlynol, disgrifir fel y crwydrodd yr awenydd hwn o Argoed 'I lysoedd Gâl a seddau ei golud' (C t. 109, ll. 10), cyn dychwelyd 'yn ei ôl gan ddwyn ei wala / O roddion a bri', sef gwobrwyon y 'newydd gân a luniodd i'w genedl' (C t. 109 llau. 17-19). O fewn ychydig linellau, felly, bron na cheir crynhoed o nifer o'r nodweddion a archwiliwyd yn y thesis hwn: mor allweddol yw'r crwydro, a'r tyndra creadigol rhwng gadael a dychwelyd; pwysigrwydd sicrhau fod y gwaith hwn yn mawrygu 'clod ei heniaith'; pwysigrwydd yr edrych allan a chanu gogoniant Argoed i gynulleidfaoedd eraill; ac yn fwy hanfodol na dim, efallai, o ddrylliau a darnau 'hanesion dewredd hen oesau', pwysigrwydd creu 'newydd gân'. Dyma grynhoi, felly, dyndra canolog y gwaith, a'r modd y bu T. Gwynn Jones yn ei gerddi Celtaidd yn ceisio pontio'r gagendor hwnnw rhwng yr hen a'r newydd.

Canfu W. B. Yeats a T. Gwynn Jones eu hunain ar fath o groesffordd neu ffin, ar bont rhwng y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed, rhamantiaeth a moderniaeth, rhwng ymlyniad gwleidyddol a diwylliannol i Brydain a rhyw ffurf ar ymryddhad oddi

wrth hynny, a rhwng y trefedigaethwr a'r trefedigaethedig. Nid eu rhwystro rhag croesi'r ffin honno a wnaethai eu Celtigrwydd, ond eu rhyddhau i ymgeisio hynny, neu yn hytrach cynnig gofod iddynt a oedd yn golygu nad oedd yn rheidrwydd i groesi'r ffin ond i aros yn eu safleoedd amwys.

Yn wir, y mae i Geltigrwydd T. Gwynn Jones wrth i'w yrfa ddatblygu ymdeimlad cynyddol o ryddid ac o ryddhad. Y mae lle i ddadlau mai dim ond yn y cerddi am Iwerddon, ac a leolir yn Iwerddon, er enghraifft, y gwelir siaradwr y cerddi wedi llwyr ymddihatru o hualau chwerwedd a chwyno yn erbyn materoliaeth y byd modern. Cynyddu a wna'r ymdeimlad hwn yn dilyn annibyniaeth Iwerddon. Ceir ail gerdd dan y teitl 'Tir na n-Og' o eiddo Jones ymysg ei bapurau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Oddi tani ceir dyddiad a lleoliad ei chyfansoddi, sef Corc, Medi 14 1923, a cheir y nodyn canlynol: 'Y tro cyntaf i mi fod yn Iwerddon wedi'r rhyddhad. Ni chefais i lawenydd cyffelyb erioed y corónach dubh wedi mynd!'

Goleu drem a gloewder iaith,
 Hoen calon ieuanc eilwaith;
 Aileni hen, ddwyfol nwyd,
 A wna'i bridd yn iawn breuddwyd
 A byw glân ddiddan ddyddiau,
 Yn ddyn rhydd, heb ddwyn yr iau[.]¹³

Ymryddhau ac ail-fywiogi siaradwr ei gerddi, felly, a wna cysylltiad ac ymwybyddiaeth Geltaidd i T. Gwynn Jones yn dilyn dyfodiad annibyniaeth i Iwerddon. Bellach, y mae hithau'n wlad a all fod yn esiampl ac yn arweinydd i Gymru, yn wleidyddol ac yn ddiwylliannol. Yn wir, meddai mewn darlith rywdro yn ystod y 1920au, '[i]f anything

¹³ Dyddiadur yn cynnwys cerddi a ysgrifennwyd gan Jones rhwng 1923 a 1929. LIGC Papurau T. Gwynn Jones C14.

Celtic survives, [and] justifies all the struggle, it ought to be Ireland'.¹⁴ Dyma osod y llwyfan ar gyfer Celtigrwydd ymarferol, fodern yr aeth Jones ati i'w hyrwyddo a'i harfer gydag egni adnewyddadwy o'r 1920au ymlaen. Ynghlwm â'r egni hwn y mae prosiectau megis ei dair cyfrol o gyfieithiadau o farddoniaeth a rhyddiaith Wyddeleg, *Iwerddon* (1919), *Peth nas Lleddir* (1921) ac *Awen y Gwyddyl* (1923), prosiect a oedd yn fodd o adalu'r ffafr i Tórna am ei gyfrol yntau, *Guth ó mBreatain* (1912). Dechreuasai Jones gydymdeimlo fwyfwy â'r Gwyddelod mewn nifer o agweddau o'i fywyd personol hefyd, gan symud oddi wrth ei agnosticiaeth ryddfrydol (a'i rhyddhaodd yn y lle cyntaf, fe ellid dadlau, i gydymdeimlo â'r Gwyddelod, rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosibilrwydd pe bai'n anghydfurfiwr rhonc) tuag at yr Eglwys Gatholig, gan fynd mor bell ag ystyried troi ati ddiwedd y dauddegau.¹⁵

Ynghlwm â hyn hefyd y dylid synied am *Lona* (1923), ac nid cyd-ddigwyddiad, fe ddichon, oedd blwyddyn cyhoeddi'r nofel hon, y gellir ei hystyried ymysg gwaith ffuglennol gwreiddiol gorau Jones.¹⁶ Yn y nofel, tynnir ynghyd nifer o'r ystyriaethau a'r daliadau y bu'n eu coleddu ers amser maith, gan gynnwys natur ragfarnllyd y gymdeithas wladaidd Gymraeg, ac yn enwedig felly nifer o hoelion wyth yr Hen Gorff. Ond caiff yr Eglwys Anglicanaidd ei malurio yr un mor ddirugaredd yn y nofel hon, a chyferbynnir Miss Vaughan hagr, blaen, gymysgryw ei natur a'i lleferydd, gyda'i Chymraeg trwsogl ac arno ddylanwad trwm y Saesneg, â Lona, merch wyllt y mynydd a'r môr sydd yn annaturiol o hardd. O'i hamgylch y mae rhyw rin arallfydol, a thuag ati hi, ac yn sgil hynny tua'r mynydd ac i ffwrdd o Finfor, y pentref yr atebodd alwad i fynd i wasanaethu

¹⁴ T. Gwynn Jones, nodiadau darlith 'Literary Relations + Resemblances of Wales + Ireland. +c.'. Nid oes dyddiad i'r ddarlith ond gellir dyfalu, o ystyried nodiadau eraill ymysg yr un papurau, mai tua 1922/3 y'u hysgrifennwyd. LIGC Papurau T. Gwynn Jones, A2032.

¹⁵ Gw. TGJ, tt. 316-21. Bu'r Tad Michael McGrath, esgob Mynwy ac archesgob Caerdydd, yn llythra â Jones hyd y 1940au yn ceisio'i gymell i droi at yr Eglwys Babyddol.

¹⁶ T. Gwynn Jones, *Lona* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1923).

ynddo, a wna'r gweinidog ifanc Merfyn Jones. Cawn wybod o'r dechrau'n deg mai merch i Denis O'Neil, gŵr o dras Gwyddelig, yw'r ferch hon, a cheir awgrym hefyd fod yn y teulu ryw faint o waed sipsi. Beirniadu agwedd a rhagfarnau cul trigolion y pentref tuag at y ferch hon a'i theulu a wneir trwy gyfrwng caredigrwydd eangfrydig Merfyn, y prif gymeriad, a thrwy naratif y nofel felly, gosodir y naill fath ar gymysgrywedd, sef un deithiol-Geltaidd-Gatholig, fel un sydd yn rhagori ar y llall, sef yr un diriog-Seisnig-Anglicanaidd, gan ddangos yn y broses mor fethedig yw'r Cymry a ddelir yn y canol ond sydd yn llawer mwy parod eu croeso i'r ail nag i'r cyntaf.

Yr hyn sydd yn rhaid ei gofio yw mai peth byw, modern oedd Celtigrwydd i Jones, yn gynyddol felly wrth i'w yrfa ddatblygu. Mewn darlith a draddodwyd gan Jones gerbron Undeb y Brythoniaid yn Birmingham, Hydref 1922, datganodd nad ei ddiddordeb fyddai olrhain dechreuadau a gwreiddiau'r Celtiaid, fel y gwnaeth amryw o'i flaen, ond yn hytrach ceisio gofyn 'whether there still is such a thing as Celtic Culture, of which, if we seek to do so like men of good will, we may possibly do something that may profit humanity'. Daeth i'r casgliad fod 'Celtic Culture' yn 'yet a living thing, submerged, half-expressed, struggling'.¹⁷ 'In any case,' meddai mewn darlith arall, 'the Celtic languages are alive [and] ready, capable of development, [and] with character which is worn out of English [and] French, at least', gan adleisio cred Yeats am lenyddiaeth Wyddelig gryn ddeg mlynedd ar hugain ynghynt.¹⁸ Y mae angen llawer rhagor o waith er mwyn astudio gweithgareddau Celtaidd parhaus T. Gwynn Jones, a chyfoedion megis Tadhg Ó Donnchadha, yn ystod y 1920au a'r 1930au wrth geisio sicrhau na fyddai'r 'diwylliant Celtaidd' yn aros yn 'submerged'. Byddai ystyriaeth o weithiau megis

¹⁷ Testun cyflawn o'r anerchiad 'Celtic Culture', a gyflwynwyd fel anerchiad y llywydd gerbron Undeb y Brythoniaid, Birmingham, 1922-3, Hydref 27 1922. LIGC Papurau T. Gwynn Jones, A2029.

¹⁸ Jones, 'Literary Relations + Resemblances of Wales + Ireland. +c.'.

‘Cynddiligr’ a cherddi eraill o gyfrol farddoniaeth olaf Jones, *Y Dwymyn* (1944), lle nad yw’r cwestiwn ynghylch ei foderniaeth farddonol hanner mor broblematig, hefyd yn chwarae rhan ganolog mewn prosiect o’r fath. Byddai’r gwaith hwn hefyd yn dwyn o fewn ei gwmpas ystyriaeth o ddatblygiadau gwleidyddol yng Nghymru yn y 1920au, ac yn benodol sefydlu Plaid Cymru, yn ogystal ag archwilio lle a swyddogaeth yr ieithoedd Cymraeg a Gwyddeleg yn y ddwy wlad wrth i’r tirlun gwleidyddol newid yn sylweddol drachefn.

Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, ymlyniad parhaol Yeats hefyd â Cheltigrwydd, neu o’i roi mewn geiriau eraill, ei anallu i ddianc rhagddo, o’r 1920au ymlaen. Wrth fwrw golwg yn ôl ar ddyddiau cynnar ei yrfa yn *The Trembling of the Veil* (1922) rhydd Yeats esboniad o’r hyn y gobeithiai yr oedd ei Geltigrwydd yn ei gyflawni yn ei waith cynnar:

I believed that if [William] Morris had set his stories amid the scenery of his own Wales, for I knew him to be of Welsh extraction and supposed wrongly that he had spent his childhood there, that if Shelley had nailed his Prometheus, or some equal symbol, upon some Welsh or Scottish rock, their art would have entered more intimately, more microscopically, as it were, into our thought and given perhaps to modern poetry a breadth and stability like that of ancient poetry.¹⁹

Y mae llawer o bwyntiau yma y gellir eu nodi, oherwydd eu harwyddocâd i’r astudiaeth hon o Geltigrwydd Jones yn ogystal â Yeats. Yn gyntaf ceir yma’r cyfaddefiad o fantais gelfyddydol ac esthetig Celtigrwydd i fardd ifanc o Wyddel neu Gymro yn y 1890au. Ond y mae yma hefyd ddadl fod i synnwyr o Geltigrwydd le hanfodol a chanolog mewn barddoniaeth fodern, ac mewn sicrhau fod rhyw fath o undod neu barhad rhwng barddoniaeth hynafol a barddoniaeth fodern. Yn hyn o beth, ceir ymgais drachefn i herio deongliadau naratifol ar y naill law, a gweledigaethol ar y llall, o genedligrwydd, drwy ddadlau fod lle canolog i’r hynafol o fewn y modern. Yn olaf, ac efallai yn bwysical,

¹⁹ Au t. 150.

yn y datganiad hwn gwneir cysylltiad diamwys rhwng y symbolaidd a'r penodol, rhwng y meicroscopig a'r metaffisegol.

Dyfynnwyd Said ar ddechrau'r casgliad hwn yn dadlau fod 'metaphysical narrative of anti-imperialist decolonization' Frantz Fanon yn fwy soffistigedig a chyflawn na rhethreg genedlaetholgar gynnar Yeats. Ond yma y mae Yeats, bron yn ddiarwybod iddo'i hun, yn gosod y ddadl yn erbyn hynny, ac yn crisialu ar yr un pryd yr hyn y bu'r thesis hwn yn amcanu i'w ddadlau drwyddo draw. Gall Celtigrwydd fod yn gwbl benodol i genedligrwydd megis Cymreictod neu Wyddeligrwydd ar yr un pryd â bod yn gwbl gynrychioliadol o ddiwylliant mwy Ewropeaidd, gan gyfranogi felly o ddiwylliant sydd yn ehangach na chwmpas imperialaidd Prydain neu ddeuoliaethau cyfyngol ôl-drefedigaethedd. O fewn Celtigrwydd, ac o fewn ysbryd cydweithredol rhwng diwylliannau lleiafrifol, ail-arfogir yr iaith frodorol i gyflawni'r gwaith na ellir, yn ôl rhai damcaniaethwyr, ond ei gyflawni yn yr iaith fwyafrifol. Ac er i'r Celt gael ei gyflyru gan Renan ac Arnold, a'i ddefnyddio gan eraill, fel math ar hunaniaeth hanfodaidd, wedi ei seilio ar hil ac yn sefyll ar wahân i hanes a gwleidyddiaeth, y mae, yn nwylo T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, ar wahanol adegau yn hunaniaeth y gellir ei defnyddio i greu ymdeimlad o barhad allan o ddrylliedigaeth, ac yn pontio'r gagendor rhwng y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed, yn wir rhwng y byd hynafol a'r byd modern.

Mewn gair, y mae Celtigrwydd yn fath ar hunaniaeth hylifol y gellir ei haddasu a'i defnyddio i nifer o wahanol ddibenion, ac fel sail ar gyfer ymwybyddiaeth amgen o hunaniaeth sydd ar yr un pryd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Yn wir, yn hynny o beth y mae'n cynnig i Jones ac i Yeats nifer o'r manteision a ddeilliai o arddel hunaniaeth Brydeinig, ond heb yr holl gynodiadau ac ymrwymadau y byddai hynny yn ei olygu iddynt ac a'u rhwystrai rhag ymroi i'r Prydeindod hwnnw. Eto fyth, erys

ymdeimlad o Geltigrwydd fel estheteg a hunaniaeth sydd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn broblematic. Gwelir y cwestiynau ynghylch hil a drafodid unwaith gan Yeats mewn cyswllt â Cheltigrwydd yn cael eu trawsblannu i wleidyddiaeth llawer mwy problematig tua diwedd ei yrfa. Y mae T. Gwynn Jones, ar y llaw arall, fel yr awgrymwyd yn y cyflwyniad i'r thesis hwn, fel pe bai'n diflannu'n swyfwy o ganon llenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif, a rhaid gofyn a oes gan ei Geltigrwydd ran i'w chwarae yn hynny.

Efallai mai'r ffaith fod yr awduron wedi eu dal *rhwng* nifer o wahanol elfennau, yr hyn y dadleua'r thesis hwn yw cryfder eu Celtigrwydd, sydd hefyd i gyfrif, efallai, am y ffaith na chafodd y Celtigrwydd hwnnw ei archwilio a'i gydnabod yn ei gyflawnder hyd yma. Ynghlwm â hyn hefyd y mae'r modd y mae Celtigrwydd ei hun fel cysyniad ac fel hunaniaeth wedi ei gwestiynu a'i herio yn gynyddol drwy gydol yr ugeinfed ganrif, ac yn enwedig felly yn dilyn gweithiau Malcolm Chapman, Simon James, ac eraill. Ac eto, fel y dadleua Patrick Sims-Williams, ni ddylid ymwrthod â Cheltigrwydd yn llwyr, ond yn hytrach ei dderbyn fel yr hyn ydyw, sef cysyniad diwylliannol a ddefnyddiwyd, a ddehonglwyd ac a ddychmygwyd mewn amryw ffyrdd gan wahanol garfanau:

All these uses of 'Celtic' have some historical validity and are far too useful to abandon. The problems arise when we try and synthesize them in a coffee-table book or television documentary [...] Striking a balance is a major task for Celtic Studies too, and this involves re-examining the evidence for Celticity. A course has to be steered between Celtomania and Celtoscepticism.²⁰

Y mae rhai mathau penodol ar Geltigrwydd wedi rhwystro'r Celt rhag cael ei astudio yn fanwl fel cysyniad deallusol a all barhau i fod o werth hyd heddiw. Er mai trafod Astudiaethau Celtaidd mewn perthynas â diwylliant canoloesol a wna Sims-Williams yn bennaf, y mae ei gyngor yn gwbl berthnasol hefyd wrth ystyried y defnydd o'r term 'Celt' yn yr ugeinfed ganrif. Y mae gwaith beirniaid megis Jerry Hunter wrth adfywio'r

²⁰ Patrick Sims-Williams, 'Celtomania and Celtoscepticism', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 36 (Gaeaf 1998), 1-35 (tt. 33-34).

drafodaeth am T. Gwynn Jones, a Daniel Williams wrth ddadlau y gall Celtigrwydd ein cynorthwyo i ystyried sefyllfa amlddiwylliannedd ym Mhrydain yn yr unfed ganrif ar hugain, wedi gwneud llawer i baratoi'r llwyfan ar gyfer ystyriaethau pellach.

Arwyddocaol yn hyn o beth, efallai, yw'r ffaith i *Lona* gael ei chyfieithu i'r Wyddeleg yn 1955 gan Gearóid Ó Nualláin oherwydd ei bod fel pe bai'n awgrym o'r hyn y gallai breuddwyd T. Gwynn Jones o gydweithio rhwng y gwledydd Celtaidd fod wedi'i gyflawni, pe na bai'r cysyniad ei hun wedi colli ei hygrededd a'i boblogrwydd bron cyn iddo godi stêm yn iawn.²¹ Awgryma hyn hefyd fod llawer rhagor o waith i'w gyflawni wrth ystyried y berthynas rhwng gwledydd mewn (gwahanol) gyflyrau o drefedigaethedd a'i gilydd, yn hytrach na dim ond y berthynas rhwng y trefedigaethwr a'r trefedigaethedig. Gobeithir, yn ogystal, fod y thesis hwn wedi dangos y dylid ailystyried safle T. Gwynn Jones ym mywyd llenyddol, diwylliannol ac, yn wir, gwleidyddol Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, gan roi iddo bwysigrwydd tebyg i'r hyn a roddir i Yeats yn Iwerddon. Awgrymir y dylid ei ystyried fel dolen gwbl hanfodol mewn llinach anrhydeddus o feddwl cenedlaetholgar, yn olynedd i ffigyrau pur ddistadl megis John Ceiriog Hughes ac Emrys ap Iwan, ac ar y llaw arall yn ddylanwad ffurfiannol a hynod bwysig ar Saunders Lewis ac eraill.

Yn wir, dichon y gellid neilltuo astudiaeth gyfan i'r berthynas benodol honno. Ni ellir gwadu y bu Jones yn ddylanwad ffurfiannol hynod bwysig ar Saunders Lewis. Fel tystiolaeth o'r dylanwad hwn gellid troi at y llythyra fu rhyngddynt ddiwedd y 1910au a ddechrau'r 1920au, lle gellir gweld y Lewis ifanc yn bur ymostyngol i Jones ac yn ei ganmol a diolch iddo mewn mesurau cyfartal. Enghraifft arall yw'r ffaith fod dwy gerdd wedi eu neilltuo fel teyrnged i Jones yn y gyfrol gasgledig o gerddi Lewis – braint nas

²¹ Gearóid Ó Nualláin, cyf., *Lóna* (Baile Átha Cliath: Oifig an tSoláthair, 1955).

rhoddir i unrhyw unigolyn arall yn y gyfrol honno.²² Addefodd Lewis yn agored ei ddyled i Yeats a'r Adfywiad yn Iwerddon o ran dylanwad y symudiad diwylliannol-wleidyddol hwnnw ar ei ddeisyfiad yntau i adfywio bywyd diwylliannol a gwleidyddol Cymru.²³ Cynigir yma, cyn cloi, mai'r ddolen gydiol, gwbl hanfodol nas cydnabyddir ar goedd yn y cyfweliad gan Lewis o ran y dylanwad hwn ydoedd T. Gwynn Jones.²⁴ Oherwydd nad tuag Iwerddon, ond tuag Ewrop yn unig, a Ffrainc yn benodol, y cyfeiriodd Lewis ei egni maes o law, ac oherwydd, fe ddichon, ei fod yntau hefyd yn gweld cyfyngiadau a diffiniadau rhy benodol ynghlwm â Cheltigrwydd, ni pharhaodd yntau yn uniongyrchol â'r prosiect a fu'n rhan mor allweddol o waith T. Gwynn Jones. Wedi dweud hyn oll, fodd bynnag, y Celtigrwydd cydweithredol hwn a arddelid gan Jones, a oedd yn dwyn i ystyriaeth gydweithio a chyfnewid diwylliannol ar draws ffiniau gwleidyddol, daeryddol ac ieithyddol, yn enwedig ymysg cenhedloedd bychain, diwladwriaeth, oedd un o'r manau cychwyn, a'r sail, ar gyfer syniadaeth ac athroniaeth Ewropeaidd Saunders Lewis a, maes o law, Gwynfor Evans. Er mwyn cyfleu yr hyn sydd yn gyffredin gan y meddylwyr hyn, gwerthfawr yw dyfynnu drachefn ddatganiad gan Fanon a nodwyd yn y cyflwyniad i'r thesis hwn: 'C'est au coeur de la conscience

²² Y ddwy gerdd yw 'T. Gwynn Jones', cyfres o englynion mawl, a chywydd marwnad iddo, sy'n cloi â'r llinellau canlynol: 'Dy Fanion yw'r farn arnom, / dy Gerddi dy weddi o'r dom / am wawr Anatiomaros, / am roi o'r niwl Gymru'r nos'. R. Geraint Gruffudd, gol., *Cerddi Saunders Lewis* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992), tt. 22 a 37.

²³ Saunders Lewis, 'Dylanwadau: Saunders Lewis Mewn Ymgom ag Aneirin Talfan Davies', *Taliesin*, 2 (Nadolig 1961), 5-18.

²⁴ Dengys un llythyr yn benodol o eiddo Lewis, wedi'i anfon at Jones, ddylanwad gwaith Jones wrth iddo oleuo'i gyd-wladwyr, a Lewis yn benodol, ynghylch Iwerddon a'r datblygiadau yno ddiwedd y 1910au a dechrau'r 1920au: 'Dyma ichwi newydd a all eich cysuro. Dywedodd Miss Magdalen Morgan, sy'n athrawes Gymraeg yn Abertawe, wrthyf ddoe, ei bod mewn darlithiau o amgylch y dê yma wedi darllen rhannau o'ch llyfryn "Iwerddon" i Gymry oedd yn Anghydfurfwyr i'r carn, ac wedi llwyddo droeon drwy hynny i newid eu syniad yn drwyadl am Wyddelod, a rhoi diddordeb newydd ryfeddol iddynt yn achos yr ynys. Onid da clywed pethau felly, a gweld arwyddion nad diwerth yw'r ymdrech? Nid meddwl yr wyf y gwna cydymdeimlad llesg dynion felly les yn y byd i Iwerddon, ond fe wna les iddynt hwy eu hunain ac i Gymry eraill; fe'n tyn ni dipyn o gaethiwed meddwl fel Sais, ac fe geidw enw Cymru rhag bod yn enw i'w felldithio fel enw Cromwel yn Iwerddon. A'r llyfr "Iwerddon" a'm cymhellodd innau i ddysgu Gwyddeleg. Bum cyn hynny yn fodlon ar gyfieithiadau.' Llythyr oddi wrth Saunders Lewis at T. Gwynn Jones, Mai 5 1921. LIGC Papurau T. Gwynn Jones, E9.

nationale que s'élève et se vivifie la conscience internationale. Et cette double émergence n'est, en définitive, que le foyer de toute culture'.²⁵ Yn hynny o beth, y mae'r meddylfryd a goleddir gan nifer o genedlaetholwyr yng Nghymru heddiw, sef yr awydd i weld cydweithredu rhwng cenhedloedd bychain diwladwriaeth, ac yn enwedig rhai sydd yn dal i arddel eu hieithoedd lleiafrifol eu hunain, yn deillio o'r mathau o Geltigrwydd a ddychmygwyd ac a arferwyd gan awduron megis W. B. Yeats a T. Gwynn Jones, ac wedi eu goleuo ganddynt.

²⁵ Fanon, *Les damnés de la terre*, t. 185: 'Wrth galon ymwybyddiaeth genedlaethol y cyfyd ac y bywha ymwybyddiaeth ryngwladol. Ac nid yw'r esgoriad deuol hwn, yn y pen draw, ond rhywbeth sydd wrth wraidd pob diwylliant'.

Llyfryddiaeth

Ffynonellau Cynradd

Allt, P., a R. K. Alspach, goln., *The Variorum Edition of the Poems of W. B. Yeats* (New York: Macmillan, 1957)

Anwyl, Edward, Llythyr geirda, Aberystwyth, Awst 25 1909. Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LIGC) Papurau T. Gwynn Jones G40

Arnold, Matthew, *On the Study of Celtic Literature* (London: Smith, Elder & Co., 1905 [1867])

Bornstein, George, gol., *Under the moon: the unpublished early poetry of W. B. Yeats* (New York: Scribner, 1995)

Carnarvon and Denbigh Herald, Medi 2, 1904

Celtia: a Pan-Celtic Monthly Magazine (Dublin: Celtic Association, 1901-1908)

The Collected Works in Verse and Prose of William Butler Yeats, Volume 7 (Stratford-on-Avon: Shakespeare Head Press, 1908)

Eliot, T. S. 'The Metaphysical Poets' [1921], yn John Hayward, gol., *Selected Poetry* (Penguin: Harmondsworth, 1953), tt. 111-20

'Tradition', yn *Selected Prose* (Middlesex: Penguin Books, 1953), tt. 20-1

The Complete Poems and Plays (London: Faber and Faber, 1969)

Evans, Theophilus, *Drych y prifoesoedd, yn ddwy ran*, 2il arg. (Amwythig: Thomas Durston, 1740)

Frayne, J. P., gol., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 1: First Reviews and Articles 1886-1896* (London: Macmillan, 1970)

Frayne, J. P., a C. Johnson, goln., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 2: Reviews, Articles and Miscellaneous Prose 1897-1939* (London: Macmillan, 1975)

Freud, S. 'The Uncanny' ('Das Unheimlich', 1919), yn James Strachey, Anna Freud, Alix Strachey ac Alan Tyson, cyf., *The Complete Psychological Works of Sigmund Freud: Vol. XVII (1917-19)* (London: The Hogarth Press, 1955), tt. 217-52

Geiriadur Prifysgol Cymru, II: G-LLYYS (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1968-1987)

- Gould, W., J. Kelly a D. Toomey, goln., *The Collected Letters of W. B. Yeats, Volume Two: 1896-1900* (Oxford: Clarendon Press, 1997)
- Gruffudd, R. G., gol., *Cerddi Saunders Lewis* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992)
- ‘Hen Ddosbarth’, ‘Eisteddfod Genedlaethol Bangor’, *Y Geninen*, 20 (1902), 267-9
- Hyde, Douglas, ‘The Necessity for De-Anglicising Ireland’ [1892], yn V. Mercier a D. H. Greene, goln., *1000 Years of Irish Prose: Part 1 – The Literary Revival* (New York: The Devin-Adair Company, 1952), tt. 79-89
- Jackson, Holbrook, *The Eighteen Nineties: A Review of Art and Ideas at the Close of the Nineteenth Century* (London: Grant Richards, 1913)
- Jeffares, N. A., gol., *Yeats’s Poems*, 3ydd arg. (Hampshire: Palgrave Macmillan, 1996)
- Jentsch, Ernst, ‘On the Psychology of the Uncanny’ [1906], cyf. Roy Sellars, *Angelaki*, 2: 1 (1995), 7-16
- Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), ‘Y Llo Arall’ [1877], yn D. Myrddin Lloyd, gol., *Detholiad o Erthyglau Emrys ap Iwan, I: Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), tt. 51-61
- Jones, T. Gwynn, ‘Codwn Gledd er Cadw’n Gwlad!’, *Baner ac Amserau Cymru*, Tachwedd 26, 1890, t. 11
- ‘Gwyllt Walia: I godi yr hen wlad yn ei hol’, *Baner ac Amserau Cymru*, Chwefror 17, 1892, t. 14
- ‘Cymru, a’i Chyfeillion’, *Baner ac Amserau Cymru*, Mawrth 23 1892, t. 5
- ‘Diwrnod yn Nyffryn Conwy’, *Baner ac Amserau Cymru*, Hydref 5 1892, t. 10
- ‘Y Byd Llenyddol: Y Geninen’ [rhan gyntaf], *Baner ac Amserau Cymru*, Hydref 26 1892, t. 13
- ‘Y Byd Llenyddol: Y Geninen’ [ail ran], *Baner ac Amserau Cymru*, Tachwedd 2 1892, t. 4
- ‘Y Byd Llenyddol’, *Baner ac Amserau Cymru*, Tachwedd 9 1892, t. 14
- Eglwys y Dyn Tlawd*, *Baner ac Amserau Cymru*, Chwefror 22 1893, t. 12; Mawrth 15, t. 6; Mawrth 29, t. 4; Ebrill 5, t. 7; Ebrill 26, t. 7; Mai 3, t. 7; Mai 10, t. 7
- ‘Tref Hynafol Rhuddlan’, *Baner ac Amserau Cymru*, Gorffennaf 5 1893, t. 11
- ‘Bedd Llyw Ola’ Cymru’, *Baner ac Amserau Cymru*, Gorffennaf 19 1893, t. 11

‘Llythyrau Cyhoeddus: at Ddemocratiaid Cymru’, *Baner ac Amserau Cymru*, Medi 13 1893, t. 5.

‘Fatherland’, *Wales: a national magazine for the English speaking parts of Wales*, II (1895), 47

‘Y Genedl Fawr Hon’, *Baner ac Amserau Cymru*, Ionawr 22 1896, t. 5

Gorchest Gwilym Bevan (Gwrecsam: Hughes a'i Fab, 1900)

Gwlad y Gan a Chaniadau Eraill (Caernarfon: Yr Herald, 1902)

‘Dante’, *Y Geninen*, 20 (1902), 223-31

‘Lliw a Llun yn Llên Cymru’, *Y Geninen*, 21 (1903), 88-94

‘Cymanfa’r holl Geltaid’, *Yr Herald Cymraeg*, 30 Awst 1904, t. 5

Cerdd [ddi deitl] ar achlysur y Gyngres Ban-Geltaidd, *Celtia*, IV: 6 (1904), t. 112

‘Cywydd o’r Aifft’ [1905-06], *Y Ford Gron*, I (Hydref 1931). Adargraffwyd yn ‘Atodiad I’, yn Gwynn ap Gwilym, gol., *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones* (Llandybie: Gwasg Christopher Davies, 1982), t. 466

‘Cymry yn yr Aiphth’, *Yr Herald Cymraeg*, Tachwedd 26 1907, t. 3

‘Cymro yn Alexandria’, *Yr Herald Cymraeg*, Rhagfyr 10 1907, t. 3

‘Cymro yn Cairo’, *Yr Herald Cymraeg*, Rhagfyr 17 1907, t. 6

Traethodau (Caernarfon: Swyddfa’r Herald, 1910)

Ymadawiad Arthur a Chaniadau Ereill (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig, 1910)

‘Eblana’, *Cork Free Press*, Rhagfyr 28 1910, t. 2

‘Ein Dysgawdwyr’, *Y Genedl Gymreig*, Ionawr 3 1911, t. 5

Adolygiad o Tadhg Ó Donnchadha, *Guth ón mBreatain* (1912), *Y Genedl Gymreig*, Ionawr 16 1912, t. 6

‘Iaith’, *Y Wawr*, I: 3 (Haf 1914), 28-35

Llenyddiaeth y Cymry: llawlyfr i efrydwyr (Dinbych: Gwasg Gee, 1915)

‘Nationality and Patriotism’, *Welsh Outlook*, 3 (Ebrill 1916), 111-114

‘Llenyddiaeth Wyddeleg’, *Y Beirniad*, VI (1916), 224-35

‘Y Gymraeg a’r Dyfodol’, *Y Wawr*, IV: 3 (1917), 94-7

Adolygiad o Diarmid Ó Cobhthaigh, *Douglas Hyde, An Craobhin Aobhinn, The Welsh Outlook*, V (1918), 170-1

– *Iwerddon* (Aberdâr: Pugh a Rowlands, 1919)

‘Chwedlau’r Hen Fyd yn Gymraeg’, *Y Geninen*, XXXIX (1921), 181-5

Peth nas Lleddir (Aberdâr: Swyddfa’r Darian a’r Leader, 1921)

‘Tafodiaith’, *Y Llenor*, I (1922), 233-41

‘Ieithoedd’ [1922], yn *Beirniadaeth a Myfyrdod* (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1935), tt. 101-10

Awen y Gwyddyl (Cardiff: Educational Publishing Co., 1923)

John Homer (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1923)

Lona (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1923)

Detholiad o Ganiadau ([Y Drenewydd]: Gwasg Gregynog, 1926)

‘Iaith a Diwylliant’, *Baner ac Amserau Cymru*, Chwefror 11 1926, t. 5

gol., *Y Gelfyddyd Gwta: englynion a phenillion* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1929)

Welsh Folklore and Folk-Custom (London: Methuen, 1930)

Manion (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1932)

Caniadau (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1934)

Beirniadaeth a Myfyrdod (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1935)

Astudiaethau (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1936)

Dyddgwaith (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1937)

Gweith Argoed Llwyvein: darganfyddiadau’r Dr. Dreistaub. Trosiad Saesneg a nodiadau beirniadol gan S. O’Brédasant (Dulyn: Gwasg y Frân Ddu, 1943)

Y Dwymyn 1934-35 (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1944)

Brithgofion (Llandybïe: Llyfrau'r Dryw, 1944)

Jones, T. Gwynn, a W. M. Jones, *Dyddiau y Parch. Richard Owen gyda chynhyrchion buddugol eraill gan Gwynvrae ap Iwan a Gwilym Meredydd* (Yr Wyddgrug: J. Rees, 1891)

Kelly, J. a E. Domville, goln., *The Collected Letters of W. B. Yeats, Volume One 1865-1895* (Oxford: Clarendon Press, 1986)

Kelly, J. a R. Schuchard, goln., *The Collected Letters of W. B. Yeats, Volume Three: 1901-1904* (Oxford: Clarendon Press, 1994)

Lang, Andrew, 'The Celtic Renaissance', *Blackwood's Magazine*, 161 (February 1897), 181-91

Larrissy, E., gol., *W. B. Yeats: The Major Works, including poems, plays, and critical prose* (Oxford: Oxford University Press, 1997)

Lewis, Saunders, "*Is there an Anglo-Welsh literature?*": being the annual lecture delivered to the branch on December 10th, 1938 (Caerdydd: Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, 1939)

'Dylanwadau: Saunders Lewis Mewn Ymgom ag Aneirin Talfan Davies', *Taliesin*, 2 (Nadolig 1961), 5-18

Macdonell, A., 'The New Young Irishlanders', *The Bookman* [Rhifyn arbennig ar 'The New Irish School'] (Ionawr 1915), 159-64. Llyfrgell Genedlaethol Iwerddon (NLI) Papurau W. B. Yeats, MS 30,259

Moran, D. P., *The Philosophy of Irish Ireland*, 2il arg. (Dublin: James Duffy and Co. Ltd, 1905)

Morris-Jones, John, 'Cymraeg Rhydychen', *Y Geninen*, 8 (1890), 214-23

Llythyr geirda, Bangor, Awst 26 1909. LIGC Papurau T. Gwynn Jones G4053

Morris-Jones, John, a T. Gwynn Jones, Gohebiaeth; llythyr Morris-Jones, Chwefror 14, 1911, ac ateb T. Gwynn Jones, Chwefror 16, 1911. LIGC Papurau T. Gwynn Jones G4056.

North Wales Observer and Express, Medi 2, 1904

Ó Donnchadha, Tadhg, *Guth ón mBreatain: .i. Llais o Gymru* (Baile Átha Cliath: M. H. Gill, 1912)

Ó Flannghaile, Tomás, gol. a chyf., *Laoi Oisín ar Thír na n-Óg, or The Lay of Oisín in the*

Land of Youth: By Micheál Coimín (A. D. 1750), (Dublin: M. H. Gill and Son, Ltd, 1896)

Pound, Ezra, 'The Later Yeats: *Responsibilities* by W. B. Yeats', *Poetry*, 4: 2 (May 1914), 64-69

Renan, Ernest, 'La poésie des races celtiques', yn *Essais de Morale et de Critique* (Paris: Michel Lévy Frères, 1859), tt. 375-456

Reynolds, H., gol., *Letters to the New Island by William Butler Yeats* (Cambridge, MA: Harvard University Press, 1934)

Rhys, Ernest, *Wales England Wed: An Autobiography* (London: J. M. Dent & Sons, 1940)

gol., *The Letters of W. B. Yeats* (London: Rupert Hart-Davis, 1954)

Yeats, Georgie, gol., *Essays and Introductions* (London: Macmillan, 1961)

gol., *Explorations* (London: Macmillan, 1962)

Yeats, W. B., 'Bardic Ireland' [1890], yn J. P. Frayne, gol., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 1: First Reviews and Articles 1886-1896* (London: Macmillan, 1970), tt. 162-6

'The Publication of Irish Books: To the Editor of *United Ireland*' [1892], yn J. P. Frayne, gol., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 1: First Reviews and Articles 1886-1896* (London: Macmillan, 1970), tt. 222-5

Llythyr yn *The Freeman's Journal*, Medi 6, 1892, yn J. P. Frayne, gol., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 1: First Reviews and Articles 1886-1896* (London: Macmillan, 1970), tt. 240-2

'Hopes and Fears for Irish Literature' [1892], yn J. P. Frayne, gol., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 1: First Reviews and Articles 1886-1896* (London: Macmillan, 1970), tt. 248-50

'The De-Anglicising of Ireland', llythyr yn *United Ireland*, Rhagfyr 17 1892, yn J. P. Frayne, gol., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 1: First Reviews and Articles 1886-1896* (London: Macmillan, 1970), tt. 255-6

'Nationality and Literature' [1893], yn J. P. Frayne, gol., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 1: First Reviews and Articles 1886-1896* (London: Macmillan, 1970), tt. 266-75

'The Celtic Element in Literature' [1897], yn E. Larrissy, gol., *W. B. Yeats: The Major Works* (Oxford: Oxford University Press, 2001), tt. 369-78

'Symbolism in Painting' [1898], yn Georgie Yeats, gol., *Essays and Introductions*

- (London: Macmillan, 1961), tt. 146-52
- ‘John Eglinton and Spiritual Art’, Sligo, Tachwedd 8 [1898?]. NLI Papurau W. B. Yeats, MS 30,301
- ‘The Autumn of the Body’ [1898], yn Georgie Yeats, gol., *Essays and Introductions* (London: Macmillan, 1961), tt. 189-94
- ‘The Symbolism of Poetry’ [1900], yn Georgie Yeats, gol., *Essays and Introductions* (London: Macmillan, 1961), tt. 153-64
- ‘Irish Language and Irish Literature’, llythyr yn *The Leader*, Medi 1 1900, yn J. P. Frayne a C. Johnson, goln., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 2: Reviews, Articles and Miscellaneous Prose 1897-1939* (London: Macmillan, 1975), tt. 237-42
- ‘Literature and the Living Voice’ [1906], yn Georgie Yeats, gol., *Explorations* (London: Macmillan, 1962), tt. 202-21
- ‘Poetry and Tradition’ [1907], yn Georgie Yeats, gol., *Essays and Introductions* (London: Macmillan, 1961), tt. 246-60
- ‘The Folly of Argument’, *The Manchester Playgoer*, II: I (June 1911), 2-3. NLI Papurau W. B. Yeats, MS 30,010
- ‘Art and Ideas’ [1913], yn Georgie Yeats, gol., *Essays and Introductions* (London: Macmillan, 1961), tt. 346-55
- ‘A People’s Theatre: A Letter to Lady Gregory’ [1919], yn Georgie Yeats, gol., *Explorations* (London: Macmillan, 1962), tt. 244-59
- ‘Compulsory Gaelic’, *The Irish Statesman*, Awst 2 1924, yn J. P. Frayne a C. Johnson, goln., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 2: Reviews, Articles and Miscellaneous Prose 1897-1939* (London: Macmillan, 1975), tt. 440-9
- ‘A Defence of the Abbey Theatre’ [Dim dyddiad, c. 1924], NLI Papurau W. B. Yeats, MS 30,097
- ‘A General Introduction for my work’, yn *Essays and Introductions*, gol. Georgie Yeats, (London: Macmillan, 1961), tt. 509-26
- Collected Poems*, 2il arg. (London: Macmillan, 1984)
- Autobiographies* (London: Macmillan, 1955)

Ffynonellau Eilaidd

Aaron, J. a C. Williams, goln., *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005)

Aaron R. I., 'Nodiadau T. Gwynn Jones ar *Caniadau*', yn Gwynn ap Gwilym, gol., *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones* (Llandybie: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 301-8

Anderson, Benedict, *Imagined Communities*, 2il arg. (London: Verso, 1991)

Ashcroft, Bill, *Caliban's Voice: the Transformation of English in Post-Colonial Literatures* (London: Routledge, 2009)

Ashcroft, B., G. Griffiths, a H. Tiffin, *Key Concepts in Post-Colonial Studies* (London: Routledge, 1998)

The Empire Writes Back: Theory and practice in post-colonial literatures, 2il arg. (London: Routledge, 2002)

Bell, H. Idris. 'TGJ fel Cyfieithydd', *Y Llenor*, XXVIII: 2 (1949), 141-52

Benjamin, Walter, 'Allegory and Trauerspiel', yn John Osborne, cyf., *The Origin of German Tragic Drama*, (London: NLB, 1977), tt. 159-252

Bennett, A. a N. Royle, *Introduction to Literature, Criticism and Theory*, 4ydd arg., (Harlow: Pearson Longman, 2009)

Bevan, Hugh, 'Defnyddio Chwedlau', yn Gwynn ap Gwilym, gol., *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones* (Llandybie: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 270-8

Bhabha, Homi K., *The Location of Culture* (London: Routledge, 1994)

Birt, P. W., *Cerddi Alltudiaeth: Thema yn Llenyddiaethau Québec, Catalunya a Chymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997)

Bohata, Kirsti, *Postcolonialism Revisited* (Cardiff: University of Wales Press, 2004)

Bloom, Harold, *Yeats* (Oxford: Oxford University Press, 1970)

Bowen, Geraint, 'T. Gwynn Jones', yn A. T. Davies, gol., *Gwŷr Llên: Ysgrifau beirniadol ar weithiau deuddeg gwŷr llên cyfoes ynghyd â'u darluniau* (Llundain: W. Griffiths a'i frodyr, 1948), tt. 73-99

Bradley, Anthony, *Imagining Ireland in the poems and plays of W. B. Yeats: nation, class, and*

state (New York: Palgrave Macmillan, 2011)

Brasted, H. V., 'Irish Nationalism and the British Empire in the Late Nineteenth Century', yn O. MacDonagh, W. F. Mandle a P. Travers, gol., *Irish Culture and Nationalism, 1750-1950* (London: Macmillan, 1983), tt. 83-103

Brooks, Simon, *O Dan Lygaid y Gestapo: yr oleuedigaeth Gymraeg a theori lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004)

'Yr Hil: Ydy'r canu caeth diweddar yn hiliol?', yn O. Thomas, gol., *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 1-38

'Celtigrwydd', yn *Yr Hawl i Oroesi* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2009), tt. 105-7

'Ffantasi Hil-laddiad a'r Diwylliant Cymraeg: Dirnad cenedlaetholdeb ethnig, a syniadaeth Slavoj Žižek', yn G. Williams, gol., *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Bethesda: Gwasg Gee, 2011), tt. 133-67

Brown, Terence, gol., *Celticism* (Amsterdam: Rodopi, 1996)

'Preface', yn T. Brown, gol., *Celticism* (Amsterdam: Rodopi, 1996), tt. vii-viii

'Cultural Nationalism, Celticism and the Occult', yn T. Brown, gol., *Celticism* (Amsterdam: Rodopi, 1996), tt. 221-230

The Life of W. B. Yeats: A Critical Biography (Oxford: Blackwell, 1999)

Castle, Gregory, *Modernism and the Celtic Revival* (Cambridge: Cambridge University Press, 2001)

Chapman, Malcolm, *The Celts: the construction of a myth* (London: Macmillan, 1992)

Chapman, T. Robin, 'Poetry Between the Wars', yn D. Johnston, gol., *A Guide to Welsh Literature, c. 1900-1996* (Cardiff: University of Wales Press, 1998), tt. 50-88

Meibion Afradlon a Chymeriadau Eraill: Golwg ar y Dymer Delynegol, 1891-1940 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004)

Cullingford, Elizabeth Butler, "'Thinking of Her...as...Ireland": Yeats, Pearse and Heaney', *Textual Practice*, 4:1 (1990), 1-21

Davies, Aneirin T., *Yr Alltud: Rhagarweiniad i weithiau James Joyce* (Llundain: Gwasg Foyle, 1944)

gol., *Gwŷr Llên: Ysgrifau beirniadol ar weithiau deuddeg gwŷr llên cyfoes ynghyd â'u darluniau* (Llundain: W. Griffiths a'i frodyr, 1948)

- Davies, John, *Hanes Cymru* (London: Penguin Books, 2007)
- Davies, W. B. 'Canu Thomas Gwynn Jones', yn *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones*, gol. Gwynn ap Gwilym (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 225-41
- Deleuze, G. a F. Guattari, *Kafka: toward a minor literature*, cyf. Dana Polan (London: University of Minnesota Press, 1986)
- Davies, W. Beynon, *Writers of Wales: T. Gwynn Jones* (Cardiff : University of Wales Press, 1970)
- Deane, Seamus, *Celtic Revivals: Essays in Modern Irish Literature 1880-1980* (London: Faber, 1985)
- A Short History of Irish Literature* (London: Hutchinson, 1986)
- gol., *Nationalism, colonialism, and literature* (Minneapolis: University of Minnesota Press, 1990)
- Strange Country: Modernity and Nationhood in Irish Writing since 1790* (Oxford: Clarendon Press, 1997)
- Donoghue, Denis, 'Fears for Irish Studies in an Age of Identity Politics', *Chronicle of Higher Education*, Tachwedd 21 1997, <http://chronicle.com/article/Fears-for-Irish-Studies-in-an/98851/> [Gwelwyd Mehefin 19, 2013]
- Eagleton, Terry, 'Postcolonialism and "postcolonialism"', *Interventions: International Journal of Postcolonial Studies*, 1: 1 (1998), 24-26
- 'Yeats and Poetic Form', yn *Crazy John and the Bishop* (Cork: Cork University Press, 1998), tt. 273-95
- Edwards, Hywel T., 'Cerddi T. Gwynn Jones yn The Oxford Book of Welsh Verse', yn Gwynn ap Gwilym, gol., *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones* (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 364-7
- Ellis, Peter Berresford, *The Celtic dawn: a history of pan Celticism* ([dim lleoliad] Constable, 1993)
- Ellmann, Richard, *The Identity of Yeats* (London: Macmillan, 1954)
- Yeats: the Man and the Masks* (London: Faber and Faber, 1961 [1949])
- Engelberg, Edward, *The Vast Design: Patterns in W. B. Yeats's Aesthetic* (Toronto: University of Toronto Press, 1964)
- Fallis, Richard, *The Irish Renaissance: an introduction to Anglo-Irish Literature* (Dublin: Gill and Macmillan, 1978)

- Fanon, Frantz, *Peau noire, masques blancs* (Paris: Éditions du Seuil, 1995 [1952])
- Les damnés de la terre* (Paris: François Maspero, 1961)
- Fitzpatrick, David, 'The Irish in Britain', yn W. E. Vaughan, gol., *A New History of Ireland, VI: Ireland Under the Union, II 1870-1921*, (Oxford: Clarendon Press, 1996), u. 653-702
- Fleming, Deborah, gol., *Yeats and Postcolonialism* (West Cornwall, CT: Locust Hill Press, 2001)
- Foster Evans, Dylan, "'Bardd arallwlad": Dafydd ap Gwilym a Theori Ôl-Drefedigaethol', yn O. Thomas, gol., *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), u. 39-72
- Foster, R. F. 'Protestant Magic: W. B. Yeats and the Spell of Irish History', *Proceedings of the British Academy*, 75 (1989), 243-266
- W. B. Yeats: A Life. 1 – The Apprentice Mage, 1865-1914* (Oxford: Oxford University Press, 1997)
- The Irish Story: Telling Tales and Making it Up in Ireland* (London: Penguin, 2001)
- W. B. Yeats: A Life. 2 – The Arch-Poet, 1915-1939* (Oxford: Oxford University Press, 2003)
- Frayne, J. P. 'Introduction: Twilight Propaganda', yn J. P. Frayne, gol., *Uncollected Prose by W. B. Yeats, 1: First Reviews and Articles 1886-1896* (London: Macmillan, 1970), u. 35-59
- Garrigan Mattar, Sinéad, *Primitivism, Science, and the Irish Revival* (Oxford: Clarendon Press, 2004)
- George, Angharad, "*Mwtlai wyd di*"?: ôl-drefedigaethedd, *Cymru'r oesoedd canol a Dafydd ap Gwilym* (Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2010)
- George, William, *Cymru Fydd: hanes y mudiad cenedlaethol cyntaf* (Lerpwl: Gwasg y Brython, 1945)
- Gossedge, Rob, *The Old Order Changeth: Arthurian Literary Production from Tennyson to White* (Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2007)
- Gramich, Katie, 'Editorial', *Book news from Wales* (Spring 1998), 3
- 'Both in and out of the game: Welsh writers and the British dimension', yn M. Wynn Thomas, gol., *A Guide to Welsh Literature, Volume VII: Welsh Writing in English* (University of Wales Press, Cardiff: 2003), u. 255-77

‘Creating and destroying “the man who does not exist”: the peasantry and modernity in Welsh and Irish writing’, *Irish Studies Review*, 17: 1 (2009), 19-30

Griffiths, Gareth, ‘The Myth of Authenticity: Representation, discourse and social practice’, yn C. Tiffin ac A. Lawson, goln., *De-Scripting Empire: Post-colonialism and textuality* (London: Routledge, 1994), tt. 70-85

ap Gwilym, Gwynn. ‘T. Gwynn Jones ac Iwerddon’, *Taliesin*, 34 (Gorffennaf 1977), 90-102; 35 (Rhagfyr 1977), 90-101

gol., *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones* (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982)

‘Thomas Gwynn Jones’, yn R. Rhys, gol., *Y Patrwm Amryliw* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 1997), tt. 10-17

ap Gwynn, Llywelyn. ‘T. Gwynn Jones a Chelfyddyd’, *Y Traethodydd: Canmlwyddiant geni T. Gwynn Jones, 1871-1971*, CXXVI, 538 (1971), 25-6

Hall, Wayne E., *Shadowy Heroes: Irish Literature of the 1890s* (New York: Syracuse University Press, 1980)

Hechter, Michael, *Internal Colonialism: The Celtic Fringe in British National Development, 1536-1966* (London: Routledge and Kegan Paul, 1975)

Henn, T. R., *The Lonely Tower: Studies in the Poetry of W. B. Yeats* (London: Methuen, 1950)

Hincks, Rhisiart, *Pawb yn ei Baradwys/Yn ei Uffern ei hun: Y dref a'r ddinas mewn barddoniaeth Lydaweg* (Roazhon: Hor Yezh, 2007)

Holdeman, David, *The Cambridge Introduction to W. B. Yeats* (Cambridge: Cambridge University Press, 2006)

Howes, Laura L., *Chaucer's gardens and the language of convention* (Gainesville, FL: University Press of Florida, 1997)

Howes, Marjorie, *Yeats's Nations: Gender, Class, and Irishness* (Cambridge: Cambridge University Press, 1996)

Colonial Crossings: Figures in Irish Literary History (Dublin: Field Day Publications, 2006)

Hughes, Dewi R., *Cymru Fydd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006)

Hughes, Trystan O., *Winds of Change: The Roman Catholic Church and Society in Wales, 1916-1962* (Cardiff: University of Wales Press, 1999)

Humphreys, E. M. ‘T. Gwynn Jones’, yn Gwynn ap Gwilym, gol., *Cyfres y Meistri: Thomas*

Gwynn Jones (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 193-8

Hunter, Jerry, 'Y Nos, y Niwl a'r Ynysig: Estheteg Fodernaidd T. Gwynn Jones', *Taliesin*, 98 (Haf 1997), 37-54

'Llywelyn's Breath, Arthur's Nightmare: The Medievalism within Welsh Modernism', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 53/54 (Haf/Gaeaf 2007), 113-132

Innes, Lynn, 'Orientalism and Celticism', yn G. Hooper a C. Graham, goln., *Irish and Postcolonial Writing: History, Theory, Practice* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2002), tt. 142-56

James, Allan, *John Morris-Jones* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2011)

James, E. Wyn, 'T. Gwynn Jones a Gwynfor', *Taliesin*, 76 (1992), 61-71

James, Simon, *The Atlantic Celts: ancient people or modern invention?* (Madison: University of Wisconsin Press, 1999)

Janowitz, A. 'The Romantic Fragment', yn D. Wu, gol., *A Companion to Romanticism* (Oxford: Blackwell Publishing, 1999), tt. 442-51

Jenkins, David, 'Caniadau Gregynog', *Y Traethodydd: Canmlwyddiant geni T. Gwynn Jones, 1871-1971*, CXXVI, 538 (1971), 28-32

Thomas Gwynn Jones: Cofiant (Dinbych: Gwasg Gee, 1973)

Jenkins, Geraint H., gol., *Iaith Carreg fy Aelwyd: Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998)

gol., *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd 1801-1911* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999)

Jenkins, Geraint H., a Mari A. Williams, goln., 'Eu Hiaith a Gadwant?': *y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)

Johnston, Dafydd, 'Moderniaeth a Thraddodiad', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), 13-24

'The Literary Revival', yn D. Johnston, gol., *A Guide to Welsh Literature, c. 1900-1996* (Cardiff: University of Wales Press, 1998), tt. 1-22

Jones, David James, 'Y Bardd', yn *A Great Welshman. Dr. T. Gwynn Jones: A Symposium of Tributes* (Cardiff: Welsh Committee of the Communist Party, 1945), tt. 15-7

Jones, John Gwilym, 'T. Gwynn Jones, R. W. Parry a W. B. Yeats', yn J. E. C. Williams, gol., *Ysgrifau Beirniadol VIII* (Dinbych: Gwasg Gee, 1974), tt. 226-239

- Jones, Peter, 'The Irish in Wrexham, 1850-1880', yn Paul O'Leary, gol., *Irish Migrants in Modern Wales*, (Liverpool: Liverpool University Press, 2004), tt. 83-100
- Jones, R. M. 'Cerddi Hir T. Gwynn Jones', *Y Traethodydd: Canmlwyddiant geni T. Gwynn Jones, 1871-1971*, CXXVI, 538 (1971), 48-57
- 'Mawrion T. Gwynn Jones', yn Gwynn ap Gwilym, gol., *Cyfres y Meistri: Thomas Gwynn Jones* (Llandybie: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 347-55
- Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936* (Llandybie: Barddas, 1987)
- *Ysbryd y cwlwm: delwedd y genedl yn ein llenyddiaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998)
- Kermode, Frank, *Romantic Image* (London: Routledge and Kegan Paul, 1957)
- Kiberd, Declan, *Inventing Ireland: The Literature of the Modern Nation* (London: Jonathan Cape, 1995)
- Irish Classics* (London: Granta, 2000)
- 'White skins, black masks: Celticism and *Négritude*', yn *The Irish Writer and the World* (Cambridge: Cambridge University Press, 2005), tt.133-45
- Kinahan, Frank, *Yeats, Folklore and Occultism* (London: Unwin Hyman, 1988)
- Koch, John T. et al., *An atlas for Celtic studies* (Oxford: Oxbow Books, 2007)
- Leerssen, Joep, 'Celticism', yn T. Brown, gol., *Celticism*, (Amsterdam: Rodopi, 1996), tt. 1-20
- Lewis, Saunders 'Morte D'Arthur a'r *Passing of Arthur*', *Y Traethodydd: Canmlwyddiant geni T. Gwynn Jones, 1871-1971*, CXXVI, 538 (1971), 42-47
- Lloyd, David 'Arnold, Ferguson, Schiller: Aesthetic Culture and the Politics of Aesthetics', *Cultural Critique*, 2 (1985), 137-169
- 'The Poetics of Politics: Yeats and the Founding of the State', yn *Anomalous States: Irish Writing and the Post-Colonial Moment* (Dublin: Lilliput Press, 1993), tt. 59-87
- Löffler, Marion, 'Agweddau ar yr Undeb Pan-Geltaidd, 1889 1914', *Y Traethodydd*, CLV, 652 (2000), 43 59
- A book of mad Celts : John Wickens and the Celtic Congress of Caernarfon 1904. John Wickens a Chyngres Geltaidd Caernarfon*, (Llandysul: Gomer, 2000)
- 'Pan-Celticism around 1900', yn S. Rieckhoff, gol., *Celtes et Gaulois dans l'Histoire*,

l'historiographie et l'idéologie moderne (Glux-en-Glennie: Bibracte, 2006 [Collection Bibracte 12/1]), tt. 143-51

Loizeaux, Elizabeth, *Yeats and the Visual Arts* (London: Rutgers University Press, 1986)

Longley, Edna, *The Living Stream: Literature and Revisionism in Ireland* (Newcastle: Bloodaxe, 1994)

Loomba, Ania, 'Situating Colonial and Postcolonial Studies', yn J. Rivkin a M. Ryan, goln., *Literary Theory: an Anthology*, 2il arg. (Oxford: Blackwell, 2004), tt. 1100-11

Lynch, Peredur, 'Refferendwm 1979, Cerddi Ianws a Thopos "Y Cymry Taeog"', yn G. Williams, gol., *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Bethesda: Gwasg Gee, 2011), tt. 78-109

Lyons, F. S. L. 'Yeats and the Anglo-Irish Twilight' yn O. MacDonagh, W. F. Mandle, a P. Travers, goln., *Irish Culture and Nationalism, 1750-1950* (London: Macmillan, 1983), tt. 212-238

Y Llenor: Rhifyn Coffa Thomas Gwynn Jones, XXVII, 2 (1949)

Llwyd Morgan, Derec, 'T. Gwynn Jones: Canu'r "Chwerwder Pur"', yn J. E. C. Williams, gol., *Ysgrifau Beirniadol II* (Dinbych: Gwasg Gee, 1966), tt. 200-28

Barddoniaeth Thomas Gwynn Jones: Astudiaeth (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972)

'Cyflwyniad', yn Thomas Gwynn Jones, *Caniadau*, 2il arg. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992), tt. i-viii

Llywelyn, Robin, 'Celtigrwydd?', *Llais Llyfrau: Rhifyn Arbennig ar Hunaniaeth Geltaidd* (Gwanwyn 1998), 5-6

Llywelyn-Williams, Alun, *Y Nos, y Niwl a'r Ynys: Agweddau ar y Profiad Rhamantaidd yng Nghymru 1890-1914* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1960)

Mahony, Robert, 'Yeats and the Irish Language Revival: An Unpublished Lecture', *Irish University Review*, 19: 2 (Hydref 1989), 220-6

Marcus, Phillip L., *W. B. Yeats and the Beginning of the Irish Renaissance* (Ithaca: Cornell University Press, 1970)

Martin, Marie, *Learning by Wandering: An Ancient Irish Perspective for a Digital World* (Oxford: Peter Lang, 2010)

Miskell, Louise, 'Reassessing the Irish Riot: Popular Protest and the Irish in South Wales, c. 1826-1882', yn Paul O'Leary, gol., *Irish Migrants in Modern Wales*, (Liverpool: Liverpool University Press, 2004), tt. 101-18

Morgan, A. P., 'Llafar Gwlad a'r Iaith Glasurol', yn Gwynn ap Gwilym, gol., *Cyfres y*

Meistri: Thomas Gwynn Jones (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 444-47

Morgan, Kenneth O., *Wales in British politics, 1868-1922* (Cardiff: University of Wales Press, 1963)

Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980 (Oxford: Clarendon Press / University of Wales Press, 1981)

Ngugi wa Thiong'o, 'Decolonising the Mind', yn J. Rivkin a M. Ryan, goln., *Literary Theory: an Anthology*, 2il arg. (Oxford: Blackwell, 2004), tt. 1126-50

O'Connor, Laura, *Haunted English: The Celtic Fringe, the British Empire, and De-Anglicization* (Baltimore: Johns Hopkins University Press, 2006)

O'Leary, Paul, *Immigration and integration: the Irish in Wales, 1798-1922* (Cardiff: University of Wales Press, 2000)

gol., *Irish Migrants in Modern Wales* (Liverpool: Liverpool University Press, 2004)

O'Leary, Philip, "'Children of the Same Mother": Gaelic Relations with the other Celtic Revival Movements 1882-1916', *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, VI (1986), 101-30

The Prose Literature of the Gaelic Revival 1881-1921: Ideology and Innovation (University Park, PA: Pennsylvania State University Press, 1994)

'The Irish Renaissance, 1890-1940: literature in Irish', yn M. Kelleher a P. O'Leary, goln., *The Cambridge History of Irish Literature: Volume 2, 1890-2000* (Cambridge: Cambridge University Press, 2006), tt. 226-69

Owen, Tomos, *London-Welsh writing 1890-1915: Ernest Rhys, Arthur Machen, W.H. Davies, and Caradoc Evans* (Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2011)

Oxford Dictionary of National Biography: From the earliest times to the year 2000. Volume 6: Blackmore to Bowyer (Oxford: Oxford University Press, 2004)

Oxford Dictionary of National Biography: From the earliest times to the year 2000. Volume 41: Norbury to Osborn (Oxford: Oxford University Press, 2004)

Oxford Dictionary of National Biography: From the earliest times to the year 2000. Volume 48: Rowell to Sarsfield (Oxford: Oxford University Press, 2004)

Parry, Thomas, 'Awdl "Gwlad y Bryniau"', yn Gwynn ap Gwilym, gol., *Cyfres y Meistri: T. Gwynn Jones* (Llandybïe: Christopher Davies, 1982), tt. 410-20

Peate, Iorwerth, 'Thomas Gwynn Jones 1871-1949', yn Gwynn ap Gwilym, gol., *Cyfres y*

Meistri: Thomas Gwynn Jones (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 173-87

Pittock, Murray G. H., *Celtic identity and the British image* (Manchester: Manchester University Press, 1999)

Price, Angharad, *Rhwng Gwyn a Du: agweddau ar ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002)

Ramazani, Jahan, 'Is Yeats a postcolonial poet?', *Raritan*, 17: 3 (Winter 1998), 64-89

Rees, D. Ben, a Merfyn Jones, goln., *Cymry Lerpwl a'u crefydd: dwy ganrif o Fethodistaeth Galfinaidd Gymreig* (Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1984)

Rees, D. Ben, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau, Cyfrol 1* (Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf., 1997)

Roberts, Hywel E., *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1981)

Rowlands, John, gol., *Sglefrio ar eiriau: erthyglau ar lenyddiaeth a beirniadaeth* (Llandysul: Gomer, 1992)

Royle, Nicholas, *The uncanny* (Manchester: Manchester University Press, 2003)

Rhys, Robert, gol., *Y Patrwm Amryliw* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 1997)

Saddlemeyer, Ann, 'The Cult of the Celt: Pan-Celticism in the Nineties', yn Robin Skelton ac Ann Saddlemeyer, goln., *The World of W. B. Yeats: Essays in Perspective* (Dublin: The Dolmen Press, 1965), tt. 19-21

Said, Edward, 'Yeats and Decolonization' [1988], yn S. Deane, gol., *Nationalism, colonialism, and literature* (Minneapolis: University of Minnesota Press, 1990), tt. 69-95

'Intellectual Exiles', *Radio 4 Reith Lecture: Edward Said: The Representation of the Intellectual* (1993) <http://www.bbc.co.uk/programmes/p00gxqzv> [Gwrandawyd 10 Gorffennaf 2011]

Reflections on Exile and Other Essays (Cambridge, MA: Harvard University Press, 2000)

Shklovsky, Viktor, 'Art as Technique', yn J. Rivkin a M. Ryan, goln., *Literary Theory: An Anthology* (Oxford: Blackwell, 1998), tt. 17-23

Sims-Williams, Patrick, 'The Visionary Celt: The Construction of an Ethnic Preconception', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 11 (Haf, 1986), 71-96

'The Invention of Celtic Nature Poetry', yn T. Brown, gol., *Celticism* (Amsterdam:

Rodopi, 1996), tt. 97-124

‘Celtomania and Celtoscepticism’, *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 36 (Gaeaf 1998), 1-35

Stephens, Meic, gol., *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, 2il arg. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997)

Thomas, M. Wynn, gol., *A Guide to Welsh Literature, Volume VII: Welsh Writing in English* (University of Wales Press, Cardiff: 2003)

‘Seisnigrwydd “Ymadawiad Arthur”’, *Y Traethodydd*, CLXVII 702 (Gorffennaf 2012), 142-67

Thomas, Ned, ‘Renan, Arnold, Unamuno: Philology and the Minority Languages’, yn *Bradford Occasional Papers*, 4/6 (1984), 1-13

‘Images of Ourselves’, yn J. Osmond, gol., *The National Question Again: Welsh Political Identity in the 1980s* (Llandysul: Gomer, 1985), tt. 306-19

On Arnold and Celtic Literature (Lampeter: Trivium Publications, University of Wales, 2007)

Thuente, Mary Helen, *W. B. Yeats and Irish Folklore* (Totowa, New Jersey: Gill and Macmillan, 1980)

Tomlinson, Charles, gol., *William Carlos Williams: a critical anthology* (Harmondsworth: Penguin, 1972)

Tymoczko, Maria, *Translation in a Postcolonial Context* (Manchester: St. Jerome Publishing, 1999)

Unterecker, John, *A Reader's Guide to William Butler Yeats* (London: Thames and Hudson, 1959)

Vendler, Helen, *Our secret discipline: Yeats and lyric form* (Cambridge, MA: Belknap Press of Harvard University Press, 2007)

Watson, George, ‘Celticism and the Annulment of History’, yn T. Brown, gol., *Celticism* (Amsterdam: Rodopi, 1996), tt. 207-220

Weaver, Rebecca, ‘W. B. Yeats's Imagined East and Ireland in the Postcolonial Context’, yn D. Fleming, gol., *Yeats and Postcolonialism* (West Cornwall, CT: Locust Hill Press, 2001), tt. 301-29

Whitaker, Thomas R., *Swan and Shadow: Yeats's Dialogue with History* (Durham: University of North Carolina Press, 1964)

Williams, Chris, 'Problematizing Wales: An Exploration in Historiography and Postcoloniality', yn J. Aaron a C. Williams, goln., *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), tt. 3-22

Williams, Daniel G., 'Pan-Celticism and the Limits of Post-Colonialism: W. B. Yeats, Ernest Rhys and William Sharp in the 1890s', yn T. Brown a R. Stephens, goln., *Nations and Relations: Writing Across the British Isles* (Cardiff: New Welsh Review, 2000), tt. 1-29

Ethnicity and Cultural Authority: from Arnold to Du Bois (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2006)

'Another lost cause? Pan-celticism, race and language', *Irish Studies Review*, 17: 1 (2009), 89-101

Williams, Gerwyn, *Y Rhwyg: arolwg o farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1993)

'The Literature of the First World War', yn D. Johnston, gol., *A Guide to Welsh Literature, c. 1900-1996* (Cardiff: University of Wales Press, 1998), tt. 22-49

Williams, Raymond, *Marxism and Literature* (Oxford: Oxford University Press, 1977)

Williams, Stephen J., 'Y Gynghanedd a Chanu Rhydd T. Gwynn Jones', yn Gwynn ap Gwilym, gol., *Cyfes y Meistri: Thomas Gwynn Jones* (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1982), tt. 279-85

Williams, Wenna, 'Cerddi mawr T. Gwynn Jones fel delweddu', yn J. E. C. Williams, gol., *Ysgrifau Beirniadol III* (Dinbych: Gwasg Gee, 1967), tt. 101-26